# COFIANT
A
# PHREGETHAU
Y PARCH.
# W. PRYTHERCH.

GAN Y

PARCH. T. E. EDWARDS.

0029053130024

UNIVERSITY OF TORONTO
VELUT ARBOR AEVO

*From the Library*

*of*

PÁDRAIG Ó BROIN

180

Merry Christmas

to

Mr Thomas Davies

from

Ada Prytherch

1907

Digitized by the Internet Archive
in 2009 with funding from
University of Toronto

http://www.archive.org/details/cofiantydiweddar00edwa



Y PARCH. W. PRYTHERCH

# COFIANT

Y DIWEDDAR A'R PARCHEDIG

# WILLIAM PRYTHERCH,

O SIR GAERFYRDDIN.

---

YNGHYD A

## DETHOLION O'I BREGETHAU.

---

GAN Y

PARCH. T. E. EDWARDS,

CWMAFON.

---

GYDA DARLUN O'R GWRTHDDRYCH.

---

DINBYCH:
ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.
CYHOEDDWYD GAN Y PARCH. S. E. PRYTHERCH,
GOLDEN GROVE, SIR GAERFYRDDIN.

MDCCCXCIV.

OF TORONTO
14
JUL
1976

# RHAGYMADRODD.

AR ddymuniad taer y Parchn. W. E. PRYTHERCH, Goppa, a'i frawd, S. E. PRYTHERCH; sef, parchus feibion yr ymadawedig, yn gystal ag ar gymmhelliad amryw o gyfeillion o sir Gaerfyrddin, a siroedd eraill y De, yr ymgymmerais âg ysgrifenu Cofiant yr enwog a'r Parchedig W. PRYTHERCH, Nantgaredig, sir Gaerfyrddin. Gŵyr pawb ei fod yn deilwng o gofiant, ar gyfrif ei nodweddion personol, ei enwogrwydd a'i boblogrwydd fel pregethwr, yn gystal ag ar gyfrif yr hyn a wnaeth. Yr oedd yn gymmeriad ar ei ben ei hun. Ni bu cyffelyb iddo ar y ddaear, ac ni bydd neb yn debyg iddo ar ei ol. 'Does dim ond un PRYTHERCH i fod; a gwell yw i bawb beidio cynnyg ei efelychu. Felly, rhaid cael cofiant iddo. Ond pwy sydd i'w ysgrifenu? Ni ddaeth i fy meddwl i erioed fy mod yn meddu ar y ddawn arbenig o ysgrifenu bywgraphiadau. Gwyddis mai ychydig yw nifer ysgrifenyddion cofiant teilwng. Y maent mor anaml ag ymweliadau angylion. Digwyddodd y gwaith ddyfod i'm rhan i; ac felly, yr oedd yn rhaid i mi wneyd fy ngoreu. Gadawodd gwrthddrych y cofiant rai defnyddiau ar ei ol, y rhai a fu yn gymmhorth mawr i mi i ddwyn allan yr adgof hwn o hono ef. Derbyniais hefyd ychydig gymmhorth oddi wrth frodyr caredig a pharchus—yn weinidogion a blaenoriaid. Derbynied y cyfryw fy niolchgarwch mwyaf diffuant am eu cynnorthwy.

Y mae nifer go fawr o bregethau ardderchog a gwir dda ar ol ein hanwyl frawd ymadawedig, a bwriadwn roddi rhai o honynt i mewn yn y gyfrol hon. Bydd yn dda gan gannoedd o'i hen frodyr a'i edmygwyr, yn gystal a rhai na chlywsant

mo hono erioed, gael y fraint a'r cyfleusdra o'u darllen. Ceir iachus fwyd, ac ysbrydol faeth, ynddynt i'r enaid newynog. Gadewais allan, yn fwriadol, lawer o ystorïon a chwedlau disail a daenir ar hyd y wlad gan ddynion am dano. Os cenfydd y darllenydd manyl-graff wallau yn y gwaith, gwn y gwna, gyda phob parodrwydd a hynawsedd gŵr bonheddig, eu hesgusodi, a'u gwella, a'u priodoli, nid yn gymmaint i anwybodaeth yr ysgrifenydd, na chwaith i esgeulusdod yr argraphydd, ond eu rhoddi ar ben y bwch diangol hwnw, sef egwyddorwas ieuengaf yr argraphydd. Hwn sydd yn cludo beiau yr ysgrifenwyr a'r argraphwyr i dir neillduaeth.

Carasem i'r cofiant fod yn fwy teilwng; ond rhaid ei ollwng ef allan fel y mae, gan ddymuno bendith Duw ar ei ddarlleniad i'r cannoedd a'i prynant.

Ydwyf,

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

THOMAS E. EDWARDS.

TERRACE, CWMAFON.

## CYNNWYSIAD.


PENNOD I.

Ei enedigaeth.—Amser a lle ei enedigaeth.—Y gymmydogaeth y magwyd ac y dygwyd ef i fyny ynddi.—Sefyllfa ac enwogrwydd Caio.—Ei fedyddio gan 'ffeiriad Caio pan oedd dan ddylanwad y diodydd meddwol.—Y rhan a gymmerodd y fyd-wraig yn ngweinyddiad yr ordinhâd o fedydd .. ... ... ... ... 9

PENNOD II.

Ei rieni.—Ei fam mewn perygl am ei bywyd.—Y meddyg yn dyfod ac yn defnyddio yr offer (*instruments*).—Ymgom y meddyg gyda Prytherch pan oedd yr olaf tua phymtheg oed.—Cystudd ei dad, a'i fywyd digrefydd.—Y Parch. Daniel Jones, Crug-y-bar, yn dyfod yno i goginio, neu i barotoi tipyn o grefydd iddo ychydig o ddyddiau cyn iddo farw.—Colli ei dad pan tua blwydd oed.—Ei roddi allan i'w fagu.—Ei brentisio yn ddilleddydd gydag un o'r enw Dafydd Rees.—Yn yr Ysgol Sabbothol.—Ei ymlyniad wrthi, a'i hoffder o honi.—Dadleu â'r bobl oedd yn dyfod i'r pentref.—Myned i ffair Caio mewn pâr o ddillad newydd, â hanner coron yn ei boced.—Helynt y rheithor.—Ffoi adref, ac yn methu cysgu drwy y nos.—Y deg gorchymyn yn swnio yn ei glustiau, a dychrynfeydd y farn wedi ei ddal.—Yn ymostwng o flaen Duw mewn gweddi, a'r Arglwydd yn ei wrandaw ... ... ... ... ... 14

PENNOD III.

Prytherch yn myned i'r seiat.—Yn ymuno âg eglwys y Methodistiaid Calfinaidd yn Nghaio.—Y Parch. Edward Watcyn, Defynog, yn pregethu yno y diwrnod hwnw, ac yn cadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth.—Myned i felin Dolau Cothi i fyw.—Cadw y ddyledswydd deuluaidd am y tro cyntaf erioed yn ei fywyd.—Cyfarfod gweddi yr 'Ynysau.'—Galw Prytherch yn mlaen i gymmeryd rhan yn y cyfarfod.—Rachel yr Ynysau.—Ei fam yn myned ato i fyw i'r felin.—Yr oedd ei fam wedi ei chynnysgaeddu â synwyr cyffredin yn mhell iawn tu hwnt i'r mwyafrif o wragedd.—Yn dysgu darllen pan yn agos i drigain mlwydd oed ... ... ... ... 19

PENNOD IV.

Ei deimlad dros ei gyfoedion ieuaingc, a'i awydd i'w cynghori.—Yr awydd i ddechreu pregethu yn cynnyddu.

—Yn gofyn am ganiatâd yr eglwys i gynghori pechaduriaid.—Y Parch. Ebenezer Morris, Twr Gwyn, sir Aberteifi, yn pregethu yno y dydd hwnw.—Yn teimlo yr un fath a Dafydd Rees, o sir Ddinbych: dim ond gwaeddi ar y bobl ei oreu lâs i ffoi rhag y llid a fydd.—Gwrthod bribo y blaenor.—Y Parch. William Morris, Cilgeran, yn pregethu yn nghapel Caio ar ganol dydd gwaith, ac yn cynnal cyfarfod eglwysig ar ol hyny.—Achos gwraig i weithiwr tlawd yn cael ei osod o'i flaen.—Mr. Morris yn gwneyd byr waith ar ei hachos, ac yn ei gorchymyn i fyned allan ... ... ... ... ... 25

PENNOD V.

Y Parch. David Charles, Caerfyrddin, yn holi Prytherch am ei brofiad a'i egwyddorion.—Prytherch yn myned trwy y pyrth heb dalu *bribe* i Dafydd, yr hen flaenor.—Yn ddirybudd yn cael ei alw i bregethu.—Wedi colli ei bregeth. Y testyn oedd *Heb.* xii. 9; ond er pob peth, yr hanes gawn, mai odfa wleb iawn oedd—y meibion a'r merched yn gwaeddi dros bob man ... ... 30

PENNOD VI.

Ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod Misol yn Myddfai.—Y Sassiwn yn Llandilo Fawr.—Derbyn Thomas Moses, John Jones, Llangyndeyrn, a Prytherch, yn aelodau o'r Gymdeithasfa.—Y Parch. Ebenezer Richards, a'i ffrewyll yn ei law, yn fflangellu pregethwyr ieuaingc.—Y Parch. David Charles, o Gaerfyrddin, yn eu hamddiffyn.—Yn addaw myned am Sabbath i Ystradgynlais i bregethu, ar yr ammod y byddai iddynt ddanfon i Bontarllechau, Llanddeusant, i'w gyfarfod.—William Owen, un o flaenoriaid Cwmgïedd, yno yn ei gyfarfod, a chanddo y gaseg lâs i'w gario.—Myned trwy yr afon Twrch.—Ar ol ei chroesi, yr oeddynt mor wlyb a dau lwdn newydd ddyfod i fyny o'r olchfa.—John Williams, Pen-y-rheol, â'r botel *gin* yn eu cyfarfod.—Myned ar gyhoeddiad gyda'r Parch. Thomas Harris, sir Fynwy, trwy ranau o sir Aberteifi ... 36

PENNOD VII.

Ei ddyfodiad i gyffyrddiad â'r Parch. John Jones, Llangyndeyrn.—Prytherch a John Jones, a'r hanesion difyr am danynt.—John Jones yn myned i Llangeitho i bregethu, ac yn gorphen ei bregeth newydd iddo ei dechreu, am fod Prytherch wedi dyweyd wrtho, os byddai y dyn bach ag oedd yn arfer eistedd yn y gadair dan y pulpud yn codi ar ei draed yn nghanol y sêt fawr, ac edrych yn ei wyneb, y buasai yn bryd iddo dynu at y terfyn.—Perswadio John i roddi y *shawl* am ben y ceffyl, rhag iddo gael *inflammation* ar yr ymenydd.—Dr. Owen Thomas yn Llundain.—Yn darbwyllo John i fyned i ben y gareg fawr, a gwaeddi ... ... ... ... 44

PENNOD VIII.

Parhâd o hanes John Jones a Prytherch.—Gofid John wrth feddwl am bregethu yn nghlywedigaeth y Parch. Ebenezer Richards.—John a Doctor Richards, mab Ebenezer Richards.—Y doctor yn profi y claf yn Nhregaron.—Yn myned i Sassiwn y Bala gyda'u gilydd.—Yn pregethu yn y Sassiwn ... ... ... ... 50

PENNOD IX.

Yn myned i Sassiwn Llangefni.—Y fferyllydd (*chemist*) a John Jones.—Prytherch yn ei droi allan o'i wely i fyned at ei waith.—John Jones yn pregethu ar y cae am chwech o'r gloch y boreu.—Yn cael odfa ardderchog.—Sain cân a moliant dros bob man.—Y fferyllydd yn dyweyd fod ei floeddiadau yn swyno ei feddwl a'i galon ... ... 58

PENNOD X.

Ei garwriaeth, a'i rag-gyfeillach cyn myned i'r ystâd briodasol.—Y rhwystrau oedd ar ei ffordd:—Yn un peth, yr oedd y ferch a garai heb fod yn proffesu crefydd.—Tad a mam y ferch heb fod yn foddlawn i'r cariad-fab, am nad oedd yn ddigon cyfoethog, yn eu tyb hwy.—Ei brawd, y *banker*, yn cynnyg pum cant o bunnau iddi os gwnai beidio priodi Prytherch ... ... ... ... 62

PENNOD XI.

Ei deulu.—Cystudd a marwolaeth y plant.—Ei symmudiadau.—Ei ofalon a'i drafferthion ar hyd yr hen ffermydd.—Cystudd a marwolaeth ei anwyl wraig ... ... 68

PENNOD XII—XV.

Parhâd o hanes Prytherch ... ... ... 72

PENNOD XVI.

Parhâd o hanes Prytherch ... ... ... 94
Englynion Coffadwriaethol ... ... ... 103

PENNOD XVII.

Parhâd o hanes Prytherch ... ... ... 105

PENNOD XVIII.

Parhâd o hanes Prytherch .. ... ... 108
Ei ddyddiau olaf cyn ei ymadawiad ... ... 110
Rhestr o'i destynau yn Llundain yn 1840 ... ... 112
Ei dysteb ... ... ... ... ... 113
Englynion i Prytherch ... ... ... ... 114

## PREGETHAU.

PREGETH I.

Pobl Dduw heb anwiredd na thrawsedd ... ... 119

PREGETH II.

Tragwyddol bwys gogoniant ... ... ... 126

PREGETH III.

Marwoldeb y corph ac anfarwoldeb yr Ysbryd ... 132

PREGETH IV.

Na byddo ymbleidio yn eich plith .. ... 140

PREGETH V.

Paul yn annog eglwys Corinth i burdeb mewn dysgyblaeth . 147

PREGETH VI.

Y pethau crytion oeddynt yn sail i ffydd gwraig Manoah . 154

PREGETH VII.

Gwerthu ei enedigaeth-fraint; neu ddibrisio pethau ysbrydol 161

PREGETH VIII.

Ni'th roddaf di i fyny ... ... ... ... 168

PREGETH IX.

Judas yn bradychu Arglwydd y Gogoniant ... ... 175

PREGETH X.

Dysgyblaeth foreuol yn annhraethol werthfawr ... 182

PREGETH XI.

Gwaith anwiredd, neu 'Bregeth y strike' ... ... 187

PREGETH XII.

Llywodraeth Duw ar y byd ... ... ... 199

## PENNOD I.

*Ei enedigaeth.—Amser a lle ei enedigaeth.—Y gymmydogaeth y magwyd ac y dygwyd ef i fyny ynddi.—Sefyllfa ddaearyddol ac enwogrwydd Caio.—Ei fedyddio gan 'ffeiriad y plwyf pan oedd dan ddylanwad y ddiod feddwol.—Y rhan a gymmerodd y fyd-wraig yn ngweinyddiad yr ordinhâd o fedydd.*

GANWYD gwrthddrych ein Cofiant ar y 25ain o fis Ebrill, yn y flwyddyn 1804, mewn lle a elwid, y pryd hwnw, Ty'n-yr-heol, yn mhlwyf Caio, neu Cynwyl Caio. Saif y lle hwn ychydig uwch law pentref bychan Pumpsant, yn y rhan hono o'r plwyf a elwir Minor Maestroyddyd. 'Y mae seiliau i gasglu fod y lle yma wedi bod yn lle tra phwysig yn yr amser gynt; ac fe'i gelwir mewn rhai hen ysgrif-lyfrau 'Caer Caio,' enw sydd ar unwaith yn awgrymu fod yno gastell, neu ryw amddiffynfa filwraidd.' Y mae yn debyg fod y traddodiad yn gywir fod gan y Rhufeiniaid orsaf yn y fan hon, ac iddynt adeiladu tref fawr o bridd-feini yma: yr hyn a barodd iddynt ei galw 'Y Dref Goch yn Neheubarth' (*The Red City of the South*). Ymladd-wyd brwydr fawr a gwaedlyd rhwng y Cymry a'r Rhuf-einiaid o fewn y plwyf hwn—sef, Maes Llan-Wrthwl; a bernir fod yno gapel neu eglwys wedi bod ar ryw adeg foreuol, yr hon a gyssegrasid i goffadwriaeth Sant Wrthwl. Ymddengys mai prif orchwyl y milwyr Rhuf-einaidd tra yn aros yn Nghaio oedd cloddio am aur; ac y mae yn ymddangos yn debygol fod y mwnglawdd a weith-iwyd ganddynt yma yn un gyfoethog ryfeddol, cyn y buasent yn cloddio y fath ogofeydd mawrion, ëang, ac yn gwneyd y fath dramwyfeydd tan-ddaearol. Y mae nifer yr ogofâau hyn yn wyth; ond er fod rhai wedi tramwy i fewn iddynt filldir, neu chwaneg, bernir nad oes neb yn yr oes hon wedi gweled eu pen draw.

Nodweddid y Rhufeiniaid gan feiddgarwch a phender-fynolrwydd, ac y mae yr ogofeydd hyn yn brawf parhaus o hyny. 'Wedi myned i mewn iddynt, canfyddwn golofnau

ysblenydd ac ystafelloedd ëang-fawr, wedi eu nhaddu allan o'r graig oesol; ac uwch ben, y mae eu nen yn disgleirio fel y grisial tryloywaf, fel y mae goleuni gwannidd y ganwyll yn eu dangos yn ngwahanol liwiau prydferth yr enfys—yr hyn sydd yn creu braw drwy y fynwes, gan eu harddunedd mawreddog, a'u gwychder ysblenydd. Y mae nant fechan i'w chlywed obry, megys yn nyfnderoedd y ddaear, yn berwi fel crochan, nes y mae ei hadsain yn dragwyddol furmur, yn adseinio yn yr ogofäau—o graig i graig, o glogwyn i glogwyn—nes creu iasau o arswyd yn yr ymwelydd.'* Yn mysg hynafiaethau eraill a gafwyd yn y plwyf hwn, y mae dwy dorch aur, a gafwyd wrth aredig ar diroedd J. Johnes, Ysw., Dolau Cothi. Caed tair mil o fathodau copr yn yr ardal hon yn y flwyddyn 1762; ac yn eu plith, yr oedd rhai o amser Gallienus. Yn mysg llawer iawn o addurniadau aur a ddarganfyddwyd yma, cafwyd mynygl-dlws *(necklace)* ardderchog, yr hon sydd yn awr yn meddiant Mrs. Johnes, o Dolau Cothi. Ar yr ochr orllewinol i'r ogofäau, yr oedd ffynnon Gweno (*The well of Gwen*). Derbyniodd yr enw 'ffynnon Gweno' oddi wrth y traddodiad canlynol a roddir i ni gan y boneddwr Mr. Johnes†: — Dywedir fod y ffynnon hon yn enwog am ei dyfroedd meddygol, i'r hon yr elai llawer i ymofyn am iechyd. Yn mhlith eraill, aeth y forwynig deg Gwenllian (yn dalfyredig, Gweno), am dro am ei hiechyd. Yn anffortunus, anturiodd hon, er mwyn chwilio'r ogof, tu hwnt i graig fawr fygythiol oedd yno. Gweithiodd ei ffordd yn mlaen, ac aeth o dani, ac ni welwyd byth mo honi; a dywedir fod ei hysbryd yn hofran uwch y graig fygythiol, er rhybuddio pawb rhag anturio a rhyfygu myned i mewn yno.

Y mae Caio yn enwog fel lle genedigol amryw o feirdd, a llenorion, a gweinidogion talentog ac adnabyddus. Brodor o'r gymmydogaeth hon ydoedd 'Lewis Glyn Cothi.' Cymmerodd ei enw barddonol oddi wrth yr afon Cothi. Yr oedd yn fardd awenyddol. Un arall o feibion hyglodus plwyf Caio oedd 'Dafydd Jones, o Gwm Gogerddan,' cyfieithydd *Salmau a Hymnau* Dr. Watts i'r Gymraeg. Dywedir hefyd iddo gyfansoddi llyfr emynau mawr, ac o

*Gan Gwilym Teilo.
†J. Jones, Ysw., Dolau Cothi.

gryn fri; yr hwn, er dirfawr golled i'r genedl Gymreig, sydd wedi myned ar goll er's llawer dydd. Bernir fod ei gyfieithiad o '*There is a land of pure delight*,' o eiddo Dr. Watts, yn tra rhagori ar y gwreiddiol. Cymmerwch y llinellau canlynol fel esampl:—

'Mae gwlad o wynfyd pur, heb haint,
Byth yno y teyrnasa 'r saint.'

Cyfansoddodd, heb law hyny, lawer o ganeuon difyr, yn y rhai y dengys doraeth o ddawn parod, a gallu sengar a gogannus; megys yn y pennill hwnw i'r gwas diog, di-waith, ond ystumogus:—

'Taw 'r llipryn llô â'r gwyneb llwyd,
Ti fwyti fwyd o'r gore';
Pe delit gwys fel torit gaws,
Fe fyddai yn haws dy ddiodde'.'

Genedigol oddi yma hefyd oedd y Parch. William Lloyd, neu fel y gelwid ac yr adwaenid ef oreu, dan yr enw 'William Llwyd, Ysw., o Henllan,' neu 'Llwyd o Henllan.' O dan weinidogaeth y Parch. Peter Williams yr argyhoeddwyd ef; a dywedir iddo fod am agos i flwyddyn ar ffiniau anobaith. Rhai oddi yma oedd y Parchedigion John Davies a Daniel Williams. Yr oedd Daniel Williams yn bregethwr cymmeradwy a phoblogaidd; yn enwedig tua diwedd ei oes. Yr oedd ei bregethau o duedd fuddiol ac ymarferol bob amser. Gwerthfawrogid ei weinidogaeth gan fyd ac eglwys; ac yr oedd ei dduwioldeb uwch law ammheuaeth yn meddwl pawb a'i hadwaenai. Un arall o bregethwyr y rhanbarth yma o'r wlad oedd y Parch. Richard Davies. Yr oedd yn un o weinidogion parchusaf y Methodistiaid yn sir Gaerfyrddin. Gweinidogaeth dyner, felus, wlithog fel cawodydd Ebrill, oedd ei weinidogaeth ef.

Bedyddiwyd William Prytherch yn eglwys y plwyf, gan yr hen 'ffeiriad Mr. Morgans; ac ymddengys ei fod, ar y pryd, o dan ddylanwad y gwlybyron meddwol. Yn ol tystiolaeth Mr. Prytherch ei hun, yr oedd yr hen 'ffeiriad, yn cael ei gymmeryd yn lled fynych gan ergyrchoedd (*fits*), pa rai a achosid gan ddiodydd meddwol; ac yr oedd, yn anffodus, yn digwydd bod o dan eu dylanwad pan yn bedyddio gwrthddrych y bywgraphiad hwn; o blegid

dywedwyd wrtho ganwaith gan y fyd-wraig ddigrifol mai hi a'i daliodd ef yn ei breichiau i'w fedyddio, am fod y 'ffeiriad, ar y pryd, yn analluog i'w gymmeryd yn ei freichiau, a chymmhwyso dwfr y bedydd ato, o herwydd ei fod o dan ddylanwad y gwirodydd poethion; ond rhwng y ddau, yr hen 'ffeiriad a'r hen fyd-wraig, fe'i bedyddiwyd. Adroddir chwedl ddigrifol iawn am un 'ffeiriad fu yn cadw ysgol yn Nghaio gan Kilsby Jones, yn ei ysgrif ar 'Dafydd Jones,' yn y *Traethodydd* am y flwyddyn 1849:—Morgan oedd ei enw; ac yr oedd yn dra chwannog i'r cwpan meddwol. Pan fyddai o dan ddylanwad y cwrw, ni ofynai ragor o gymmhorth er cyrhaedd ei uchelfanau. Gwnai wawd o'r amgylchiad nad oedd dim dyrchafiad yn yr Eglwys yn debygol o ddyfod iddo ef. Deuai i mewn i'r ysgoldy mewn dull pur fawreddog, a churai y parwydydd, y meingciau, y byrddau, a'r plant â'i fedwen, gan waeddi â llais uchel, '*Nomen non crescens genitivo*':—'Curad oeddwn i, a churad fyddaf i.' A bu ei arferiad o yfed gormodedd o gwrw yn gymmhorth i'r brophwydoliaeth gael ei chyflawni; o blegid, yn ol yr hanes, bu fyw a marw yn gurad.

Wedi clywed am ei enedigaeth, a'i fedydd, naturiol yw i bawb ymholi ynghylch ei dad a'i fam. A oedd ganddo dad a mam? Pwy oeddynt? Wel, oedd, yr oedd ganddo dad a mam. Enw ei dad oedd Thomas William Prytherch. Brodor o blwyf Caio ydoedd. Yma y ganwyd ac y magwyd ef. Yma y bu fyw a marw, ac y claddwyd ef. Dilledydd ydoedd o ran ei gelfyddyd; ac yr oedd yn meddu ar ddawn ac athrylith y grefft. 'Gweddw crefft heb ei dawn,' meddai yr hen ddiareb. Ond nid felly yr oedd yn nyddiau Thomas William Prytherch. Adnabyddid ef fel dilledydd medrus, ac o chwaeth uchel, dros y wlad benbaladr. Elai pawb ato i gael eu dillad, am ei fod yn eu gwneyd yn gyttunol â moes ac arfer yr oes, neu mewn geiriau eraill, yn ffasiynol. Os gwelid neb â gwisg doriadus a dillynwych am dano, dyna fuasai yn cael ei ddweyd ar unwaith gan bawb, 'Dyna ddillad o waith Thomas William Prytherch, o Gaio, mi gymmera'n llŵ.' Fel teiliwr, yr oedd yn ddiguro. Gwnai ddillad dynion i ffitio am danynt fel eu crŵyn. Cadwai dri neu bedwar o

weithwyr, a'r rhai hyny y rhai goreu a allesid gael am arian; ac yr oedd holl waith y dref a'r wlad ganddo. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes mewn dedwydd hen-langcyddiaeth. Bu heb briodi hyd nes yr oedd yn agos i ddeugain oed; ac yn ngeiriau ei fab, 'bu yn ddigon gofalus, neu anofalus, i beidio ymofyn am grefydd ar hyd ei fywyd.' Ond er nad oedd yn proffesu crefydd ei hun, nid oedd yn erlidiwr crefydd na chrefyddwyr. Yn ystod y blynyddoedd hyn, cafodd gŵr ieuangc crefyddol a phrydferth ei rwymo yn freintwas gydag ef; yr hwn, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, a drodd allan yn weinidog enwog, talentog, a disglaer ei ddoniau; sef, y Parch. Daniel Jones, o Crug-y-bar—nid y Parch. Evan Jones, ond ei flaenorydd ef, yr hwn oedd yn weinidog poblogaidd, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig.

Merch ydoedd ei fam i un o'r enw William Jones, yr hwn oedd yn oruchwyliwr ar waith plum Llanfairclydogau. Ymddengys ei fod hefyd yn dyddynwr bychan, yn gystal a goruchwyliwr ar y gwaith plwm; ac yr oedd yn byw yn gyfagos i'r gwaith. Ystyrid ef gan bawb a'i hadwaenai yn ddyn cyfrifol a pharchus. Cafodd ddau o blant, sef mab a merch. Y ferch hon ydoedd mam yr anfarwol William Prytherch, o sir Gaerfyrddin—gwrthddrych y cofiant hwn. Yn ebrwydd wedi hyn, bu farw ei thad; ac nid hir iawn y bu ei mam cyn priodi yr ail waith; a chafodd blant o'r ail ŵr; ac felly, ebe testyn yr ysgrif hon, gorfu i'w fam fyned allan i wasanaethu: a chlywodd hi yn dyweyd ddegau o weithiau iddi fod ar wasanaeth yn yr Ystrad, yn sir Aberteifi, ac mewn tai gwŷr mawr eraill, am lawer o flynyddoedd. Y troion cyntaf y bu Prytherch yn pregethu yn Abermeurig, a'r cylchoedd hyny, yn sir Aberteifi, cawsai ar ddeall fod llawer yno yn cymmeryd dyddordeb neillduol ynddo ef a'i weinidogaeth o herwydd eu cydnabyddiaeth a'i fam, canys yr oeddynt yn ei chofio yn dda, a holent yn garedigol am dani. Ond beth bynag yn ei chylch, daeth Rhagluniaeth fawr y Nef â hi yn ol yn ei llaw at y boneddwr hyglodus, J. Johnes, Ysw., Dolau Cothi. Bu yno yn gogyddes am dair neu bedair blynedd: a phriododd â Thomas William Prytherch, yn y flwyddyn 1803, ac aethant i fyw i Ty'n-yr-heol, ger Pump-

sant; ac yn mis Ebrill, y flwyddyn ganlynol, fel y crybwyllwyd o'r blaen, y ganwyd gwrthddrych yr argofiant hwn.

---

## PENNOD II.

*Ei fam mewn perygl am ei bywyd.—Y meddyg yn dyfod ac yn defnyddio yr Offer (instruments).—Ymgom y meddyg gyda Phrytherch pan oedd yr olaf tua phymtheg oed.—Cystudd ei dad, a'i farwolaeth, a'i fywyd digrefydd.—Y Parch. Daniel Jones, Crug-y-bar, yn dyfod i gyginio, neu i barotoi tipyn o grefydd iddo ychydig o ddyddiau cyn iddo farw.*

AR amser genedigaeth y plentyn, neu y tymp, anobeithid yn fawr am fywyd y fam, a bywyd y plentyn; ac felly, yn y cyfryw amgylchiad, bu raid anfon am y meddyg; yr hwn, pan ddaeth, a gweled sefyllfa ddifrifol a pheryglus y fam, a wnaeth ei feddwl i fyny ar unwaith y buasai raid iddo aberthu bywyd y plentyn, neu fywyd y fam; ac felly, daeth i'r penderfyniad fod bywyd y plentyn i fyned, mewn trefn i achub bywyd y fam. Dechreuodd ddefnyddio ei offer ar unwaith; a gallesid gweled ôl offer y meddyg ar wegil ac oddi amgylch gwddf Prytherch hyd ddydd ei farwolaeth. Wrth weled y creithiau hyn, tybiodd llawer ei fod o'r teulu brenhinol, neu ei fod yn dioddef oddi wrth glefyd y brenin (*king's evil*). Ond nid oedd yn dioddef mwy oddi wrth glefyd y brenin nag yr oedd yn dioddef oddi wrth ddiffyg treuliad (*indigestion*), neu y prudd-glwyf (*melancholy*); a gwyddai pawb a'i hadwaenai nad oedd yn dioddef oddi wrth y naill na'r llall. Ni bu dyn mwy iachus ar y ddaear erioed.

Pan oedd tua phymtheg oed, daeth yr un meddyg, sef, Dr. Thomas, Llanybydder, i ymweled â chymmydoges iddo, yr hon oedd wedi bod yn hir yn glaf, ac ar drangcedigaeth erbyn hyn; a cheisiwyd ganddo fyned ar ol y meddyg i Llanybydder, er cael y moddion i'r claf—canys nis gallai ddilyn y ddoctor ar ei farch cyflym. Addawodd fyned, a bu cystal a'i air; efe a aeth. Yr oedd rhwng chwech a saith milldir o ffordd o dŷ y claf i dŷ y meddyg. Wedi

cyrhaedd y feddygfa (*surgery*), a dywedyd ei neges, sylwai fod y doctor yn edrych yn ddyn isel, serchog, a *fine* iawn. Nid oedd wedi ei weled o'r blaen, ar a wyddai ef. Dywedodd wrtho:—

'Dr. Thomas, nid ydych yn fy adnabod i heddyw, syr. Gwelsoch fi o'r blaen.'

'Wel, fy machgen i,' ebe y doctor, 'dywed pa le yr oedd hyny? Pa le yr oedd dy dad a'th fam yn byw?'

Attebodd yntau, a dywedodd:—'Yn Ty'n-yr-heol, Pumpsant.'

'O! 'r filain,' ebe y doctor; 'tyred yma, tyred yn nes. Rho wel'd dy ben?'

Plygodd yntau ei ben iddo, ac aeth y meddyg ar unwaith ar ei union at y creithiau ag oeddynt ar ei wegil, ac ochr ei wddf.

'Wel, clyw,' ebe ef: 'methu dy ladd di wnes i. Yr oeddwn yn bwriadu, yn fy nghalon. Waeth ei ddyweyd ê na'i feddwl ê: yr oeddwn i yn bwriadu gwasgu a thori dy ben di fel tori pen cyw, i gael arbed bywyd dy fam. Wirionedd i,' ebe fe [yr oedd yn arfer y gair hwnw], 'ti wnei lawer o ddrwg, neu lawer o dda, yn y byd yma.'

'Fe ddywedodd y gwirionedd,' ebe Prytherch. 'Yr wyf wedi gwneyd llawer o ddrwg; ond os gwnaethum i ryw gymmaint o ddaioni yn y byd yma yn fy mywyd, 'does dim eisieu y gair *llawer* ynglŷn âg ef; byddai y gair *dim* yn fwy priodol o lawer.'

Yn fuan, cymmerwyd ei dad yn glaf, a bu mewn gwendid a nychdod am hirfaith amser; a chyn pen blwyddyn, bu farw o'r darfodedigaeth, yn un a deugain mlwydd oed, pan nad oedd ei fab ond deuddeg mis oed.

Treuliodd ei dad ei oes yn ddigrefydd; ond yr oedd yn mhell o fod yn ddyn anfoesol, ac anfucheddol. Yr oedd yn ddyn o fuchedd ddifeius, ac o rodiad hardd. Gwir i Jones, Crug-y-bar—y Parch. Daniel Jones y soniasom am dano o'r blaen—ac amryw gyfeillion gydag ef, ddyfod yno i goginio, neu i barotoi tipyn o grefydd iddo rai dyddiau cyn iddo farw:—'a pheth rhwydd a rhad iawn ydyw crefyddau felly,' ebe Prytherch. 'Byddai rhyw dair ceiniog y dwsin yn llawn bris am danynt. Amddifadwyd ef o'i dad cyn ei fod yn llawn blwydd oed. Ond cafodd weled

yn amlwg yn adeg ei blentyndod a'i fachgendod fod 'Tad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon yn fyw:—'Gâd dy amddifaid, myfi a'u cadwaf hwynt yn fyw; ymddiried dy weddwon ynof fi.' 'Tad yr amddifaid, a Barnwr y gweddwon yw Duw yn ei breswylfa sanctaidd.' 'Na chystuddiwch un weddw nac amddifad. Os cystuddiwch hwynt mewn un modd, a gwaeddi o honynt ddim arnaf, mi a lwyr wrandawaf eu gwaedd hwynt.' Wedi claddu ei dad, cynghorwyd ei fam, gan y boneddwr parchus a haelgar o Dolau Cothi, i roddi y plentyn allan i'w fagu; a darfu i'w fam wrandaw ar gynghor doeth y gŵr boneddig, a gweithredu yn ei ol, a rhoddwyd ef allan i'w fagu. Cafodd fyned at ŵr o'r enw Evan Jones, Pistyll-gwyn-bach. Ffermwr cyfrifol, a chysurus o ran ei amgylchiadau, oedd yr Evan Jones hwn; a chydag ef y bu nes y cyrhaeddodd ei bedair-ar-ddeg oed. Cefnder iddo oedd Evan Jones; ond ymddygodd tuag ato yn ystod y blynyddoedd hyn, nid fel cefnder, ond fel tad tyner a gofalus: a 'thad' y galwai ef:—ac ni bu gwell tad o dan yr haul nag ef. Ond am wraig Evan Jones, ymddengys fod rhyw ddiffyg yn ei mheddwl hi; ond chwareu teg iddi, ymddygodd yn garedig ato.

Yn ystod y blynyddoedd pwysfawr hyn y bu ef yn byw yn Pistyll-gwyn-bach gydag Evan Jones, yr oedd ei fam yn gwasanaethu yn mhalas Dolau Cothi, gyda'r Yswain Johnes. Hi oedd y ben-gogyddes. Yr oedd mewn parch mawr gan bawb drwy'r palas, o'r meistr a'r feistres i lawr hyd at y gwas bach, a'r forwyn fach leiaf. Derbyniai gyflog dda am ei gwasanaeth. A rhoddi y cwbl at eu gilydd, gellir dyweyd yn ddibetrus iddi dreulio ugain mlynedd o'i bywyd yn ngwasanaeth Mr. a Mrs. Johnes, Dolau Cothi. Talai yn flynyddol i Evan Jones am fagu y bachgen. Cafodd ysgol yn gysson a rheolaidd er pan y daeth yn alluog i fyned iddi; a bu yn yr ysgol hyd nes yr oedd yn bedair-ar-ddeg oed. Derbyniodd addysg ragorol (*superior education*), a dygiad da i fyny. Gellir dyweyd iddo gael rhagor-ddysg. Un o fil ydoedd y dyddiau hyny. Bu yn yr ysgol yn nhref Caerfyrddin am flynyddoedd; ac yn aelod crefyddol, a byddai yn dechreu cyfarfodydd o flaen yr hen Mr. Charles, o Gaerfyrddin.

Pan yn bedair-ar-ddeg oed, breintwasiwyd ef yn ddilledydd gyda'r brawd duwiol, ac adnabyddus y pryd hwnw drwy sir Gaerfyrddin; sef, Daniel Rees, yr hwn oedd yn byw yn mhentref Caio. Hen weithiwr i'w dad ydoedd y Daniel Rees hwn; ac yr oedd gwrthddrych y gwiwgofion hyn yn hoff iawn o hono ef a'i hygar wraig. Treuliodd ei amser allan gydag ef, a dysgodd ei grefft yn dda. Erbyn hyn, yr oedd yn bymtheg mlwydd oed, a rhai misoedd: 'A dyma fi,' ebe efe, 'heb feddwl dim am fy nghyflwr, heb ystyried dim o'm sefyllfa fel pechadur, ac heb ofni yr Arglwydd fel y caraswn.' Wedi symmud i bentref Caio i fyw, dilynai yr Ysgol Sabbothol gyda chyssondeb. Cyn hyn, treuliai ei Sabbothau ar hyd y meusydd, gyda'r bechgyn a'r merched anystyriol, i rodiana a chwareu, heb gofio am sanctaidd orchymyn yr Arglwydd,—'Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef.' 'Na wna ynddo ddim gwaith.'

Isel a thruenus oedd sefyllfa foesol, gymdeithasol, a chrefyddol y wlad yn y dyddiau a'r blynyddoedd hyny. 'Tywyllwch a orchuddiai y ddaear, a'r fagddu y bobl.' Eisteddent 'mewn tywyllwch a chysgod angeu.' Gallesid gweled yn mhlwyf Caio, bedwar ugain neu gan mlynedd yn ol, ugeiniau o ddynion ieuaingc ar ddydd yr Arglwydd yn cyfarfod â'u gilydd ar ryw gae i gicio y bêl ddu, neu y bêl droed, a lliaws mawr o ferched ieuaingc gwylltion a phen-chwiban yn edrych ar, ac yn mwynhau y chwareu. Yn y tymmor hwn, sef wedi ei symmudiad i Caio, cawn ei fod ef yn dra awyddus a sychedig am wybodaeth—pob math o wybodaeth; yn enwedig gwybodaeth Ysgrythyrol. Yr oedd fel y Bereaid, y rhai y darllenwn am danynt yn Llyfr yr Actau, yn derbyn 'y gair gyda phob parodrwydd meddwl, gan chwilio beunydd yr Ysgrythyrau a oedd y pethau hyn felly.' Darllenai lawer ar y *Beibl Cyssegr Lân*, a llyfrau da eraill. Trysorai eiriau Duw ac emynau cyssegredig yn ei gôf. Llafuriai yn galed ac yn ddiwyd wedi i amser gweithio fyned heibio. Defnyddiai oriau tawel y nos i ddarllen a myfyrio. Dysgai bob pwngc y byddai yr Ysgol Sabbothol yn Nghaio yn ei ddysgu; a dysgai ef yn drwyadl, fel y gallai ei adrodd ddydd y gymmanfa heb lyfr. Addefa iddo lafurio am wybodaeth er mwyn cael defnyddiau i ddadleu â dynion crefyddol ar

byngciau crefydd. Pan yn siarad â Methodist, dadleuai yn erbyn etholedigaeth, a pharhâd mewn gras; a phan yn dadleu am Dduwdod Crist, taerai mai yr Undodwyr oedd yn iawn.

Gwelwn ef yn awr yn myned i ffair Caio, â hanner coron yn ei boced, mewn pâr o ddillad newydd a roddes ei fam iddo. Ac i fod yn debyg i fechgyn mawr eraill, o blegid yr oedd mor dal pan yn un mlwydd ar bymtheg oed ag y bu ef byth wedi hyny, aeth gyda'i gyfeillion i'r dafarn, ac yfodd fwy nag a ddylasai; a phan y deallodd hyny, ffodd am ei fywyd i ryw ffermdy yn y gymmydogaeth, heb yn wybod i un o'i gyfeillion.

Ac yno y bu am ddwy neu dair awr, a dychwelodd adref yn mhell cyn nos; o blegid yn mis Awst, pan y mae y dydd yn hir, y cynnelid y ffair. Y noson hono, ni chafodd gysgu un amrantiad. Yr oedd ei bechodau fel afon yn llifo i'w gôf, ac yr oedd yn eu gweled yn eu hechryslonrwydd. O'r blaen, nid ydoedd yn eu gweled felly. Nid oedd yn eu hystyried yn bechodau; ond yn awr, teimlai adnodau y Beibl yn dyfod gydag awdurdod a nerth ar ei feddwl:—'Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod, a minnau a fu'm farw.' 'Canys rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist, fel y derbynio pob un y pethau a wnaethpwyd yn y corph, yn ol yr hyn a wnaeth, pa un bynag ai da ai drwg; canys gosodir ni oll ger bron gorseddfainge Crist.' Yn canlyn hyny, dyna y geiriau brawychus, arswydfawr, hyny yn taranu yn ei glustiau; sef, geiriau y Barnwr yn nydd y farn ddiweddaf wrth y rhai a fyddant ar ei law aswy:—'Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragwyddol, yr hwn a barotowyd i ddiafol ac i'w angylion.' Yr oedd mewn tywydd mawr am ei gyflwr, a theimlai ei fod wrth borth uffern; a phrofai, i raddau, wres y lle ofnadwy hwnw. Gellwch ddarllen ei brofiad yn y pennill a ganlyn;—

'Rhyfedd na buaswn 'nawr
Yn y fflamau,
Wedi cael fy nhori lawr
Am fy meiau.'

Rhüai y deg gorchymyn dwyfol fel deg o gyflegrau (*cannon*), yn ei glustiau—crynai y ddaear lawr o dan ei

draed, a disgwyliai i'r nef uwch ben i ymollwng; a theimlai yn gyffelyb i'r genedl wrth droed mynydd Sinai, pan ddisgynodd Duw ar y mynydd.

'A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r mellt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu: a phan welodd y bobl, cilisant, a safasant o hirbell. A dywedodd Moses wrth y bobl, Nac ofnwch; o herwydd i'ch profi chwi y daeth Duw, ac i fod ei ofn ef ger eich bron, fel na phechoch.' Nid oes neb ond Duw yn gwybod pa fodd y treuliodd y noson hono. Yr oedd arswyd arno i gyffroi o'r fan hono, rhag, os gwnai, y llyngcid ef i uffern; ac felly y treuliodd ran fawr o'r noson ryfedd hono cyn anturio symmud. 'Ond i'r Arglwydd y byddo y clod a'r gogoniant,' ebe efe; 'cefais nerth i fyned ar fy ngliniau, a bu'm yn treio gweddïo am y waith gyntaf erioed.' Tebyg ydoedd yn awr, o ran ei brofiad, debygem, i Manasseh, yr hwn, 'Pan oedd gyfyng arno ef, efe a weddïodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ymostyngodd yn ddirfawr o flaen Duw ei dadau, ac a weddïodd arno ef: ac efe a fu foddlawn, ac a wrandawodd ei ddymuniad ef. A gwybu Manasseh mai yr Arglwydd oedd Dduw.' Carem weled, yn y dyddiau a'r blynyddoedd hyn, y nerthoedd a'r argyhoeddiadau mawrion fel y gwelwyd ac y profwyd hwynt yn nyddiau ein tadau. Dyma y *trobwynt* yn ei fywyd—bywyd Prytherch—ei weddi, ac attebiad grasol Duw.

---

## PENNOD III.

*Yn ymuno ag eglwys y Methodistiaid yn Nghaio.—Y Parch. Watcyn Edmund, Defynog, yn pregethu yno y diwrnod hwnw, ac yn cadw cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth.—Yn symmud i Felin Dolau Cothi i fyw.—Yn cadw y ddyledswydd deuluaidd am y tro cyntaf.—Cyfarfod gweddi yn yr Ynysau.—Galw Prytherch yn mlaen i gymmeryd rhan yn y cyfarfod.—Rachel yr Ynysau.*

WEDI y noson fawr y soniasom am dani, noson ei argyhoeddiad a'i dröedigaeth, a'i ddychweliad edifeiriol at Dduw, nid oedd dim oedi, nac oni bae, ynghylch myned i'r

seiat. Yr oedd yn rhaid myned. Yn ystod y nos, bu yn teithio, o ran ei feddwl, o Sinai i Seion. Dros Sinai y gorwedda y ffordd i Seion—mynydd y ddeddf, a mynydd yr efengyl. 'Trwy y ddeddf y mae adnabod pechod,' a thrwy yr efengyl y dadguddir ffordd i'n gwaredu oddi wrth bechod, neu ein cyfiawnhau:—'A hwy wedi eu cyfiawnhau yn rhad drwy ei ras ef, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu.' O ras i gyd y mae cadwedigaeth pechadur :—

'Rhad ras,
Yw'r newydd gân bereiddia'i blâs,
Fu 'rioed ar wyneb daear lâs.'

Aeth i'r cyfarfod eglwysig cyntaf ar ol yr ystorm fawr hon, ac ymunodd âg eglwys y Trefnyddion Calfinaidd yn mhentref Caio; a digwyddodd, yn ffodus, fod yr hen Barchedig dad, Watcyn Edward, o Defynog, sir Frycheiniog, yn pregethu yno ar y dydd hwnw, ac yn cynnal seiat ar ol y bregeth, fel y byddai y ddefod a'r arfer y dyddiau gynt. Galwyd ar yr hen bregethwr da a duwiol i ymddiddan âg ef am ei gyflwr fel pechadur; a gwnaeth hyny gyda deheurwydd teilwng o'r hen frawd o Defynog. Bu yn dyner hynod wrth y gŵr ieuangc, ac annogodd ef i fyw bywyd crefyddol, a chyssegru ei holl alluoedd meddyliol i wasanaethu Duw. Cofus genym glywed am Watcyn Edward yn cadw seiat yn Pen-y-cae, sir Fynwy, yn amser Owen Enos. Yr oedd Watcyn wedi addaw myned am Sabbath i Pen-y-cae, ond methodd a myned; neu, yn ol dyfarniad Owen Enos, fe dorodd ei gyhoeddiad. Yn fuan ar ol hyn, fe anfonodd yr hen weinidog gyhoeddiad i Owen, yn hysbysu y byddai yn pregethu ar noson yn yr wythnos yn Penuel, Pen-y-cae. Mewn trefn i'w gospi am dori ei gyhoeddiad, penderfynodd Owen ar unwaith na wnai ei gyhoeddi i bregethu, ond y cai ei gynnorthwyo i gadw cyfarfod eglwysig. Aeth Watcyn Edward at ei gyhoeddiad. Wedi cyrhaedd yno, deallodd nad oedd efe wedi cael ei gyhoeddi i bregethu; ond i gadw seiat. Ar ol dechreu y cyfarfod drwy ddarllen a gweddïo, gofynwyd iddo siarad, neu ofyn gair o brofiad i hen chwaer oedd yno yn eu mysg. 'Gwraig lanwedd yw hi,' ebe Owen, 'a chymmydoges ragorol; ond fe ddywed gelwydd fel ci yn trotian. Siaradwch

air â hi.' Ar ol myned i dŷ y capel, gofynai Watcyn Edward iddo:—

'Beth oedd yr hen aderyn (*fowl*) yna roisoch chwi ar fy nysgl i. Yr oeddwn i yn methu rhoddi fy *fork* ynddi yn un man?'

'Purion dâl am dori dy gyhoeddiad er's tipyn yn ol,' meddai Owen.

Ynghylch y pryd hwn, penderfynodd ei fam gymmeryd melin Dolau Cothi ar rent, fel y byddai ganddi hi a'i mhab gartref i fyw ynddo; a chafwyd y felin am ardreth teg a rhesymol gan y foneddiges wiw-glodus Mrs. Johnes. Ond pan y daeth yr amser i fyny i symmud, nid oedd *lady* Dolau Cothi yn foddlawn ymadael â'i fam; ac felly, gorfodwyd Prytherch i gymmeryd at y felin ei hunan. Gwelai nad oedd ganddo ddim arall i'w wneyd. Aeth i'r felin i fyw, a chymmerodd forwyn ato i gadw ei dŷ; ac yn y felin yr oedd yn byw yr amser yr ymunodd â chrefydd. Wel, erbyn hyn, edrychai arno ei hun fel pen teulu, yn cynnal tŷ; ac ymdeimlai â phwysigrwydd ei sefyllfa. Fel dyn ieuangc crefyddol, teimlai ei bod yn ddyledswydd orphwysedig arno i gadw addoliad teuluaidd yn ei dŷ, boreu a hwyr; ac etto, teimlai ei hun yn ofnus, yn wan, ac anghymmhwys.

Boreu y Sabbath cyntaf wedi myned yn aelod crefyddol penderfynodd ei threio hi. Wedi gorphen eu boreu-fwyd dywedodd wrth y forwyn, 'Eisteddwch, yr wyf yn bwriadu darllen cyfran o Air Duw, a gweddïo: ac felly y bu; ac fe drodd y weddi hono allan yn dda iddo. Gwelodd fod digon yn nhrugaredd a gras Duw, ac Iawn y groes, i gadw ei fath ef. Derbyniodd fendith i'w enaid yn nghyflawniad y ddyledswydd. Gallasai, meddai, waeddi, 'Diolch iddo!' 'Bendigedig fyddo ei enw!' cyn codi oddi ar ei liniau. Byth oddi ar hyny, ni chafodd dim ei rwystro i gadw y ddyledswydd deuluaidd. Yn gyfagos i'r felin yr oedd gwraig barchus, a gwir grefyddol, yn byw, o'r enw Rachel. Yr oedd yn un o wragedd goreu Cymru; a dywedir nad oedd yr un pregethwr Methodistaidd trwy y wlad, ag oedd yn teithio ychydig, nad ydoedd wedi bod yn pregethu neu yn lletya dan ei chronglwyd.

Adnabyddid ei thŷ wrth yr enw, 'Lletty y fforddolion,'

neu 'Cartref Gweinidogion yr Arglwydd.' Beth bynag, dywedodd morwyn Prytherch wrth forwynion yr Ynysau ei fod wedi cadw dyledswydd deuluaidd y boreu hwnw; ac yr oedd cyfarfod gweddi i fod yn yr Ynysau y nos Sabbath canlynol. Aeth i'r cyfarfod, ac amneidiodd yr hen wraig dduwiol o'r Ynysau arno i ddyfod yn mlaen i'w hymyl hi, wrth ochr y ford fawr, cyn i'r cyfarfod ddechreu. Wedi i ryw frawd ddechreu trwy ddarllen rhan o Air Duw, a gweddïo, galwodd yr hen *flaenores* arno i gymmeryd rhan gyhoeddus yn y cwrdd. 'Ewch i weddi, Prytherch,' ebe hi; ac nid oedd yn bossibl anufuddhau i'r alwad. Yr oedd ei galwad fel galwad effeithiol yr efengyl, yr hon sydd yn gwneyd dyn yn ufudd ac yn ewyllysgar yn nydd ei nerth; felly yr oedd galwad y ddiacones hon. Dacw fe ar ei liniau; ond ni wyddai pa beth a weddïai, megys y dylai. Gallasai ddefnyddio geiriau yr Apostol Paul, 'Canys ni wyddom ni beth a weddïom, megys y dylem: eithr y mae yr Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni [neu ynom ni], âg ocheneidiau annhraethadwy.' Dyna yw profiad holl bobl yr Arglwydd yn mhob oes o'r byd. Dechreuodd yn wylaidd a chrynedig ddywedyd rhyw eiriau; ond yr oedd y nefoedd uwch ben yn bres, a'r ddaear oddi tanodd yn haiarn. Tywyllwch a chaddug oedd dros y cwbl, ond wele wawr yn tori o'r tywyllwch du. Mae'r geiriau yn dylifo iddo, a'r teimladau yn cael eu cynnhyrfu, nes y mae pawb yn barod i foliannu a bendithio Duw, a'r hen wraig dduwiolfrydig yn porthi y gwasanaeth; a rhwng Rachel a Prytherch, a'r Ysbryd Mawr, aethpwyd trwyddi yn weddol; a thystiolacthai pawb mai da oedd bod yno. Da yw bod lle byddo Duw.

Yn mhen dwy flynedd wedi iddo sefydlu yn y felin, aeth ei fam ato i fyw a bod. Yr oedd yn ddynes hardd o ran ei pherson, ac yn brydferth o ran bywyd ac ymarweddiad ar hyd ei hoes. Heb law hyny, yr oedd wedi cael ei bendithio gan y Creawdwr Mawr â thymmer dawel, a'i chynnysgaeddu â llawer o amynedd ac addfwynder, ansoddau a theithi gofynedig mewn mamau—gwir famau. Yr oedd hefyd wedi ei chynnysgaeddu â synwyr cyffredin tu hwnt i'r mwyafrif o ferched a gwragedd. Yr oedd yn berchen ar ryw ddawn anghyffredin, ac yr oedd ei gweith-

redodd yn ei chanmawl hi yn y pyrth. Agorai 'ei genau yn ddoeth, a chyfraith trugaredd oedd ar ei thafod hi. Hi graffai ar ffyrdd tylwyth ei thŷ, ac ni fwytäai hi fara seguryd.' Ond er hyn oll, gresyn yw meddwl ei bod wedi treulio ei hoes yn ddibroffes. Yr oedd yn llawn tri ugain oed cyn iddi ddysgu darllen gair ar lyfr. Dywedodd wrth ei fam ei fod am gael y fraint o'i dysgu i ddarllen, fel y gallai ddarllen ewyllys ei Thad, yr hwn sydd 'yn y nefoedd.' 'Yr ydych chwi,' ebe fe, 'wedi gweithio a llafurio yn galed i fy nwyn i fyny yn dyner, a thalu yn ddrud am fy addysg. Yn awr, yr wyf finnau am wneyd rhyw ad-daliad am hyny.' 'Wel, purion, machgen anwyl i,' ebe hithau; 'gwnaf fy ngoreu i ddysgu o dan dy awdurdod, a'th hyfforddiant di fel Athraw.' A chyn pen dwy flynedd, yr oedd yn alluog i ddarllen yr Efengylau yn rhydd, rhwydd, ac yn rhugl. Mae yn ymddangos y gwnelsai ysgolfeistr rhagorol, a llwyddiannus, pe yr ymgymmerasai â'r swydd hono. Ond nid ydoedd i fod felly:—'Canys yr oedd efe i fod yn llestr etholedig' i Dduw, 'i ddwyn ei enw ger bron y cenhedloedd, a brenhinoedd, a phlant Israel.' Ei waith ef i fod oedd, tramwy trwy'r gwledydd, i bregethu yr efengyl i'w gyd-wladwyr.

Bob tro yr elai i'r tŷ, a byddai yn gwneyd hyny ddwywaith yn y dydd, cai ei fam â'i llyfr yn ei llaw; a chanwaith y dywedodd hi wrtho, pan y byddai efe yn y tŷ, 'Dere yma, Will, beth yw hwn?' Yn y ddyledswydd deuluaidd, byddai efe yn darllen pennod gyfan bob nos a boreu; a byddai hithau yn ei holi yn fanwl ynghylch y peth hyn a'r peth arall yn y bennod; a theimlai ei mhab yn fynych fod ei chwestiynau yn rhai anhawdd a dyrys—yn *test questions*. Ac am nad oedd ei fam erioed wedi cael yr un fantais i wybod dim am y Beibl yn athrawiaethol nac yn hanesyddol, dywedodd wrthi rhyw ddiwrnod y darllenai efe y Beibl iddi o'r bron, fel y dywedir, o'r dechreu i'r diwedd—o ddechreu Genesis hyd ddiwedd y Datguddiad—er iddi gael mantais i glywed yr holl hanes. Craffai yn fanwl, a daliai yn awyddus ar bob gair yn yr hanes rhyfedd ag oedd yn y Dwyfol Air, a thrysorai yr oll o hono yn ei chôf. Yn nhymmor y gauaf, pan yr oedd y nos yn hir, darllenai chwech neu saith, neu weithiau wyth,

o bennodau i'w fam wrth y tân, a goleu y ganwyll. Dyddiau braf ydoedd y dyddiau hyny—dyddiau cynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw. Gwyddai ei fam, cyn y diwedd, hanes Abraham, Isaac, a Jacob, Moses, Dafydd, a Job, ac yn enwedig hanes Iesu Grist. Aeth at grefydd pan oedd yn llawn trigain mlwydd oed; a bu yn aelod hardd, diwyd, a llafurus o eglwys Crist yn Caio hyd derfyn ei dydd—hyd ddydd ei marwolaeth. Cafodd wleddoedd pur dilyth i'w henaid tlawd wrth wrandaw y darlleniad o Air Duw. Ceir ei phrofiad hi yn y diwedd yn llinellau y pennill gwerthfawr hwnw:—

'Do, mi ddringais uwch y gwyntoedd,
Wedi bod mewn 'stormydd mawr,
Dinas noddfa ge's o'r diwedd
Mewn ardaloedd uwch y llawr.'

Yn y blynyddoedd o'r un-ar-bymtheg hyd ugain oed, cafodd ei gadw rhag syrthio i bechodau gwarthus a rhyfygus, a rhag myned i afael profedigaethau mawrion ag a barodd i eglwys Dduw ei alw i gyfrif am danynt. Ond addefa iddo anghofio ei grefydd am ryw awr unwaith mewn neithior. Un o'r lleoedd mwyaf peryglus a llygredig yn y wlad i gyd, yn y dyddiau gynt, oeddynt y neithiorau. Mawr y trallod a'r gorthrymder ysbryd a barodd yr amgylchiad hwnw iddo. Efe a ymofidiodd yn ei galon o'i herwydd. Yr oedd yn y neithior un ferch hardd iawn, o ran pryd a gwedd. Ystyrid hi yn hardd-ferch (*belle*) y cwmni. Yn y pwngc hwn o lendid, yr oedd yn gyffelyb i Esther, nith Mordecai yr Iuddew, 'yr hon oedd yn llangces weddaidd-lwys a glân yr olwg.' Yr oedd holl fechgyn ieuaingc yr ardaloedd yn ymryson am dani. Anfonodd Prytherch rhyw ŵr ieuangc o gyfaill iddo i fyned at y ferch i ofyn iddi a ddaethai hi ato ef. Ac yn wir, er syndod i bawb, daew hi yn myned at Prytherch. Erbyn hyn, yr oedd y llen wedi ei thynu oddi ar ei lygaid ef. Gwelai ei fod wedi fforffedu ei grefydd, yn ol rheolau y Methodistiaid Calfinaidd, o herwydd anweddusrwydd a ffolineb ei ymddygiad. Nis gallasai ddyweyd yr un gair wrth y ferch. Tarawyd ef gan ei gydwybod fel yr aeth yn fud. Toc dyma un yn dyfod i'w cheisio hi; ac yn ffodus, hi a aeth gydag ef. Cafodd waredigaeth fawr, a gollyngwyd ef yn

rhydd. Y seiat gyntaf ar ol hyny, a'r ail a'r drydedd, yr oedd yn disgwyl cael ei alw yn mlaen i roddi cyfrif. Hawddach dyfalu na disgrifio ei deimladau. Mawr oedd ei ofid am y peth; ond ni chlywyd gair am hyny byth.

---

## PENNOD IV.

*Ei deimlad dros ei gyfoedion ieuaingc, a'i awydd i'w cynghori.—Ei awydd i ddechreu pregethu yn cynnyddu.—Yn gofyn caniatâd yr eglwys i gynghori pechaduriaid.—Y Parch. Ebenezer Morris, Twr Gwyn, sir Aberteifi, yn pregethu yno y dydd hwnw.—Yn teimlo yr un fath a Dafydd Rees, o sir Ddinbych—dim ond gwaeddi ei oreu glâs ar y bobl i ffoi rhag y llid a fydd.*

HEB fod yn hir wedi ymuno â chrefydd, a dechreu deall ychydig ar ei hathrawiaethau gorwych ac uchelfawr, a chael rhyw wan amgyffrediad am ei hegwyddorion, ynghyd â'r pleser a'r hyfrydwch oedd yn gael gyda hi, teimlai yn fawr ac yn ddwfn, ïe, teimlai yn angerddol dros ei gyd-ieuengctyd, y rhai y bu yn cyd-bechu â hwynt—y rhai oeddynt yn byw mewn tywyllwch ac anystyriaeth.

Digwyddodd fod y Parch. Ebenezer Morris, Twr Gwyn, sir Aberteifi, yn pregethu yno y diwrnod y gosododd Prytherch ei achos o flaen yr eglwys, neu y gwnaeth yn hysbys iddynt ei awydd am gael dechreu pregethu. Yr oedd y cyfarfod hwnw yn gyfarfod i'w gofio byth gan bawb ag oedd yn bresennol. Yr oedd un o ben tywysogion y pulpud Cymreig yno yn pregethu ar y pryd—un o lysgenhadwyr nef y nefoedd yn cynnyg telerau heddwch i wrthryfelwyr y ddaear. Ei destyn oedd, 'Cymmoder chwi â Duw.' Yr oedd y weinidogaeth yn nerthol, ac o dan arddeliad neillduol:—'A'r bobl, wedi eu dwysbigo yn eu calon, a ddywedasant, Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?' Ymunodd llawer âg eglwys Dduw mewn canlyniad i'r bregeth hon. Yn y cyfarfod eglwysig ar ol y bregeth, amlygodd Prytherch ei awydd i bregethu, trwy ddywedyd y buasai yn dda ganddo gael caniatâd ganddynt fel eglwys i geisio perswadio y bobl ieuaingc i adael eu pechodau, a

dyfod at Grist y Gwaredwr. Y cwbl a ddywedodd y Parch. E. Morris ar fater yr ymgeisydd am y weinidogaeth oedd, 'Chwi fel eglwys sydd i feddwl am, ac i benderfynu y cwestiwn pwysig hwn, yn eich plith eich hunain, ac nid dyeithriaid. 'Dyna y gŵr ieuangc,' meddai, 'wedi gosod y mater ger eich bron mewn modd teilwng, ac mewn teimlad gwylaidd a gostyngedig.' Dywedai nad oedd efe yn meddwl am fod yn bregethwr mawr; ond rhyw gynghorwr efengylaidd fel Barnabas, 'Yr hwn a anfonwyd gan yr eglwys oedd yn Jerusalem i fyned hyd Antiochia—yr hwn pan ddaeth, a gweled gras Duw, a fu lawen ganddo, ac a gynghorodd bawb oll trwy lwyr-fryd calon i lynu wrth yr Arglwydd.' Teimlai ef yn union yr un fath ag yr oedd Dafydd Rees, o sir Ddinbych, yn teimlo, pan yn cael ei dderbyn yn aelod o'r gymdeithasfa o dan yr hen oruchwyliaeth.

Teimlai fod ganddo afael gref yn y bobl ieuaingc. Nis gallai ollwng ei afael o honynt, er eu bod hwy ac yntau wedi cefnu ar eu gilydd yn awr; etto, ei deimlad oedd, y buasai yn dda iawn ganddo pe cawsent yr un olwg ar bechod ag oedd efe wedi gael arno; ac wrth feddwl am danynt, a gwybod pa fodd yr oeddynt yn byw, ymawyddai i ddyweyd wrthynt am eu ffyrdd annuwiol, a'u harferion llygredig a phechadurus, ac am y diwedd difrifol sydd yn aros y cyfryw:—'Canys os o'n gwirfodd y pechwn, ar ol derbyn gwybodaeth, nid oes aberth dros bechodau wedi ei adael mwyach; eithr rhyw ddisgwyl ofnadwy am farnedigaeth ac angerdd tân, yr hwn a ddifa y gwrthwynebwyr.' Byddai yn dywedyd wrthynt, pan y cai gyfle arnynt—dim ond efe a hwythau. Cynyddu a chryfhau yn ddidór yn barhaus oedd yr awydd i waeddi ar y bechgyn a'r merched i ffoi rhag y llid a fydd, a'r digofaint oedd yn dyfod:—'o blegid y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod.' Teimlai yn ddwfn argyhoeddedig yn ei feddwl, a'i galon, y dylasai ddyweyd am y trueni a'r golled oedd i bobl ieuaingc i wario eu hamser a'u harian am yr hyn nid yw yn digoni:—'Paham y gweriwch arian am yr hyn nid ydyw fara, a'ch llafur am yr hyn nid yw yn digoni?'—i dreulio eu dyddiau yn ngwasanaeth pechod—am y gospedigaeth ofnadwy a thragywyddol, yr hon sydd yn

aros yr annuwiol yn y byd a ddaw, ac yn arbenig i ddywedyd wrthynt am barodrwydd Duw i faddeu yn haeddiant Iesu Grist:—'Canys i hwn y mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth, y derbyn pawb a gredo ynddo ef faddeuant pechodau trwy ei enw ef.' Dyma ydyw swm a sylwedd gweinidogaeth yr efengyl; colledigaeth dyn o hono ei hun, a'i gadwedigaeth trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. Sicr yw fod holl wir weinidogion Crist yn teimlo yr un fath awydd.

Mewn cymmanfa yn Ninbych yr oedd dau frawd yn y weinidogaeth yn cael eu derbyn yn aelodau o honi; sef, y brodyr Dafydd Rees ac Evan Wynne. Mae y ddau yn y nefoedd er's blynyddoedd. Galwyd ar yr Hybarch John Elias, o Fôn, fel y dywedir, i'w holi am eu cymmhelliad i waith y weinidogaeth. 'Wel,' ebe Mr. Elias, 'a wnewch chwi, Dafydd Rees, ddyweyd wrthym fel cymdeithasfa pa fodd y cawsoch chwi eich cymmhell i bregethu yr efengyl fawr?' 'Fyddaf fi ddim yn pregethu, syr,' ebe Dafydd Rees. 'Wel, pa beth yr ydych yn wneyd ynte?' ebe Mr. Elias, 'Dim ond gwaeddi ar y bobl fy ngoreu glâs, i ffoi rhag y llid a fydd, a diangc at Iesu Grist am eu bywyd,' meddai yntau. 'Wel, yr ydych yn darllen text,' dywedai Mr. Elias.' 'Byddaf 'rŵan, syr, ond y bobl acw a barodd i mi ddarllen text. Yr un peth yn hollol fyddaf fi yn ddyweyd efo'r text, ag a byddaf yn ddyweyd heb yr un text,' attebai Dafydd. 'Wedi'r cwbl, pregethu yr ydych, Dafydd Rees,' dywedai Mr. Elias, mewn tôn ddifrifol. 'Na fyddaf fi ddim yn pregethu,' dywedai Dafydd drachefn. 'Beth yw pregethu ynte?' gofynai Mr. Elias. 'Onid esbonio y text; a dyweyd athrawiaeth y text, a chymmhwyso hyny at y bobl?' 'Ni fedraf fi wneyd y naill na'r llall,' meddai Dafydd Rees. 'Pregethwr fyddwch chwi yn nydd y farn, Dafydd Rees,' ebe Mr. Elias. 'Wel,' attebai Dafydd Rees, ''dwyf fi ddim yn meddwl y byddaf fi yn ddim yno, ond y peth oeddwn i yma. Mi leiciwn yn arw iawn i'r bobl gael eu hachub.' Dyna y teimlad yr oedd y brawd Prytherch ynddo pan yn gosod ei gais o flaen yr eglwys. Lled hwyrfrydig i symmud yn mlaen gyda'r achos oedd yr eglwys yn Nghaio. Yr oedd yr hwn a ystyrid y blaenor mawr, neu y *pen blaenor*, fel y gelwir ef yn y Gogledd, yn hoff o

lwgr-wobrwyon, neu yn dderbynydd gwobrau: a gwyddai pawb trwy'r gymmydogaeth hyny. Ond yr oedd yr ymgeisydd wedi penderfynu, os na chai ganiatâd i bregethu heb fribo y blaenor, mai gwell oedd bod heb ganiatâd.

Gallem goffhau un peth o lawer, er dangos fod yr hen flaenor yn obradwy (*bribable*), neu yn un y gallesid ei brynu â gwobrau. Yr oedd dau ffermwr yn byw yn y gymmydogaeth—dau ffermwr cyfrifol a chyfoethog; a byddai y rhai hyn yn ffaldio anifeiliaid eu gilydd; ac yn ffraeo â'u gilydd wrth eu cymmeryd allan, 'nes gosod tröell naturiaeth yn fflam:—'Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi: drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol.' Ac yr oedd y rhai hyny yn aelodau yn nghapel y Methodistiaid yn y pentref. Byddai y pentrefwyr yn cael gwledd wrth eu gweled a'u clywed. Ond ni bu sylw ar eu hachos yn y seiat erioed. Dim gair. Wel, pa ham? Pa ham hefyd? Oni ddywedasom yn barod, mai dau ffermwr oeddynt; ac yr oedd gwraig pob un o honynt yn cario yn lew i dŷ yr hen flaenor—yn cario gwyddau, hwyaid, ieir, wyau, caws, ac ymenyn. Deffroid trigolion y pentref weithiau gan glegar gŵydd, neu *quack* yr hwyad. Wel, beth yn y byd oedd arnynt? Deall yr oeddynt trwy gyngreddf noeth, eu bod yn ymyl bro marwolaeth, sef tŷ yr hen flaenor. Gwyddent eu bod wedi colli llawer o'u perthynasau y ffordd hono. Ond fe ddarfu i wraig gweithiwr o'r pentref gwympo allan â dynes arall wrth ddirisglo coed; a'r wythnos gyntaf ar ol hyny, yr oedd y Parch. William Morris, Cilgeran, yn pregethu yn y capel, ac yn cadw cyfarfod eglwysig wedi y bregeth. Yn y seiat, ar y dechreu, cyn myned at ddim arall, dyma yr hen flaenor, gyda llawer iawn o ffug sancteiddrwydd, a sêl danllyd dros gadw dysgyblaeth ar ei thraed, a theimlad dwfn dros ogoniant yr achos, yn galw Mary yn mlaen (o blegid dyna oedd ei henw), ac yn gosod ei hachos o flaen y Parch. W. Morris, a'r eglwys; ac yn gofalu ei roi yn y modd mwyaf anffafriol i'r wraig dlawd ag a fedrai. Ni bu Mr. Morris, fawr o dro yn trin ei hachos; gorchymynodd iddi fyned allan. Cofio yr ydym eiriau yr Iesu:—'Nid wyf finnau yn dy gondemnio.' 'Na phecha mwyach.'

Wrth fyned allan, yr oedd yn rhaid i'r wraig fach fyned

heibio i dalcen yr eisteddle lle yr oedd Prytherch yn eistedd; a phan yr oedd yn pasio allan, ymaflodd yn ei braich hi, a dywedodd wrthi am aros i mewn. Erbyn hyn, dacw Morris ar ei draed, â'i lygaid yn fflachio, a'i lais yn gofyn:—

'Paham yr ydych yn rhwystro y wraig i fyned allan?'

'Am fy mod yn barnu y dylasai gael cwmni i fyned allan, syr,' ebe fe.

Dywedodd fod yno ddau ffermwr yn ffraeo â'u gilydd er's dros flwyddyn o amser, yn ffaldio anifeiliaid eu gilydd, ac yn ymrafaelio, ac hyd yn oed yn ymladd â'u gilydd yn ddychrynllyd, a gwarthus, i feddwl eu bod yn ddynion crefyddol, wrth ymofyn yr anifeiliaid allan. Mewn gwirionedd, y maent yn dianrhydeddu yr enw mawr, yn tynu crefydd Crist i lawr yn ngolwg y byd; ond na ddywedwyd gair erioed wrthynt am hyny gan Dafydd, yr hen flaenor, yn yr eglwys. 'Maddeuwch i mi am ddyweyd hyn, syr,' ebe fe. 'Yr oeddwn yn teimlo fod eisieu ei ddyweyd.'

'Dafydd,' ebe Morris, 'beth y mae y bachgen yma yn ei ddyweyd? A oes gwirionedd yn y cyhuddiad? A yw y bobl y dygir y cyhuddiad pwysig hwn yn eu herbyn yma yn bresennol yn y cyfarfod?'

Attebai Dafydd:—'Ydynt.'

'Gelwch hwynt yn mlaen yma,' gorchymynai y Parch. W. Morris.

Yr oedd digon o dystion byw yn bresennol yn y cwrdd i brofi gwirionedd y cyhuddiad a ddygid yn eu herbyn. Gwelodd Morris ar unwaith fod yr achos fel yr oedd y gŵr ieuangc wedi dyweyd; ac ni bu fawr o amser cyn eu tori hwythau allan. Dangosodd y pregethwr ieuangc ei fod yn ddyn yn yr amgylchiad hwn; ac yr oedd yn cael ei adnabod drwy yr holl wlad fel dyn cywir a gonest. Dyma y gŵr a ddywedodd wrth eglwys yn sir Gaerfyrddin, pan oedd ymrafaelion ac ymrysonau yn eu plith, a phawb a anfonid atynt yn methu a'u heddychu, 'eu bod mor annuwiol a phe buasent wedi bod am dair blynedd ar odyn *yr un drug* yn cael eu crasu.'

## PENNOD V.

*Y Parch. David Charles, o Gaerfyrddin, yn ei holi am ei brofiad a'i egwyddorion.—Yn myned i Maesllanwrthwl i wrandaw Mr. Charles yn pregethu.—Myned a'i achos i'r cyfarfod misol.—Yn myned trwy y pyrth heb dalu bribe i Dafydd, yr hen flaenor.—Yn ddirybudd yn cael ei alw i bregethu.—Yn colli ei bregeth.—Y testyn oedd Heb. xii. 9.—Yr hanes a gawn ni mai odfa ragorol iawn ydoedd.*

YN y Cyfarfod Misol y dygwyd ei achos yn mlaen, penderfynwyd yn unfrydol fod y Parch. D. Charles (hynaf), Caerfyrddin, i fyned i Caio i ymddiddan â'r gŵr ieuangc, yr hwn oedd yn ymgeisydd am y weinidogaeth, a'i holi am ei wybodaeth Ysgrythyrol, ei brofiad crefyddol, a'i gymmhellion i waith y weinidogaeth; ac hefyd o barth barn yr eglwys am ei gymmeriad, a'i gymmhwysderau i'r gwaith.

Er na wobrwywyd yr hen flaenor, penderfynodd yr eglwys, heb na digder na dadl, fyned a'i achos i'r cyfarfod misol. Heb fod yn faith, yr oedd Mr. Charles i fod yn Nghaio ar y Sabbath, ac i gadw cyfarfod boreu dydd Llun ar achos y gŵr ieuangc. Pregethai Mr. Charles nos Sadwrn mewn ffermdy o'r enw Maesllanwrthwl, yn agos i bentref Caio. Aeth Prytherch yno yn weddol o gynnar, ac yn llawn o frwdfrydedd ac aiddgarwch gŵr ieuangc ag oedd yn meddwl myned i bregethu yr efengyl. Aeth yno i wrandaw un o brif weinidogion y cyfundeb parchus y perthynai iddo, ac un o brif weinidogion Cymru. Ar ei ffordd i'r cyfarfod, cyfarfu â'r hen flaenor; ac meddai:—

'Wn i yn y byd pa fodd y bydd hi rhyngoch chwi â'r hen ŵr boreu Llun nesaf.'

'Pa hen ŵr?' ebe yntau.

'O, Mr. Charles,' oedd yr atteb.

Dywedodd yntau ei fod yn gobeithio fod rhywbeth rhyngddo â rhywun uwch, a rhywun mwy na Mr. Charles, er fod Mr. Charles yn uwch na neb arall yn ei olwg. Erbyn hyny, yr oeddynt yn y tŷ.

'Ewch i'r parlwr,' ebe gwraig y tŷ; a dyma yr hen ŵr yn myned, a'r brawd ieuangc yn ei ganlyn. Wedi i'r hen frawd gyfarch Mr. Charles, aeth yntau yn mlaen yn wylaidd, ond yn serchus.

'William,' ebe Mr. Charles, 'sut yr ydych chwi? Sut y mae eich mam?'

Yr oedd wedi bod yn yr ysgol yn nhref Caerfyrddin, ac yr oedd yn aelod yn eglwys Heol Dwr; a bu Mr. Charles yn garedig iawn iddo, ac yn ofalus iawn am dano tra yn aros yn y dref. Byddai bob amser yn ei gyfarch ar y ffordd, ac yn ysgwyd dwylaw âg ef. Pethau hawdd, a phethau rhad iawn, yw y rhai hyn, ond mawr iawn eu dylanwad.

'Dafydd,' ebe Mr. Charles, 'pwy yw y gŵr ieuangc sydd yn eich eglwys chwi yn Nghaio am ddechreu pregethu?'

'Ho, dyma fe: William ydyw,' ebe yr hen flaenor.

Erbyn hyn, yr oedd yn bryd dechreu yr odfa.

'A ddechreuwch chwi y cwrdd, William?' gofynai Mr. Charles.

'Gwnaf fi, goreu medraf, syr, attebai William. Felly y bu.

'Gwelaf,' ebe yr hen ŵr wrth fyned adref, 'eich bod chwi yn adnabod Mr. Charles.'

'O, ydwyf,' ebe fe; 'ac y mae yntau yn fy adnabod innau.'

Cyfarfod boreu dydd Llun a ddaeth; sef, cyfarfod i holi yr ymgeisydd am ei brofiad ysbrydol, a'i egwyddorion. Dechreuodd Mr. Charles y cyfarfod drwy ddarllen a gweddio; ac yna, dywedodd wrthynt y gwyddent beth oedd amcan y cyfarfod hwnw. Dywedodd fod ganddynt ddyn ieuangc yn eu plith, yr hwn oedd âg awydd arno i gynghori pechaduriaid, neu i bregethu yr efengyl.

Dywedodd un o honynt fod.

'Wel, deued y brawd ieuangc yn mlaen i'r fan yma,' meddai y gŵr parchedig. 'Man cyfleus i'r holl eglwys ei weled a'i glywed.'

Dacw ŵr ieuangc tàl, llathraidd, a gostyngedig yr olwg arno, yn symmud yn mlaen, ac yn sefyll o flaen Mr. Charles. Yna gofynodd y gweinidog parchus iddo:—

Pa beth a'i dygodd i feddwl am grefydd? A pha bryd y dechreuodd ef feddwl am grefydd? A ydoedd yn gweled ei hun yn bechadur mawr?

Attebodd yntau ei fod yn gweled ei hun y 'penaf o bechaduriaid.'

'A ydych yn gweled yn Iesu Grist ryw gyfaddasder ar eich cyfer fel pechadur colledig?' gofynai y gŵr mawr.

'Yr wyf yn gweled digon yn ei aberth a'i iawn ar gyfer byd o golledigion,' oedd yr atteb. Ond ofnai nad oedd yn credu ynddo, nac yn pwyso arno; 'Canys,' meddai, 'ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn.'

'A ydych chwi yn ceisio, William?' gofynai yr hen weinidog.

'Yr wyf beunydd yn ceisio,' attebai yntau.

'Wel, yn awr, ni gawn glywed eich meddwl a'ch barn chwi fel eglwys am dano.' Yna gofynodd i un o'r hen flaenoriaid beth oedd efe yn feddwl—beth oedd ei farn ef. Dywedai hwnw, pe buasai efe yn gwybod y gallasai y brawd ieuangc ddyweyd tipyn dros Grist, ac yn erbyn y diafol a phechod, y buasai efe yn eithaf boddlawn i William gael cynnyg arni.

'Nis gellwch wybod hyny yn awr,' oedd atteb y cenhadwr.

Tebyg mewn swm a sylwedd oedd attebiad yr hen flaenor arall. Cyffelyb oeddynt attebion y swyddogion eraill.

Yna gofynodd i Rachel, y wraig dduwiol o'r Ynysau, beth oedd ei meddwl hi am yr ymgeisydd. Dywedodd hithau nad oedd hi ddim yn groes. Credai fod digon o allu ynddo i wneyd pregethwr da. Ond carasai yn ei chalon pe buasai yn siarad mwy yn y seiat; ond pa fodd y gallasai siarad, os na elwid arno gan yr hen flaenor?

'Beth sydd gan fachgen fel hwn i'w ddyweyd wrthych chwi yn y seiat? Ni ŵyr ef fawr etto am eich tywydd chwi,' ebe Mr. Charles.

Wedi hyny, gofynwyd y cwestiwn canlynol iddynt bob yn un ac un. Sylwch ar y cwestiwn, dyma fe:—'A wyddoch chwi am rywbeth, neu bethau, yn mywyd neu egwyddorion y bachgen hwn ag a fyddai yn ei gwneyd hi

yn ammhossibl i chwi edrych arno yn codi i fyny yn y pulpud i gynghori pechaduriaid, neu bregethu efengyl y Deyrnas?' Attebodd pob un na wyddai am ddim.

Yn ddiweddaf oll, gofynwyd i Dafydd, yr hen flaenor, pa beth oedd ei farn a'i deimlad ef gyda golwg ar y gŵr ieuangc. Ei attebiad oedd, y buasai yn dda iawn ganddo i Mr. Charles i'w holi yn fanwl am ei egwyddorion.

'Yr ydych chwi,' ebe Mr. Charles, 'wedi cael mwy o amser i'w holi nag sydd genyf fi heddyw.' Gwelai yr hen flaenor, erbyn hyn, fod Prytherch yn debyg o basio *heb dalu y gate* trwy ei wobrwyo ef. Gresyn yw fod cymmeriadau fel hyn yn ein heglwysi ni. Yr unig gwestiwn arall a ofynwyd iddo gan Mr. Charles oedd hwn:—'A ydoedd yn gyfiawn yn Nuw i ethol rhai i fywyd tragwyddol, a gadael eraill yn eu trueni?' Attebiad y gŵr ieuangc iddo oedd:—'Y buasai yn gyfiawn yn Nuw i adael pawb yn eu trueni, ac mai gweithred o anfeidrol ras ynddo ef oedd dewis rhai.' Heb chwanegu cwestiynau (canys gwelai y gŵr mawr o Gaerfyrddin fod y gŵr ieuangc yr oedd efe yn ei holi i fod yn un mawr), gofynodd iddynt, 'Os ydych yn foddlawn iddo gael caniatâd i bregethu, rhoddwch arwydd o hyny trwy godi ar eich traed;' a chododd agos bawb ag oedd yn bresennol.

'Dyna fi drwy y pyrth, ac eglwys Crist wedi rhoddi rhyddid i mi bregethu, *heb fribo yr hen flaenor*,' ebe fe.

Y Sabbath cyntaf ar ol iddo gael caniatâd i bregethu, digwyddodd fod yr hen frawd doniol a duwiol, Dafydd Evans, o Gynwil Elfed, yn pregethu yn Nghaio. Yn nhŷ y capel, cyn oedfa y boreu, gofynai yr hen weinidog:—

'Onid oes genych yn eich plith rhyw fachgen âg eisieu pregethu arno, ac wedi cael caniatâd i dreio?'

'Oes, oes," attebai rhywun; 'a dyma fe.'

Wel, dywedodd yr hen bregethwr fod yn rhaid iddo ddywedyd tipyn o'i flaen ef y boreu hwnw. Ymddengys nad oedd y pregethwr ieuangc yn dangos gormod o barodrwydd i wneyd; a hyny, fe ddichon, yn codi oddi ar ei *ammharodrwydd*.'

'Och! hynod iawn,' ebe yr hen frawd. [Arferai rhyw air fel hyny.] 'Och! hynod iawn,' hyd yn oed yn y pulpud pan yn pregethu.

'Wel, wel,' ebe fe; 'beth oeddit yn cadw cymmaint o sŵn am bregethu; ac a wnai ddim treio yn awr, wedi cael cenad. Mae yn *rhaid* i ti wneyd. Dos ati ar unwaith. Dechreu di yr oedfa, a dywed dy oreu am chwarter awr, neu ugain munyd. Paid byth a bod yn faith. Cyn gynted ag y gweli di y tegell yn berwi, tŷn ef i lawr. Os gweli di ddeigyrn neu ddau yn llygad pechadur, neu glywed Amen. Dyna ddigon o arwydd i ti ddyweyd: 'Nis ymhelaethaf.' Yr oedd pulpud bach yn hen gapel Caio yr amser hwnw, o flaen y pulpud mawr. Aeth Prytherch i'r pulpud bach, a David Evans i'r pulpud mawr. Dechreuodd yr oedfa trwy ddarllen a gweddio; ac wedi canu, darllenodd *Hebreaid* xii. 29, yn destyn:—'O blegid ein Duw ni sydd yn dân ysol.' Rheswm yw y testyn am ddiogelwch teyrnas Dduw. Mae 'yn dân ysol i ddifa y gwrthwynebwyr. Mae y deyrnas yn ddisigl. Mae yn rheswm dros i ni wasanaethu 'Duw wrth ei fodd, gyda gwylder a pharchedig ofn.' Dyma ei destyn cyntaf. Yr oedd ganddo ychydig nodiadau, neu sylwadau, wedi eu rhoddi at eu gilydd oddi wrth yr adnod; ac yr oedd wedi bod drosti yn y gwely lawer gwaith, yn ngwyliadwriaethau y nos. Ond erbyn iddo ddarllen ei destyn yr ail waith, nid oedd yn cofio yr un gair o'r bregeth. Nis gwyddai yn iawn pa beth i'w wneyd.

Yn y teimlad poenus a phryderus hwnw y dechreuodd lefaru. Yr oedd mewn cyflwr a helynt difrifol. Dywedai, ar ol hyny, ei fod ar ddyrysu. Ond ni ddangosodd hyny i neb. Meddai, hyd yn oed y pryd hwnw, ar berffaith hunan-feddiant. Ni welsom neb erioed yn meddu ar fwy o fesur o hono nag ef. Dechreuodd trwy ddywedyd mai peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw, wedi mathru ei Fab ef, a barnu yn aflan waed y cyfammod, a difenwi Ysbryd y gras, wedi gwrthod ac esgeuluso yr iachawdwriaeth sydd ynddo, a syrthio i afael cospedigaeth dragywyddol yn y byd a ddaw. Nis gwyddai yn iawn pa beth a ddywedasai wrthynt, gan nad oedd yn cofio yr un gair o'r bregeth a barotoisai. Ond er pob peth, er colli y bregeth barotoedig, yr hanes yw, mai oedfa fendigedig oedd yr oedfa hono. Cyn diwedd y cyfarfod, dywedir fod y bechgyn a'r merched ieuaingc y bu efe yn cyd-bechu â

hwy yn gwaeddi, ac yn moliannu Duw, a phawb wedi dychrynu. Ond caledu eu calonau wnaeth y rhan fwyaf o honynt; o blegid nid dagrau edifeirwch pur oeddynt. Yr ail dro y pregethodd, cofiodd ei bregeth yn air yn air, o'r dechreu i'r diwedd. Dywedir mai cyfarfod tywyll a du oedd hwnw. Mewn tŷ annedd yn agos i'r pentref y cynnaliwyd y cyfarfod hwn. Cafodd weled a phrofi yn gynnar yn ei fywyd gweinidogaethol:—'Nad yw y rhedfa yn eiddo y cytlym, na'r rhyfel yn eiddo y cadarn, na ffafr yn eiddo y cyfarwydd.' Yr ail Sabbath, yr oedd Cilycwm yn digwydd bod heb bregethwr, a rhoddwyd gwahoddiad iddo i fyned yno, ac hefyd i'r Pannau (dyna oedd enw capel cyntaf y Methodistiaid yn Rhandirmwyn). Aeth trwy y gwasanaeth yn weddol y boreu Sabbath hwnw. Ar y ffordd rhwng y Rhandir a Chilycwm, William Thomas, Cwmbargoed, un o hen flaenoriaid Cilycwm, yr hwn oedd wedi myned i gyfarfod y pregethwr ieuangc, a ddywedodd wrtho:—'Pe bawn yn gwybod fod tipyn o synwyr yn dy hen ben di, mi fuaswn yn rhoi cynghor i ti.'

'Wel, treiwch fi,' ebe yntau.

Wedi myned dros ychydig o'r pethau a ddywedwyd ganddo yn ei bregeth y boreu hwnw, dywedai:—

'Oni buasai yn well pe buasit wedi dyweyd fel hyn ac fel hyn,' ebe yr hen flaenor; ac erbyn iddo orphen dywedyd, yr oedd yn gweled y buasai yn welliant:—'Derbyn perl o enau llyffant.' Y Parch. C. H. Spurgeon a ddywedodd, na byddai efe byth yn swperu gyda neb heb swperu pregeth allan o hono.

Y Sabbath canlynol yr oedd yn pregethu yn Llanymddyfri. Cafodd nerth a goleuni hefyd i bregethu Teimlid fod Duw yn y lle. Wrth fyned allan o'r cyfarfod y noson hono, estynodd rhyw wraig dda hanner coron iddo, a dywedodd:—

'Da machgen i. Duw a'th fendithio.'

Nid oedd yn gwybod pwy oedd y wraig garedig y pryd hwnw: ond deallodd wedi hyny mai Mrs. Jeffreys, Ystradwallter ydoedd. Gwelsom ninnau rai fel hyny.

## PENNOD VI.

*Ei dderbyn yn aelod o'r Cyfarfod Misol yn Myddfai.—Y Sassiwn yn Llandilo-fawr.—Derbyn Thomas Moses, John Jones, Llangyndeyrn ac yntau yn aelodau o'r Gymdeithasfa.—Y Parch. Ebenezer Richards a'i frewyll yn ei law yn fflangellu pregethwyr ieuaingc.—Y Parch. D. Charles, Caerfyrddin yn eu hamddiffyn.*

YN mhen rhyw dri mis o amser wedi iddo gael caniatâd i ddechreu pregethu, yr oedd cyfarfod misol y sir i fod yn Myddfai. Yr oedd y cyfarfod misol hwnw hefyd yn gyfarfod agoriadol ar gapel cyntaf y Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardal hono. Dyma ardal enedigol y bardd, yr athronydd, a'r duwinydd enwog, y Parch. Thomas John Williams (Myddfai), yr hwn, yn ddibetrus, oedd un o bregethwyr mwyaf sir Gaerfyrddin yn y dyddiau hyny. Yr oedd ei bregeth ar y 'Dyn Crist Iesu' yn werth ei hargraphu mewn llythyrenau o aur. Argraphwyd hi yn yr hen gylchgrawn. Clywsom ef yn ei phregethu mewn cyfarfod misol a gynnaliwyd yn Nghwmdwyfran, yn sir Gaerfyrddin. Yr oedd fel angel yn nghanol y nef, â'r efengyl dragywyddol ganddo. Pregethai yn ffenestr y capel, am nad oedd lle i'r holl dyrfa i fyned i mewn. Crogai y cannoedd wrth ei wefusau.

Yr ydym yn cofio yn dda ei fod yn ei bregeth yn sôn am hiraeth yr eglwys am Grist—am weled Duw yn y cnawd. Yr oedd yn gwneyd Crist o bob peth a welsai. Yn debyg i blant yn disgwyl eu rhieni adref o'r farchnad:—Clywent y gwynt yn siglo clicied y drws, a dywedent:—'Ust! beth sydd yna? Nhad a mam;' neu clywent ganghenau yr hen dderwen yn ymrwbio yn erbyn ffenestr ddellt cefn y tŷ, a llefent, 'Ust! beth sydd yna? Nhad a mam' Tynid eu sylw gan ddringlyn yr awrlais, a dywedent:—'Ust! beth sydd yna? Nhad a mam' Felly yr oedd yr eglwys dan yr hen oruchwyliaeth; pan welai yr iwrch neu y llwdn hŷdd yn rhedeg yn groes ar fynyddoedd Bether, torai allan, a

gwaeddai:—'Tro, bydd debyg, fy anwylyd, i iwrch, neu lwdn hŷdd yn mynyddoedd Bether. Brysia, fy anwylyd, a debyg bydd i iwrch, neu lwdn hŷdd ar fynyddoedd y pêrlysiau.' Cododd Prytherch ar ei ol, a chymerodd yn destyn *Pregethwr* xii. 1 :—'Cofia yn awr dy Greawdwr yn nyddiau dy ieuengetid, cyn dyfod y dyddiau blin, a nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedi, Nid oes i mi ddim dyddanwch ynddynt.' Ofnem am dano am amser, am ddeng munyd, neu fwy. Ond yn y man, dacw ei wyneb araul, llawen, yn ymsirioli, a gwaeddai gyda'i nerthol lais:—'Bobl ieuaingc anwyl, canys cenadwri atoch chwi yw geiriau y testyn—cofiwch eich Creawdwr yn awr, *yn awr*, yn nyddiau eich ieuengetid.' Odfa fythgofiadwy oedd hono. Mae adgof am y pregethau hyny yn swnio yn fy nghlustiau fel sŵn rhyw fôr pellenig. Tystiolaeth pawb ag oedd yn yr odfa hono oedd, fod Duw yn y lle. [Maddeuwch y crwydrad hwn, os crwydrad hefyd.] Ar ol myned trwy y rhan ddefosiynol o'r cyfarfod, trwy ddarllen a gweddio, cododd y Parch. D. Charles, Caerfyrddin, ar ei draed, a dywedodd nad oedd ond un blaenor yn eglwys Myddfai i ddyweyd ei brofiad, a'i fod ef, o ganlyniad, yn cynnyg eu bod yn ymddiddan â'r brawd ieuangc, William Prytherch, o Gaio, gydag ef. Ac ar ol rhoi cynghorion difrifol iddo, derbyniwyd ef yn aelod o'r cyfarfod misol, pan nad oedd ond tri mis oed o bregethwr.

Mae yn amlwg ddigon nad oedd yr hen frodyr duwiolfrydig—Owen Lewis, o Llanddeusant, a Daffy Thomas, o Bantygŵin ddim yn eu '*kingdom come*' y pryd hwnw. Nid y *nhw* oedd yn teyrnasu yn y dyddiau hyny; onid ê welaid byth mo Prytherch yn aelod o'r cyfarfod misol yn mhen tri mis, ac yn aelod o'r gymdeithasfa yn mhen chwe' mis. Yn y dosbarth y buasai am bum' mlynedd a chwe' mis, a dywedyd y lleiaf. Gorchymyn Crist oedd:—'Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur.' Ond gorchymyn Owen Lewis oedd:—'Aroswch yn y dosbarth.' Un o'r cymmeriadau crefyddol disgleiriaf o fewn cyfarfod misol y sir y perthynai iddi oedd Owen Lewis, Llanddeusant. Ond y mae yn gwestiwn ag sydd heb ei benderfynu, pa un ai efe ai John Morgan, Penybont, oedd y pregethwr *lleiaf*. Dywedai y Parch. E. Matthews

fod holl bregethwyr y cyfundeb rhwng John Elias, o Fôn, a Shôn Morgan o'r Eweni, neu Penybont. Gadawn y cwestiwn yn agored heb ei benderfynu. Yn mlaen yr oedd Prytherch yn myned gyda nerth—yn mlaen mewn parch gyda dynion—yn mlaen mewn poblogeiddrwydd fel pregethwr—yn mlaen mewn crefydd a duwioldeb—ac yn mlaen mewn defnyddioldeb gydag achos yr Arglwydd. Tystiai wrth rai o'i gyfeillion ar ol i'r arholiad yn y cyfarfod misol fyned drosodd, fod ei ofn a'i bryder yn gymmaint fel na wyddai beth oedd natur y cwestiynau a ofynwyd, na'r attebion a roddwyd:—'O blegid i'r peth ddyfod am fy mhen heb i mi feddwl am dano,' ebe fe. Braidd y gallai sylweddoli fod y peth yn ffaith—ei fod ef yn aelod o'r cyfarfod misol. Edrychai ar hyny yn rhyw beth difrifol a phwysig iawn. Teimlai y byddai raid iddo ymddangos yn y farn fel pregethwr, ac nid fel dyn cyffredin, fel un o lysgenhadwyr (*ambassadors*) nef y nefoedd, ac yntau heb sylweddoli y ffaith y buasai raid iddo roddi cyfrif, megys gweinidog i Grist, a goruwchwyliwr ar ddirgeledigaethau Duw. Yn ol Pedr y mae gweinidogion yr efengyl 'fel daionus oruchwylwyr amryw ras Duw.' Mae y swydd bwysig hon yn awgrymu cyfrifoldeb. Maent yn weinidogion Duw ac yn weinidogion Crist; ac i Dduw y maent yn gyfrifol.

Cynnelid cymmanfa flynyddol gan y Methodistiaid Calfinaidd yn sir Gaerfyrddin yr amser hwnw, ac am hirfaith flynyddoedd wedi hyny. Yn yr haf bob amser y cynnelid hi. Os wyf yn cofio yn iawn, yn mis Mehefin yr oedd yn cael ei chynnal, a chymmanfa ardderchog ydoedd. Edrychid yn mlaen ati gan Fethodistiaid sir Gaerfyrddin fel yr edrychai yr Iuddewon yn mlaen at wŷl y cymmod. Yn y cyfarfod misol o flaen y gymdeithasfa yn Llandilo, yr oedd ganddynt lawer iawn o bethau i'w trefnu gyda golwg arni; ac yn mysg pethau eraill, ymholwyd a oedd rhyw nifer o wŷr ieuaingc—o bregethwyr ieuaingc—yn y sir i'w derbyn yn aelodau o'r gymdeithasfa. Attebwyd fod ganddynt nifer o wŷr ieuaingc o fewn cylch cyfarfod misol y sir, ond eu bod yn rhy ieuaingc. Teimlai Prytherch a John Jones, Llangyndeyrn eu bod wedi colli baich trwm oddi ar eu gwarau. Daeth amser y sassiwn i

fyny, ac aethant i'r sassiwn; ac aethant yn ddigon diofal, diofid, a llawen eu calonau i'w llettŷau y noson hono o'r gymmanfa. Codasant yn foreu dranoeth, ac aethant i'r cyfarfod chwech o'r gloch. Wedi hyny, aethant i'r seiat am wyth o'r gloch; ac ar ol gorphen y rhan arweiniol o'r gwasanaeth, gwelid ysgrifenydd y gymdeithasfa yn codi ar ei draed, a chyda llais clir, clywid ef yn dywedyd mai y gwŷr ieuaingc ag oeddynt i gael ymddiddan a hwynt am eu profiad crefyddol, ynghyd â'u cymmhellion i waith mawr a phwysig y weinidogaeth, a'u derbyn yn aelodau o'r gymdeithasfa, os bernid hwy yn deilwng, oedd Thomas Moses, John Jones, Llangyndeyrn, a William Prytherch, o Caio. Yr oedd Thomas Moses yn ddigon hen i fod yn dad i'r ddau eraill; ac yr oedd wedi dechreu pregethu flynyddoedd lawer o'u blaen. Ystyrid ef gan bawb a'i hadwaenai, yn ddyn da a duwiol:—'ac y mae efe yn y nefoedd er's yn agos i ddeugain mlynedd cyn y flwyddyn un fil wyth cant a phedwar ugain a dwy,' ebe'r gŵr yr ysgrifenwn am dano. Pan yn sefyll i fyny o flaen y gymdeithasfa i gael ei holi, dywedai ei fod yn teimlo yn rhy wan i sefyll ar ei draed, a'i liniau yn curo ynghyd. Y Parch. Owen Jones, o'r Gelli, sir Drefaldwyn, a holodd y cwestiynau, a bu yn dyner wrthynt.

Yn sydyn, a dirybudd, safai y Parch. Ebenezer Richards i fyny yn y gymmanfa â'r ffrewyll yn ei law, a gollyngai yn ddiarbed, ac yn wir, yn ddidrugaredd, ar y pregethwyr ieuaingc. Dywedai eu bod fel hyn ac fel arall, yn anystyriol:—'Yn ddynion llygredig eu meddwl, ac heb fod ganddynt ffurf yr ymadroddion iachus; yn wâg-siaradus, ac yn rhodresgar, gan adrodd y pethau nid ydynt gymmhwys; yn ymchwyddo heb wybod dim, ac heb gyttuno âg iachus eiriau ein Harglwydd Iesu Grist, ac â'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb.' Cododd y Parch. D. Charles, Caerfyrddin, ar ei draed, wedi cael ei gyffroi, fel y mae yn ymddangos, gan eiriau cryfion Mr. Richards, a dywedodd:—'Fe allai eich bod chwi, Mr. Richards, yn adnabod, ac yn gwybod am ryw bregethwyr ieuaingc ag ydynt yn cyfatteb i'r desgrifiad a roddasoch yn awr o ddynion ieuaingc ag sydd yn y weinidogaeth; er fy mod i yn mawr obeithio nad oes yr un yn ein plith yn cyfatteb i'r desgrifiad. Ond

gwybydded pawb yn y gymmanfa yma heddyw, nad rhai felly yw y gwŷr ieuaingc hyn; ond tra gwahanol. Gwŷr ieuaingc yw y rhai hyn ag sydd 'â gair da iddynt gan bawb, a chan y Gwirionedd ei hun.' Gwŷr ieuaingc hardd yn eu buchedd a'u bywyd—gẃyr ieuaingc na roddasant achos na lle i neb eu gwaradwyddo, ac i edrych yn isel ar weinidogion yr efengyl; o blegid eu cam-ymddygiadau hwy.' Eisteddodd Mr. Richards i lawr heb chwanegu ymadroddion. Derbyniwyd y tri yn aelodau o'r gymmanfa; ac felly, yr oedd gan y brawd hawl i fyned am Sabbath i ryw sir arall. Yn ystod y gymmanfa, addawodd fyned am Sabbath i Ystradgynlais; neu yn fwy cywir, i Cwmgiedd; ar yr ammod y byddai iddynt ddanfon dyn a cheffyl i'w gyfarfod i Bontarllechau, Llanddeusant. Erbyn cyrhaedd yno prydnawn ddydd Sadwrn, ar yr amser y cyttunwyd arno, yr oedd y brawd anwyl a dihoced William Owen, un o flaenoriaid Cwmgïedd, yn brydlawn yn ei gyfarfod, a chanddo gaseg lâs i'w gario. Wrth fyned o Bontarllechau i Cwmgïedd, yr oedd yn rhaid myned trwy yr afon Twrch, yr hon sydd yn rhedeg yn groes ar y Mynydd Du, yn sir Gaerfyrddin. Y mae yn debyg ei bod yn tywallt y gwlaw trwy gydol y dydd. Yr oedd fel y gwlaw y soniai Ezeciel am dano—y gwlaw bythgofiadwy ar Gog—'Gwlawiaf hefyd gurwlaw, a cheryg cenllysg arno ef.' Yr oedd y pregethwr a'r blaenor am y gwlypaf. Fel afon, ettyb Twrch i'r dim i'w henw. Fel y mae ei henw, felly y mae hithau. Ar ol diwrnod o gurwlaw, yr oedd llif mawr yn yr afon. Tyrchai, brochai, berwai yr afon, fel yr oedd yn beryglus i fyned trwyddi. Nis gellir osgoi yr anocheladwy. Er mor arw, rhaid myned trwyddi.

'A allwn ni fyned trwyddi, William Owen?' gofynai y pregethwr.

'Gallwn,' attebai William Owen yn, dawel. 'Yn awr,' meddai, 'mi äf fi ar y cyfrwy, a chewch chwithau fod o'r tu ol i mi [nodweddiadol iawn o flaenor]; o blegid *gwn i yn well na chwi* pa fodd i gadw pen y creadur.'

Ar ei chefn yr aethant ill dau, ac i'r afon; a buan y teimlent y dwfr yn rhedeg dros gefn y gaseg, ac ofnent mai boddi a wnaent cyn iddynt gyrhaedd y tu arall; ond cyrhaeddasant yn iach a diogel i'r ochr draw. Yr

oeddynt yn credu y gwirionedd sydd yn gynnwysedig yn y pennill gwerthfawr hwnw:—

'Rhaid oedd bod Rhagluniaeth ddistaw,
  Rhaid oedd bod rhyw arfaeth gref,
Yn ein rhwymo heb i'n' wybod
  Wrth golofnau pur y nef;
    O! Ragluniaeth,
Ti sy'n trefnu'r ddaear faith.'

Wedi disgyn oddi ar gefn y gaseg, yr oedd y dwfr yn rhedeg oddi wrthynt fel oddi wrth ddau lwdn newydd ddyfod i fyny o'r olchfa. Credent fod eu mynediad trwy yr afon dan y fath amgylchiadau, y llifeiriant mor fawr, a'r afon yn rhedeg mor chwyrn, yn gymmaint gwyrth a mynediad cenedl Israel trwy y Môr Coch; a theimlent yn ddiolchgar i'r Arglwydd am estyn y fath waredigaeth iddynt.

Aethant yn y blaen gyda phob brys, ar ol croesi yr afon; Prytherch ar gefn y gaseg lâs, a William Owen, *poor fellow*, yn cerdded; ac wedi hyny marchogent bob yn ail, (*ride and tie*). Cerddwyr mawr oedd yr hen bregethwyr. Cofus genyf glywed am y Parch. John Jones, Llandyssul, gweinidog gyda y brodyr parchus y Bedyddwyr, yn gofyn a'r gân i'w frawd parod ei ddawn, y Parch. B. Thomas, Cwmduad, sir Gaerfyrddin, 'Ai ar ei draed yr oedd yn myned at ei gyhoeddiad?' 'Ië,' oedd yr atteb:—

'Ar ei draed oedd Iesu grasol,
Ar ei draed oedd Paul apostol;
Ar ei draed oedd Pedr danllyd,
Ar fy nhraed 'rwyf innau hefyd.'

Yr oedd ganddynt i fyned heibio i dŷ fferm o'r enw Penyrheol; a gwelwyd hwy oddi draw yn y pellder yn dyfod gan ŵr y tŷ, a gwyddai am y tywydd mawr, dryghinog, ystormus, yr oeddynt wedi dyfod trwyddo; a gwaeddai ar William Owen, gan ddywedyd:—

'Will, *stop*; aros lle yr wyt ti, a phaid a symmud cam hyd nes y delwyf yn ol,' ebe fe; a rhedai nerth ei draed i'r tŷ, a dychwelai gyda brys, gyda photel o gin mewn un llaw, a chwpan yn y llaw arall; a holai hwynt yn fanwl pa fodd y daethant trwy y Twrch. Ofnai pawb i groesi yr afon Twrch ar ol tywydd tymmhestlog.

'Dyna,' ebe John Williams, ar ol tywallt cwpanaid mawr o gin, a'i estyn iddynt:—'Dyna,' ebe fe; 'yfwch hwna, fe dwymna hwna dipyn arnoch chwi. Yfwch ef, peidiwch a'i ofni e; o blegid yr ydych yn edrych fel dwy lygoden wedi boddi.'

'Doedd dim sôn yr amser hwnw am ddirwest, ond yn y Beibl. Wedi yfed y gin, yn y blaen yr aethant, ac i dŷ capel Cwmgïedd, lle yr eisteddai Mr. Daniel Jones, yr hwn oedd y prif flaenor yn Nghwmgïedd yn y dyddiau hyny. Gan gyfarch William Owen, gofynai iddo:—

'Wel, Will, pa un ai ar gefn ffydd ai ar gefn rhyfyg y daethost ti trwy yr afon Twrch heddyw, dywed? Carwn yn fawr gael clywed genyt.'

'Nid ar gefn y naill na'r llall,' attebai William Owen, 'ond trwy gyfryngiad yr un gallu dwyfol ag a barthodd y môr i wneyd ffordd i'r genedl sanctaidd i fyned drosodd.'

Cafodd Prytherch fenthyg dillad gŵr y tŷ i'w gwisgo, a gwraig y tŷ yn garedig a ofalodd am osod ei ddillad o flaen y tân i sychu erbyn boreu y Sabbath. Pregethodd dair gwaith y Sabbath hwnw, a chafodd gyfarfodydd rhagorol; ac yr oedd yn amlwg fod Duw yn y lle. Am ddeg o'r gloch boreu y Sabbath, cafodd gymmhorth neillduol i bregethu. Am ddau o'r gloch yr oedd yn pregethu mewn ystafell ëang perthynol i ryw waith, yn îs i lawr yn y Cwm. Cafwyd benthyg yr ystafell hono trwy garedigrwydd brawd parchus o'r enw Mr. David Thomas, yr hwn oedd yn brif oruchwyliwr y gwaith. Ymfudodd i America yn mhen blynyddoedd; a'r hanes a geir am dano yw, ei fod wedi bod yn llwyddiannus iawn i gasglu cyfoeth. Yr oedd yr odfa yn y prydnawn yn odfa nerthol anarferol. Dywedodd wirioneddau heilltion a geirwon wrthynt; ac y mae yn ymddangos na buont yn aneffeithiol. Yr oedd yn pregethu yn y capel am chwech o'r gloch prydnawn Sabbath, a throdd allan yn odfa lewyrchus ryfeddol. Barnai yr hen frodyr anwyl a duwiol ag oeddynt yn byw y pryd hwnw, fod ganddo genhadwri oddi wrth Dduw i'w thraddodi wrth bechaduriaid. Mynasant gyhoeddiadau ganddo am y blynyddoedd dilynol; ac ni bu un adeg oddi ar hyny hyd derfyn ei oes faith nad oedd ei enw ar lyfr cyhoeddiadau capel Cwmgïedd. Tipyn o gamp yw i

bregethwr i fod ar lyfr yr eglwys hyd ddiwedd ei oes, ac i fod yn gymmeradwy hyd y diwedd. Pan oedd yr Hybarch W. Evans, Tonyrefail, yn bedwar ugain a deng mlwydd oed, awyddai yr eglwysi am iddo roddi cyhoeddiadau am y blynyddoedd i ddyfod iddynt; cydsyniai yntau â'u cais, a phan yn ymadael a'u gilydd, dywedant wrtho:—

'Gobeithio y byddwch byw i ddyfod at y cyhoeddiadau nesaf, Mr. Evans.'

'Os na byddaf,' attebai yntau, 'byddaf yn *leicio* bod fy enw i ar y llyfrau.'

Yn mhen ychydig o amser ar ol hyn, yr oedd Cyfarfod Misol sir Gaerfyrddin yn digwydd bod yn Pantgwyn; ac, yn ol yr hanes a gawn, ymddengys fod yr hen frawd anwyl, y Parch. Thomas Harris, o Blaenafon, yn bresennol yn y cyfarfod; ac meddai wrth Mr. Charles, Caerfyrddin, 'Gadewch i un o'r gwŷr ieuaingc sydd wedi dechreu pregethu yn ddiweddar yn eich plith ddyfod gyda mi ar daith trwy sir Aberteifi. Yr wyf yn hen, ac yn teimlo i ryw raddau yn llesg ar hyn o bryd;' a digwyddai Prytherch fod yn bresennol ar yr amser, a gofynodd Mr. Charles iddo a ä'i efe gyda y gŵr da hwnw am ychydig o daith drwy sir Aberteifi.

'Af fi, syr,' dywedai yntau, yn dra gostyngedig, 'os ydych chwi yn gofyn i mi fyned.'

Aethant gyda'u gilydd yn gysurus. Dechreuai yr odfa o'i flaen, a phregethai yn fyr bob tro o'i flaen. Yr oedd yn hen ŵr dymunol, a phregethai i bwrpas, yn enwedig ar y geiriau hyny:—'Yr hwn y mae ei wyntyll yn ei law, ac efe a lwyr lanhâ ei lawr dyrnu, ac a gasgl ei wenith i'w ysgubor; eithr yr ûs a lysg efe â thân anniffoddadwy.' Ar ol disgrifio y nithio i gael yr ûs i ffwrdd, sef proffeswyr gau o blith y saint, 'Dyna, yn awr,' meddai perchen y gwenith; 'cauwch y drws, '*does dim eisieu chwaneg o wynt*. Gogr troi yn awr, i gael yr hadau mân o hono.' Yr hadau mân oeddynt hunan-les a hunan-enw; 'A bydd yr hunan yma,' meddai yr hen bregethwr, 'yn dal ei afael yn y credadyn hyd yn oed yn ei oriau olaf—yn angeu.'

## PENNOD VII.

*Ei ddyfodiad i gyffyrddiad â'r Parch. John Jones, Llangyndeyrn.—Hanesion difyr am danynt.—John Jones yn myned i Langeitho i bregethu.—Perswadio John Jones i roddi y 'shawl' am ben y ceffyl rhag iddo gael 'inflammation' ar yr ymenydd.—Yn darbwyllo John i fyned i ben y gareg fawr, a gwaeddi.—Gofid John wrth feddwl am bregethu yn ngwydd y Parch. Ebenezer Richards.*

TUA'R amser hwn y ffurfiwyd cyfeillgarwch ac adnabyddiaeth rhyngddo a'r anwyl frawd John Jones, Llangyndeyrn: a ffurfiwyd y fath gyfeillgarwch rhyngddynt y pryd hwnw ag a barhaodd am y tymmor maith o bedair blynedd ar ddeg a deugain. Buont yn gyfeillion mynwesol, cywir, ac anwyl drwy eu hoes. Yr oeddynt fel Dafydd a Jonathan—'enaid y naill a ymglymodd wrth enaid y llall, ac yr oedd y naill yn caru enaid y llall megys ei enaid ei hun.' Yr oeddynt yn anysgaradwy yn eu bywyd. Angeu yn unig a allasai eu hysgar. 'Câr cywir, yn yr ing y'i gwelir.'

Teithiasant lawer iawn gyda'u gilydd ar hyd a lled Cymru i bregethu 'efengyl y deyrnas;' a phregethasant hi ugeiniau o weithiau gyda nerth a dylanwad mawr; ïe, gydag arddeliad—gydag 'eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw.' Bu yn dda gan filoedd ag sydd heddyw yn y nef, a miloedd sydd yn aros ar y ddaear, gael y fraint i eistedd dan eu gweinidogaeth hwy; a'u profiad ydoedd, fod eu 'ffrwyth yn felus i'w genau.' Byddaf, ar brydiau, yn dychymygu fy mod yn clywed soniarus sŵn nefolaidd lais Llanedi ar fy nghlustiau yn gwaeddi '*Gogoniant! Gogoniant!!*' Byddai yn dyfod â'r ymadrodd yma i mewn yn ei bregeth weithiau, wrth sôn am ei gariad at Sali, ei wraig. Clywsom ef mewn hwyl nefolaidd ar ganol ei bregeth yn dyweyd fel hyn:—'Y mae gen' i gariad mawr at Sali, fy ngwraig—bendigedig y bo hi: ond yr wyf yn meddwl na ddigiai hi ddim pe dywedwn i fod genyf gariad mwy at

Iesu Grist — Gogoniant, Gogoniant!!' Mwynhëais fy hunan lawer tro wrth wrandaw arno yn canu mewn ambell i gymdeithasfa. Ei weled a'i glywed ar *stage* y gymmanfa yn canu oedd wledd fawr i mi. Clywais ef yn canu y pennill hwnw (ei hoff bennill):—

'O! anfeidrol rym y cariad!
  Anorchfygol ydyw 'r gras,
Digyfnewid yw 'r addewid,
  Bery byth o hyn i maes.'

A phan yn dyfod at y geiriau hyny:—

'Hon yw 'm hangor ar y cefnfor,
  Na chyfnewid meddwl Duw;
Fe addawodd na chawn farw,
  Yn nghlwyfau 'r Oen y cawn i fyw.'

Teimlwn na chlywais ddynol lais erioed mor nefol beroriaethus. Y mae yn gôf genyf ei glywed ef yn pregethu ar y geiriau hyny, 'Oni bydd eich cyfiawnder yn helaethach na chyfiawnder yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, nid ewch chwi ddim i mewn i deyrnas nefoedd.' Cymmharai gyfiawnder yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid i huganau byrion y bechgyn (*short coats*). Y mae cyfiawnder y Phariseaid fel y *Taglioni Coats* yma sydd gan y bechgyn, y rhai nad ydynt yn cyrhaedd hyd hanner eu cyrph,' ebe fe; 'ond y mae cyfiawnder y Saint,' dywedai, 'fel hen *surtout* fawr y wlad—hen gôb fawr y wlad yn eu cuddio hyd y llawr—Gogoniant, Gogoniant!!' Y mae yr ystoriau a'r hanesion difyr sydd ar hyd y wlad, a thrwy Gymru, am danynt yn aneirif. Anhawdd iawn ydyw gwybod a phenderfynu pa rai i'w gosod i mewn yn y cofiant, a pha rai i'w gadael allan.

Unwaith, pan oedd John Jones yn myned am y waith gyntaf i Llangeitho i bregethu, teimlai yn ofnus a phryderus wrth feddwl am bregethu yn nghapel yr anfarwol Daniel Rowlands, y seraph-bregethwr. Dyn a alwyd gan Dduw oedd y dyn hwnw, ac a gynnysgaeddwyd ac a eneiniwyd â doniau gweinidogaethol tu hwnt i'w gyfeillion. Un ydoedd o sêr disgleiriaf y Diwygiad Methodistaidd. Ofnai wrth feddwl am bregethu yn nghapel y gweinidog byd-enwog hwn. Adroddodd ei dywydd a'i deimlad wrth Prytherch, a gofynodd am gynghor iddo

gyda golwg ar pa beth i'w wneyd—pa un ai myned ai peidio, canys gwyddai ei fod ef wedi bod yno. Dywedodd yntau y gallai fyned i Llangeitho i bregethu heb ofn na braw; ond ei bod yn bwysig iddo gofio hyn, y byddai yno ddyn bychan yn ei wrandaw, yr hwn a fyddai yn eistedd yn y gadair fawr o dan y pulpud. Cynghorai ef i gadw ei lygad ar hwnw; o blegid byddai pob peth yn dibynu yn gwbl ac yn hollol ar pa beth fyddai barn hwnw am dano; ac os na byddai yn bwysau yn nghlorian hwnw, ysgrifenid 'Tecel uwch ei ben ef—'Ti a bwyswyd yn y clorianau, ac a'th gaed yn brin.' 'Dyna fy nghynghor i ti,' ebe fe;' ac y mae yn bwysig i ti weithredu yn ei ol.' Dywedai wrtho, 'os deuai hwnw allan o'r gadair, a sefyll ar ei draed yn nghanol y sedd fawr, gan edrych yn graff yn ei wyneb, y byddai yn llawn bryd iddo ddibenu.'

Er llyfrdra ei ysbryd, ac iselder ei feddwl, aeth John Jones i Llangeitho i bregethu, ond nid heb ofn Duw yn ei enaid; o blegid yr oedd yn ei enaid barch i Dduw, a'i dŷ, a'i ddeddfau. Ond yr oedd arno lawer iawn mwy o ofn Dafydd Jones, Dolau Bach, y tro hwn nag oedd arno o ofn Duw. Yn y tŷ capel, cyn dechreu yr odfa, edrychai yn wylaidd, yn welw ei wedd, a theimlai yn barod i lewygu gan ofn. Daeth yr amser i fyny i ddechreu yr odfa. Allan yr aethant i'r capel. Wrth fyned, tarawai John ei droed yn erbyn pob careg fach, ac esgynai risiau yr areithfa fel dyn heb nerth ynddo. Darllenodd y bennod ar ddechreu y cyfarfod yn hylaw, araf, a phwysleisiol, fel y dylid gwneyd bob amser; 'ac mewn gweddi, efe a weddïodd' nes yr oedd y gynnulleidfa mewn nefol hwyl i addoli. Cymmerodd ei destyn, ac aeth yn mlaen yn hwylus gyda'i bregeth, ac ymddangosai pawb wrth eu bodd. Ond cyn pen hir iawn wedi iddo ddechreu pregethu, dacw y dyn bach yn gadael y gadair, ac yn sefyll i fyny ar ei draed yn nghanol y sêt fawr, gan edrych yn wyneb y pregethwr, yr hyn oedd yn arwydd sicr i'r gynnulleidfa ei fod yn mwynhau y bregeth. Ond dyma y pregethwr yn ei thori yn fýr, yn diweddu yn ddirybudd ac yn sydyn, er mawr siomedigaeth i'r holl bobl oedd wedi dyfod at eu gilydd i wrandaw y pregethwr ieuangc poblogaidd; ac yn enwedig er mawr siomiant i'r brawd oedd wedi codi ar ei draed yn

y sêt fawr. Wedi cyrhaedd tŷ y capel, dyna y gŵr oedd yn eistedd yn y gadair o dan y pulpud yn gofyn i'r pregethwr pa ham y rhoddodd efe i fyny mor fuan erbyn eu bod yn dechreu cael blâs arno?

'Fel yna yr oeddwn i wedi cael fy nghyfarwyddo,' ebe John Jones. 'Y byddai eich gweled chwi ar eich traed yn nghanol y sêt fawr yn ddigon o arwydd i mi nad oedd fy ngweinidogaeth yn gymmeradwy a derbyniol yn eich golwg.'

'Pwy ddywedodd hyny wrthych chwi?' gofynai y blaenor.

'William Prytherch,' dywedai John.

'Wel, wel. Rhyfedd iddo byth,' ebe'r blaenor. 'Pwy ond efe fuasai yn meddwl am y fath beth.'

Lliosog yw y chwedlau a daenir drwy y wlad am y ddau frodyr hyn; a rhaid i ni ddyweyd mai di-sail a di-werth ydyw llawer o honynt. A ganlyn ydyw ychydig o lawer o honynt:—Dywedir iddo ddarbwyllo John Jones, ar ystorm o eira a rhewwynt, i dynu y *shawl*, yr hon oedd am ei wddf ef, a'i rhoddi am ben y ceffyl, rhag iddo gael ennynfa ar yr ymenydd *(inflammation of the brain)*. Rhyw dro, pan yn *supplio* rhai o'r eglwysi Cymreig yn Llundain, yn annisgwyliadwy, gwelai y Parch. Dr. Owen Thomas gyda gwên ar ei wyneb hardd a duwinyddol yn dyfod i'w gyfarfod. Wedi dyfod yn ddigon agos, dywedodd y doctor wrtho, 'Wel, dyn tost ydych chwi, yn peri i John Jones, Llangyndeyrn, druan tlawd, dynu y *shawl* oddi am ei wddf, a'i rhoddi am ben y ceffyl rhag iddo gael *inflammation* ar yr ymenydd.' Yr ydym yn sierhau y darllenydd, ar air gwrthddrych y cofiant hwn, nad oedd yn gwybod dim am hyny o'r blaen. Dim yn y byd a wyddai am y fath beth cyn i'r doctor ddyweyd wrtho. Ond gwyddai nad gwiw ammheu y doctor; o blegid dyna sydd yn cyfansoddi y gwahaniaeth rhwng Dr. a dyn arall, ei fod yn gwybod yn well na dyn cyffredin arall. Ar ol dychwelyd adref o Lundain, aeth ar ei union i weled John Jones, a holodd ef yn fanwl gyda golwg ar yr amgylchiad. A ydoedd y peth yn ffaith? A oedd rhyw sylwedd yn y chwedl? A oedd hi yn ffaith ddarfod iddo ef dynu ei warlun (*shawl*) oddi am dano, a'i rhoddi am ben y ceffyl,

rhag iddo gael 'ennynfa ar yr ymenydd?' Gofynai i John roddi yr hanes yn syml. Dywedai yntau fod yr hanes yn sylweddol wir; o blegid fel yr oedd yn dychwelyd o'i gyhoeddiad boreu ddydd Llun, daeth yn ystorm o eira mân a sych, yr hwn a luchid i glustiau y ceffyl gan wynt cryf, fel yr oedd yn ammhossibl ei lywodraethu. Yr oedd fel creadur yn y bendro; a thynodd ei *shawl* oddi am ei wddf, a rhwymodd hi am glustiau y ceffyl; a daeth y creadur i'w bwyll fel ceffyl arall.

Dyna chwedl arall o'r un ansawdd (*category*) ydyw hono, yn yr hon y dywedir iddo, pan oeddynt yn myned gyda'u gilydd ar daith trwy un o siroedd y Gogledd, alw sylw John Jones at ryw gareg fawr o anferth faintioli, yr hon oedd yn ymyl y ffordd fawr yr oeddynt yn teithio ar hyd-ddi, ac iddo ddywedyd wrtho mai careg ryfedd anghyffredin iawn oedd hi. Nad oedd careg debyg iddi yn ein gwlad ni, nac yn yr holl fyd. Dywedai mai careg *fawr fud* y byd oedd hi. Ei bod yn llyngcu pob sŵn yn hollol iddi ei hun. Pe buasai rhywun yn myned i'w phen, neu sefyll arni, a gwaeddi â'i holl nerth, na fuasai y rhai agosaf ato yn clywed dim o hono. Erbyn hyn, teimlai Llanedi yn orawyddus am weled y gareg; o blegid nid oedd wedi clywed am gareg gyffelyb iddi erioed o'r blaen. 'Wel, dere ati, i mi gael ei gweled hi, a'i threio hi,' ebe John. Felly, aethant ynghyd at y gareg; ac ar ol myned oddi amgylch iddi, a'i chwilio yn ofalus, aeth ein gwrthddrych i'w phen, ac agorai ei enau, ac ymddangosai yn debyg i ddyn yn pregethu â'i holl nerth, a thaflai ei freichiau yn y gwynt, fel un ag oedd yn gwneyd ei oreu glâs i beri i'w gyfaill glywed; ond nid oedd llef, na neb yn atteb. Ar ol disgyn oddi ar ben y gareg, gofynodd i'w gyfaill a oedd wedi ei glywed:

'A glywaist ti fi, John?' ebe Prytherch.

'Naddo, naddo, dim o gwbl,' ebe yntau.

'Wel, mi af fi i fyny i'w phen,' ebe Llanedi;' ac iddo, ar ol esgyn, a rhoddi ei hun mewn tretn, gyda'i lais mawr soniarus, ddechreu gwaeddi rhyw wirionedd difrifol, rhyw gyfran arbenig o un o'i bregethau, ac iddo fyned i lawr, a gofyn iddo a ddarfu iddo ei glywed.

'Clywed,' ebe yntau, 'doeddit ti ddim yn gwaeddi;' ac

yna, i John fyned drachefn i ben y gareg, a gwaeddi, gan ddyrchafu ei lais fel udgorn, fel ag i gynnhyrfu yr holl gymmydogaeth gyfagos. Rhedent o bob man, gan holi yn bryderus pa beth oedd yr achos o'r gwaeddi mawr hwn. Ofnent fod dydd brawd wedi eu dal yn ddirybudd. Y mae hon, fel ambell i chwedl arall a daenir ar hyd y wlad, yn hollol ddisail. Gallwn ddyweyd, ar dystiolaeth y prophwyd o Gaio, nad oedd dim mwy o wirionedd yn y chwedlau hyn nag oedd o wirionedd yn chwedloniaeth (*mythology*) y Groegiaid. Rhaid, gan hyny, fod cryn lawer o'r hyn a ellir yn briodol ei alw yn ysfa i siarad (*cacoethes dicendi*) wedi meddiannu y bobl a roddodd fod i'r fath sothach gwael. Yr oedd gan ein gwrthddrych ormod o barch i'w gyfaill anwyl Llanedi i wneyd hyn âg ef. Ni chymmerasai mo'r byd am gynnyg dolurio teimlad ei gyfaill a'i frawd. Yr oedd y Parch. John Jones yn dyner, a byw iawn ei deimlad, ac yn eithafol o bruddglwyfus. Ond yr oedd ein gwrthddrych yn adnabod ei ddolur yn dda iawn, yn well nag un dyn arall ar y ddaear. Byddai yn aml yn meddwl ac yn credu ei fod yn sâl, ac yn agos i angeu; a byddai pobl ag oeddynt yn meddu ar natur ddynol dda, a'r rhai nad oeddynt yn ei adnabod, yn barod i gwyno iddo: a pha fwyaf a gwynid iddo, pa fwyaf o gydymdeimlad a ddangosid tuag ato, byddai ei ddolur yn myned yn waeth; a'r tebygolrwydd ydyw, pe buasid yn parhau i gwyno iddo, y buasai yn gwneyd ei oreu i farw. Ond deallai ein harwr natur ei glefyd, a deallai pa beth a wnai fwy o les iddo na chwyno iddo. Ymddengys fod pob clefyd yn ei dro yn ymweled âg ef, ac yn ei gymmeryd. Yn ol ei syniad ef, ymwelodd pob cystudd ag y mae y corph dynol yn ddarostyngedig iddo âg ef. Un diwrnod, wedi bod am ddyddiau oddi cartref, pan yn nghymmydogaeth Criccieth, yn sir Gaernarfon, dyna fe yn dyweyd, gyda golwg ofidus a phruddglwyfus arno, ei fod bron a thori ei galon yn lân, am ei fod yn methu a deall pa beth a wnai pe buasai Sali ei wraig yn marw o'i flaen.

'Marw o dy flaen di, John? Paid a chamsynied, a phaid a myned i gyfarfod â gofidiau; y rhai, o bossibl, byth ni ddeuant,' ebe y gŵr o Gaio.

'Wel, clyw,' ebe fe, 'ceisio meddwl a dyfalu wyt ti yn

awr pwy gei di yn wraig i ti pe bae Sali yn digwydd marw.'

'Nage, nage,' ebe fe; ac erbyn hyn, gwelent ryw wraig yn myned o'u blaenau ar hyd y ffordd. Gwahoddai a chymmhellai ein gwrthddrych ef i frysio i ddyfod yn mlaen.

'Dere yn mlaen, dere yn mlaen,' ebe fe wrth John; 'fe allai y cymmer y wraig fach acw sydd yn myned o'n blaen drugaredd arnat ti;' a ffwrdd âg ef ar ol y ddynes, a gofynai iddi am y ffordd oedd yn arwain i'r capel. Pa le yr oedd yn byw? Ac a oedd ei gŵr hi yn fyw? Attebai hithau nad oedd.

'William, rhaid i ni fyned ychydig yn gynt,' ebe John. Gwyddai ei fod wedi ei wella yn holliach a llwyr erbyn hyny, ac yr oedd yn eithaf da wedi cael gwared o'r gofid hwnw.

Dro arall, dywedai wrtho ei fod yn sâl—yn waeth nag arferol, yn beryglus o sâl; a rhoddai enw ar y cystudd. Byddai ganddo enw bob amser ar y dolur, a hwnw yn enw cyfaddas iawn, debygai ef. 'Wel, rhyfedd byth,' ebe gwrthddrych y cofiant wrtho, 'y mae pob dolur wedi galw gyda thi, pob clefyd wedi dy dreio, ac y maent wedi ffaelu dy gwympo di. Pan y byddo rhyw glefyd yn galw gyda thi byth ond hyny, dywed wrtho, *No admittance*.' Yna chwarddai yn iachus; ac ni chlywid sôn am y dolur y diwrnod hwnw.

---

## PENNOD VIII.

*Parhâd o hanes John Jones a Prytherch.—Ei ofid wrth feddwl am bregethu yn nghlywedigaeth y Parch. Ebenezer Richards, Tregaron.—Dr. Richards a John Jones.—Y Dr. yn profi y claf yn nhŷ ei dad.*

Er ei holl salwch, ni pheidiai a phregethu; o blegid llwyddai ein gwron i'w wella yn barhaus. Heb law hyny, yr oedd pregethu yn ei ysbryd. Nid ydym yn cofio yn bresennol i ni weled neb yn meddu ar ysbryd mwy efengylaidd nag ef. Yr oedd ynddo debygrwydd mawr iawn i'r Parch. J. Evans, Llwynffortun, yn efengyleidd-dra ei

ysbryd. Llawer gwaith y gwelsom ef yn wylo, ac yn gwenu wrth bregethu fel heulog araul gawodau y gwanwyn.

Fel y dywedasom, llwyddai ein cyfaill i'w wella cyn yr odfa bob amser, a hyny mewn ffordd ddigrifol iawn. Yr oedd ambell un arall yn medru ar y ddawn o'i wella yn rhwydd. Un boreu, yr oeddynt yn myned o Llanddewibrefi i Dregaron, i bregethu; ac ymddangosai John Jones, er pan gychwynasant yn y boreu, yn ofidus, ac isel o ran ei ysbryd; ond ni chwynai, ac ni ofynai ein cyfaill ddim iddo; ond gwyddai yn dda iawn pa beth oedd ei brofedigaeth. Ofni yr oedd, y byddai y Parch. Ebenezer Richards gartref, ac y byddai raid iddo bregethu yn nghlywedigaeth y gŵr mawr hwnw. Pwysai a gwasgai hyny fel hunllef ar ei feddwl.

Ar eu ffordd i Tregaron, cyfarfuasant â dyn â cheffyl a throl ganddo; a hwnw, yn foesgar a pharchus, a'u cyfarchodd hwynt, gan ddywedyd:—

'Gwelaf eich bod yn myned i Dregaron heddyw i bregethu. Mae disgwyliad mawr am danoch yn y dref a'r wlad.' 'Yr wyf finnau, fel y mae yr anffawd,' ebe'r dyn, 'yn cael fy ngorfodi gan amgylchiadau i fyned oddi cartref —caraswn yn fy nghalon fod gartref, i mi gael y fraint o'ch gwrandaw chwi. Cefais bleser mawr a neillduol wrth eich gwrandaw chwi neithiwr.'

''Does dim i'w wneyd, anwyl frawd,' ebe Prytherch. 'A ydyw Mr. Ebenezer Richards gartref?'

'Ydy, ydy, gwelais ef boreu heddyw, cyn cychwyn,' ebe'r dyn.

Aeth John heb yr un gair. Aethant yn mlaen ar eu cyfer i dŷ Mr. Richards, yr hwn a'u derbyniodd yn llawen a chroesawgar. Tŷ Mr. Richards oedd lletty a chartref yr holl bregethwyr yr amser hwnw. Aethant yno cyn yr odfa; ac yr oedd Dr. Richards, mab y Parch. Ebenezer Richards, yn digwydd bod gartref yr adeg hono; ac yr oedd efe yn eu hadnabod er pan yn ieuangc iawn. Yr oedd y Dr. hefyd yn deall ac yn adnabod dolur John lawn cystal ag yr oedd ei gyfaill yn ei adnabod. Deallodd ar unwaith wrth ei lygaid ei fod yn sâl, a gwyddai yn eithaf da mai ofn pregethu yn nghlywedigaeth ei dad

oedd yr achos o'r anhwyldeb. Ymofynai yn fanwl a charedig yn nghylch eu hiechyd. Attebai gwrthddrych ein hysgrif, gan ddiolch i'r Doctor am y dyddordeb dwfn a deimlai yn eu llwyddiant, a'u ffyniant, a'u hiechyd, ei fod ef yn berffaith iach; ond nad oedd ei anwyl gyfaill ddim yn iach; ac nid yn unig hyny, ond ei fod yn bur sâl er y boreu hwnw.

'Beth sydd arno, William?' gofynai y Doctor. 'Beth yw natur ei afiechyd? A ydyw wedi bod yn hir yn sâl?'

'Wel, yr ydych chwi yn feddyg, syr—yn feddyg mawr; fe allai y gwelwch chwi fod yn dda, gan eich bod chwi yn deall y gelfyddyd feddygol, celfyddyd iachau clefydau, fe allai y gwnewch chwi edrych arno, a'i *examino* ef. Mae e' yn eithaf gwael trwy y boreu,' attebai yntau.

Dywedai y Doctor fod yn wir ddrwg ganddo glywed fod ystâd ei iechyd mor beryglus; a dyna y Doctor yn cymmeryd gafael yn ei law, ac yn teimlo curiad y gwaed—yn teimlo ei *pulse* ef; ac yr oedd golwg dditrif-ddwys ryfeddol ar wyneb y Doctor wrth deimlo afreoleidd-dra y *pulse*. Gofynai iddo ddangos ei dafod. Mae yn gwneyd. Gallesid meddwl wrth edrych ar y meddyg yn awr fod y tafod yn arwyddo yn ddrwg iawn, ac yn dangos fod sefyllfa ei iechyd, mewn gwirionedd, yn beryglus.

'Carwn gael gwybod,' ebe gwrthddrych y bywgraphiad hwn—'carwn gael gwybod beth sydd arno? Beth yw natur ei ddolur ef, Doctor?'

Cofier fod yr holl siarad hyn yn cael ei gario yn mlaen yn mhresennoldeb ac yn nghlywedigaeth Llanedi.

'Wel, beth yn y byd, yn enw pob rheswm, pa ham y darfu i chwi anturio dyfod â dyn fel hwn oddi cartref?' dywedai y Doctor. 'Mae y cwbl sydd o'i fewn wedi pydru yn domen; ac y mae ei galon a'i ysgyfaint yn ddrwg iawn, a'i afu yn waeth na hyny.'

Erbyn hyn, dacw John ar ei draed, a'i law ar ei fynwes, ac yn dywedyd mewn teimlad cynnhyrfus, a llais uchel:—

'Mae fy afu fel yr afal, syr, a'm hysgyfaint fel y gloch, a'm calon yn iach a dianaf, syr, diolch i chwi,' ebe fe.

Cyd-darawai ein cyfaill, gan ofyn a wyddai efe yn well na'r Doctor. 'Gwn, mi wn yn well na holl ddoctoriaid y deyrnas a'r byd,' attebai John.

Erbyn hyn yr oedd Mr. Ebenezer Richards yn yr ystafell. 'Doedd John Jones yn hidio dim mymryn mwy am dano nag oedd yn hidio am hogyn deng mlwydd oed. I'r capel yr aethant; Mr. Richards a John Jones gyda'u gilydd; a'r Doctor a Prytherch. Darfu i'r Doctor ei wella yn holl iach. Dywedai ein gwrthddrych iddo glywed y brawd o Llanedi yn pregethu ugeiniau o weithiau wedi hyny; ond na chlywodd mo hono yn pregethu yn well nag y pregethodd y noson hono.

Gwaith mawr fuasai cael ganddo agoryd ei enau i bregethu y noson hono oni buasai i'r Doctor ei wella yn y tŷ, cyn yr odfa. Amcan ein cyfaill bob amser oedd gwella y brawd o'i bruddglwyf cyn myned i'r capel, a llwyddai yn ddi-eithriad; o blegid yr oedd ei adnoddau yn ddiderfyn. Ieuaingc iawn oeddynt pan ymwelasant â'r Gogledd y tro cyntaf. Nid oeddynt uwch law chwech neu saith a'r hugain oed. Cryn antur, yn enwedig i rai mor ieuaingc, oedd myned ar daith mor bell. Rhaid eu bod yn wŷr ieuaingc cymmeradwy, onidê ni oddefasid iddynt fyned. Yr oedd arnynt eill dau awydd cryf angerddol am fyned, a gweled Sasiwn y Bala, am yr hon yr oedd cymmaint o sôn. Annogai ein cyfaill y brawd John Jones i ofyn am ganiatâd i fyned yn y cyfarfod misol nesaf. Ei atteb oedd, na wnai ef ar un cyfrif yn y byd ofyn am ganiatâd i fyned mor bell oddi cartref. Felly, disgynodd y gwaith o ofyn am ganiatâd i fyned i gymmanfa fawr y Bala ar ein gwron. Gosododd yntau y cais ger eu bron mewn ysbryd boneddigaidd a pharchus, a chyda llawer iawn o ddeheurwydd; a dacw y parchedig a'r duwiolfrydig efengylydd, John Evans, Llwynffortun, yn codi ar ei draed, ac yn dyweyd:—

'Da iawn, da iawn, fod pobl ieuaingc am fyned i gymdeithasfa y Bala, lle y cyferfydd tywysogion y bobl, a rhai o ddoniau disgleiriaf y pulpud Cymreig. Lle rhyfedd iawn, lle rhyfedd iawn, yw y Bala, *my dear friends*; ac yr wyf fi yn cynnyg ein bod ni, fel cyfarfod misol, gyda phob parodrwydd, yn rhoddi caniatâd iddynt i fyned;' ac ni ddywedodd neb air yn groes. Ond pwy fuasai yn meiddio gwneyd? Pwy fuasai yn meddu ar yr anfoes a'r digywilydd-dra i wneyd y fath beth? Pe buasai yr hen

efengylydd parchus heb ddyweyd yr hyn a ddywedodd, wyddis yn y byd pa fodd y buasai hi yn troi. Nid oedd ond ychydig o ddyddiau rhwng amser cynnaliad y cyfarfod misol y cyfeiriwn ato a'r amser yr oedd y gymmanfa fawr i gael ei chynnal yn y Bala. Cawsant eu cyfarwyddo gan ryw frawd yn y weinidogaeth, yr hwn oedd yn digwydd bod yn gynnefin chyfarwydd â theithio o'r De i'r Gogledd. Danfonasant ychydig gyhoeddiadau o'u blaen, ac aethant i'r lleoedd hyny i'w ceisio; ond nid oeddynt wedi cyrhaedd Beth bynag, aethant yn eu blaen i Llanidloes.

Yn ffodus, digwyddodd fod yr hen frawd hybarchus, Benjamin Williams (fel yr oedd goreu y lwc,) yn pregethu yn Llanidloes y noson hono. Felly yr aethant o gapel i gapel, hyd nes y daethant i'r Bala. Gwelir gras a gostyngeiddrwydd yr hen bregethwr, gan nad beth am ei synwyr, yn y ffaith iddo roi ei gyhoeddiad i fyny yn llwyr i'r ddau ŵr ieuangc. Diwrnod cyntaf y sassiwn a ddaeth, ac aethant i'r cyfarfod cyntaf y gallent fyned iddo. Edrychent arnynt eu hunain mewn rhyw le agos iawn i'r nefoedd; a gobeithient y caent gyfleusdra i wrandaw rhai o bregethwyr mawr y Gogledd. Aethant i'r seiat y prydnawn cyntaf, a theimlent yn ddiofal a chysurus dros ben, heb y gobaith lleiaf, gwanaf, yn eu meddwl, na'u calon, y gelwid arnynt hwy i gymmeryd rhan yn ngwasanaeth cyhoeddus y gymdeithasfa fawr. Ni feddyliasant fwy am hyny nag a feddylient am gael bod yn frenhinoedd ar Brydain fawr. Ar ddiwedd y cyfarfod, cododd y parchus gadeirydd, sef, y Parch. John Jones, Tremadog, ar ei draed, a dywedodd fod y cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal yn awr ar Green y Bala. I ddechreu trwy ddarllen a gweddïo, y Parch. Evan Rees, Llanrhystyd, sir Aberteifi; ac i bregethu, William Prytherch, o sir Gaerfyrddin, a Michael Roberts; a dyna fe yn edrych drachefn ar y papur, ac yn dywedyd:—'Ië, William Prytherch ydyw ef hefyd. Nos yfory, ar y Green, bydd John Jones, Llangyndeyrn, o sir Gaerfyrddin, a Daniel Jones, Llandegai, yn pregethu. Disgynodd cyhoeddiad eu henwau fel taranfollt ar eu clustiau. Dychryn a'u daliodd! Braw a'u tôdd! Nid oedd nerth ynddynt. Nid peth bychan a dibwys yw sefyll ar lwyfan (*stage*) y gymdeithasfa, a phregethu yr efengyl

dragywyddol i'r miloedd sydd ar ddarfod am danynt. Mae pob gwaith yn hawdd yn ymyl hwn:—'Pwy sydd ddigonol i'r pethau hyn? 'Ein digonedd ni sydd o Dduw.' Yn nghanol dirfawr wendid, cyrhaeddasant y cae; ac aeth y gŵr o Gaio i fyny i'r *stage*. Wedi i'r Parch. Evan Rees, o Llanrhystyd, ddarllen a gweddïo, dacw Michael Roberts, Pwllheli, yn gweithio ei ffordd yn mlaen i'r ffrynt, ac yn cymmeryd y Llyfr Hymnau, ac yn rhoi emyn allan i'w ganu, gan droi y gŵr ieuangc o sir Gaerfyrddin yn ol.

Ond dacw yr Hybarch John Elias yn myned yn mlaen ato, ac yn dywedyd wrtho mai y gŵr ieuangc oedd i bregethu gyntaf, a bod yn rhaid iddo ymattal, a rhoi heibio; a chiliodd Michael Roberts yn ol, wedi y cyfryngiad hwn o eiddo Mr. Elias. Gallasai y gŵr o Gaio droi dau o fath Michael Roberts yn ol, pe mynasai. Ond yr oedd y peth wedi digwydd mor annisgwyliadwy o sydyn fel na wyddai pa le yr oedd yn sefyll. Darllenodd ein cyfaill ei destyn yn arafaidd, gan, fe allai orddyrchafu ei lais, er gwneyd darlleniad ei destyn yn hyglyw. Dechreuodd lefaru, dan grynu o'i ben i'w draed. Ond yn fuan, gwelai y duwiolfrydig a'r haeddbarchus John Elias, tywysog y pregethwyr yn ei ddyddiau ef, yn nesu yn mlaen, ac yn edrych arno dros ochr y *stage*, â gwên ar ei wyneb; a gallesid meddwl wrth yr olwg arno ei fod yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau gweinidogaeth y gŵr ieuangc o'r Deheudir; ond gweled y brawd yn myned i lawr oedd ef, ac ymawyddai am ei gadw ef i fyny. Mor wahanol oedd agwedd y gŵr mawr o Fôn yn gwrandaw ei frodyr, ïe, ei frodyr ieuaingc, i eiddo ambell i *bregethwr bach* yn ein dyddiau ni. Cyn hir, dyna y cysgodau yn ymgilio, y cymmylau yn ffoi ymaith, yr haul dwyfol yn ymddisgleirio, y nef yn agoryd, a nerthoedd y byd a ddaw, a dylanwadau yr Ysbryd Glân yn disgyn ar y dorf fawr; a gwelsid ugeiniau yn wylo, a chlywsid cannoedd yn moli 'Duw am iachawdwriaeth rhad.' Chwant sydd arnaf wrth ysgrifenu, i weddïo y geiriau hyny:—

'O! na ddeuai'r hen bwerau,
  Deimlwyd yn y dyddiau gynt;
Wrth brophwydo uwch ben yr esgyrn,
  O! na chlywem sŵn y gwynt.'

Pregethodd Michael Roberts ar y geiriau hyny:—'A pha beth a attebir i genad y genedl.' Nos dranoeth, am chwech o'r gloch, pregethwyd gan John Jones a Daniel Jones, Llandegai. Dywed yr hanes fod Llanedi yn ei ddillad goreu, a'i enaid yn llawn o nefol dân. Daniel Jones a bregethodd ar y geiriau hyny:—'Canys beth ydyw eich einioes chwi; canys tarth ydyw, yr hwn sydd dros ychydig yn ymddangos.' Sasiwn i'w chofio byth oedd hon.

Tranoeth, cychwynasant i fyned ymaith i Sasiwn sir Fôn, yr hon oedd i'w chynnal yr wythnos ddilynol, yn nhref fechan Llangefni, lle y bu Christmas Evans a John Elias yn byw—dau o'r gweinidogion disglaeriaf a mwyaf athrylithfawr a welodd Cymru erioed. Digwyddai fod cyfeillion o sir Fôn yn nghymdeithasfa y Bala yr wythnos flaenorol; ac felly, cawsant gyfleusdra i wrandaw y gwŷr ieuaingc o'r Deheudir, a chawsant eu boddloni yn ddirfawr, a thu hwnt i bob mesur, ynddynt. Rhoddasant wahoddiad cynnes a chalonog iddynt fyned i gymmanfa sir Fôn, ac addawsant fyned. Felly, trefnwyd ychydig odfaon iddynt ar eu ffordd o'r Bala i Langefni gan y brodyr caredig hyn o sir Fôn. Arweiniwyd hwy gan hen flaenor adnabyddus a duwiol, o'r enw John Jones, o Beddgelert. Cyrhaeddasant i Ffestiniog erbyn yr odfa gyntaf o'u cyfarfod mawr hwy: o blegid, fel rheol, cynnelid *cyfarfodydd mawr* yno dranoeth wedi Cymdeithasfa y Bala: a galwent hwynt yn 'sasiwn.' Cawsant fwrw y rhwyd yno hefyd; ond er poeni, ni ddaliasant ddim. Fe allai eu bod yn pysgota yn rhy agos i'r glanau. Gyda phregethu yr efengyl, amlwg yw 'nad ydyw y rhedfa yn eiddo y cyflym, na'r rhyfel yn eiddo y cadarn, na ffafr yn eiddo y cyfarwydd; ond amser a damwain a ddigwydd iddynt oll.' Yn bur debyg y bu yn Beddgelert y noson hono. Nid oedd yno weledigaeth eglur, ac ni chawsant eu cymmeryd, fel Ezeciel y prophwyd, erbyn cudynau o'u penau, ac ni chododd yr Ysbryd hwynt rhwng y ddaear a'r nefoedd, a'u 'dwyn i Jerusalem mewn gweledigaeth Duw, a gweled yno ogoniant Duw Israel.' Boreu dranoeth, ymadawsant o Beddgelert, a dilynasant yn ol y cyhoeddiad, a chyrhaeddasant Llangefni yn ddiogel, ac yn brydlawn erbyn dechreu

y gymmanfa. Ar ddiwedd odfa y prydnawn cyntaf, cymmerwyd hwy i'w lletty. Fferyllydd parchus yn y dref oedd gŵr y tŷ lle y llettyent. Ymddengys nad oedd yn proffesu crefydd gyda neb rhyw enwad crefyddol; etto, yr oedd yn ddyn gwybodus, parchus, a chymmeradwy yn y dref. Cyn iddo gael amser i eistedd i lawr yn iawn, dyna John Jones yn dechreu achwyn wrth ŵr y tŷ ei fod yn sâl iawn, ac nad oedd ef ddim yn chwarter iach, a'r bobl wedi ei gyhoeddi i bregethu ar y cae am chwech o'r gloch yn y boreu.

# PENNOD IX.

*Myned i Gymdeithasfa Llangefni.—Yn lletya yn nhŷ fferyllydd Llangefni.—Ymddiddan rhwng John Jones a'r fferyllydd.—John Jones yn pregethu ar y cae am chwech o'r gloch yn y boreu.—Prytherch yn pregethu am ddau o'r gloch.*

'A YDYCH chwi yn gweled rheswm yn hyny, syr?' A chan atteb ei hun, dywedai nad oedd rheswm yn y byd yn hyny. Cynnygiai gŵr y tŷ, yn garedig, fyned at y blaenoriaid i ddyweyd wrthynt nas gallasai y brawd Jones bregethu am chwech o'r gloch boreu dranoeth, o blegid ei anhwyldeb.

'Na, na,' ebe gwrthddrych yr hanes, 'nid oes dim eisieu gwneyd hyny. Y maent wedi fy nghyhoeddi i i bregethu am ddau o'r gloch yfory. Ni wnawn newid â'n gilydd—gwnaf fi bregethu am chwech o'r gloch yn y boreu. Caiff yntau bregethu am ddau o'r gloch prydnawn yfory.'

Cyn myned i orphwyso y noson hono, gofynodd ein gwrthddrych i ŵr y tŷ a fuasai efe mor garedig a'i alw ef am bump o'r gloch yn y boreu. Addawodd wneyd; a gwnaeth fel y gorchymynwyd, gan alw arno am bump o'r gloch yn y boreu; a dywedodd, fel y gwyliedydd, 'Pump o'r gloch yn y boreu, syr.' Cyn gynted ag y trôdd gŵr y tŷ ei gefn, gosododd ein cyfaill ei ddau droed wrth ochr John Jones, druan! a gwthiodd ef o'r gwely i ganol yr ystafell. Ond yr oedd yn effro, deallwch. Crefai yn daer am gael myned yn ol i'w wely. Nid oedd hyny yn bossibl; o blegid gorweddai gwrthddrych ein hysgrif yn groes ar y gwely, a chwareuai â'i draed gyda'r fath gyflymdra ac esgeiddrwydd fel yr oedd yn annichonadwy iddo weithio ei ffordd yn ol i'w orweddfa. Yr oedd ei draed i fyny ac i lawr, fel esgyll melin wynt; a thrwy yr arfau *cnawdol* hyn, 'nid arfau anghyfiawnder,' cofiwch—trwy nerth yr arfau hyn y cadwyd ef rhag dychwelyd i'w wely: onid ê, yn ol y buasai yn myned. Brysiodd i wisgo am dano, ac aeth i lawr.

'Boreu da i chwi, Mr. Jones,' ebe gŵr y tŷ. 'Chwi gododd gyntaf, wedi'r cwbl.'

'Ond nid codi wnaethum i heddyw, ond cwympo dros yr erchwyn i ganol yr ystafell. A glywsoch chwi ddim o'r sŵn?' ebe fe.

'Wel, dewch i gael cwpanaid o dê, neu goffi, yr un a fynnech.'

Teimlai gŵr y tŷ fod yr amser yn rhedeg yn mlaen, ac na ddylai y pregethwr fod yn rhwystr i bobl fyned yn brydlawn i'r capel, neu i gae y gymdeithasfa. Wedi boreufwyd, prysurasant ymaith tua'r cae, lle y cynnelid y gwasanaeth cyhoeddus. Yr oedd wedi darllen ei destyn cyn i Prytherch gyrhaedd y maes. Ar ei fynediad i'r cae, yn ffortunus, digwyddodd iddo daraw wrth ŵr y tŷ lle y lletyent; a deallodd, yn fuan, fod ysbryd ei frawd yn ei le, a'i fod wedi ei danio gan dân o'r nef. 'Canys un o'r seraphiaid a ehedodd, ac yn ei law farworyn a gymmerasai efe oddi ar allor Duw, ac a'i rhoes i gyffwrdd â'i enau, ac a ddywedodd, Wele cyffyrddodd hwn â'th wefusau, ac ymadawodd dy anwiredd, a glanhawyd dy bechod.' Ar ol ofni, fel y prophwyd Esaiah wedi gweled gogoniant Duw, y mae yn cael ei gadarnhau yn ei weinidogaeth. Yr oedd yr olwg arno ar y *stage* yn Llangefni yn ardderchog. Ymddangosai fel angel Duw, a'n cyfaill yn barod i ddyweyd, 'O! John anwyl, ti a'i pïau hi, os cei di y gwynt Dwyfol, a nerth a goleuni yr Ysbryd o'th du.' Yr oedd yn hwylio gyda dwfr a gwynt, yn myned yn mlaen yn hwylus. Gwaeddai y geiriau hyny gyda nerth :—'Cyfiawnder marwol glwyf!' 'Bendigedig!'—

'A gliria' meiau'n llwyr,
A'm gylch yn hyfryd lân ;
Ac nid oes arall dan y nef
A'm nertha i fyn'd yn mlaen.'

'Gogoniant, gogoniant!'

Dyna ychydig o hanes taith cyntaf y ddau gyfaill i'r Gogledd. Buont ar deithiau gyda'u gilydd trwy y Gogledd lawer gwaith wedi y tro hwn, a theimlent yn ddedwydd a dyddan yn nghymdeithas y naill a'r llall, er holl galwch ac ofnau Llanedi.

Rhyw dro, yr oeddynt mewn lle a elwir Uwch Mynydd,

yn Lleyn. Lle yw hwn yn nghŵr eithaf sir Gaernarfon, ei chŵr deheuol. Yr oeddynt yn llettya mewn ffermdy yn ymyl y capel. Ni fuont yn hir yn y tŷ cyn deall fod gŵr y tŷ yn sâl iawn. Yr oedd yn ddarostyngedig i ffitiau (*fits*). Yr oedd wedi cael un y diwrnod hwnw; ond yr oedd wedi gwella yn fawr erbyn hyn.

Yn ebrwydd ar ol gorphen swper, dyna un o'r plant yn dyfod at ddrws y parlwr, ac yn dyweyd:—

'Y mae fy anwyl dad mewn llewyg arall. Brysiwch!'

A ffwrdd â'r wraig, a phawb o bobl y tŷ ato, druan tlawd: a Llanedi, dyner galon, a ddywedai fod yn rhaid iddynt hwythau fyned i weled y gŵr claf. Daliai i ddyweyd fod yn rhaid iddynt fyned.

'Gwell i ni beidio,' ebe ein cyfaill.

'O! na,' dywedai John Jones; 'beth pe buasai yn marw, a dau bregethwr yn digwydd bod yn aros yn y tŷ, a'r rhai hyny, yn eu dideimladrwydd a'u hanystyriaeth, heb fyned i'w weled, buasai digon o sôn am danynt trwy holl Gymru.'

Felly, aethant ill dau i'w weled; ond daeth y claf ato ei hun cyn hir, ac aethant hwythau i orphwys. Cysgodd ein gwrthddrych, fel arferol, yn mhen ychydig o eiliadau. Yr oedd yn medru cysgu llawn cystal a Mr. Gladstone. Gan nad pa fath fyddai y gofid, clöai ef allan, a chysgai fel pe na byddai gofid yn yr un byd ag ef.

Rhyw bryd yn y nos, teimlai ein cyfaill John Jones yn ei ysgwyd yn ddidrugaredd, ac yn galw:—'William, William!'

'Beth sydd?' ebe yntau.

'Dod dy law o dan fy mhen, a chadw fi, yr wyf yn dymuno arnat,' ebe Llanedi.

'Pa ham? Beth yn y byd sydd arnat ti? Paid a chwanegu at ofid y teulu trallodedig; canys gweli eu bod mewn digon o drafferth a blinder yn barod,' dywedai ein gwrthddrych.

'Clyw! y maent yn gwneyd *coffin* y dyn yna, gŵr y tŷ, yn yr ystafell, yn y *bedroom*, yn y fan yma yn awr! A wyt ti ddim yn eu clywed? Yr wyf fi yn eu clywed,' ebe John yn ddychrynedig.

'Gâd iddynt, gorphwys yn dawel; a bwrw dy ofnau a'th ofalon ar y gobenydd,' meddai ein cafaill.

'Na, yn wir,' ebe'r ofnog Llanedi; 'rho dy law o dan fy mhen, a chadw fi.'

Attebodd, a dywedodd ein gwrthddrych, os oedd efe yn darfod âg ymddiried yn yr Arglwydd, a rhoddi ei hun o dan ei ofal ef, y gwnai efe ei gadw; ond na byddai yn *joint* â neb am ei gadw. Crefai yntau arno am iddo roddi ei law o dan ei ben. Yn y diwedd, rhoddodd ei law o dan ei ben, a chysgasant mewn tawelwch. Pan ddeffroasant yn y boreu, clywid John yn ymddiddan âg ef ei hun, ac yn dyweyd yn *bwysleisiol* na ddarfu iddo ef ddim dyweyd na buasai yn ymddiried yn yr Arglwydd. 'Naddo, naddo: ac ni wnaethum hyny byth,' ebe John. Ond erbyn hyn, yr oedd hi wedi dyddhau, a'r ofn wedi ffoi ymaith.

Ar ryw daith arall, pan yn cysgu gyda'u gilydd, daliwyd John gan ryw ddychryn o'i greadigaeth ef ei hun, a gwaeddai yn enbydus ar ei gyfaill, 'William, O! William.'

'Beth sydd yn dy flino di yn awr, John?'

'Ofn marw William bach. Ofn marw yn annuwiol, 'rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymmeradwy."

'Wel, gâd i ddyn *duwiol* gael llonyddwch i gysgu,' dywedai yntau.

## PENNOD X.

*Ei garwriaeth, a'i ragyfeillach cyn myned i'r ystâd briodasol.—Y rhwystrau ar ei ffordd:—Yn un peth, yr oedd y ferch a garai heb fod yn proffesu crefydd.—Tad a mam y ferch yn anfoddlawn i'r cariad-fab, am nad oedd yn ddigon cyfoethog, yn eu tyb hwy.*

GWAHANOL iawn y gwnaeth, ac yr ymddygodd gwrthddrych ein cofiant i'r modd y gwna, ac yr ymddyga y mwyafrif o wŷr ieuaingc pan yn edrych allan am gymmhares bywyd, neu ymgeledd gymmhwys—neu wraig. Iawn a phriodol ydyw i bobl ieuaingc i geisio gwragedd iddynt eu hunain, os bydd ynddynt duedd at hyny: 'Canys anrhydeddus ydyw priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig.' Dylid darllen y geiriau hyn yn y modd gorchymynol, ac nid yn y modd mynegol, fel y gwneir yn ein cyfieithiad ni. Fel hyn—'Bydded priodas yn anrhydeddus yn mhawb, a bydded y gwely yn ddihalogedig.' Gwrandawed holl ieuengctyd ein gwlad ar y geiriau hyn. Y mae y dull a'r modd yr ä llawer o ferched ein gwlad ni i'r ystâd briodasol yn warthnôd ar ein cenedl ni, ac ar ein Cristionogaeth ni. Bydded priodas yn anrhydeddus; neu mewn parch yn mhawb, ac yn mhob peth. Amlwg ydyw fod priodas yn drefniant gwladol, crefyddol, a dwyfol: 'Hefyd, yr Arglwydd Dduw a ddywedodd, Nid da bod dyn ei hunan, gwnaf iddo ymgeledd gymmhwys. Am hyny, y gâd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig.' Gwyddom mai sylfaen gadarn fawr barhaol y sefyllfa a'r undeb priodasol ydyw tarddiad bodolaeth o 'gnawd ac esgyrn,' neu gyfansoddiad cynnhenid a gwreiddiol y rhywiau; ond y cwestiwn ydyw, a chwestiwn ydyw ag y dylai pob mab a merch ag sydd yn cyfeillachu â'u gilydd gyda golwg ar briodi ei ofyn iddynt eu hunain gyda phob difrifoldeb, 'Pa fodd i fyned yn anrhydeddus i'r ystad briodasol? Llawer o ddynion ieuaingc sydd wedi dinystrio eu hunain, ac andwyo eu cymmeriad moesol am byth,

drwy redeg oddi wrth y naill ferch ieuangc at y llall, a'u twyllo am dymmor. Ond nid felly y gwaeth y gŵr yr ysgrifenwn am dano. Yn mhen rhyw ddwy neu dair blynedd wedi iddo ddechreu pregethu, syrthiodd mewn cariad â dynes ieuangc a phrydweddol; a gellir dyweyd am dani, fel y dywedwyd am Hadassah (hono yw Esther), ei bod yn llangces weddeiddlwys, a glân yr olwg arni; sef, Miss Joyce Evans, merch Mr. Thomas Evans, fferm Penarth, a Gwestty Pumpsant (neu Pumpsant Inn). Yr oeddynt yn bobl gyfoethog, ac mewn amgylchiadau da a chysurus; ac edrychid arnynt fel pobl gyfrifol yn y gymmydogaeth. Ychydig oedd yn sefyll yn uwch na hwy o ran sefyllfa fydol; os oedd neb, yn wir, trwy yr holl ardaloedd. Perchid hwy fel teulu gan bawb a'u hadwaenent.

Ond nid oedd Miss Evans yn aelod crefyddol; hyny yw, nid oedd yn proffesu crefydd, yr hyn oedd yn rhwystr anorfod iddynt i gyfeillachu â'u gilydd; ond symmudwyd y rhwystr hwn yn fuan, trwy iddi hi ymuno â chrefydd. Erbyn hyn, dyna ffordd gyfreithlawn iddynt i gyfeillachu â'u gilydd. Penderfynodd gwrthddrych yr hanes hwn i ddyweyd wrthi ei fod yn ei charu, a'i fod yn meddwl am dani, ac nad oedd wedi meddwl am neb arall er pan yr ymunodd âg eglwys Dduw: ac y gwnai ei phriodi, os oedd hi yn foddlawn ei gymmeryd ef, ac os gwnai hi ymrwymo i beidio a chyfeillachu â neb arall, a chadw ei hun yn unig iddo ef. Hithau a addawodd y gwnai hi ei briodi, ar y dealltwriaeth a'r ammod y gwnai yntau wystlo ei air na wnai efe gyfeillachu â neb pwy bynag; a hyny a wnaeth efe gyda phob parodrwydd. Cadwasant yn ffyddlawn a gofalus yr ymrwymiadau cyssegredig hyn, er iddynt fod am rai blynyddoedd wedi gwneyd y cyttundeb difrifol hwn cyn priodi. Llwyddasant, trwy fawr ofal o bob tu, i gadw y gyfeillach yn ddirgelaidd, fel na wyddai neb byw yn y gymmydogaeth, na'r ardal, na neb o'i theulu hithau, ddim am hyny am ddwy flynedd; o blegid gwyddent y buasai ei thad a'i mham yn meddwl, yn credu, ac yn teimlo y gallasai, ac y dylasai eu merch hwy gael un gwell na William Prytherch, o'r Felin. Ond yr oedd Prytherch, erbyn hyn, yn genhadwr dros 'Frenin brenhinoedd, ac Arglwydd arglwyddi.' Dylasent gymmeryd hyny hefyd i'r cyfrif.

Ond ni fynent wneyd hyny. Dyma farn ambell i flaenor gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn Nghymru yn y dyddiau hyn. Heb law hyn, yr oedd gan Miss Evans frawd lled uchel-ffroen, yn arianydd (*banker*), yn Llanbedr-pont-stephan, yn sir Aberteifi. Yr oedd hwn yn briod â mam Jones, Pantglas, a Jones, Blaenos, y rhai a fuont yn aelodau seneddol dros sir Gaerfyrddin am lawer o flynyddoedd. Yr oeddynt yn ddynion o ddylanwad a chyfoeth mawr. Y mae Pantglas yn un o brif balasau y sir. Un o feibion yr Yswain Jones, o Pantglas, sydd yn byw yno yn bresennol.

O herwydd y rhesymau uchod, barnai ein gwrthddrych a Miss Evans mai y peth goreu allent wneyd oedd bod yn ddistaw, a chadw y gyfrinach mor ddirgel a chuddiedig ag oedd yn ddichonadwy iddynt. Rhyw fodd neu gilydd, daeth ei thad a'i mham i wybod; a mawr y cynnhwrf a'r cyffro, a'r gwingo yn erbyn hyn a fu. Pan ddaethant i wybod fod eu merch yn cyfeillachu â'n cyfaill, synent yn ddirfawr at ei ffolineb a'i hanystyriaeth, a theimlent yn argyhoeddedig ar unwaith mai eu dyledswydd, fel rhieni, oedd rhoddi terfyn buan, a therfyn bythol, ar y gyfeillach oedd yn myned yn mlaen rhwng y pregethwr a'u merch. Felly, galwyd hi i gyfrif gan ei mham, a gofynodd iddi a ydoedd yn wir? A ydoedd yn bossibl ei bod hi yn cyfeillachu â Prytherch?

Hithau a attebodd, mewn tôn a llais penderfynol, ei fod yn eithaf gwir eu bod yn cyfeillachu â'u gilydd er's blynyddoedd lawer.

''Dwyt ti ddim yn meddwl hyny, a wyt ti? 'Dwyt ti ddim yn meddwl parhau, a wyt ti?' ebe y fam.

'Ddim yn meddwl parhau ei garu! Ydwyf, ydwyf: tra y byddaf byw; a byddwn farw, pe na chawn i ef. Ond mi a'i caf ef,' ebe y ferch, gyda'r fath benderfynolrwydd ac angerddoldeb teimlad nes yr aeth ei mham yn fud. Gwir yw y gair, mor angerddol yw cariad:—'Cariad sydd gryf fel angeu, ei eiddigedd sydd greulawn fel y bedd, ei farwor sydd farwor tanllyd, â fflam angerddol iddynt. Dyfroedd lawer ni allant ddiffoddi cariad, ac afonydd nis boddant: pe rhoddai gŵr holl gyfoeth ei dŷ am gariad, gan ddirmygu y dirmygid ef.' Pan y bydd Hindw yn myned oddi cartref, yn mhell neu yn agos, dywedir y bydd ei

wraig yn arfer dyweyd wrtho, 'Gosod fi megys sêl ar dy galon. Rho le i mi yn dy serchiadau.'

Cafodd ei thad wybod yr hanes y noson hono; a hynod fel y cyffrowyd ei ddigllonedd yn erbyn ei ferch, o herwydd cyfeillachu o honi â bachgen o bregethwr. Daeth ei brawd, y *banker*, i wybod yr hanes yn fuan; a bu hwnw yn swnio, ac yn tingcian yr arian, ac yn dyweyd y rhoddai efe bump cant o bunnau iddi.

'Wel, Dewi bach,' ebe hithau, mewn tymmer dda, a chalon lawen,' 'yr wyf yn diolch i chwi am eich cynnyg; o blegid gwn ei fod yn codi oddi ar deimlad da tuag ataf, a goreu i gyd genyf pa fwyaf o arian sydd genych. Ond, clywch! Ni chymmerwn i mo'r byd, yr holl fyd, a'r cwbl sydd ynddo, am ymadael â Bili. Nac erfyniwch arnaf i ymadaw âg ef, i gilio oddi ar ei ol ef: canys pa le bynag yr êl ef yr af finnau, ac yn mha le bynag y lletyo ef y lletyaf finnau, a'r lle y bydd ef farw y byddaf finnau farw, ac y'm cleddir,' nes yr aeth hwnw, hefyd, yn fud.

Ond chwareu teg i Dewi, ei brawd (y *banker*), bu yn garedig lawer gwaith. Cartrefai y ferch yn y ffermdy yn Penarth, a'r teulu yn y gwestty yn Mhumpsant. Yn y diwedd, ar ol hir arofyn, gwnaeth y gŵr ieuangc ei feddwl i fynu i fyned at ei thad i'w gofyn hi ganddo: i ofyn am ei gydsyniad i gael ei ferch yn wraig iddo. Cafodd dderbyniad croesawgar, serchog, a moesgar ganddo — gwell nag oedd yn ei ddisgwyl, yr hyn a barodd iddo ymhyfhau llawer. Gwyddai nas gallasai rwystro y ferch i gymmeryd Bili, yn dywedodd hithau. Cwestiwn ei thad i'r gŵr ieuangc oedd, a chredwn ei fod yn gwestiwn ag y dylai pob tad ei ofyn i bob mab a fynai gael ei ferch yn wraig iddo ef; sef, 'Pa fodd yr ydych yn myned i fyw?' Nis gallasai yntau roddi atteb pendant, penderfynol, a boddlonol iddo; am ei fod, yn naturiol, yn disgwyl y gwnai efe gynnorthwyo rhyw ychydig arnynt ar y dechreu; canys yr oedd ganddo ddigon o gyfoeth ac o dda y byd hwn.

'Wel, William, meddyliwch am hyny hyd nes y cyfarfyddom â'n gilydd y tro nesaf,' ebe y tad.

Ar ol ychydig ddyddiau, aeth ein gwrthddrych at ei thad drachefn i ofyn ei foddlonrwydd i gael ei ferch yn wraig iddo. Yr un peth oedd cwestiwn ei thad yr ail dro;

sef, 'Pa fodd yr ydych yn meddwl byw?' Dywedodd o'r diwedd wrth y ferch mai yr un peth oedd cwestiwn ei thad iddo ef bob tro y gofynai am ei gydsyniad i'w chael yn wraig iddo ef; sef, 'Pa fodd yr ydych yn myned i fyw? A oes genych chwi ryw syniad am hyny? Pa ddyben yw priodi heb wybod pa fodd i fyw?'

'Pa le yr ydych i fod y Sabbath nesaf?' gofynai y ferch i Prytherch.

'Yn Brechfa,' attebai yntau.

'Wel, ewch,' dyma y modd gorchymynol, 'ewch,' ebe y ferch o Penarth, 'i Gaerfyrddin dydd Llun, a mynwch drwydded (*license*), i briodi, a gofelwch beidio dyfod yn ol hebddi; ac ewch at fy nhad a'r *license* genych, dangoswch hi iddo, a dywedwch yn ddigryn a diflo esgni wrtho, 'Yr wyf yn priodi Joyce, eich anwyl ferch, deled y byw fel y delo."

Aeth, a gwnaeth yntau fel y gorchymynodd hi iddo. Prynodd *license*, ac aeth â hi adref yn ei boced yn ofalus: a dyma fe yn myned y drydedd waith at ei thad, i ofyn ei gydsyniad i gael ei ferch yn wraig iddo; a dyma fe y drydedd waith yn gofyn a oedd efe, erbyn hyny, yn gweled pa fodd yr oeddynt yn myned i fyw. Attebodd ein cyfaill nad oedd efe ddim yn gweled yn hollol glir, mor glir ag y carasai, ond ei fod yn bwriadu gwneyd ei oreu glâs i fyw; dywedai fod ganddo *license* i-i-i'w phriodi: 'â dyma hi,' ebe fe; 'a mi a'i priodaf hefyd, deled y byw fel y delo.'

'Rhowch weled pa faint y parhâ y *license*,' ebe ei thad.

Edrychwyd, a gwelwyd mai tri mis y buasai yn parhau.

'Wel, wel. Rhaid meddwl am hyny,' ebe'r tad.

Cyn pen y tri mis, yr oedd y ferch o Penarth a gwrthddrych y cofiant hwn wedi ymuno â'u gilydd mewn glân briodas, neu wedi cyfammodi â'u gilydd i fyw ynghyd yn ystad anrhydeddus priodas, wedi eu cyhoeddi yn ŵr a gwraig, yn ol y gair ac ordinhâd Duw, ac mewn cydymffurfiad â deddf eu gwlad. Gofalodd ei thad am fferm iddynt, a phob peth arall ag y gallasai arian eu pwrcasu. Cawsant gychwyniad ardderchog a rhagorol yn y byd, llawer iawn gwell a rhagorach na'r rhan liosocaf o ddynion. Y Bwllfa, yn ymyl Caio, oedd enw y lle cyntaf yr aethant i fyw iddo. Y cwestiwn yn awr, ar ol sefydlu yn y byd,

ydoedd, pa fodd i fyw, y ffordd i fyw yn gysurus a dedwydd. Cyfammodasant â'u gilydd yn mhell cyn priodi, ac wedi hyny, i gyd-ddioddef profedigaethau, a chyd-fwynhau cysuron bywyd.

Penderfynasant ar y dechreu i beidio dyweyd yr un gair cross y naill wrth y llall. 'Penderfynais cyn, ac wedi priodi,' ebe ein gwrthddrych, 'na ddywedwn yr un gair cross, chwaith, wrthi.' Cynghor da yw hwnw, '*Avoid the first quarrel;*' ymgedwch rhag dechreu cweryla. Cadwasant yn ffyddlawn, o bob tu, ammodau y cyfammod hwn. Buont byw fel Evan Shôn, o Bont Morlais, Merthyr, â Lettice ei wraig. Dywedir na welwyd na chilwg na blwng ar wyneb y naill na'r llall o honynt erioed—a buont yn briod am dair ar hugain o flynyddoedd.

Y mae yn gofus iawn genyf glywed am yr hen frawd a'r hen flaenor duwiol, Evan Shôn, yn myned i gyfarfod misol Calan, yr hwn a gynnelid yn y Pil (Pyle). Yr hanes yw, fod yr hen wragedd da, crefyddol, a defosiynol yno yn cusanu Evan Shôn, am fod yn dda ganddynt ei weled ef. Ar ol dychwelyd adref, adroddai Evan Shôn yr hanes yn llawn, heb guddio dim, i Lettice; a dywedai y byddai y merched a'r gwragedd rhinweddol yn ei gusanu. 'A beth wyt ti yn feddwl am hyny, Lettice fach?' gofynai yr hen ŵr.

'Wel, wel. Pa le y cawsent lanach gwyneb i'w gusanu na dy wyneb di, Evan bach,' attebai hithau.

Cusanau sanctaidd, yn ddïau, oedd y cusanau hyny. Eithr, 'Anerchwch y naill y llall â chusan sanctaidd.' 'Anerchwch eich gilydd â chusan sancteiddiol.' 'Cariad ni feddwl ddrwg.' Nid yw cariad yn ddrwg-dybus. Nid ydyw cariad yn llygredig. Rhydd cariad, bob amser, yr esboniad mwyaf ffafriol ar yr ymddygiad mwyaf ammheus. Pe buasai llawer gwraig yn clywed pethau fel hyn o enau ei phriod, buasai yn barod i redeg at ŵr y gyfraith i geisio ysgariaeth oddi wrtho; ond nid oes eisieu cyfraith lle y bo cariad. Yr oedd gwrthddrych y cofiant hwn yn adnabyddus a diarhebol am ei dymmer dda a'i eiriau dyddan, a'i ysbryd rhagorol. 'Y mae cariad yn dioddef pob dim, yn credu pob dim, yn gobeithio pob dim, yn ymaros â phob dim. Ni feddwl ddrwg.'

## PENNOD XI.

*Ei deulu.—Marwolaeth y plant.—Ei symmudiadau.—Ei drafferthion ar hyd yr hen ffermydd.—Cystudd a marwolaeth y wraig.*

Bu efe yn byw yn y Bwllfa am yn agos i ddwy flynedd; ac yno y ganwyd Mary, y plentyn cyntaf a gawsant, yr hon a fu farw yn y Llwyni, yn sir Forganwg. Symmudodd o'r Bwllfa i Llwyn-owen, yn mhlwyf Cilycwm; a bu yno yn byw am bedair-blynedd-ar-ddeg. Yn ystod ei arosiad yn Llwyn-owen, cawsant bump o blant; sef, Mary, Ebenezer, Thomas, Sarah, a William Ebenezer. Bu y pedwar cyntaf feirw pan yn gymmharol ieuaingc, ond nid oedd un o honynt o dan ddeunaw oedd. Ystormydd a thymmhestloedd geirwon oedd y rhai hyn; sef colli ei blant—ei anwyl blant—trwy farwolaeth.

Ond y mae William Ebenezer yn fyw ei wala, ac yn un o bregethwyr mwyaf poblogaidd y cyfundeb Methodistaidd yn y Dywysogaeth. Tad y wraig oedd yn gyfrifol am fferm Llwyn-owen, a chadwai bum cant o ddefaid arni; a gosodai ddarn o honi ar rent neu ardreth i Prytherch; ac yr oedd yn talu cymmaint ddwy waith fwy o rent am dani nag a ddylasai. Gwell o lawer ydyw i ddynion ymdrafod â dyeithriaid nag ymdrafod â pherthynasau, yn enwedig tylwyth-yn-ngyfraith. Yr amser yr oedd yn byw yn Llwyn-owen y cafodd ei ordeinio; sef yn y flwyddyn 1834. Symmudodd oddi yno i le a elwir Pantyfen, yn mhlwyf Llanegwad; a bu yno am dair blynedd. Dyn hynod o annuwiol oedd perchen y tir; ond dywedai ein gwrthddrych iddo ef ei gael yn ŵr boneddig. Y symmudiad nesaf oedd ei symmudiad i Pen-rhiw-felin, yn mhlwyf Llanfynydd. Yr oedd perchenog y lle hwn yn feddwyn cyhoeddus; ond ni welodd ef y gradd lleiaf o fai arno fel meistr tir. Gweddïodd lawer, meddai, dros y ddau ddyn hyn. Am y cyntaf, ni welwyd dim cyfnewidiad er gwell ynddo; a bu farw mewn eiliad ar y ffordd. Ond trwy drugaredd, cafodd

weled y dyn meddw yn ddyn sobr; ïe, yn ddirwestwr selog, ac yn ddyn crefyddol hardd; a pharhaodd felly hyd ei fedd. Ar ol bod yn Pen-rhiw-felin am tua thair blynedd o amser, aeth ef a'i deulu i fyw i'r Bettws, yn sir Gaerfyrddin; ac yno bu farw ei anwyl wraig, o'r *cholera*, ar ol bod yn briod am dair-blynedd-ar-hugain Bu yn trafferthu ac yn llafurio yn galed ar hyd yr hen ffermydd tlodion hyn, yn ystod yr amser a nodasom; ond parhaodd i bregethu trwy y cwbl, a chafodd genadwri gan yr Arglwydd, a chymmhorth i'w thraddodi gannoedd o weithiau yn y blynyddoedd trafferthus hyn. Darllenai pan y cai gyfle; ond yn y nos fynychaf, wedi i bawb fyned i noswyl; a ffwrdd âg ef ddydd Sadwrn at ei gyhoeddiad, ac yn ol boreu ddydd Llun, gyda'r wawr; o blegid yr oedd yn foreugodwr; ac ugeiniau o weithiau y dychwelodd adref â llai na *phum swllt* yn ei boced.

Ond nid arian oedd y pwngc y pryd hwnw, ond pregethu; ac yr oedd clywed ambell un yn dyweyd mai yr hyn a ddywedodd ef yn y *put* pregeth y pryd a'r pryd, oedd wedi bod yn foddion, dan fendith yr Arglwydd, i'w ddeffro yn nghylch ei fater tragywyddol, yn fwy o dâl a llawenydd i'w feddwl nag aur ac arian y byd. Teithiodd lawer trwy siroedd y Gogledd yn y blynyddoedd hyny; sef, o'r adeg y priododd hyd farwolaeth ei anwyl briod. Yn nghanol y gauaf y byddai yn myned ar y teithiau hyn. Nis gallai fyned yn gynnarach yn y flwyddyn; o blegid cynhauaf hau, y cynhauaf gwair, a'r cynhauaf medi; tynu tatws, a hau gwenith hydref. Elai am bump neu chwech wythnos o gyhoeddiad trwy un neu ddwy o siroedd y Gogledd, yn nghanol y rhew a'r eira. Ond bendithiwyd ei weinidogaeth i fod yn foddion i droi llawer o gyfeiliorni eu ffyrdd; ond nid ystyriai fod y ffaith ei fod wedi bod yn offeryn yn llaw Ysbryd Duw i ddychwelyd pechaduriaid yn ddigon o brawf o'i dduwioleb, neu o'i anfoniad i bregethu efengyl y deyrnas i fyd colledig. Ofnai rhag y gallasai fod yn debyg i gafn melin, yn gyfrwng i gario dwfr y weinidogaeth ac athrawiaeth gras i loni ac adnewyddu pobl yr Arglwydd, a di-sychedu y rhai oeddynt yn sychedig am ddyfroedd yr iachawdwriaeth, ac yn ymlygru a phydru mewn pechod wrth wneyd hyny—yn debyg i Judas

y bradychwr, ac eraill. Arswydai Prytherch, arswydai Paul hefyd, wrth feddwl am y fath beth, 'rhag i mi mewn un modd, wedi mi bregethu i eraill, fod fy hun yn anghymmeradwy', neu yn wrthodedig. Rhag i mi wneyd gwaith apostol, neu gyhoeddwr rheolau yr yrfa ysbrydol, a bod fy hun yn *anghymmeradwy.*

Geill dynion fod yn bregethwyr a gweinidogion yr efengyl dros eu hoes, a dywedyd y geiriau hyny uwch ben pobl:—'Am hyny, yr ydym ni yn genhadau dros Grist, megys pe byddai Duw yn deisyf arnoch trwom ni: yr ydym yn erfyn dros Grist, cymmoder chwi â Duw.'

Galluogwyd ef, er bob peth anffafriol yn ei amgylchiadau, i fyned at ei holl gyhoeddiadau bob Sabbath, yn ddifwlch. Dilynai y cyfarfodydd misol a'r cymdeithasfaoedd yn bur gyflawn.

Dyma hanes gwrthddrych y cofiant hwn yn fyr—yn dalfyredig, hyd y flwyddyn, fel y dywedasom, y bu farw ei wraig yn y Bettws. Bu yno yn byw am saith mlynedd wedi claddu ei wraig, Joyce fach. Teithiodd lawer trwy'r De a'r Gogledd yn ystod y blynyddoedd hyn, yn gystal ag i Bristol, Liverpool, a Llundain, a manau eraill. Yr oedd y pryd hwnw yn gryf ac iach yn ei gorph, ac yn nerthol yn ei feddwl. Pregethai gydag eneiniad ac arddeliad amlwg yn y dyddiau hyny. Nid oedd ond ambell un a anturiai bregethu ar ei ol ef, teimlent fel y Parch. John James, Pen-y-bont-ar-ogwy, sir Forganwg. Mynai efe bregethu o flaen bachgen o bregethwr. Yr wyf yn cofio fy mod yn cyd-bregethu âg ef mewn cyfarfod pregethu yn hen gapel Cruglâs, Abertawe. Yr oeddwn yn ieuangc ac yn wan yn mhob ystyr. Ond cefais y gwaith mwyaf erioed i gael pregethu o'i flaen ef; ac wedi iddo weled na chai efe bregethu yn gyntaf, aeth i lawr o'r pulpud, ac allan o'r capel; ac yr wyf yn cofio yn dda mai y Parch. David Howells, Abertawe, a aeth i'w ddwyn yn ol. Cofus genyf ei fod yn pregethu ar y geiriau hyny:—'Brenhines y deheu a gyfyd yn y farn gyda'r genhedlaeth hon; ac a'i condemnia hi, am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaear i glywed doethineb Solomon; ac wele fwy na Solomon yma.' Cyn pen chwarter awr, yr oedd yr holl bobl mewn ysbryd addoli. Yr oedd yn meddu ar y llais mwyaf nefol-

aidd melodaidd a glywyd erioed. Gwaeddai y frawddeg hono:—'Mae'r iachawdwriaeth yn *sound* yn awr, ac fe fydd yn *sound* yn angau hefyd.'

'O! John anwyl' gwaeddai William Rees, Glandŵr, 'Dyma lle y bydd hi *soundiaf*:—

'Yn seinio buddugoliaeth,
Am iachawdwriaeth lawn;
Heb ofni colli'r frwydr,
Y boreu na'r prydnawn.'

Y farn fwyaf cyffredin yw ei fod wedi teithio mwy na neb o'r pregethwyr, hyd yn oed yn nyddiau y teithio mawr. Nid oedd y plant lleiaf yn eu hadnabod yn iawn. Yr wyf yn cofio yn dda am frawd o sir Fynwy yn myned am daith i'r Gogledd; a'r Parch. David Edwards, o Newport neu Brynmawr, ar yr un amser yn myned i wlad Canaan am daith. Gwir yw yr hanes, Mr. Edwards oedd y cyntaf i ddychwelyd adref.

Enwau y lleoedd y bu yn byw ynddynt o'r flwyddyn 1831, hyd y flwyddyn 1854; sef o'r flwyddyn y priododd, hyd y flwyddyn y bu farw ei wraig, oeddynt:—

| *Lle.* | *Plwyf.* | *Sir.* | *Yn y lleoedd hyny.* |
|---|---|---|---|
| 1. Beilifa ... | Caio ... | Caerfyrddin ... | Dwy flynedd. |
| 2. Llwyn Owen | Cil-y-cwm ... | ,, | Pedair-blynedd-ar-ddeg. |
| 3. Pant-y-fen . | Llansawel .. | ,, | Tair blynedd. |
| 4. Penrhiwfelin | Llanfynydd .. | ,, | Tair blynedd. |
| 5. Bettws ... | Ger Cwmaman | ,, | Ychydig dros flwyddyn. |

## PENNOD XII.

[Dyma gyfran arall a dderbyniais oddi wrth fy anwyl gyfaill, y llenor a'r bardd Caltin, Llanelli.]

Anwyl Gyfaill,—Gydag hyfrydwch mawr y cefais a'r ddeall eich bod yn dwyn allan Gofiant i'r diweddar Barch. W Prytherch, Ferry Side. Gŵr hynod oedd ef ar lawer cyfrif. Gŵr ar ei ben ei hun—gwreiddiol, ac nid dynwaredwr oedd ef. Ni wisgodd ddillad Saul erioed. Fel gŵr cyhoeddus, am yn agos i drigain mlynedd, gwisgodd ei ddillad ei hun. Yr oedd ei ddillad ef yn ddeniadol, er nad oeddynt yn gaboledig iawn, fel llawer o ddillad yr 'oes oleu hon.' Dillad natur oeddynt; ac nid oes debyg i natur, bydded hi wyllt neu wâr—rhamantus neu brydferth. Yr oedd natur ac yntau yn gymdeithion dwy'r byd. Rhydd natur ei delw yn amlwg argraphedig ar ei phlant. Nid yw hi yn celu dim rhagddynt, nac yn dadguddio ei chyfrinach i neb ond i'w theulu. Gresyn yw fod neb heb fod yn deall ei hawgrymiadau hi. Gresyn fod neb heb dalu eu mhoes gyfarchiadau iddi! Y mae hi yn ormod o bendifiges i siarad â phawb; ond nid felly tuag at ei hetholedigion. 'A gelaf fi rhag Abraham' yw ei hegwyddor hi. Yn ddibetrus, yr oedd Mr. Prytherch yn un o'i phlant gwirioneddol hi; ac nid estron iddi oedd efe. Un o gymmeriadau penaf ei oes oedd efe. Yr oedd 'yn gall fel y sarph, ac yn ddiniwed fel y golomen.' Pa ddyn byw bedyddiol a'i clybu erioed yn absenu â'i dafod? Pa frawd a glwyfwyd neu a archollwyd erioed ganddo? Gallwn herio Cymru benbaladr na chlwyfwyd neb erioed. Y mae'n gofus genyf i mi fod yn ei gwmni droion, ac yn nghwmni y bibell, lle y byddai efe yn gartrefol iawn. Ni byddai yn fwy cartrefol yn y pulpud nag oedd yn nghwmni y bibell.

Byddwn yn ei dreio weithiau gyda golwg ar ambell i

bregethwr a ystyrid yn gyffredin; o blegid y mae rhagor rhwng seren a seren yn eu mysg hwynt.

'Sut bregethwr yw hwn a hwn, Mr. Prytherch?'

'Pregethwr da iawn,' ebe yntau.

Nid oedd modd i'w dynu dros y ffordd, pe buasech yn bwriadu—yr oedd yn gallach o lawer. Difyr oedd ei wrandaw yn adrodd helyntion John Jones, ac yntau, ar eu teithiau yn y De a'r Gogledd. Gyda llaw, dywedodd wrthyf fod llawer iawn o'r chwedlau yn anwireddus—wedi eu clytio gan eraill. Dywedodd wrthyf am lawer o'r rhai gwir, ac am lawer o'r gau. Adroddodd wrthyf am y daith gyntaf o'i eiddo ef a Mr. Jones i'r Gogledd, pan yn lled ieuaingc fel pregethwyr. Os wyf yn cofio, mai i gymmanfa'r Bala yr oeddynt yn myned. Sut bynag, cyhoeddwyd y ddau i gymmeryd rhan yn y gymmanfa, a'i gyfran ef oedd am ddeg yr ail ddydd, gydag un o'r cadfridogion. Bu mewn cryn helynt o herwydd ei ieuengctid, ynghyd â bod cynniter o'r cewri ar y Green. Dechreuodd yn y niwl, a bu felly am ychydig; ond pan welodd Elias yn gwrandaw mor astud, ac mor gefnogol i ŵr ieuangc, fe dorodd y wawr, a chafodd oleuni oddi fry; yna aeth yn mlaen yn weddol dda hyd y diwedd. Dïau mai cymmhorth nid bychan i bregethwr ieuangc yw gweled y cewri yn gwrandaw yn dda; a'r peth diflasaf yn y byd yw gweled pregethwr yn gwrandaw yn ysmala—haner cysgu, neu yn edrych ar bawb a phob peth, ond gwrandaw. Dïau fod yr efengyl yn haeddu gwrandawiad er ei mwyn ei hun, gan nad pa mor gyffredin fyddo'r genad. Dïau yw fod lle i wella yn y cyfeiriad yma. Ni wrandawodd Mr. Prytherch ar bregethwr gwael erioed; o'r hyn lleiaf, ni ddywedodd hyny wrth neb, llawer llai ei gyhoeddi yn Gath nac yn Ascalon, i roddi testyn llawenydd i ferched y Philistiaid!

Yr oedd gwahaniaeth dirfawr rhyngddo a'i hen gyfaill, Mr. Jones. Pruddglwyfus oedd Mr. Jones—yn byw drwy o'i oes bron yr ochr dywyll i'r cwmwl; ond am Mr. Prytherch, ni wybu efe erioed am hyny. Aeth ar hyd ei daith o'i febyd i'w fedd heb wybod llawer am flinderau bywyd. Yn hyn yma o beth, yr oedd i raddau ar ei ben ei hun. Nid am na chyfarfyddodd â llawer o bethau chwerwon, fel eraill o blant Adda; ond nid oeddynt yn effeithio arno ef

fel ar eraill. Yr oedd ei natur hoenus ef fel yr arian byw, fel nad oedd cyfnewidiadau tywydd yn cael fawr effaith arno. Yr oedd yn bregethwr gwreiddiol, a'i gymmhariaethau mor naturiol a dwfr y nant. Clywsom ddywedyd gan y rhai gynt ei fod, yn ei fynediad allan, yn bregethwr ofnadwy, fel y dywedir. Hyny yw, ei fod yn pregethu deddf danllyd—yn llosgi pob ffau o'i flaen, fel nad oedd modd i lechu mewn modd yn y byd. Fel rheol, y mae ein dynion mawr wedi bod yn trafaelu yr un llwybr. Yr unig eithriad i'r rheol oedd y diweddar efengylydd o Llwynffortun. O'r braidd y gwyddai efe fod y fath fynydd a mynydd Sinai! Ond yr oedd efe yn eithriad i bawb, a phob peth. Ni pharhaodd Mr. Prytherch yn y cywair hwn ond yn nechreu ei weinidogaeth.

Cwsg yn dawel gwedi llafur
  Hanner canrif gyda'r gwaith,
Gem dryloew oet' o natur,
  Heb ôl cŷn mewn ffurf nac iaith;
Nid oes '*strike*,' na syn, na synu,
  Yn y rhandir wyt yn awr;
Pawb yn dawel yn eu gwely,
  Hyd nes cano'r udgorn mawr!

Mr. Howell Davies, Masnachydd Ymenyn, Hen-dŷ-gwyn-ar-Daf, sir Gaerfyrddin, ydyw y ffynnonell o ba un y tarddodd yr hanesyn dyddorol canlynol:—

Yr oedd Mr. Howell Davies, un o flaenoriaid parchusaf y Methodistiaid yn y sir, yn hebrwng Prytherch i'r orsaf foreu dydd Llun; ac am fod yr hen frawd ychydig yn llesg, teimlai mai ei ddyledswydd ef oedd myned gydag ef, i'w gynnorthwyo i'r trên. Yr oedd yn yr orsaf yn gynnar; ac yr oedd Mr. Davies mewn brys i fyned at ryw ymrwymiad ag oedd wedi ei wneyd. Ar hyny daeth blaenor arall i'r lle. Gofynai Mr. Davies:—

'A ydych chwi, John G. Rees, mewn brys mawr? A ellwch chwi aros yma gyda Mr. Prytherch, hyd nes y bo y trên yn dyfod i mewn?'

'Aros gyda Mr. Prytherch ddywedasoch chwi? Gwnaf, gwnaf,' ebe Mr. Rees; 'gyda'r parodrwydd a'r pleser mwyaf.'

Ar hyn trodd yr hen weinidog at y ddau flaenor gyda'i

barodrwydd a'i ddigrifwch arferol:—'Beth, hawyr, a ydych chwi yn meddwl mai lleidr wyf? Wel, wel; mae'r byd ar ben. Meddwl fod yn rhaid i un o honoch gadw llygad arnaf nes i mi fyned i ffwrdd. Chwi ellwch eich dau fyned os mynwch.'

Dro arall yr oedd yn aros mewn tŷ go dda, fel y dywedir. Yr oedd arglwydd y babell yn groes iawn i ysmocio; ac yr oedd wedi gosod deddf i lawr, ac nid oedd troi i fod arni—nad oedd neb pwy bynag i ysmocio yn y tŷ hwnw. Y wraig dda yn gwybod fod Prytherch yn hoff iawn o'r bibell—yr oedd am gadw deddf y gŵr, ac am wneyd yr hen brophwyd yn ddedwydd. Daeth i'w meddwl i osod bwrdd bychan mewn lle dymunol yn yr ardd, a phob peth arno:—pibell, tybacco, defnydd tân, a'r piser a'r dwfr. Dywedai wrtho:—'Mr. Prytherch, a ewch chwi allan i'r ardd i roi tro? Os deuwch o hyd i ryw beth yn y cysgod acw yn rhywle, gwnewch ddefnydd o honynt. Yn mhen ennyd o amser daeth gŵr y tŷ am dro i'r ardd. Gwelai golofnau mawrion o fŵg yn codi yn rhyw gornel o'r ardd, rhwng y coed a'r dail. O'r diwedd, daeth o hyd i Prytherch yn eistedd yn ei gadair, a'r bwrdd o'i flaen, yn mwynhau ei hun, fel mewn rhyw fyfyrdod dwfn.

'Holo! ai chwi, Prytherch, sydd yna?'

'Ie, yn siwr.'

'Beth ydych yn wneyd fan yna?'

'Wel, os mynwch wybod, *studio* tipyn ydwyf ar yr adnod hono, sydd i'w gweled yn llyfr y Salmau,' meddai.

'Pwy adnod yw hono, Prytherch?'

'Wel, yr adnod hono:—'Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngŵydd fy ngwrthwynebwyr.' Ar hyny, gwelodd y gŵr da nerth y *joke*, sef y dawn parod oedd yn Prytherch, a thorodd allan i chwerthin yn iachus.

## PENNOD XIII.

[Derbyniais y llythyr a ganlyn oddi wrth fy anwyl gyfaill, Daniel Davies, Ysw., Ton, Ystrad, Pont-y-pridd; ond er mwyn gochelyd ail adroddiad o'r un ffeithiau, gorfodwyd fi i adael allan ranau helaeth o hono.]

'Anwyl a Pharchedig Syr.—Yr oedd yn dda iawn genyf gael ar ddeall, mewn ymddiddan â'r Parch. W. Prytherch, Goppa, ychydig ddyddiau yn ol, eich bod ar fin gorphen bywgraphiad ei hybarch dad. Gobeithio na raid aros llawer yn chwaneg am dano; ond y cawn yr hyfrydwch o'i ddarllen yn awr, pan y mae y côf am yr hen bregethwr anwyl yn fyw yn ein meddyliau. Na fydded i chwi, er hyny, ddyfetha y gwaith drwy fod yn rhy frysiog. Dylai yr 'hen Brytherch' gael cofiant da; yr hyn, gyda llaw, nad ydyw cymmaint ag un o hen bregethwyr sir Gaerfyrddin wedi ei gael etto.' Yna, dywed iddo gael y fraint o gymdeithasu llawer â Mr. Prytherch, a hyny am lawer o flynyddoedd. Yr oedd ef a'i dad-cu, yr hen flaenor David Jones, Dolau Bach, Llangeitho, yn gyfeillion gwresog iawn; a chafodd yntau, ar y cyntaf, er mwyn ei dad-cu, dderbyniad rhydd a pharod i'w gyfeillgarwch; a phob amser pan fyddai yn dyfod i Gwm Rhondda, a byddai hyny unwaith neu ddwy bob blwyddyn am fwy nag ugain o flynyddoedd diweddaf ei fywyd, arferai lettya gydag ef. Byddai yn pregethu yn y capelau amgylchynol bob nos rhwng dau Sabbath, ac yna yn dychwelyd yno ar ol pob odfa; ac felly, cafodd lawer o ymddiddan âg ef: ac yn fynych, ymollyngai i adrodd yn rhydd ei hanes ei hun. Y mae yn ddrwg iawn ganddo yn awr na fuasai wedi cofnodi yn ofalus bob peth a adroddwyd ganddo yn yr ymddiddanion hyny; ond gobeithia fod y cyfan yn ddiogel genyf fi.

Dywedai wrthyf ddarfod iddo gael ei fedyddio gan ficer y plwyf—Caio. Yr oedd y ficer hwn yn ddyn meddw iawn, a garw iawn ei ymadroddion. Ar ol iddo ef farw,

cafodd ei fab y ficeriaeth; ac yr oedd yntau, fel ei dad, yn feddw, a'i iaith hefyd yn annheilwng iawn i fod yn iaith gweinidog yr efengyl. Yn wir, nid oedd hyny yn anghyffredin iawn yn y dyddiau hyny. Yn fynych, 'ffeiriad y plwyf oedd y dyn meddwaf yn y plwyf. Yn yr adeg pan yr oedd y ddau uchod yn ficeriaid yn Nghair, yr oedd 'ffeiriad hynod o anfucheddol yn Llancrwys, y plwyf agosaf i Gaio. Ei enw oedd Joseph James; neu, fel y gelwid ef yn gyffredin, 'Jô Jâmes,' neu yr 'Hen Jô.' Yr oedd yn ddyn hynod o feddw, ac yn arfer iaith isel a chableddus; a byddai llwon a rhegfeydd yn eiriau cyffredin ganddo. Pan oedd Mr. Prytherch o ddeutu dwy ar bymtheg neu ddeunaw mlwydd oed, cafodd ei anfon i Gaerfyrddin i'r *foundry* yno, gydag un o olwynion y felin, yr hon oedd wedi tori: a digwyddai fod 'ffeiriad Llancrwys, yr adeg hono, yn treulio tymmor yn ngharchar y sir o herwydd dyled; a phan yn cychwyn i'w daith, dywedodd ei fam wrtho:—

'Pan fyddot yn aros i'r *wheel* ddyfod yn barod, cerdda i edrych am yr hen Jô Jâmes, a rho hwn iddo,' gan roddi hanner coron yn ei law. Yn ol gorchymyn ei fam, ar ol cyrhaedd Caerfyrddin, a gwneyd ei neges yn y *foundry*, aeth i chwilio am y carchar; ac ar ol dyfod o hyd iddo, cafodd ei arwain i'r ystafell yn yr hon yr oedd yr hen 'ffeiriad yn cael ei gadw: ac yno yr oedd, yn ymddangos yn gwbl ddedwydd, ac wrth ei fodd. Ar ol rhoddi cofion ei fam iddo, dywedodd William Prytherch:—

'Ac y mae wedi hela hanner coron i chwi, os gwnewch ei dderbyn.'

'Ei dderbyn, Billy bach,' attebai yntau yn ol, 'mi dderbyniwn i ffyrling oddi wrth dy fam, chwaithach hanner coron. Hi ydyw y fenyw garedicaf a adnabyddais i erioed.'

Yna galwodd ar un ag oedd wrth ei law i wneyd rhyw fân negesau, a rhoddodd yr hanner coron i hwnw, gan ei gyfarwyddo i fyned i dafarn gyfagos, a dyfod â'i werth 'o beth i yfed' oddi yno. Pan wrthi yn yfed, dechreuodd adrodd ei hanes ei hun; ac yn mysg pethau eraill, dywedodd:—

'Yn Llansawel y cefais i deitl doniol; ac ni fu eglwys

Llansawel erioed mor llawn ag y bu unwaith pan oeddwn i yn gwasanaethu ynddi.'

Nis gallasai William Prytherch ddeall hyny yn dda, a phrin y medrai ei goelio; o blegid gwyddai nad oedd yr 'Hen Jô' ond pregethwr sâl iawn; ond eglurwyd mai nid trwy bregethu y llanwyd yr eglwys y tro hwnw, ond trwy wrhydri o fath arall. 'Yr oeddwn i yn y 'George' un noswaith,' meddai yr hen 'ffeiriad; 'ac yr oedd yno ddau ddyn yn eistedd ac yn yfed, y rhai a adwaenid fel pen *bullies* yr holl wlad, ac yr oeddynt yn cadw sŵn enbyd, gan fygwth a hèrio pawb. O'r diwedd, gwnaethum i dderbyn hèr y ddau; a chyttunwyd yn y fan hono fod yr ymladdfa rhyngom i gymmeryd lle y Sabbath dilynol, ar ol y gwasanaeth. Boreu Sabbath, erbyn i mi fyned i'r pentref, yr oedd y lle yn llawn o bobl, llawer o ba rai oeddynt wedi dyfod bellder mawr o ffordd yn mhob cyfeiriad; a chefais yr eglwys, ac hefyd y fynwent, mor llawn o ddynion fel y gallaswn gerdded ar hyd eu penau o'r porth i'r pulpud yn llawer hawddach na cherdded trwyddynt. Aethum trwy y gwasanaeth gyda chymmaint o frys ag y medrwn. Yna eisteddais i lawr, gan ddisgwyl i'r bobl fyned allan; ond ni symmudai un o'i le. Pan welais hyny, codais ar fy nhraed, a dywedais fod un peth arall i fyned trwyddo, sef yr ymladdfa; a chan nad oedd neb yn myned allan, dywedais mai y gangell fyddai y lle mwyaf manteisiol tuag at hyny; ac ar ol clirio digon o le yn y fan hono, trwy i'r bobl ymwasgu yn dynach, aethum i lawr yno, a gelwais ar un o'r ddau ymladdwr i ddyfod yn mlaen; ac ar ol ysgwyd dwylaw, dechreuasom ar ein gwaith: ac ar un o'n hergydion cyntaf, tarewais ef nes y syrthiodd i lawr wrth fy nhraed fel un marw; a phan welais hyny, cefais ofn fy mod wedi ei ladd ef. Ond ar ol tipyn o ffwdan, gwelais ei fod yn fyw; ac yna, gelwais ar yr ail i ddyfod yn mlaen: ond yr oedd hwnw, ar ol gweled ei gyfaill yn cael ei gwympo mor sydyn, wedi ffoi ymaith, a'm gadael innau i fod yn ben ymladdwr y wlad.'

Pan oedd William Prytherch yn codi i ymadael, dywedai wrtho:—'Cofia fi at dy fam, Billy Bach, lawer gwaith; a dywed wrthi mai yn Llanerwys y mae y *jail*, ac nid yn Nghaerfyrddin. Y mae pobl yr eglwys yma yn anfon

ciniaw iawn i mi bob dydd, a llawer o bethau eraill; a dydd Sabbath, byddaf yn pregethu i'r cythreuliaid sydd o fewn y gwelydd hyn,' gan gyfeirio at y carcharorion; 'ac yr wyf yn cael gini am hyny.' Yn ei gartref yn Llancrwys, elai ef a'r clochydd, ar y Sabbothau, i dafarndy oedd yn agos i'r eglwys; ac yno yr eisteddent fynychaf, heb fyned oddi fewn i furiau yr eglwys o gwbl, oddi eithr fod gostegion priodas i gael eu cyhoeddi yno. Ar adegau felly, elai y ddau i mewn, a darllenid y gostegion gan y 'ffeiriad yn ofalus, bob gair, heb anghofio dywedyd wrth y gynnulleidfa, yr hon a wnelid i fyny agos bob amser o'r clochydd yn unig, 'Ac os gŵyr neb o honoch achos neu rwystr cyfiawn fel na ddylid cyssylltu y ddeuddyn hyn ynghyd, mynegwch ef.'

Mr. Charles (hynaf), Caerfyrddin, oedd y gweinidog a anfonwyd i eglwys Caio i brofi yr ymgeisydd ieuangc am y weinidogaeth. Tri chwestiwn yn unig a ofynwyd ganddo ar yr achlysur; ac yr oedd dau o'r tri yn gwestiynau i'r eglwys:—

1. 'A ydych chwi yn gwybod am rywbeth allan o le yn mywyd y dyn ieuangc hwn ag y byddwch yn cofio am dano pan welwch ef yn y pulpud?'

2. 'A ydyw ef yn cydfarnu â ni, y Methodistiaid, yn nghylch athrawiaethau crefydd?

Ar hyn, dywedodd hen flaenor oedd yn Nghaio ar y pryd, 'Byddai yn well i chwi ei holi ef, Mr. Charles, ac nid ein holi ni.'

'Na, Dafydd,' attebai Mr. Charles, 'nid oes amser genyf fi i'w holi heddyw. Yr ydych chwi wedi cael blynyddoedd at hyn; a dylasech, erbyn hyn, fod yn gwybod beth ydyw, a pheth sydd ganddo.'

Ar hyn, trodd at William Prytherch, a gofynodd iddo, 'A fedrwch chwi roddi rhywbeth yn erbyn Duw o blegid iddo ethol rhai i fywyd tragwyddol, tra y gadawodd eraill heb eu hethol; onid oedd hyny, dybygwch chwi, yn anghyfiawn?'

Attebodd y pregethwr ieuangc, 'Na, nid oedd hyny yn anghyfiawn; cyfiawn yn Nuw fuasai gadael pawb i fyned i golledigaeth: a thrugaredd ynddo oedd ei waith yn ethol tyrfa na ddichon neb eu rhifo i fywyd tragwyddol.'

'Dyna,' meddai Mr. Charles ar hyny; 'dyna, Dafydd, y mae y bachgen yn Fethodist da;' a therfynodd y prawf heb holi dim yn chwaneg.

Yr oedd Mr. Charles wedi cael llawer cyfle cyn y cyfle hwnw i brofi y gŵr ieuangc; o blegid yr oedd wedi bod, cyn hyn, am dymmor yn yr ysgol yn Nghaerfyrddin; a byddai Mr. Charles yn ei alw yn fynych i adrodd ei brofiad yn y seiat, neu i weddïo ar ddiwedd y seiat, ac i ddechreu y cyfarfodydd iddo ef pan fyddai yn pregethu yn y dref. Yr oedd gan Mr. Charles feddyliau uchel iawn am dano; ac yr oedd Prytherch, o'r tu arall, yn teimlo hyd y diwedd yr anwyldeb mwyaf tuag at Mr. Charles. Ni theimlodd Mr. Prytherch ofn dyn erioed; a thybiai rhai ei fod yn rhy hŷf. Wrth ei dderbyn yn aelod o'r cyfarfod misol, os wyf yn cofio yn iawn, gofynodd y Parch. Thomas Jones, Llanpumpsant, iddo, pa fodd y teimlai pan byddai rhyw ddynion mwy na'r cyffredin yn bresennol yn y gynnulleidfa pan fyddai yn pregethu. Attebodd yntau yn ddidaraw iawn, mai yr un modd y teimlai ef a phe na byddai neb yn gwrandaw arno ond dynion cyffredin. Yr oedd yr attebiad yn mhell o foddloni yr hen esboniwr; ac awgrymai mai bychander, os nad diffyg gras, oedd yr achos o deimlad felly, a gofynodd i Mr. Charles ei gymmeryd mewn llaw; ond y cyfan a ddywedodd Mr. Charles ydoedd, 'Nid gras nac anras yw peth fel hyn Billy—natur yw; a byddai yn dda iawn i mi, ac i chwithau, Thomas Jones, pe buasem o'r un cyfansoddiad naturiol ag ef.' Byddai y Parch. Thomas Jones yn ymollwng weithiau yn nghwmni ei frodyr yn festri y capel i siarad ar y mwyaf am dano ei hun, am ei esboniadau, ac am ei blant, &c.; ac wrth siarad felly un tro, attebodd Mr. Charles ef yn sychlyd a chwta:—'Ië, ïe, ydym, yr ydym yn ddynion pwysig iawn; ond y mae crwtyn yn Nghaio nad ydyw yn hidio gwelltyn am un o honom,' gan gyfeirio at Mr. Prytherch.

Y lle cyntaf yr aeth Mr. Prytherch i bregethu oddi cartref am y Sabbath oedd Cil-y-cwm, a'r ail Sabbath yn Llanymddyfri a Myddfai. Pregethai yn y boreu a'r hwyr yn Llanymddyfri, ac yn Myddfai am ddau o'r gloch. Ar ddiwedd yr odfa yn y boreu, daeth gwraig barchus yn mlaen, ysgydwodd law âg ef; ac wrth wneyd hyny, gadaw-

odd hanner coron yn ei law ef, a gwraig arall a adawodd swllt yn ei law ef. Gwnaed yr un modd yn Myddfai drachefn, ac eilwaith yn Llanymddyfri ar ol odfa yr hwyr; a phan ddaeth y blaenor yn mlaen i roddi iddo gydnabyddiaeth y ddwy eglwys am ei wasanaeth, dywedodd wrtho ei fod ef wedi cael ei dalu yn barod, a hyny yn anrhydeddus iawn; ac nid cyn i'r blaenor egluro iddo y deallodd ef fod yr arferiad y pryd hwnw gan yr aelodau mwyaf cyfoethog mewn eglwysi i gymmeryd y dull a nodwyd i gynnorthwyo pregethwyr. Hyn oedd y peth a alwyd gan rai yn 'ddegwm cil dwrn.'

Yr oedd y Parch. David Parry ar daith unwaith drwy sir Benfro, a'r hen bregethwr John Davies, Caio, yn 'gyfaill' iddo. Un noswaith, tynodd Mr. Parry bwrs o'i logell, a thaflodd ef i'w gyfaill, gan ddywedyd, 'Agora hwna, ac edrych faint sydd ynddo.' Arllwysodd John Davies y cynnwys ar wrthban y gwely, a rhifodd dros bum punt o arian. Pan glywodd Mr. Parry faint y swm, dywedodd, 'Ar eu canfed y byddont; cefais y rhai hyn heddyw. Yr oedd yn mron yr oll o'r arian hyny wedi eu rhoddi iddo gan bersonau fyddent yn dyfod ato ar ol yr odfaon i gyfarch gwell iddo.

A gawsoch chwi *charge* Mr. Prytherch i'r Parch. David Griffiths, Pantywyll, ar adeg ei briodas? Y mae Mrs. Griffiths yn fyw. Nis gwn ai priodol fyddai rhoddi y *charge*, er mor ddoniol ydyw, yn y cofiant.

Pa beth am y priodoldeb o wneyd troion direidus rhwng Mr. Prytherch a Mr. Jones, Llanedi, yn gyhoeddus? Prin y gellir cyfiawnhau rhai o honynt, ond ar y tir fod amcan yn eu cyflawniad i godi Mr. Jones i fyny o'r dyfnder y byddai ef mor dueddol, ar amserau, i suddo iddo. Byddai perygl i rai, wrth eu darllen, fyned i gredu mai plentyn o ddyn oedd Mr. Jones, yr hyn a fyddai yn gamsyniol iawn. Ni fuom yn siarad erioed âg un mwy craffus nag ef ar bregethwyr a phregethau. Gyda'r eithriad o Dr. Owen Thomas, ni chlywais neb yn gallu rhoddi desgrifiad mor dda o hen bregethwyr Cymru. Medrai osod allan nodweddion neillduol pob un o honynt, a'u cymmharu â'u gilydd. Yn hyn, yr oedd efe yn rhagori yn mhell ar Mr. Prytherch ei hun, ac hefyd ar Mr. Evans, Ton-yr-efail; a

medrai fyned yn mhellach yn ol, wrth gwrs, nag y medrai Dr. Owen Thomas fyned, gan fod ei gôf yn cymmeryd i mewn David Parry, David Rees, Jones, Edeyrn; Ebenezer Morris, a Mr. Charles, Caerfyrddin.

---

## YR HYBARCH WILLIAM PRYTHERCH.

WILLIAM PRYTHERCH! dyna enw saif yn fyw ar dafod gwlad,
Enw gyffry hen adgofion am ei droion mwynion, mâd;
Y mae blodeu 'i goffadwriaeth heddyw'n perarogli 'r gwynt,
A'i holl eiriau megys tlysion ddiarhebion ar eu hynt.

Gŵyr, fe ŵyr hen lwybrau Cymru heddyw'n dda am ôl ei droed,
Teithiodd yma 'thraw ar hyd-ddynt â'r newyddion goreu 'rioed;
Bu ei lais yn llanw 'r awel ar ein bryniau ysbaid maith,
Bu angylion, fel mewn llesmair, yn ei wrandaw lawer gwaith.

O! yr anwyl hen odfaon! mae ei enw 'nglŷn â hwy,
Fel yr un fedyddiai 'r dyrfa â chawodydd marwol glwy';
Ei sylwadau byw, naturiol, oeddynt lawn o wefr y Nef—
Wedi cael eu hysbrydoliaeth danlli wrth ei groesbren Ef.

'Roedd ei bregeth mor naturiol ag yw 'r dydd o groth y wawr,
Mor ddidaraw ag yw rhediad cornant rydd y mynydd mawr;
Brasder yr efengyl ydoedd, mewn brawddegiaeth, seml, ddi-rith,
A'i arabedd sanctaidd yntau arni fel boglynau gwlith.

Un o hen 'gastelli natur' ydoedd, godwyd gan Dduw 'r nef,
A 'tharianau fil yn crogi' ar ei furiau cedyrn ef;
Ganddo caed y craff 'weledydd,' a'i gynneddfau ar ddi-hûn,
Llawn o 'synwyr cryf cyffredin'—synwyr i adnabod dyn.

Pwy mor gall a thangnefeddus, pan f'ai 'twrf' yn cynneu tân?
Pwy fel Prytherch am ddyweyd brawddeg nerthol a'i diffoddai'n lân?
Ni roi anair chwaith i'w frodyr—tyner ydoedd megys tad:
Oes, mae iddo barch diledryw heddyw yn eglwysi 'n gwlad.

Pwy nas clywodd am ei droion mwyn-ddireidus yma 'thraw,
Gyda'i gyfaill 'Jones, Llanedi,' trwy y gwres, yr oerni, a'r gwlaw;
O bob doctor welodd daear i wellhau 'r bryderus fron,
Ac i loni y pruddglwyfni, 'William' ydoedd meddyg 'John.'

O! yr hen gwmnïwr dyddan! nefoedd iddo ef oedd sôn
Am hyawdledd yr 'hen gewri'—am Elias fawr o Fôn!
'Roedd yr hen odfäon nerthol yn ei gwmni 'n dod ar hynt;
Dolen-gydiol ydoedd Prytherch rhyngom ni a'r 'amser gynt.'

Tân y cewri a'i cynnhesodd yn ei weinidogaeth lân,
Ac am hwnw mynai siarad—mewn cymmylau—wrth y tân;
A thu hwnt i'w 'bedwar ugain,' dyna ei ddyddanwch gwyn,
Pan yn araf y disgynai ar hyd oerion lwybrau 'r glŷn!

Cyn myn'd drosodd, mynodd blygu 'ar ei liniau 'r olaf waith,'
Cyn diengyd hwnt i 'sefyll' gyda'r Oen ar ben y daith;
Ac anfonodd weddi drosodd—wedi 'i golchi yn y gwaed—
Ar ei hôl diangodd yntau, 'drwy y dwr,' heb wlychu 'i draed.

Huna! huna! was yr Arglwydd! Mae'r Efengyl etto'n fyw,
Ar dy ol gadewaist dithau dystion yn mhlith meibion Duw;
Y mae Iesu etto'n Nghymru! Mae angylion gylch dy gryd,
O! mor beraidd yw eu sibrwd! sibrwd anwyl—'Gwyn dy fyd!'

*Awst [illegible], 18[illegible].* JOHN T. JOB.

## PENNOD XIV.

PRIN, yn ddiau, y mae yr oes hon yn gwybod dim am y dyn hynod hwn. Nid gormod dyweyd ei fod yn un o'r rhai hynotaf yn Nghymru, ar lawer ystyriaeth, yn ei ddydd. Yr oedd yn hynod o ran corph—nid oedd yn dal iawn, ond yr oedd yn ymylu ar fod yn boenus o ran trwch. Yr oedd ganddo glamp o ben, a thalcen lled uchel a llydan; aeliau lled drymion, ac oddi tanynt yn llechu yr oedd dau lygad bychan chwareus, treiddgar, a phenderfynol. Hyd y gwyddom, ni thyfodd blewyn erioed ar ei wyneb. Yr oedd yn hynod yn hyn yn mhlith ei frodyr yn y cnawd. Yr oedd ganddo wyneb mawr a thrwchus, a genau wedi ei gwneyd i siarad. Gwddwgl byr iawn oedd iddo, hynod felly, yr hyn a achosid, yn ddiau, gan mor dew oedd efe. Yr oedd gwên dyner yn eistedd ar ei wynebpryd, yr hyn a ddangosai yn ddiammwys fod gŵr boneddig mewn gwirionedd yn preswylio oddi mewn. Ysgwyddau llydain; cefn, ïe, cefn teilwng o'r enw; a'r gwrthgyferbyniol hefyd yn dwyn yr un cyfartaledd. Yr oedd ei bedion yn gadarn, ond heb ddim neillduol ynddynt ag oedd yn ei wahaniaethu oddi wrth eiddo y rhelyw o ddynolryw. Yr oedd ganddo ddynoliaeth dda, lyfndew, landeg, a siriol; yr hon oedd yn rhoddi iddo hawddgarwch yn ngŵydd yr holl gynnulleidfaoedd yr ymwelai â hwynt. Yr oedd yn cerdded yn gadarn, syth, a lled araf, a hyny gydag urddas. Yr oedd yn llanw cryn lawer o le; ond nid yn ofer. Gosoder ef yn y fan a fyner; yr oedd urddas yn ei nodweddu, ond yn gwbl glir oddi wrth ddim rhith mursendod. Llanwai bob cadair yr eisteddai ynddi yn mhob ystyr; a phan y safai yn y pulpud, hawliai sylw pawb ar darawiad amrant. Yr oedd yn hynod hefyd o ran ei feddwl; a dyma yn ddiau ei brif hynodrwydd. Yr oedd ei athrylith y fath fel yr oedd yn gallu taflu newydd-deb parhaus i'w holl feddyliau, er i'r rhai hyny gael eu llefaru amryw weithiau o'r blaen.

Dywedir ei fod yn pregethu yn nghyfarfod misol ei sir ar brydnawn y dydd. Yr oedd wedi pregethu y bregeth hono saith o weithiau i'r gynnulleidfa cyn hyny; ond er ei bod yn brydnawn marwaidd, a'u bod wedi clywed y bregeth saith waith o'r blaen, nid oedd sôn am neb na dim ond pregeth yr hen Brytherch. Yr oedd yn ei thraddodi gyda y fath yni a swŷn fel y gwefreiddiai bawb. Yr oedd pob gair a brawddeg yn cymmeryd eu lle yn naturiol; a phwy yn well nag ef yn hyn, os nad ei fab? Yr oedd ei allu i ddyweyd ei feddwl yn rhagoriaeth neillduol ynddo; ac i goroni hyny, yr oedd y Nefoedd yn fynych iawn yn gwenu arno gyda neillduolrwydd. Nid wyf yn credu ei fod yn ddarllenwr mawr ac ëang—nid llyfr-bryf ydoedd, ond meddyliwr mawr. Yr oedd yn ddarllenwr mawr ar y Beibl, a ffrwyth myfyrdod a gweddi oedd ei bregethau; ac yr oedd edyn ei athrylith mor gryfion fel yr oedd yn gallu ehedeg yn uchel, a dwyn pob peth natur a gras i wasanaethu yr efengyl. Nid oedd yn credu mewn cyfansoddi llawer o bregethau cyffredin; yn hytrach, credai mewn gwneyd ychydig o rai anghyffredin: a hyn oedd dirgelwch ei lwyddiant fel pregethwr. Dywedir fod un brawd o bregethwr wedi dyfod ato unwaith, gan ei hysbysu ei fod am fyned ar daith i'r Gogledd, a bod ganddo drigain o bregethau wedi eu bwriadu ar gyfer y daith. 'O!' ebe yntau; 'felly, felly. I chi'n 'mofyn cynghor, ŵr da? Os felly, gwell fyddai i chwi ferwi y trigain i lawr i dair; answdd, ac nid swm, sydd yn debyg o gyrhaedd amcan da.' Gwyddai ef yn dda beth oedd myned i'r Gogledd ar daith, a gwyddai hefyd beth oedd pregethu yno,—nid rhif y pregethau oedd yn bwysig, ond eu nodwedd. Yr oedd yn y gymmydogaeth hon hen gymmeriad gwreiddiol a rhagorol iawn flynyddoedd yn ol—John Williams, Bryn Coch, oedd ei enw; chwarelwr ac amaethwr ydoedd wrth ei gelfyddyd; ac yr oedd yn byw yn Bryn Coch, ar ochr y Wyddfa. Nid oedd yn grefyddwr proffesedig; ond yr oedd yn ddiareb am ei ymddiddanion am bregethwyr a phregethau. Bron nad allwn ddyweyd am dano fel y dywedai Dafydd Rolant am Dafydd Cadwaladr, fod ei gôf fel uffern; beth bynag a'i i mewn, ni ddeuai byth allan. Gallai gofio pregethau am ddeugain mlynedd a mwy, a'u hadrodd bron air am air.

Yr oedd Prytherch ar daith yn y sir un tro, a chyhoeddwyd ef i fod yn y Capel Coch y nos Lun dilynol. Yn y chwarel dranoeth aeth yn ymddiddan am dano; a dywedai Siôn William, fel y gelwid ef gan ei gyd-weithwyr—'Yr oedd yn dda genyf glywed yr hen Brytherch yn cael ei gyhoeddi neithiwr i fod yma heno. Yr wyt yn cofio gwrandaw arno er's dros ddeugain mlynedd yn Sasiwn Llanrwst, yn pregethu yn fendigedig ar y geiriau hyny:—'Y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw.' Yna ä'i yn mlaen i adrodd darnau helaeth o honi. Ar ol noswylio, yn lle myned adref, y mae yn cyfeirio i'r odfa i'r Capel Coch. O'r diwedd, y mae yr hen Brytherch yn dyfod i mewn, ac yn esgyn i'r pulpud, yn dechreu y gwasanaeth; yna yn cymmeryd ei destyn, ac yn darllen:—'Y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf pur ydyw.' Y mae'r cyfeillion yn edrych ac yn wingcio ar eu gilydd, gan gofio yr ymddiddan yn y chwarel. Ond odfa fendigedig a gafodd, er ei fod yn adrodd yr un geiriau yn hollol ag oedd Siôn William wedi eu hadrodd. Ar ol y gwasanaeth, y mae Siôn William, a chyfeillion eraill, yn myned i dŷ'r capel i edrych am y pregethwr; ac wedi ysgwyd llaw, y mae yn dyweyd wrtho:—'Yr wyf yn cofio gwrandaw arnoch yn pregethu y bregeth yma er's dros ddeugain mlynedd, yn Sasiwn Llanrwst." 'O!' meddai yntau; 'felly, felly; mae'n cario ei hoed yn weddol dda, onid yw hi?' Dywedai y frawddeg ddiweddaf mewn dull mor naturiol fel y torodd pawb allan i chwerthin yn galonog; ac nid y lleiaf felly oedd yr hen bregethwr ei hun.

Wel, yr wyf yn crwydro; gwell fyddai i mi ddychwelyd yn ol i roddi crynodeb byr o hanes ei ymdaith o ddechreu ei fywyd hyd ei derfyn yma. Y mae yn debyg mai ysgrifenydd y cyfarfod misol y perthynai iddo a ysgrifenodd y nodiadau canlynol:—

'Ganwyd ef yn Nhŷ'n'rheol, ger Pumsaint, yn y flwyddyn 1804. Dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid, yn eglwys Caio, pan yn un-ar-hugain oed. Pregethodd am drigain-a-phedair o flynyddoedd. Cafodd ysgol ddyddiol dda. Meddai ar synwyr naturiol cryf, bywiog, a chyflym. Yr oedd yn gymmeriad gwreiddiol a nodedig, ac yn bur ffraeth yn ei ymadroddion. Cydnabyddid ef fel cyfaill

didwyll, ac amddiffynwr ei frodyr bob amser. Dechreuodd bregethu yn bur ieuangc: ond er hyny, daeth yn boblogaidd ar unwaith, a chadwodd y poblogrwydd hwnw hyd y diwedd. Anaml y byddai neb yn plygu ei ben i gysgu dan ei weinidogaeth. Yr oedd yn Gristion da—un oedd yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrwg. Yr oedd yn Gristion mawr, ac yn bregethwr mawr. Cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth yn y flwyddyn 1839. Bu am daith yn y Gogledd amryw weithiau. Cafodd lawer oedfa rymus ac effeithiol. Yr oedd yn gymmeradwy gartref, ac oddi cartref. Mae dau o'i feibion yn pregethu gyda'r Methodistiaid; sef, y Parchn. W. E. Prytherch, Gopa, a Samuel E. Prytherch, Ferry Side. Wedi iddo ymadael â'g eglwys Caio, bu yn byw am rhyw gymmaint o flynyddoedd yn y lleoedd canlynol:—Bettws, Pontynyswen, Nantgaredig, a Ferry Side. Yn y lle olaf a enwyd, wedi iddo gael misoedd o gystudd, yr hyn a ddioddefodd yn dawel a dirwgnach, bu farw mewn tangnefedd, Tachwedd 20fed, 1888. Gorphwys yr hyn sydd farwol o'n hanwyl frawd yn mynwent Llansaint.'

Un o'i hen gymdeithion yn ei deithiau i'r Gogledd oedd y Parch. John Jones, Llanedi; a llawer tro digrifol a gymmerodd le rhyngddynt. Yr oedd Mr. Jones yn ofnus a melancolaidd iawn, ac felly yn dueddol i gredu pob peth, tra yr oedd Mr. Prytherch yn llawn o ddireidi a digrifwch. Yr oedd yn ddiareb am hyn trwy Gymru benbaladr, ac yr oedd gair Mr. Prytherch yn ddeddf gan Mr. Jones.

Yr oedd y ddau mor hoff o'u gilydd a Dafydd a Jonathan; a phan aeth Mr. Jones i fyw i Ferry Side, mynych y byddai Mr. Prytherch yn galw yno i edrych am dano; ac yn y diwedd, aeth yno ei hunan i fyw, ac yno y tynodd ei draed i'w wely i farw. Pregethwyr rhagorol oedd y ddau. Codai y wlad i'w gwrandaw, a gwelid lluoedd yn dylifo ar eu hol. Yr oedd Mr. Jones, Llanedi, yn felus ei eiriau fel y diliau mêl, a'i lais tyner a mawr yn swyno pawb. Medrai Mr. Prytherch daranu yn ofnadwy weithiau yn erbyn pechodau yr oes; ond ei fan goreu oedd darlunio cyfaddasder yr efengyl ar gyfer byd colledig. Heddwch i'w llwch.

## PENNOD XV.

[DERBYNIASOM yr hyn a ganlyn, neu yn hytrach swm a sylwedd yr hyn a ganlyn, oddi wrth y Parch. D. G. Owen, Cydweli, sir Gaerfyrddin—edmygydd mawr arall o'r Parch. William Prytherch.]

'DYN mawr oedd Mr. Prytherch yn ei gwbl—corph mawr, meddwl mawr, synwyr cyffredin mawr, a phregethwr mawr. Yr oedd y cwbl ag oedd o'i gwmpas ar raddfa fawr. Byddai yn y tŷ lle y cynnelid y mis yn dywysog. Byddai y tad, a'r fam, a'r plant yn ymgynghori, ac yntau yn eu difyru â'i ddywediadau pert, ffraeth, a diniwed. Do, bûm fwy nag unwaith yn edrych arno, ac yn ei wylied mewn cwmni mewn rhyw ystafell, ar ddydd y gymmanfa, neu y cyfarfod misol: byddai fel brenin yn eu plith. Y gadair fawr fyddai iddo ef, a theimlai pawb hi yn anrhydedd i weini arno lle bynag y byddai: un gyda'r glasaid dwfr, un arall gyda'r tân; o herwydd yr oedd 'dwr,' 'tân,' a 'mŵg' fynychaf yn yr un ystafell ag ef, ac yntau yn dyferu diarhebion lawer yn eu plith mor ddifyr, dyddan, a naturiol ar dwfr yn rhedeg; a phawb yn teimlo eu bod yn cael llawn tâl am eu gwasanaeth iddo. Yr oedd ganddo galon fawr, syniadau ëang, a gair da am bawb. Fel cariad, ni feddyliai ddrwg am neb. Y tebygrwydd yw, na thrafaeliodd neb fwy nag ef yn ei ddydd, a hyny trwy Dde a Gogledd, i bregethu Gair y Deyrnas; a thrwy hyny, yr oedd, o angenrheidrwydd, yn ymweled â gwahanol fathau o deuluoedd—uchel ac isel, tlawd a chyfoethog, a gwahanol fathau o ddynion. Ond am ei fod 'yn gall fel y sarph, a diniwed fel y golomen,' nid oes hanes iddo gau yr un drws yn ei erbyn erioed. Y mae llawer dyn nad oes neb yn ei weled byth ond hyny. Nid yw merched Efa i gyd yr un fath, yn hollol gydradd. Y mae gwell a gwaeth, a gwych a gwael, yn eu plith hwy, er mai yr hanner oreu y gelwir hwy. Ond rhai da i gyd oeddynt gydag ef—dynes fach

nât ydyw hi; ac am dano yntau, arglwydd y babell, dyn *noble* ardderchog ydyw. Yr oedd mewn heddwch â phawb, a phawb mewn heddwch âg yntau. Nis gwyddai efe ddim am yr Ishmael hwnw gynt, yr hwn oedd â'i law yn erbyn pawb, a llaw pawb yn ei erbyn yntau. Da fyddai i feibion y prophwydi trwy ein gwlad benbaladr i'w efelychu ef yn hyn o beth—'Ffydd y rhai dilynwch.'

Yr ydym yn cofio yn dda am y parchedig dad yn y gymdeithasfa ddiweddaf a gynnaliwyd yn Llangeitho, pan yr oedd nifer go fawr o ddynion ieuaingc o'r gwahanol siroedd yn cael eu neillduo i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd dynion blaenaf y cyfundeb yn bresennol yn y gymdeithasfa hon. Fel y byddis yn arferol o wneyd ar y cyfryw achlysuron, rhoddid cynghorion gwerthfawr i'r bobl ieuaingc pa fodd i fyw yn deilwng o'r swydd uchel a sanctaidd yr oeddynt wedi eu galw iddi. Cymmhellid hwy i fod yn llwyr-ymwrthodwyr oddi wrth y pethau meddwol a'r myglys, a lliaws o bethau rhagorol ac angenrheidiol eraill. O'r diwedd, dyna'r llywydd yn galw ar ein gwrthddrych, fel hynafgwr, i ddyfod yn mlaen i roddi gair o gynghor i'r gwŷr ieuaingc.

'Na wir, yr ydych chwi wedi dyweyd yn rhagorol wrthynt. Nid oes eisieu dyweyd chwaneg, ac nis gall neb ddyweyd dim sydd well.'

Y mae y gynnulleidfa fawr fel pe yn rhoddi amnaid iddo â'u traed fod yn rhaid iddo godi i ddyweyd gair. O'r diwedd, dacw fe ar ei draed, a llygad pawb yn y dyrfa yn craffu arno, ac yntau yn taflu cipolwg gyfrwys-gall ar y dyrfa:—

'Wel, ie wir, dyma *lot* o fechgyn bach *nice*, yn edrych yn *noble*: a dyma chwi wedi cael lliaws o gynghorion gwerthfawr iawn; ac os gwnewch chwi tua'r hanner o honynt, chwi fyddwch yn lew iawn. Y maent wedi dyweyd wrthych am beidio yfed y cwrw yna. Wel, ïe, y mae hyny yn *noble*; ac hefyd, y maent wedi dyweyd wrthych am beidio ysmocio. Wel, ni fedra i ddim dyweyd rhyw lawer ar y pen yna. Waeth mae pawb o honoch yn gwybod fy mod i yn tynu ambell i fygyn 'nawr ac yn y man (chwerthin mawr). Ond mi gês i gynghor bach gan yr hen bobl pan oeddwn yn llangc; ac mi ddywedaf ragor

i chwi, nid ei gael yn unig a ddarfu i mi, ond mi a'i cedwais ef hefyd (trydan trwy yr holl gapel). A dyma fe: —'Arferwch ddyweyd yn dda am eich brodyr yn y weinidogaeth.' Y mae ambell i frawd yn y weinidogaeth, ar hyd y tai capelau, a'r tai eraill, lle bo'r mis yn digwydd bod, ar nad ydynt byth wrth eu bodd os na bydd rhyw frawd yn y weinidogaeth o dan ei ddannedd; a'r pethau sala am hwnw yn wastad sydd ganddo. Ystumog ei ydyw hono ag sydd raid iddi gael rhyw *bria* o dan ei dannedd o hyd, o hyd. Trugaredd o'r mwyaf i'r tylwyth hyny fyddai i chwi wanu, neu wthio pibell, neu rywbeth arall, i'w cegau, er iddynt gael rhywbeth dan eu dannedd, yn hytrach na'r brodyr yn y weinidogaeth.'

Terfynodd yn nghanol cymmeradwyaeth mawr a chyffredinol, a'r naill yn dyweyd wrth y llall, 'Dyna yr hen frawd wedi myned â'r maen i'r mur,' a'r llall yn dyweyd, 'Nid oes curo i fod ar Prytherch.'

Ond fel pregethwr mawr, yr oedd Cymru yn adnabod Mr. Prytherch. Mae yn wir mai nid yr un ystyr a roddir i'r geiriau 'pregethwr mawr' gan bob dyn. Ond beth bynag am hyny, yr oedd efe yn un o'r rhai hyny a godai gynnulleidfa fawr allan bob amser, pa le bynag yr elai; ac ni chaent fyned ymaith ar eu cythlwng chwaith. Yr oedd yna ddirgelwch rhyfedd o'i gwmpas. Nis gellir dyweyd fod dyfnder yn ei bregethau, na iaith goeth; ond iaith blaen, syml, a sathredig, iaith y wlad, a hen wirioneddau plaen, 'hen ŷd y wlad;' dyma y rhandiroedd y byddai efe yn eu cerdded. Heb law hyny, yr oedd llawer o'r pregethau heb fod o'r mwyaf newydd, yn enwedig yn ei flynyddoedd diweddaf; ac etto, yr oedd pob dosbarth o bobl yn ei fwynhau—y doeth fel yr annoeth, y dysgedig fel yr annysgedig, teimlai pawb eu bod wedi cael gwledd; er, o bossibl, eu bod wedi gwrandaw y bregeth o'r blaen. Ond yr oedd rhyw newydd-deb *(freshness)* bob tro yn y bregeth, wedi bod o dan ei law ef. Nis gallesid dyweyd ei fod yn floeddiwr mawr chwaith, beth bynag yn ei flynyddoedd olaf. Nid oedd yn meddu ar lais peraidd, na dawn melus a mwyn; ac er hyn oll, yr oedd rhyw fyn'd rhyfedd gyda'i bregethu ef. Mewn gwirionedd, yr oedd rhywbeth yn ei besychiad ef yn fawr.

Yr ydym yn cofio am gyfarfod misol yn y sir, a rhyw frawd galluog wedi bod yn pregethu o'i flaen, a phregeth dda oedd gan y gŵr da hefyd; ond gwelsom fwy o fyn'd, fel y dywedir, ar bethau. Ond dyma ein gwrthddrych yn dechreu ymysgwyd, ac yn rhoddi rhyw besychiad neu ddau, nes yr oedd y gynnulleidfa, mewn ychydig o eiliadau, ar eu traed yn mwynhau gweinidogaeth yr olaf, wedi anghofio bodolaeth y cyntaf. Dyn cyflym iawn oedd gwrthddrych yr argofiant hwn. Canfyddai y drwg yn dyfod o bell, a gwelai y ffordd i ddyfod allan, pan na byddai neb arall yn gweled drws gobaith yn un man.

Un adeg, yr oedd y diweddar Barchedig Richard Jones, o Gaio, yn frenin bach yn sir Gaerfyrddin; ac yr oedd y diweddar Barch. David Griffiths, Pant-tywyll, yn ddyn ieuangc y pryd hwnw, ac yn byw yn y rhan uchaf o'r sir, yn cadw ysgol. Byddai Mr. Griffith yn myned i sir Forganwg weithiau, am ryw ddau Sabbath, ac i dreulio yr wythnos rhyngddynt, yn yr adeg y byddai yr ysgol wedi myned yn rhy fechan i'w chynnal. Yr oedd yr hen frawd Richard Davies yn ddeddfol iawn, a bygythiai y bobl ieuaingc oedd yn codi gyda'r weinidogaeth; a dywedai eu bod yn myned i siroedd eraill i bregethu, ac i bwyso ar yr eglwysi.

Rhyw ddydd, dyma Mr. Prytherch yn cyfarfod â David Griffiths, a chyfarchai ef, gan ddywedyd:—

'Wel, Dafydd, mi glywais fod yr hen ŵr Richard Davies yn dyfod â dy achos yn mlaen i'r cyfarfod misol nesaf. Clyw' mi awn i dori'r garn geryg acw sydd wrth droed y Rhiw cyn yr elwn ni o dan ordd yr hen Richard Davies.' Felly y bu. Torwyd y garn geryg gan y pregethwr a'r ysgolfeistr.

Mewn cyfarfod misol yn fuan ar ol hyn, dyma Richard Dafydd yn codi i fyny ar ei draed, yn dywysogaidd iawn, ac yn dechreu siarad ar y mater.

'Richard Dafydd,' ebe Prytherch, 'pwy yw y pechaduriaid mawr yna yr ydych chwi yn dyweyd mewn dammeg am danynt? Y mae yn rhaid i chwi ddyweyd yn fwy eglur.'

'Wel,' ebe yr hen esgob; 'Dafydd Griffiths yw y gŵr.'

'Na, na,' ebe Prytherch; 'y mae galwedigaeth gan

Dafydd Griffiths; ac y mae yn ei dilyn hi hefyd, pan bo'r ysgol wedi myned i lawr.'

'Beth ydyw yr alwedigaeth hono?' ebe yr hen frawd.

'Tori ceryg. Y mae wedi tori y garn lanaf welodd eich dau lygad chwi erioed wrth droed y Rhiw.'

Felly y torwyd nerth ergyd yr hen frawd, a Dafydd a ddiangodd.

Yr ydym yn cofio am hen frawd o flaenor yn Ferry Side, hen frawd da a duwiol, yn ol barn pawb a'i hadwaenai; ac yr oedd gwrthddrych yr argofiant hwn ac yntau yn gyfeillion mawr. Beth bynag am hyny, tuag amser y Nadolig, yn ol arfer gwlad—ond o drugaredd, arferiad sydd yn myned i lawr yn gyflym ydyw, ac arferiad sydd wedi myned i lawr yn mhob cymmydogaeth dda a goleuedig, lle y mae crefydd yn flodeuog. Cyfeiriwn at yr arferiad sydd gan y ffermwyr o wneyd cwrw gwyliau Nadolig, a'i roddi i hwn a'r llall. Rhyw ddiwrnod, digwyddodd i William, yr hen flaenor, fyned heibio i rai o'r tai ffermydd ar ei hynt; ac yn mawredd eu caredigrwydd, a'u parch, a'u teimlad da, cymmhellai y ffermwyr William i gymmeryd cwpanaid o'r dablen; ac o blegid fod yr hen frawd yn wan, ac yn oedranus, trodd, fel y dywedir, y dablen yn ei ben ef, ac aeth sôn allan fod yr hen frawd wedi meddwi. Yn y cyfarfod eglwysig cyntaf ar ol hyny, yr oedd yn rhaid galw William, yr hen flaenor, i gyfrif. Yr oedd Prytherch yn ddysgyblwr mawr, ond tyner.

'Wel, William,' ebe yr hen weinidog, 'Beth ydyw y sôn sydd am danat ti ar hyd y wlad yma, am y meddwi yma? A oes gwirionedd yn y peth? Rho glywed i ni.'

'Wel, yn wir,' ebe William druan; 'mi gymmerais i gwpanaid o daplen yn F———. Y mae pawb o honoch yn gwybod yn burion nad ydwyf fi ddim yn arfer yfed y pethau meddwol yma, a dyma fi wrth eich traed chwi; ond y mae yn wir ddrwg genyf.'

'Wel, ïe; y peth nesaf ydyw tori William allan,' ebe Prytherch. 'Wel, os ydych chwi yr un feddwl a mi, codwch eich dwylaw i ddangos fod William yn cael ei dori allan. Wel, dyna, William bach, dyna ti allan ar y bangc yn awr. Wel, aroswch etto, i ni gael gweled beth a ellir wneyd o William. Os ydych o'r un farn a mi, a thebyg

eich bod chwi, codwch eich dwylaw i ddangos fod William i gael ei le yn ol heno etto.'

Ac felly y bu. Cafodd William fyned allan a dyfod yn ol yn yr un cyfarfod. Cadwodd y ddysgyblaeth a William ar eu traed yn yr un cyfarfod. Gallem chwanegu llawer am bethau cyffelyb Mr. Prytherch; ond gwell gadael ar hyn yna yn y fan hon. Gwelodd lawer o bethau rhyfedd ac ofnadwy yn yr anialwch yr holl flynyddoedd hyn. Nid oes neb yn ammheu dim na chafodd Ganaan ar ei hyd. Pan oedd ei draed ar waelod Dyffryn Sittim, yr oedd mewn llawn fwynhâd o'r pethau yr oedd wedi bod am oes faith yn eu pregethu i eraill. Cafodd ein hanwyl a'n hybarch dad weled cyflawniad llythyrenol o addewidion mawrion a gwerthfawr Llyfr Duw: sef y rhai hyny, 'Dy feibion fydd yn lle dy dadau, y rhai a wnei yn dywysogion yn yr holl dir.' 'Dyrchafaf ef am iddo adnabod fy enw. Mewn ing y byddaf fi gydag ef, ac y gogoneddaf ef. Digonaf ef â hir ddyddiau, a dangosaf iddo fy iachawdwriaeth.'

## PENNOD XVI.

YN sylweddol, dyma fel yr ysgrifenwyd ataf am dano gan un o'm cyfeillion anwylaf, ac un o edmygwyr penaf gwrthddrych y Cofiant hwn*:—Nis gellir enwi neb heddyw o'r Tadau Methodistaidd, y rhai a draethasant i ni air Duw, ag ydynt erbyn hyn wedi huno yn yr Iesu, ac sydd mor fyw i'n hadgof a'n teimlad a'r anwyl Barchedig William Prytherch. Braidd nad ydym yn teimlo ein bod yn *phonographs* o hono i ni ein hunain, gan y gallwn ei sylweddoli mor berffaith yn holl agweddau ei fywyd cyhoeddus. Yr oedd, fel y gwyddys, mor wahanol i bawb eraill, a heb ddynwared neb; ac etto, yr oedd yn gyfoethog mewn rhinweddau naturiol a moesol. Cawsom fanteision lawer yn ystod y deugain mlynedd i fod yn gydnabyddus iawn o hono, ac i ffurfio barn bersonol am dano. Cydnabyddai pawb a'i hadwaenai ef ei fod yn un o'r rhai hyny a elwir *model men*, gan ei fod wedi cael ei gynnysgaeddu â'r fath ddynoliaeth uchel a gonest, fel na chanfyddem ynddi ond natur ar ei goreu; ac er llygredigaeth gwreiddiol y cwymp, aflwyddiannus a fu yr ychydig addysg a gafodd yn moreuddydd ei oes, ynghyd â'r talentau, a'r galluoedd meddyliol disglaer a dderbyniodd, i'w wneuthur yn ddyn annaturiol. Gwir i'r gras a dderbyniodd yn yr argyhoeddiad ei gyfnewid o fod yn bechadur i fod yn Gristion, a thrwy hyny, osod o'i flaen ogoniant Duw yn nôd i'w fywyd, gan gyssegru pob talent a gallu o'i eiddo i'r amcan hwnw; ond pell a fu yr oruchwyliaeth hono o ddinystrio ei nodweddion personol, a theithi ei feddwl. Ni ddinystriwyd dim a berthynai iddo ond llygredigaeth ei natur. Daeth ei arabedd a'i ffraethebau, a'i ddifyr ddywediadau, y rhai a'i gwnai yn adnabyddus a phoblogaidd o'r blaen yn ngolwg ei gyfoedion, bellach, yn wersi awgrymiadol iddynt, mewn moes a chrefydd. Dylid

* Sef y Parch. T. E. Thomas, Llanymddyfri.

cadw mewn côf gwastadol, a hyny gyda chraffder a gofal, fod dau ddosbarth o ddynion yn ein mysg, ag ydynt yn dra gwahanol i'w gilydd, gyda golwg ar ba rai yr ydym mewn perygl i wneyd camsyniadau pwysig, ac i ffurfio barn annheg ac anghywir iawn. Y dosbarth cyntaf y cyfeiriwn ato ydyw y dosbarth hyny o bobl ag y mae eu daioni, a'u holl rinweddau, i gyd yn y golwg—dynion sydd yn wastadol â gwên ar eu gwyneb, ond enllib yn y galon; mêl ar y tafod, ond gwenwyn aspiaid sydd dan eu gwefusau—ysgydwant law nes peri i ni weithiau ddisgwyl bendith, ond o'u mewn y mellldithiant. Y dosbarth arall sydd â'u rhagoriaethau, i ryw fesur o'r golwg; a'r hyn sydd ddiffygiol ynddynt yn hawdd i'w ganfod. I'r dosbarth olaf hwn y perthynai Mr. Prytherch. Am hyn, nid oes unrhyw ammheuaeth yn meddwl neb. Bu yn brofedigaeth i aml un nad oedd yn ei adnabod yn dda, i dynu camgasgliad o berthynas i'w gymmeriad, am y meddai ar y fath allu dihafal i adrodd hanesion difyr, a'u gosod allan mewn ieithwedd mor swynol a thlws nes peri gwên a chwerthiniad iachus yn mhlith yr holl gyfeillion. A drwgdybiai rhai o aelodau y sect fanylaf o'r Phariseaid ei fod, yn enwedig ar brydiau, yn ymylu ar fod yn rhy gellweirus. Druain o honynt. Y tebygrwydd yw, pe buasent yn byw yn amser Abraham a Sarah, y rhai a chwarddasant pan addawodd yr Arglwydd fab iddynt yn eu henaint—y tebygolrwydd yw y buasent yn cael eu diarddel, neu eu bwrw allan am byth. A beth, pe clywsent y genedl yn chwerthin ac yn canu wrth ddyfod allan o'u caethiwed Babilonaidd? Diau mai eu dychwelyd eilwaith a gawsent, i grogi eu telynau ar helyg distawrwydd, yn ngwlad y caethiwed, o herwydd eu hynfydrwydd, a'u mawr anystyriaeth. Ond gwyddom ni, y rhai a'i hadwaenai oreu, nad ar y meillion a'r rhosynau hyn y bywoliaethai ein hanwyl a'n hybarch dad, ond yn hytrach ar borfeydd gwelltog cynnyrchion yr efengyl, a cher llaw dyfroedd tawel ei chysuron hi; er hyny, tynodd lawer tywysen addfed er cryfhau a llawenhâu calon y profedigaethus. A phwy erioed a wnaeth cystal defnydd o'i *wits* ag ef, a hyny bob amser fel yn fa-wasanaethgar i'r efengyl ac iddo Ef? Meddai ar ysbryd rhagorol, a thoddai bob gwirionedd yn ei *fould*

ei hun, ac adroddai hanesion dyddorol, fel pe nad amcanai at ddim mwy na chadw y cwmpeini yn foddus; ond anaml, os byth, y gorphenai â hwynt heb i'r rhai mwyaf llygad-graff ganfod y moes-wersi ag oedd ynddynt. Mor hawdd, yn aml, y medrai lyffetheirio dynion â'r rhwymau a wnaethent hwy eu hunain. Dyma un enghraifft o lawer:—

Ar brydnawn cynnar yn yr haf, ar ddydd Sadwrn, cychwynai ar ei anifail at ei gyhoeddiad, yn ol defod ac arfer y dyddiau hyny, ar gyfer y Sabbath dilynol. Yr oedd ganddo bellder o tua deng milldir i fyned; ac wedi cyrhaedd y lle yr arferai lettya, disgynai oddi ar ei anifail, ac aeth i'r tŷ, a chafodd dderbyniad caredig. Preswyliai yno amaethwr cyfrifol a chyfoethog, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd ar hyny o bryd yn wrthgiliwr. Wedi troi yr anifail i gae porfäog ger llaw y tŷ, aeth yntau i fewn i'r tŷ i fwynhau y croesaw arferol. Dranoeth, ar y boreu, cafwyd fod yr anifail wedi diangc allan o'r cae lle y gosodwyd ef y noson o'r blaen; ac wedi cyrhaedd y ceimle (*common*) âg oedd gerllaw. Aed ar ol ceffyl Mr. Prytherch, a dychwelwyd ef, a rhoddwyd ef yn yr ystabl. Erbyn hyn yr oedd Mr. Prytherch wedi codi, ac wedi dyfod i lawr o'i ystafell wely, ac yn mwynhau ei hun gyda'i eilun diniwed. Aeth Mr. Thomas ato [dyna ydoedd enw yr amaethwr], a chymmerodd yr ymddiddan canlynol le rhyngddynt:—

'Rhyw geffyl rhyfedd sydd genych, Mr. Prytherch,' meddai Mr. Thomas wrtho.

'Beth am dano?' ebe yntau.

'Gwyddoch i ni ei roddi neithiwr yn y cae hadau ger llaw y tŷ,' ebe y ffermwr.

'Wel, do,' oedd yr atteb. 'Onid ydyw yna heddyw?'

'Na, aeth allan rhyw amser yn y nos, a chawd ef heddyw ar yr hen *gwmin* sydd ger llaw,' dywedai y ffermwr.

'Ië, ond y tebygrwydd yw fod yno well porfa,' attebai Prytherch.

'Gwell porfa, yn wir; nid hir y buasai cyn newynu yno,' meddai Mr. Thomas.

'Wel, wel,' attebai yntau, gan godi ei law mewn syndod; 'dyna y fath yw ffolineb ar ei eithaf. Pa le y mae yn awr?'

'Yn yr ystabl.'

'Gwell i chwi ei gadwyno hyd nes y cenfydd ei ffolineb,' attebai yntau.

Ar hyn, dyna Mr. Prytherch yn edrych yn graff yn wyneb ei gyfaill, gan ofyn yn ddifrifol iddo, a ydoedd yn y *society* y pryd hwnw. Erbyn hyn dyma y saeth oddi ar y bŵa.

'Wel, yn wir,' meddai; 'ni welais i erioed ddau yn fwy tebyg i'w gilydd na'r hen geffyl a chwithau. Cofus genyf eich gweled gyda'r brodyr a'r chwiorydd, yn mhorfa frâs yr eglwys am flynyddoedd, ond erbyn hyn yr ydych ar *gwmin* y byd. Pa un yw y goreu?'

Ar hyn torodd Mr. Thomas allan i wylo, a dywedodd:—

'Wel, yn wir, Mr. Prytherch anwyl, os caf fyw i weled yr odfa heddyw, gwnaf gynnyg fy hun yn ol; ac os derbynir fi, byth y gwelir fi etto ar *gwmin* newynllyd y byd annuwiol.' Ac felly y bu. Parhaodd yn aelod ffyddlawn a dichlynaidd hyd ei fedd.

Yr oedd gan Mr. Prytherch berthynas o bell fel y dyweder, o'r enw David Jones; yr hwn, ar hyny o bryd, oedd yn byw rhyw bedair milldir o Lanymddyfri. Rhyw ddiwrnod, y mae y ddau yn cyfarfod â'u gilydd. Ar ol cyfarch y naill a'r llall, gofynodd Mr. Prytherch iddo:—

'Wel, Dafi; i ba le y byddwch yn arfer myn'd ar y Sabbath?—i ba gapel?'

Fel y digwyddo hi oedd yr atteb:—'Byddaf yn myned weithiau i'r Cefn, a'r Pentre, at yr Annibynwyr. Yn y prydnawn byddaf yn aml iawn yn myned i wrandaw y ffeirad i'r ysgoldy ger llaw. Yn yr hwyr, byddaf yn fynych yn myned i Horeb, capel y Bedyddwyr, i wrandaw; ac os bydd yn digwydd bod yn dywydd braf, byddaf yn dyfod i'r Tabernacl, at y Methodistiaid, i wrandaw.'

Ar ol ei wrandaw yn sŷn am ysbaid o amser, yn adrodd ei hanes, o'r diwedd dywedodd wrtho:—

'Yn wir, Dafi bach, dal ati, a mynycha y lleoedd hyn mor aml ag y gelli; am y gwelaf arwyddion amlwg arnat fod yn rhaid i ti wrth bedwar enwad, o leiaf, cyn byth y gellir perffeithio dy *sort* di.'

Ar hyn, gofynai David Jones am gynghor:—beth a fuasai y peth goreu iddo wneyd. I'r hyn yr attebodd y gweinidog:—

'Gwna dy gartref yn rhyw le, rhag ofn iddynt dy alw, 'Dafi pob man." Ac felly y gwnaeth yn fuan ar ol hyn.

Nid oedd mo'i gyffelyb am yrn ymaith ysbryd pruddglwyfus. Cofus genyf glywed Thomas Morgan, Yswain, Maes-gadog, Caio, yn adrodd hanesyn am dano rhyw dro yn ymweled â'i fam, pan oedd yn byw yn Albert Mount. Nid oedd neb yn ammheu gwirionedd crefydd y foneddiges hono, a gwyddai yntau ei hanes cystal a neb. Ond fel llawer, treuliodd lawer o'i hoes mewn caethiwed gan ofn marwolaeth. Ar ol myned i'r tŷ y tro hwn, ymddangosai Mrs. Morgan yn bur isel ei meddwl. Ar ol ysgwyd dwylaw yn gynnes â'u gilydd, gofynodd iddi:—

'Pa fodd y mae arnoch, Mrs. Morgan fach?' meddai.

'Dipyn yn ddigalon; bron ar fyned oddi yma,' attebai hithau.

Gofynai yntau iddi, 'I ba le?'

'Ië, ïe, dyna'r pwngc. Nid wyf yn gwybod yn hollol sicr.'

'Wel, yn wir, Mrs. Morgan,' meddai wrthi o'r diwedd; 'os nad ydych yn sicr i ba le, cynghorwn chwi i aros yma; mae genych le bach *nêt*, a'ch nith yn gweini arnoch mor dyner ag y mae modd iddi wneyd; a 'does dim perygl y cewch *notice* i ymadael â'r lle am ddwy oes o leiaf.' Ar hyny symmudwyd y pruddglwyf, ac ni bu sôn am ymadael mwyach am y tro hwnw.

Yr oedd yn hoffus ddyn gan ei gyfeillion, fel y gofynai rhai o honynt ganddo i bregethu yn eu hangladd. Un o'r rhai hyny oedd dyn o'r enw Thomas, Penystâr, fel yr adnabyddid ef. Rhyw dro, pan yn nhŷ capel Llanfynydd, aeth Thomas ato, a dywedodd wrtho:—

'Chwi, Mr. Prytherch, yw y pregethwr mwyaf yn sir Gaerfyrddin, yn awr.'

'Wel, beth am hyny?' oedd yr atteb.

'Yr wyf am i chwi ddo'd i bregethu i'm hangladd i,'

'Pa bryd?'

'Ar ol i mi farw!'

'O'r goreu, mi ddof Thomas.'

'Ond beth wneir os byddwch chwi farw o'm blaen i?' gofynai Thomas.

'Wel, mi dreiaf gael gan John Jones, Llanedi, i ddyfod yn fy lle,' meddai yntau.

'Diolch yn fawr i chwi,' meddai Thomas. 'Treiwch gofio am hyny, da chwi.'

'Gwnaf,' oedd yr atteb.

'Ond cofia dithau fod yn rhaid i ti fod yn dduwiol iawn; waeth mae John yn *particular* dros ben; ni wna fe bregethu yn angladdau pobl os na bydd yn credu eu bod yn gadwedig.'

Ar hyn gostyngodd Thomas ei ben, druan! am yr ofnai fwy am ddiogelwch ei gyflwr ei hun nag yr ofnai neb arall am dano.

Dywedai bethau miniog a grymus iawn weithiau, yn enwedig yn ein cyfarfodydd misol; ac er nad oedd y mwyaf parod i siarad, pan godai ar ei draed, teimlai pawb mai bod yn ddistaw oedd y peth doethaf iddynt ar ol iddo ef siarad. Yn nghyfarfod misol Llangadog, flynyddoedd yn ol, pan yn derbyn nifer liosog o frodyr ieuaingc yn aelodau o hono; wedi gwrandaw yn astud ar y naill a'r llall o honynt yn adrodd eu barn ar wahanol byngciau duwinyddol, gallesid darllen yn ei wynebpryd nad oedd yn cael ei foddloni yn attebion rhai o honynt. Ac ar ddiwedd y cyfarfod, gofynwyd iddo ddyweyd rhywbeth, neu rai gair o gynghor i'r gwŷr ieuaingc. Ar ol codi i fyny:—'Tybiais,' meddai, 'fod ein cyfarfod misol ni wedi gwneyd rhwyd yn ddiweddar, na fuasai yn dal ond *salmon* yn unig; ond er syndod i mi, ni welais erioed gynnifer o fân bysgod gyda'u gilydd—dim ond eithrio rhyw ychydig o honynt. Pan yn pregethu dranoeth, am ddeg o'r gloch, ar 'Lywodraeth Duw ar y byd,' ynghyd â'r daioni a'r tynerwch mawr, yn ddibaid, a fwynheir gan ddeiliaid y llywodraeth hono, gwnaeth y sylw, yr edrycha rhai ar y pethau a fwynheir ganddynt fel eu heiddo eu hunain. Dyna yr hen frenin ynfyd Nebuchodonosor yn hawlio pob peth ag oedd o dan ei law fel meddiant personol. 'Onid hon yw Babilon fawr a adeiladais i?' Ië, ond er cymmaint oedd mawredd y ddinas hono, gorchuddiai hi â'i V fawr. Yn yr un odfa, dywedai ei fod yn tosturio wrth aml i ferch landeg, siriol, a duwiol, ag sydd wedi bod mor anffortunus a chymmeryd ei rhwymo mewn priodas wrth hurtyn balch, nad yw yn meddu ar galon, na phen, na dim arall o ran hyny; ond yn meddu ar ddigon o feiddgarwch

i hawlio ac i ddangos mai efe yw y pen yn mhob cylch, pe byddai rhaid iddo ddefnyddio y pastwn i brofi hyny. A chyda hyny dyna'r galon fawr ar dori. Mewn dwfn gydymdeimad â'r rhai annedwydd hyn, torodd allan yn y geiriau hyn, a dywedodd:—'Yr Arglwydd mawr a drugarhao wrthych chwi, ferched bach, ac a'ch cadwo rhag i chwi gymmeryd eich *strapio* wrth y fath anghenfilod dideimlad, a chreulawn.'

Nid oedd neb yn fwy gochelgar rhag dolurio teimladau ei frodyr nag oedd efe; ac ni wnai un amser gyfeirio at ddiffygion a gwaeleddau ei gyfeillion. Ni chlywyd mo hono erioed yn gwneyd difyrwch o wendidau pobl; ond dangosai bob amser bob anghymmeradwyaeth i'r fath ysbryd annheilwng. Clywais ef unwaith, pan mewn ysbryd pur gynnhyrfus, yn dyweyd, wrth roddi cyngor i amryw frodyr ag oeddynt mewn ymryson â'u gilydd; ac yn cyhuddo eu gilydd o fod yn euog o bechodau gwarthus, ac ysgeler:—'Bobl anwyl!' meddai, 'yr ydych yn waeth na'r cannibaliaid; y maent hwy yn byw ar gnawd dynion, ond yr ydych chwi yn byw ar wendidau cymmeriadau eich gilydd. Cleddwch hwynt rhag digwydd i chwi beth a fyddo gwaeth.' Nis gwn am well disgrifiad o hono nag a geir yn yr adnod werthfawr hono, yr hon a fu yn destyn iddo lawer gwaith:—'Eithr y ddoethineb sydd oddi uchod, yn gyntaf, pur yw; wedi hyny heddychlawn, boneddigaidd, hawdd ei thrin, llawn trugaredd a ffrwythau da, diduedd, a diragrith.' Gallasai yntau ddyweyd yn groew, 'Puredd a gaed ynof ger ei fron ef;' 'Pur o galon, pur o wefus heddychlawn.' Yr oedd yn fab tangnefedd yn ei deulu, yn ei gymydogaeth, ac yn yr eglwys. Ni bu neb erioed yn fwy llwyddiannus i gymmodi rhwng pleidiau nag ef. 'Boneddigaidd.' Meddai ar ysbryd mawr, rhydd, diragfarn, a theimladau mwynaidd a hynaws. Nid oedd dialgarwch yn ei ysbryd. Os bu ganddo elyn erioed, credwn yn rhwydd iddo gael pleser mawr i weddïo drosto, maddeu iddo, a gwneuthur daioni iddo mwy nag o'r blaen, a thrwy hyny 'bentyru marwor tanllyd ar ei ben ef.' 'Hawdd ei thrin.' Dyma rai o'i eiriau am y lle y llettyai, 'Lle *noble;*' gwraig y tŷ, 'Menyw fach *nêt;*' gŵr y tŷ, 'Dyn braf.' Am bregethwr bychan iawn ei dalent, a'i ddawn, dyna

ddywedai:—'Hawddach cael ei waeth na chael ei well.' Clywais ef unwaith yn siarad â brawd o Landdewi-brefi, yn sir Aberteifi, am y ddwy efengyles. Canmolai y brawd hwn o sir Aberteifi y merched a'u gweinidogaeth llwyddiannus, a'r chwanegiadau mawrion a wnaed at yr eglwysi trwy y sir, mewn canlyniad i'w hymweliad. O'r diwedd y mae yn gofyn barn Mr. Prytherch am danynt. 'A oedd efe yn foddlawn iddynt?' 'Boddlawn yn wir,' meddai; 'pa ham nad oes iddynt hwy yr un rhyddid i bregethu ag oedd gan y wraig o Samaria; yr un rhyddid ag oedd gan y gwragedd hyny a gyhoeddasant adgyfodiad Crist oddi wrth y meirw, ar foreu y trydydd dydd. Llwyddiant iddynt ddymunwn i o'm calon. Dwy ddynes fach, dduwiol a duwiol iawn ydynt. Pob llwyddiant iddynt.' 'Llawn trugaredd a ffrwythau da.' Felly yr oedd yntau: gan fod ei natur wedi ei lefeinio gan drugaredd a gras Duw yn Nghrist, rhoddai y wedd fwyaf ffafriol ar bob achos a ddeuai o dan ei sylw, a byddai bob amser yn gogwyddo at ochr trugaredd; ac felly y gwnai i galonau tlodion, gweddwon, a'r amddifaid lawenychu. 'Diduedd.'—Nid oedd gwahaniaeth ganddo pa un ai cyfaill mynwesol ai ynte estron iddo fuasai wedi myned ar gyfeiliorn: dywedai y gair yn ddidderbyn-wyneb wrth y naill a'r llall o honynt. Digwyddodd i ferch ieuangc brydweddol, grefyddol, o'r enw Sarah, yr hon a berchid yn fawr ganddo, briodi â dyn ieuangc anghrefyddol. Y tro cyntaf y cyfarfyddodd â hi ar ol iddi briodi, cymmerodd yr ymddiddan canlynol le:—

'Clywais eich bod yn briod.'

'Ydwyf,' attebai hithau.

'A ydyw yn aelod gyda rhyw enwad crefyddol?'

'Nag ydyw. Dyna y peth gwaethaf. Dyna yr unig fai sydd arno. Y mae yn ddyn tyner a charedig iawn, ac yn ŵr ffyddlawn a da.'

'O, fe allai,' meddai yntau. 'Y mae yn dyner, caredig, ffyddlawn, a da, ac heb fod yn grefyddol. Wel, gwnewch y goreu o hono, a cheisiwch ei gadw goreu gellwch oddi wrth ei deulu: waeth *family* ganolig yw yr un y mae yn perthyn iddo. Gwyddoch yn dda—gwyddoch cystal a minnau fod ei dad yn hen bechadur, ac nas gall wneuthur dim arall. Ni all ddyfod i'r gwirionedd—y mae yn gelwyddog.'

Adroddodd yr hanes i'w phriod pan ddychwelodd gartref; a bu hyny, fel y dywed yr hanes, yn foddion iachawdwriaeth dragywyddol i'w enaid; ac yn foddion iddo adael ei dylwyth, a bwrw ei goelbren yn mhlith pobl yr Arglwydd. 'A diragrith.'—Gellir dyweyd nad oedd dim ag oedd ein gwrthddrych yn ei gasâu yn fwy na thwyll a rhagrith. Bellach, y mae wedi ein gadael; ond fel y dywedir yn ngair yr Arglwydd am y patriarchiaid, y maent, er wedi marw, yn llefaru etto. Mae llawer darn o'i bregethau grymus yn nghôf a theimlad miloedd trwy Gymru. A da genym feddwl fod dau parth o'i ysbryd wedi disgyn ar ei feibion, i'r rhai y dymunwn hir oes i wasanaethu Duw eu hanwyl dad.

## Y DIWEDDAR BARCH. WILLIAM PRYTHERCH.

Prytherch ! y derch genad hud,—a gwron
Gariai Dduw yn olud ;
Duwiol apostol, lamp astud,
A thant aur athrylith ein tud.

I'r byd bu yn darbodi—*ffraethineb*,
A ffrwyth *enaid* ynddi ;
Goreurodd, rhoddodd ei Ri,
Addurnedd nefoedd arni.

Iaith ei hybur ffraethebion—oedd wiw iach
At ddinychu 'n dwyfron ;
Meddai allu, a moddion —hulio gwledd
Nwyddau arabedd yn ddiarhebion.

O'i dduwiolaf feddyliau—nofiai nef
Yn *wyn* dros eu banau :
O'i fin ef cawsom fwynhau
Arabedd eglurhebau.

Troai ei ystorion—lawenydd
I *drist* lanau'r galon ;
Tlynau'n brwd hyloni'n bron
Fydd ei grefydd ddigrifon.

Ffyrdd elw'i gydffordddolion—arloesodd,
Tyrai *les* fel afon ;
Caid nef dêr, a'i lleufer llon
Yn *nghariad* ei gynghorion.

O wâs anwyl! perseinydd—'Gair' y deg
Greadigaeth Newydd;
Rhedai dawn yr 'Iawn' yn rhydd
Loew fôr o'i leferydd.

Darnodai erch drueni dyn,—a gwrthni
Gwarthnod anghredadyn;
Gyrai adref ddrwg grwydryn
O ado gwedd y Duw gwyn.

Gweinidog o dêr genadaeth—prophwyd
Prif-ffordd iachawdwriaeth;
Sant Iôr, llawn swyn naturiaeth
O law ei Dduw 'n oracl ddaeth.

Dyn i Dduw, a'i nodau 'n dderch—anfonwyd
O'r nef wen i'w hanerch;
Gwlad sydd â goglud ei serch
Ar wddw ei Hen Brytherch.

Dolenu mae dylanwad—ei hanes
Am dŷn dant ein cariad;
Duw a glôdd ar dafod gwlad
Teg hanes y sant genad.

I'w ail oes yn ddihafal wyn—a thraed
'Gweithredoedd yn canlyn'
Y croesodd, glaniodd drwy'r glŷn
A'i ddu ochrau, heb ddychryn.

*Caerdydd.* CYNWYD.

## PENNOD XVII.

PRIODODD yr ail waith â gwraig weddw, o'r enw Mrs. Jones, o gymmydogaeth Nantgaredig, yr hon oedd yn byw mewn fferm fawr braf, o'r enw Llandilo-yr-ynys, yn nghydiad yr afonydd Tywi a Cothi. Ystyrir Llandilo-yr-ynys yn un o'r ffermydd goreu, yn ol ei maint, yn sir Gaerfyrddin. Gŵyr pawb mai sir Gaerfyrddin ydyw y sir amaethyddol ragoraf yn Nghymru, ac mai Dyffryn Tywi yw y dyffryn prydferthaf yn Nghymru. Y mae Dyffryn Clwyd yn hardd; ond nid oes yno gymmaint o amrywiaeth ag a geir yn nyffryn tlws y Tywi. Merch ydoedd Mrs. Jones i Thomas Edwards, Ysw., o fferm Llangaing, plwyf Llangaing, ger Caerfyrddin. Yr oedd yn byw, fel y dangosais, mewn fferm fawr, dros 200*p*. o rent. Yr oedd, hefyd, yn agos i ugain mlynedd yn ieuengach nag oedd efe. Yn chwanegol at hyny, yr oedd ganddi chwech o blant, a'r ieuengaf o'r rhai hyny heb fod uwch law pum mlwydd oed, a'r hynaf heb fod dros bymtheng mlwydd oed. Cafodd ddau o blant o'r ail briodas; sef, Henry Owen a Samuel Elcanah. *Land Surveyor* yw y naill, a phregethwr yr efengyl yw y llall. Y mae y Samuel hwn yn mhob peth fel ei dad—yn ei ddihocedrwydd, ei naturioldeb, ei annibyniaeth, a'i ddiragrithrwydd. Y mae yn meddu ar natur dda ei dad; ac fel yr ydym yn deall am dano, y mae yn ofalus rhag dyweyd dim am gymmeriadau pobl eraill: ac y mae yn dda iawn gyda ni wybod ei fod yn cael derbyniad croesawgar i'n gwahanol gapelau yn y siroedd yr ymwela a hwynt. Gall Samuel fod yn un o bregethwyr mwyaf cymmeradwy ein gwlad. Y mae yn meddu ar allu i fod. Y mae yn gwbl rydd oddi wrth bob teimlad hunanol, ac nid oes dichell yn ei ysbryd. Nis gwn am un mab yn ein gwlad—ac y mae ein gwlad yn wlad dda a chrefyddol, ac mewn gwlad grefyddol, y mae y teimladau perthynasol yn dyner a dyrchafedig, yn gyssegredig a

phur—ag y mae ei barch yn fwy dwfn, a'i gariad yn fwy angerddol at goffadwriaeth ei dad nag ydyw parch a chariad Mr. S. E. Prytherch.

Yr oedd ein gwrthddrych yn un o ffermwyr mwyaf parchus sir Gaerfyrddin pan yn byw yn Llandilo-yr-ynys. Nid yn unig yr oedd yn byw a bod yno, ond yr oedd yn cymmeryd dyddordeb mawr mewn fferm. Yr oedd llywodraethiad, neu ddygiad yn mlaen y fferm yn ei law ef pan oedd gartref. Elai i edrych y tir bob boreu, a galwai ar y gweision i godi ar ol dyfod yn ol; 'ac fel yna, fe ddarfu gwaith y gwas mawr, neu y gwas penaf, i edrych am y tir am byth pan fyddwn i gartref.' Nid oedd yn rhedeg i ffeiriau a marchnadoedd; ond cadwai mor bell oddi wrthynt ag oedd yn bossibl. Myned iddynt pan fyddai raid iddo yr oedd.

Soniasom yn y dechreu am y ffaith iddo gadw addoliad teuluaidd y Sabbath cyntaf wedi iddo ymuno â chrefydd; 'ac oddi ar hyny hyd heddyw, Rhagfyr 12fed, 1882, ni welais ddim a'm rhwystrodd i gadw y ddyledswydd hon yn y teulu.' Dyna esampl i ni i'w dilyn. Y mae mwyafrif teuluoedd crefyddol ein gwlad yn bresennol yn esgeuluso y ddyledswydd dra phwysig hon. Mewn gwirionedd, nid oes sôn am dani. Yn Melin Dolau Cothi yr oedd pan ddechreuodd gadw addoliad teuluaidd; ac weithiau, byddai amryw o bobl yn y felin yn y boreu, tuag amser y boreubryd. Ond beth bynag am hyny, byddai yn gorchymyn i'r forwyn fyned allan i droi y dwfr oddi ar y felin a dyweyd wrth y rhai a fyddent yno eu bod yn myned gadw y ddyledswydd deuluaidd; a byddai rhai o honynt yn myned i mewn i ymuno â hwy yn yr addoliad. Bŷr a phwrpasol oedd y gwasanaeth, fel y dylai fod bob amser. Yr un fath y gwnai yn y ffermdai y bu yn byw ynddynt. Bu ganddo lawer o weision a morwynion yn ystod y blynyddoedd y bu yn byw yn y byd yma; a dywedir am danynt, 'fod llawer o honynt yn y byd mawr tragwyddol, a llawer o honynt yma;' ond nis gall y rhai sydd yno, na'r rhai sydd yma, ddyweyd iddynt weled y tŷ heb addoliad teuluaidd nos a boreu yn ystod yr amser y buont gydag ef. Ofni yr ydym ei fod yn unig yn y byd y pryd hwnw, ac y byddai felly yn awr.

Yn mhen saith mlynedd wedi claddu y wraig gyntaf y priododd â'r ail wraig, ac y symmudodd o'r Bettws i Landilo-yr-ynys; ac wedi bod yno yn byw yn gysurus am ddwy flynedd ar bymtheg, a throsodd, symmudodd i Ferry Side i fyw, Medi 29ain, 1878. Yn ystod ei arosiad yn Ferry Side y bu efe farw, ac yno y claddwyd ei ail wraig.

## PENNOD XVIII.

YR oedd yn ddyn o daldra mwy na chyffredin. Safai yn nhraed ei hosanau tua phum troedfedd a naw modfedd. Safai uwch ben ei draed yn gryno. Meddai ar gorph lluniaidd, hardd, a llawn. Nid at yr adeg pan oedd yn dew iawn y cyfeiriwn yma. Meddai ar ben ardderchog, mawr, a'r holl ermigau wedi eu dadblygu yn dda, a chyfartaledd a chymmesuredd perffaith rhwng y rhanau anifeiliaidd, moesol, a deallol a'u gilydd. Talcen mawr ac uchel, llygaid bychain a threiddiol, teryll. Edrychai trwy ddyn â'r llygaid hyny. Ni bu pen dyn erioed yn llawnach o synwyr cyffredin nag oedd ei ben ef. Yr oedd ei ymddangosiad yn foneddigaidd. Nid oedd yn ail i neb o holl hîl Adda mewn harddwch corphorol. Nid dyn ysgwyddog, gwàrog, a garog oedd. Yr oedd yn anhawdd gweled dyn o gorph mor drwm a'r eiddo ef, mor esgeiddig, ac ysgafndroed. Yr oedd ei gerddediad yn hardd. Nid yn ei henaint yr ydym yn feddwl, ond yn ei ddyddiau goreu, fel y dywedir. Dangosai serchawgrwydd a charedigrwydd ar ei wyneb. Gellir, yn ddibetrus, ddyweyd ei fod yn meddu ar y ddynoliaeth uchaf. Gŵr boneddig ydoedd, mewn gwirionedd. Haul pob cymdeithas y byddai ynddi ydoedd. Yr hanes yw, na chafodd gwragedd erioed well gŵr priod nag ef—mwy cariadus a dedwydd, heb rwgnachrwydd yn ei ysbryd, nac achwyngarwch yn ei leferydd. O! ei dymmher dda, ei eiriau dyddan, a'i ysbryd rhagorol. Pa anffawd bynag a ddigwyddai yn y tŷ, neu yn y maes; pa ofid neu drallod bynag a gyfarfyddai, cysurlawn oedd ei eiriau; megys, 'Pob peth yn dda,' 'A fyno Duw a fydd,' 'A yr aflwydd hwn heibio etto,' 'A heibio dywyll nos, fe ffy cymmylau'r nen,' 'Gwasgara'r niwl, cawn etto wel'd yr awyr lâs,' 'Mae'r ystorm yn mron pasio,' 'Cawod oedd y dylif,' 'Pa ddwylla y bo'r nos, agosaf mae'r dydd.' Ni bu erioed dirionach tad, na dedwyddach dyn. Anaml y ceir

ei debyg. '*Few and far between, like angel's visits,*' ydynt. Pe byddai amser genym, gallasem ddyweyd llawer am dano.

Ganwyd ef yn oes y cewri, neu yr hen bregethwyr mawrion — y Parchn. Thomas Richards, Abergwaen, a William Morris, Cilgeran, yn sir Benfro. Y Parchn. Ebenezer Richards, Tregaron; Roberts, Llangeitho; a Jones, Blaenanerch, yn sir Aberteifi. Y Parchn. Thomas Elias a William Havard, yn sir Frycheiniog. Y Parchn. Morgan Howells, Casnewydd; a Daniel Jenkins, Babell, yn sir Fynwy. Y Parchn. William Evans, Ton-yr-efail; David Howells, Abertawe; Evan Harris, Merthyr; John James, Pen-y-bont-ar-ogwy; Edward Matthews, Eweni; ac eraill sydd yn rhy aml i ni eu henwi, yn sir Forganwg. Y Parchn. David Charles, Caerfyrddin; John Evans, New Inn, ac eraill, yn sir Gaerfyrddin. Dyma enwau sêr disglaeriaf y weinidogaeth yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd yn adeg ymddangosiad ein gwrthddrych yn y byd. Yr oedd yn ddyn ag oedd mewn mawr barch gan ei holl frodyr yn y weinidogaeth trwy sir Gaerfyrddin, a thrwy holl Gymru. Buom yn ofni ac yn crynu lawer gwaith o dan ei weinidogaeth nerthol. Llenwid y capeli yn mhob man y byddai yn pregethu. Nid oedd neb yn fwy poblogaidd nag ef yn ei sir ei hun. Byddai yn pregethu yn mhob cyfarfod misol, os byddai yn bresennol. Ni byddai yn eiddigeddus wrth neb o'i frodyr yn y weinidogaeth, os pregethent yn well nag ef. Nid ydym yn hollol sicr na ddarfu i rai o'i frodyr anfoddloni wrtho ef am ei fod yn pregethu mor aml, a phregethu mor dda.

Pregethai weithiau yr un pregethau (a phwy nad ydyw yn gwneyd). Dywedwyd wrtho gan flaenor, rhyw dro, fod rhai pregethwyr yn pregethu yr un pregethau; a gofynai ei farn ef am beth felly.

'Y mae hyny yn dibynu,' attebai yntau, 'ar beth fydd y testyn. Gadewch i ni glywed beth oedd y testyn?'

'Deuwch ataf fi bawb ar y sydd yn flinderog ac yn llwythog, a mi a esmwythâf arnoch.'

'A ydi nhw wedi dyfod?' ebe fe.

'O, nac ydynt, nac ydynt,' ebe yr hen flaenor.

'O! wel,' ebe fe. 'Anfonwch am danynt cyn gynted ag y galloch.'

## EI DDYDDIAU OLAF CYN EI YMADAWIAD.

Y LLE diweddaf y pregethodd ynddo oedd Aberdulais, ger Castellnedd, Sabbath y 4edd o Fawrth, yn y flwyddyn 1888. Ei destynau oeddynt:—*Pregethwr* xii. 7: 'Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu;' a 1 *Ioan* iv. 4—8: 'Chwychwi ydych o Dduw, blant bychain.' Ar ol dychwelyd adref, dywedodd mai gydag anhawsder mawr y pregethodd y Sabbath hwnw; ac nad ă'i efe oddi cartref hyd nes y byddai wedi cryfhau. Ond ni chryfhaodd; ond yn hytrach, gwanhaodd. Yr oedd ei holl symmudiadau yn awr yn gyfyngedig i gylch bychan—y lle pellaf yr ă'i iddo oedd y capel, ac yr oedd hwnw yn ei ymyl. Yn y cyfnod hwn, ni achwynai, ond ymddangosai yn berffaith hapus, fel arfer, hyd y diwedd. Cyssegrai ei holl amser i ddarllen. Ei lyfrau oeddynt—Y Beibl, *Gurnal*, a *Hanes y Methodistiaid*. Yr oedd y rhai hyn ar y bwrdd bob amser, ac yn cael eu darllen yn rheolaidd. Yr oedd hefyd yn ddarllenwr mawr ar y FANER; croesawai ddyfodiad hon ar ddyddd Mercher. Yr oedd pob peth yn ei deimlad a'i farn i fod yn îs-raddol i'r cyfarfod gweddi, y seiat, a'r gwasanaeth Sabbothol. Edrychai yn mlaen gyda llawenydd at y Sabbath. Yr oedd yn mwynhau y Sabbath a'i waith. I'w brofiad ef, gwir yw llinell y bardd:—

> 'O! mor gysurol ydyw gwawr,
> Hyfrydol wawr y Sabbath llon.'

Nid oedd neb yn mwynhau y pregethau yn fwy nag ef. Dywedai nad oedd erioed wedi cael cyfleusdra i glywed y brodyr canol oed, a'r rhai ieuengaf, yn pregethu cyn iddo fyned yn wael ei iechyd; a bod nodwedd eu pregethu yn tra rhagori ar ddim ag oedd efe wedi ei wrandaw yn moreu ei oes: ac ni chyfyngai ei hun i gapel y Methodistiaid. Elai i'r eglwys, a chapel y Bedyddwyr, pan na byddai dim gwasanaeth yn nghapel y Methodistiaid. Yr oedd yn ddyn *broad* iawn. Yr oedd yn adnabyddus yn y wlad fel dyn mawr yn y ffordd hon. Mewn gwladweiniaeth, yr oedd mor ëang a'r byd.

Gwelid yn amlwg iawn, yn y blynyddoedd diweddaf o'i oes, 'fod y ddaearol dŷ o'r babell hon yn cael ei ddattod;' a gorfodwyd ef, yn yr wythnosau cyntaf o'r gauaf yn y flwyddyn 1888 i aros gartref; etto, er hyn oll, er gwaethaf pob peth, yr oedd y dyn oddi mewn mor siriol ag erioed. Ymdeimlai fod terfyn ei ddaearol daith bob dydd yn agosbau; ond edrychai ar y ffaith ddifrif-ddwys hon gyda'r un tawelwch ag yr arferai edrych ar frwydrau ac ystormydd bywyd. Ni fynai gyfeirio at hyn ond yn anfynych. Ond yr oedd ei ddistawrwydd yn awgrymu i ni ei fod yn myfyrio ar y pethau hyn. Yn ystod y pedwar diwrnod olaf, yr oedd yn gorfod cadw ei wely. Yr oedd yr adnod hono yn wastad ganddo ar ei wefusau, 'Yr hwn y mae y Mab ganddo,' &c. Wedi i gwsg ymadael âg ef, dywedai wrth ei fab Samuel ei fod yn treulio ei amser i weddïo *Salm* li. Bu farw fel y bu fyw. Ymadawodd yn dawel, ac mewn llawn feddiant o'i synwyrau, ar ol rhoddi pob cyfarwyddiadau y diwrnod hwnw gyda golwg ar yr angladd. Ei ddymuniad oedd ar i'w angladd ef fod yn hollol ddi-rwysg, a hollol anghyhoedd. Cariwyd allan ei gyfarwyddiadau yn llythyrenol. Gweddïwyd gan y Parch. T. Morgan, Ferry Side, yn y tŷ; a gwasanaethwyd wrth y bedd gan 'ffeiriad St. Ishmael.

Digwyddodd un amgylchiad, ychydig cyn ei farwolaeth, sydd yn werth i'w gofio. Cyfeirio yr wyf at ei ymdrech i ymostwng ar ei liniau i weddio. Afreidiol yw dyweyd ei fod yn arfer cyflwyno ei hun i ofal a camddiffyn yr Hwn nad yw yn rhoddi cwsg i'w lygaid, cyn myned i orphwys. Sylwodd Samuel y noson hono ei fod yn wan, yn rhy wan i blygu ei liniau mewn gweddi. Gan hyny, awgrymai i'w anwyl dad y gallasai weddio yn y gwely.

'Ni weddiais erioed,' gan gyfeirio at y ffordd arferol o weddio, 'ond ar fy ngliniau; a rhaid i mi gael gweddïo ar fy ngliniau pe byddwn farw wrth wneyd. Yr wyf am fod mewn *shape* dyn yn gweddio.'

Ac wedi gorphen, gorweddodd i lawr; ac mewn ychydig eiliadau, ehedodd ei ysbryd mawr ac anfarwol 'at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.'

*Rhestr o destynau y Parch.* W. PRYTHERCH *pan yn supplio y pulpud yn Llundain, yn y flwyddyn 1840.*

TESTYNAU.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gorph. | 16eg. | ... Jewin Crescent | ... *Col.* iii. 1. |
| „ | 17eg. | ... Denmark Street | ... *Job* iii. 17. |
| „ | 19eg. | ... Cambrian | ... *Salm* lvi. 9. |
| „ | „ | ... Jewin Crescent | ... *Micah* vi. 8. |
| „ | 22ain. | ... Cambrian | ... Dirwest. |
| „ | 23ain. | ... Jewin Crescent | ... *Esa.* xlvi. 10. |
| „ | 24ain. | ... Denmark | ... *Zech.* iii. i—5. |
| „ | 26ain. | ... Jewin Crescent | ... *Dat.* xiv. 13. |
| „ | „ | ... „ „ | ... *Can.* iv. 8. |
| „ | 28ain. | ... Deptford | ... *Esa.* xlvi 10. |
| „ | 29ain. | ... Cambrian | ... *Zech.* iii. 1—5 |
| „ | 30ain. | ... Jewin Crescent | ... *Dat.* xx. 11, 12. |
| Awst | 2il. | ... „ „ | ... 2 *Tim.* ii. 20. |
| „ | „ | ... „ „ | ... 1 *Sam.* iii. 13. |
| „ | 5ed. | ... Cambrian | ... *Job* xiv. 1, 2. |
| „ | 6ed. | ... Jewin Crescent | ... *Ephes.* iii. 8. |
| „ | 7fed | ... Denmark | ... *Job* xiv. 1, 2. |
| „ | 9fed | ... Woolwich | ... *Job* v. 26. |
| „ | „ | ... Deptford | ... *Dat.* xx. 11, 12. |
| „ | „ | ... Jewin Crescent | ... 1 *Pedr* i. 24, 25. |
| „ | 12fed. | ... Cambrian | ... *Mat.* vii. 24. |
| „ | 13eg. | ... Jewin Crescent | ... *Mat.* xiii. 3—9. |
| „ | 14eg. | ... Denmark | ... *Diar.* xix. 2. |
| „ | 16eg. | ... Cambrian | ... *Rhuf.* viii. 5. |
| „ | „ | ... Jewin Crescent | ... *Rhuf.* xii 2. |
| „ | 19eg. | ... Cambrian | ... *Titus* ii. 14. |
| „ | 20fed. | ... Jewin Crescent | ... *Dat.* xiv. 6, 7. |
| „ | 21ain. | ... „ „ | ... Dirwest. |
| „ | 23ain. | ... „ „ | ... 1 *Ioan* ii. 17. |
| „ | „ | ... „ „ | ... 1 *Ioan* iv. 8. |
| „ | 25ain. | ... Deptford | ... *Mat.* xiii. 1—9. |
| „ | 26ain. | ... Cambrian | ... Cadben Evans. |
| „ | 27ain. | ... Jewin Crescent | ... *Dat.* i. 17, 18. |
| „ | 28ain. | ... Denmark | ... *Titus* ii. 14. |
| „ | 30ain. | ... Cambrian | .. *Job* xxi. 17. |
| „ | „ | ... Jewin Crescent | ... *Gen.* l. 20. |

## TYSTEB Y PARCH. WILLIAM PRYTHERCH, FERRY SIDE, SIR GAERFYRDDIN.

Anwyl Frodyr,

Y mae yn debyg fod rhai o honoch, os nad yr oll, o'r swyddogion yn deall fod Methodistiaid sir Gaerfyrddin yn unfryd ac unol wrth y gorchwyl o wneyd 'Tysteb i'r parchedig dad, fel arwydd o'n parch a'n teimlad da tuag ato,' pan wedi cael ei oddiweddyd gan henaint a methiant, ac yn methu myned i mewn ac allan fel cynt; ac hefyd, o'n gwerthfawrogiad o'i weinidogaeth nerthol a llwyddiannus am gyfnod mor faith a thrigain a phedair o flynyddoedd. Barnai y pwyllgor gweithiol, gan fod Mr. Prytherch wedi bod ar hyd ei oes bron mor adnabyddus, defnyddiol, ac anwyl yn siroedd eraill Cymru, ac yn ei sir ei hun, ac felly, mewn modd arbenig, yn rhodd yr Arglwydd i Gymru oll: ac am hyny, mai cyfiawnder â'r hybarch dad, ynghyd â Chymru benbaladr, fyddai anfon cyfarchiad bŷr at swyddogion llawer o'r eglwysi mwyaf adnabyddus o hono yn y gwahanol siroedd a'r trefydd. Dïau genym, ar y cyfrifon uchod, nad boddlawn fyddai ei hen gyfeillion i bobl sir Gaerfyrddin dynu rhwyd y dysteb i dir heb roddi cynnyg i bawb o honoch gael cyfran ynddi

Gwyddom fod gan lawer o honoch adgofion anwyl am wrthddrych y dysteb hon. Cofier mai Tachwedd 22ain ydyw y *date* diweddaf i dderbyn at y dysteb. Byddwn ddiolchgar iawn, ar ran y pwyllgor, am bob cyfran a anfonir. Gadawn bob trefniant yn eich dwylaw chwi, gan mai chwi sydd yn gwybod oreu, i ddwyn hyn i ben yn eich plith er anrhydeddu anwylddyn y genedl ar yr amgylchiad hwn.

T. MORGAN, Ysw., Croft Cottage, Cydweli, — *Trysorydd.*

Parch. D. LEWIS, Ferry Side, Parch. D. G. OWEN, Cydweli, — *Ysgrifenyddion.*

## Y PARCH. WILLIAM PRYTHERCH.

AWEN glaf sydd yn y glŷn—yn cwyno
Ac mae cynhes ddeigryn;
Ei thalent ar ei thelyn,
Mewn brwd gôf am ein brawd gwyn.

✻ ✻ ✻

Awel nos i'w theimlo'n hir—oedd priddo
Prytherch, Gristion cywir;
Ar ei goron ŵr geirwir,
Dagrau 'n gwlad a geir yn glir.

✻ ✻ ✻

Brwd was i'w briod Iesu—a'i enw 'n
Anwyl yn mhob teulu;
Dan wyn barch hyd 'nawn y bu,
A gwerin yn ei garu.

✻ ✻ ✻

Ei garu am gywiredd—a'i garu
Am ragoriaeth buchedd;
Am aros yn nhymmeredd
Uchaf clod, heb chwyfio cledd.

✻ ✻ ✻

Mab tangnef oedd ef o hyd—a'i fynwes
Heb elfenau tanllyd;
A chalon yn gochelyd,
Anian boeth cynnhenau'n byd.

Cryf oedd, ac ar ei feddwl—ryw gynar
 Ogoniant digwmwl ;
Heb ammheuon duon, dwl,
I'w nef yn cario nifwl.

* * *

Dynoliaeth o dan heulwen—a gafodd
 Hen gyfaill diabsen ;
Lliw gwynfyd y byd uwch ben
Ddisgleiriodd ei oes glaerwen.

* * *

Iach ddifyrwch ddyferai—o'i ysbryd
 Mewn rhyw asbri difai ;
Adnoddau drud yn ddidrai
O'i ddyfnderoedd fwyn dorai.

* * *

I lawenhau Gwalia 'n hir—arabedd
 Y gŵr hybarch gofir ;
A'r gloewaf eiriau glywir
Yn dwyn clod i'w enw clir.

* * *

Ffrwyth anian ei ffraethineb—sy 'n cynnwys
 I'n cenedl foddineb ;
Newydd eiriau'n ddiareb
Wnelai 'n hawdd, yn ail i neb.

Ddoniol-fawr ddyn, o elfen—wir addfwyn
Ac yn reddfol lawen ;
Ar ddu ŵg y rhoddai wên,
A'r niwl a dröai 'n heulwen.

※ ※ ※

Eilwaith ymddifrifolai—a'i galon
I'w dirgeloedd sobrai ;
Ac uwch ben annhegwch bai,
Dagrau enaid a gronai.

※ ※ ※

Dyn anwyl, yn dwyn enaid—o'i gadwyn
At Geidwad bendigaid ;
Anelai roi 'n ol y rhaid
Ford lawn i afradloniaid.

※ ※ ※

Athraw hael o athrylith—goncwerol
Ac yn cario bendith ;
Caed ei lef, fel cawod wlith
Gogoniant ar gae gwenith.

※ ※ ※

Gwron Duw, a gwrandawiad—i'w ddifyr
A'i ddeifiol barabliad ;
Cysurus bwngc ei siarad,
Wyddai lwydd, wefreiddiai wlad.

Yma 'n fab cymmanfa oedd—a'i osgo
Yn ysgwyd tyrfaoedd ;
Hwylus ar ei flasus floedd,
Ai 'r anifyr i'r nefoedd.

* * *

Ar ei dŵr creai daran—a'r farn fawr
Fwriai 'n fellt o'i lwyfan ;
Gair Nêr o'i udgorn arian,
Gadwai 'r dorf i gyd ar dân.

* * *

Pregeth y 'Dwthwn hwnw'—a gododd
'Gedyrn' i dir cadw ;
Heriol lais Duw ar ei lŵ,
A goeliwyd ynddi 'n galw.

* * *

Bu fyw 'n bur drwy amhuredd—y byd drwg
Bedwar ugain mlynedd ;
A grawn cyfoethog rhinwedd
Dŷf yn fyw hyd faen ei fedd.

* * *

Pebyll unig pob llanerch—ymholant
Am William i'w hanerch ;
Chwilio 'r glŷn yn syn mae serch
Y praidd am William Prytherch

Dyfed.

## AT Y DARLLENYDD.

Y MAE genyf yn awr y fraint a'r hyfrydwch o gyflwyno i chwi ychydig o bregethau rhagorol y Parch. W. Prytherch. Nid pregethau wedi eu *didoli* o blith y lleill ydynt; ond pregethau wedi eu hysgrifenu i lawr fel y maent yn ei lyfr ef ei hun. Yr oedd ganddo fwy o bregethau na'r rhai sydd yn dyweyd nad oedd ganddo ond ychydig. Am a wn i, nad oes rhai o'i bregethau mawrion ef wedi eu gadael allan genyf:—megys pregeth, 'Y dwthwn hwnw;' 'Ei lu mawr ef;' a 'Llywodraeth Duw ar y byd.'

Yn y gyfrol y cewch ei bregeth ar 'Judas Iscariot;' ynghyd â'i bregeth ar 'Ymbleidio;' a'i bregeth ar 'Weithio gwaith anwiredd;' neu bregeth 'Y *streic*.' Yr oedd y bregeth hon wedi myned i golli; ond ysgrifenwyd hi gan ein hanwyl frawd, y Parch. J. Owen, Burry-port—wrth ei gwrandaw yn Nghyfarfod Misol Pentwyn, Ionawr 30ain, 1877. Gallwn eich sicrhau ei fod wedi cadw mor fanwl ag oedd yn ddichonadwy iddo wneyd. Mae air yn air. Yr ydym yn hyderu y bendithir darlleniad y pregethau gwerthfawr i bawb a'u darllenant. Nid ydym yn hòni fod y Cofiant na'r Pregethau yn berffaith, ac yn gyflawn. Gwyddom nad ydynt. Gwn yr esgeusodwch bob gwall ag sydd yn y llyfr. *Requiescat in pace.*

T. E. EDWARDS.

TERRACE, CWMAFON, *Ionawr 24ain, 1894.*

# PREGETH I.

## POBL DDUW HEB ANWIREDD NA THRAWSEDD.

'Ni wêl efe anwiredd yn Jacob, ac ni wêl drawsedd yn Israel: yr Arglwydd ei Dduw sydd gydag ef, ac y mae udgorn-floedd brenin yn eu mysg hwynt.'—*Numeri* xxiii. 21.

Y MAE y geiriau hyn wedi cael eu llefaru gan Balaam wrth Balac. Yn rhosydd Moab yr oedd Israel yn gwersyllu yr amser hwn—am yr Iorddonen a Jericho: *Num.* xxii. 1. Balac oedd brenin Moab yr amser yma: *Num.* xxii. 4. Yr oedd Balac mab Sippor yn gwybod yr hyn oll a wnaeth Israel i'r Amoriaid, ac efe a ofnodd rhag Israel yn fawr. Danfonodd genhadau at Balaam mab Beor i Pethor, gan ddymuno arno ddyfod i felldithio Israel: *Num.* xxiii. 5, 6. Er i'r Arglwydd ddyweyd wrth Balaam, 'Na ddos gyda hwynt; na felldithia y bobl: canys bendigedig ydynt' (*Num.* xxii. 12); ac er i Balaam siarad yn lled grefyddol, a dywedyd wrth dywysogion Balac, 'Ewch i'ch gwlad: o blegid yr Arglwydd a nacaodd adael i mi fyned gyda chwi;' *Num.* xxiii. 13. 'A Balac a anfonodd eilwaith fwy o dywysogion, anrhydeddusach na'r rhai hyn,' i'w geisio. 'A Balaam a attebodd ac a ddywedodd wrth weision Balac, Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, ni allwn fyned dros air yr Arglwydd fy Nuw':—er hyny, myned a wnaeth. Ond safodd angel yr Arglwydd ar y ffordd i'w wrthwynebu, a defnyddiodd Duw yr asen fûd i geryddu ynfydrwydd y prophwyd. Wedi cyrhaedd at Balac, ac adeiladu allorau, amryw o honynt, ar uchelfeydd Baal, ac offrymu bustych a hyrddod ar y rhai hyny—gwedi pob ymdrech, gorfu i Balaam ddyweyd, 'Pa fodd y rhegaf yr hwn ni regodd Duw? A pha fodd y ffieiddiaf yr hwn ni ffieiddiodd yr Arglwydd?' *Num.* xxiii. 8. 'Nid

oes swyn yn erbyn Jacob, na dewiniaeth yn erbyn Israel.' Yr oedd Balac yn awr yn dechreu chwyrnu. 'Beth a wnaethost i mi? I regu fy ngelynion y'th gymmerais; ac wele, gan fendithio ti a'u bendithiaist.' Y mae y *text* yn rhan o'r hyn a roddodd yr Arglwydd yn ngenau Balaam i'w ddyweyd wrth Balac yn rheswm dros na allai efe eu melldithio; *Num.* xxiii. 16. 'Ni wêl efe anwiredd yn Jacob, ac ni wêl drawsedd yn Israel.' Y peth sydd i ni feddwl yn llythyrenol wrth y geiriau yw:—1. Nad oedd anwiredd yn eu plith fel cenedl yn achos i'r Arglwydd i'w gwrthod, na'u rhoddi i ddwylaw eu gelynion. 2. Nad oeddynt yn euog o eilunaddoliaeth, yr hyn sydd yn cael ei alw yn anwiredd. Ni fu dim eilunaddoliaeth yn eu plith wedi yr adeg y darfu iddynt addoli y llô aur hyd yr amser hwn.

Cawn sylwi ar y pethau canlynol oddi wrth y geiriau hyn:—

I. *Fod yn Jacob neu Israel, sef yn y wir eglwys, anwiredd a thrawsedd tra yn y byd hwn.*

Nid oes un pechod yn llywodraethu ar ddyn duwiol yn y byd yma. 'Canys nid arglwyddiaetha pechod arnoch chwi: o blegid nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr dan ras.' 'Pob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; o blegid y mae ei hâd ef yn aros ynddo ef, ac ni all efe bechu, am ei fod o Dduw.' 'Pob un ar sydd yn aros ynddo ef, nid yw yn pechu.'

1. Y maent yn cyfaddef hyny. Clywch eu cyfaddefiad yn y geiriau canlynol:—'Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd, a'n mawr gamwedd, am i ti ein Duw ein cospi yn llai na'n hanwiredd, a rhoddi i ni ddiangfa fel hyn.' 'Addefais fy mhechod wrthyt, a'm hanwiredd ni chuddiais: dywedais, Cyffesaf yn fy erbyn fy hun fy anwiredd i'r Arglwydd; a thi a faddeuaist anwiredd fy mhechod;' *Salm* xxxii. 5. 'Dïau y mynegaf fy anwiredd, ac y pryderaf o herwydd fy mhechod.'

2. Y mae ceryddon Duw arnynt yn profi fod pechod yn-

ddynt yn y byd hwn. Cafodd Miriam gerydd o herwydd ymgynnhenu o honi hi ac Aaron ei brawd yn erbyn Moses:—'A digofaint yr Arglwydd a enynnodd yn eu herbyn hwynt; ac wele, Miriam ydoedd wahanglwyfus.' Cafodd Eli gerydd trwm am beidio gwahardd ei feibion gyda golwg ar yr anwiredd y gwyddai efe am dano:—'Am yr anwiredd a ŵyr efe.' Ceryddwyd Dafydd frenin gan yr Arglwydd, o herwydd ei bechod ysgeler. 'Nid ymedy y cleddyf â'th dŷ byth,' meddai yr Arglwydd wrtho trwy Nathan y prophwyd; ond y ffordd amlaf y mae yn ceryddu ei blant yw, trwy guddio ei wyneb:—'Cuddiaist dy wyneb, a bum helbulus.' Pa ham y gwelir yr hen bobl oreu yn eu gwelyau mewn cystudd, dynion da mewn tlodi, croesau, a siomedigaethau, a mil a mwy o bethau blinion? Yr holl ffrwyth fydd tynu ymaith y pechod, a'i faddeu.

3. Y maent yn gweddïo am faddeuant o'u pechodau:—'Er mwyn dy enw, Arglwydd, maddeu fy anwiredd: canys mawr yw.' 'Golch fi yn llwyr ddwys oddi wrth fy anwiredd, a glanhâ fi oddi wrth fy mhechod.'

4. Bydd hyd yn oed eu cân yn y nef yn dangos mai rhai â'u pechodau ganddynt oeddynt yma ar y ddaear; *Dad.* i. 5: 'Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun, ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef; iddo ef y byddo y gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen.'

II. *Ar ba ystyriaethau y gellir dyweyd nad ydyw yr Arglwydd yn gweled anwiredd ei bobl.*

1. Yn nacâol. Nid methu a gweled y mae Duw, o blegid 'goleuni yw Duw, ac nid oes ynddo ddim tywyllwch.' 'Oni wêl yr hwn a luniodd y llygad?' Er mai efe yw ffynnonell fawr pob goleuni: er mai yn ei oleuni ef y gwelwn ni oleuni; ac er fod Duw yn llygad i gyd, etto, fe dystia ei serch tuag at ei bobl. Nid wedi eu caru, a *dotio* wrth eu caru, nes methu gweled eu bai, am dipyn, fel y bydd plant dynion weithiau; a'u canfod wedi hyny, nes y byddo

y cariad yn oeri: ond trefnu peth rhyngddo a'u gweled wnaeth Duw:—'Ni wêl efe anwiredd yn Jacob, ac ni wêl drawsedd yn Israel.' Gan hyny, cawn ymholi pa ham na wêl Duw anwiredd a thrawsedd yn ei bobl.

(1). O blegid y mae eu holl bechodau wedi eu maddeu yn y cyfiawnhâd. Nid maddeuant yw cyfiawnhâd; ond y mae maddeuant mewn cyfiawnhâd:—'Megys y mae Dafydd hefyd yn dadgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo heb weithredoedd, gan ddywedyd: 'Dedwydd yw y rhai y maddeuwyd eu hanwireddau, a'r rhai y cuddiwyd eu pechodau.' 'Dedwydd yw y gŵr nid yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo.'

(2). Nid yw yr Arglwydd am eu gweled. Y mae yn eu caru mor fawr nes ydyw wedi anghofio eu hanwireddau, a'u pechodau:—'Canys trugarog fyddaf wrth eu hanghyfiawnderau, a'u pechodau hwynt, a'u hanwireddau, ni chofiaf ddim o honynt mwyach; o blegid mi a faddeuaf eu hanwireddau, a'u pechod ni chofiaf mwyach.' Pan y mae cariad yn peri anghofio bai, y mae y bai yn cael ei guddio, am nad oes yr un duedd yn y maddeuwr i chwilio am dano; a phe byddai iddo chwilio, nis cai ef, am na fynai ei weled. Meddyliwch am ŵr yn caru ei wraig, a bod bai ar y wraig. Meddyliwch hefyd fod rhywun mor ben-ysgafn a cheisio dangos y bai hwnw i'r gŵr. Ni welai y gŵr y bai, am na byddai yn ewyllysio ei weled; ond fe welai ar unwaith fai yr hwn fynai ddangos bai yn ngwrthddrych ei serch. Y mae llawer yn caru sôn am feiau pobl Dduw. Cofiwch hyny; ni wna efe byth roddi diolch iddynt am wneyd hyny. Nid yw am weled eu beiau. Y cwbl o hanes Noah a Lot a geir gan lawer ydyw iddynt feddwi. Chwi allech feddwl, wrth glywed llawer yn sôn am Dafydd, na wyddant ddim o'i hanes ond iddo odinebu; ac am Pedr, yn gwadu ei Athraw. Fe sonir am feiau y rhai hyn yn nghlyw yr hwn a'u pïau—eu priod. Y mae hyn yn dangos diffyg synwyr o'r mwyaf:—'Yn y dyddiau hyny, ac yn yr amser hwnw, medd yr Arglwydd, y ceisir anwiredd Israel,

ac ni bydd, a phechodau Judah, ond nis ceir hwynt: canys myfi a faddeuaf i'r rhai a weddillwyf;' *Jer.* l. 20.

(3). O blegid y mae Iawn Grist rhyngddo a'u gweled. Y mae yn taflu pechodau ei bobl i ddyfnderoedd y môr:—'A thi a defli eu holl bechodau i ddyfnderoedd y môr. Pa fôr yw hwnw? Ond môr haeddiant aberth ac Iawn Crist; ac o ganlyniad, y mae y môr diwaelod ei hun rhyngddo a'u gweled. Ni wêl eu pechodau i'w damnio o'u plegid. Y mae yr Iawn rhyngddo a gweled pechodau ei bobl i'w lladd am danynt. Fel ag yr oedd gwaed oen y Pasc yn daenelledig ar y ddau ystlysbost, ac ar gappan drws y tai yn yr Aipht, rhyngddo a lladd y cyntafanedig: felly y mae ing a chwŷs gwaedlyd Iachawdwr mawr y byd yn Gethsemane, y fflangellu fu arno—y coroni â drain—yr hoelio ar y groes—y trywanu, a marw Crist, rhwng Duw a dy ladd di:—'Yna efe a drugarhâ wrtho, ac a ddywed, Gollwng ef, rhag disgyn o hono ef i'r clawdd; myfi a gefais iawn.'

2. Ni wêl eu hanwireddau i'w heuog-farnu yn ol y gyfraith am danynt. Y mae yr Iawn rhyngddo a'u gweled. Yr oedd y drugareddfa o'r un lled a'r arch; ac felly yr oedd yn gorchuddio yr arch, a'r llechau ynddi. Yr oedd y drugareddfa yn gysgod nodedig o Grist, yr hwn a guddiodd ein pechodau ni âg Iawn; ac a ddioddefodd felldith y gyfraith drosom, fel y gall Duw edrych ar y gyfraith trwy Grist, wedi ei chyflawni drosom. Fe ddywed y pechadur fod arno ofn neshâu at Dduw; o blegid ei fod yn euog yn wyneb y gyfraith. Gwrandaw, bechadur, beth y mae Duw yn ei ddyweyd, ac fe ddylai hyny symmud dy ofn:—'Mi a gyfarfyddaf â thi yno;' sef ar y drugareddfa uwch ben y gyfraith, heb dy ladd. Y mae yma aur digon trwchus ar y llechau, y gelli gael byw yn eu hymyl yn ddiogel dy wala am byth. A gaf fi ofyn i chwi neshau at Dduw ar bwys yr aur tragywyddol hwn; yr hwn o Bethlehem i Galfaria a guddiodd gyfraith sanctaidd Duw, trwy lanw ei gofynion. Gelli gael bywyd yma, a'r gyfraith wrth

ei bodd, ac o dan ei choron. Mor rhagorol y mae Paul yn dangos hyn :—'Crist a'n llwyr brynodd oddi wrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith trosom.' 'Canys yr hwn nid adnabu bechod, a wnaeth efe yn bechod drosom ni; fel y'n gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef.'

'Fe ettyb ei gyfiawnder ef,
Berffeithrwydd cyfraith brenin nef.'

Y mae Iawn Grist yn debyg i'r golofn yn hanes y genedl. Y mae y naill du iddo yn gwmmwl, ac yn dywyllwch i guddio eu pechodau; ac ar y tu arall yn oleuni i ddangos eu personau yn gyfiawn yn nghyfiawnder Crist.

(4). O blegid y mae efe ei hun rhyngddo a'u gweled :— 'Ti a deflaist fy holl bechodau o'r tu ol i'th gefn. Gan eu bod o'r tu ol i'w gefn, amlwg yw nas gall eu gweled. Y mae cymmaint ag yw ef ei hun rhyngddo a'u gweled. Pa le y mae ei gefn? Lle nad yw ei wyneb. Pa le y mae ei wyneb? Y mae ei wyneb yn mhob man. Y mae ei wyneb ar yr uniawn. Y mae ei wyneb yn erbyn y rhai a wna ddrwg i dori eu coffa oddi ar y ddaear. Ei wyneb yw y nefoedd. Y mae yr angylion yn gweled ei wyneb ef bob amser :—'Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi, fod eu hangylion hwy yn y nefoedd bob amser, yn gweled wyneb fy Nhad yr hwn sydd yn y nefoedd.' Gwel y saint ef wyneb-yn-wyneb :—'Canys gweled yr ydym yr awr hon trwy ddrych mewn dammeg; ond yna, wyneb-yn-wyneb.' Gwelodd Daniel wyneb Duw fel mellten. Gwelodd Ioan wyneb Duw, yr hwn a ymddangosai iddo fel yr haul. Wel, pa le y mae ei gefn? Nis gellir dyweyd. Y gwir yw nad oes y fath le yn bod a thu ol i'w gefn; o blegid pe na bae Duw yn llanw pob lle, byddai lle i'w pechod fod yn rhywle. Y mae yr ymadrodd 'taflu y tu ol i'w gefn,' yn profi mai eu dileu y mae :—'Myfi yw yr hwn a ddilëaf dy gamweddau.' Gan eu bod wedi eu dileu, nis gall eu gweled. O ryfedd râs!

ADDYSGIADAU.

1. Gweddïed yr eglwys am gael ei gwaredu rhag pechodau sydd yn peri i'r Arglwydd gilio o'u mysg.

2. Y mae yn ammhosibl i neb ddrygu yr eglwys tra byddo Duw yn amddiffyn iddi:—'Duw sydd yn ei chanol, nid ysgog hi.' 'Y dydd hwnw y cenir y gân hon yn nhir Judah: Dinas gadarn sydd i ni; Duw a esyd iachawdwriaeth yn gaerau, ac yn rhagfur.' Gwaith ofer fydd i ddewiniaid, erlidwyr, a chythreuliaid i geisio ei drygu tra byddo Duw gyda hi. 'A phyrth uffern nis gorchfygant hi.' Amen.

## PREGETH II.

### TRAGYWYDDOL BWYS GOGONIANT.

'Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni;' 2 *Cor.* iv. 17.

OES â llawer iawn o ddioddef ynddi yw oes dyn duwiol, fynychaf. Ond yr oedd yr Apostol Paul yn y geiriau hyn wedi mesur a phwyso yr oll o'r cystudd, a'i gael yn fyr o ran ei hyd, ac yn ysgafn o ran ei bwysau. Nid ydynt felly bob amser. Dynion duwiol dybygaf sydd yn cael y cystuddiau trymaf a hiraf o bawb yn y byd, hyd yma. Wrth y gair 'cystudd' y byddwn ni yn deall, fynychaf, anhwyldeb corphorol; ond wrth y gair yn y *text*, y mae yn rhaid i ni ddeall pob rhyw gystudd corphorol a meddyliol, blinderau a thrallodion bywyd, ing, cyfyng-gynghor, gorthrymderau, ynghyd â'r holl erledigaethau ag yr oedd Paul a'i frodyr, yr apostolion, yn eu dioddef yn eu dyddiau hwy:—'Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol.' Achwyn a thuchan y bydd pawb wrth sôn am gystuddiau fynychaf; ond eu canmawl oedd yr apostol:—'Yn odidog ragorol.' Pa beth, apostol, y mae y cystuddiau yn ei wneyd i ti? Y maent 'yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.' Dyna eglurhâd yr apostol. Nid yw y cystudd yn haeddu gogoniant, fel pe dywedasai yr apostol; ond y mae, dan fendith Duw, yn ein cymmhwyso i ogoniant tragywyddol. Bydd y nefoedd yn felusach ar ol ei chyrhaedd, pa amlaf a thrymaf y cystuddiau ar y ffordd iddi:—

'Cawn, yn lle cystudd byr a'n crwys,
Dragywyddol bwys gogoniant.'

Cawn sylwi ar y geiriau gwerthfawr hyn fel y canlyn:—

I. *Y disgrifiad sydd yn y geiriau o gystuddiau pobl Dduw; sef 'byr ac ysgafn gystudd.'*

1. Mewn cymmhariaeth i'w haeddiant, 'Pa ham y grwgnach dyn byw, gŵr am gospedigaeth ei bechod?' Y mae y gosp yn llai nag y mae yr anwiredd yn ei haeddu.

2. Mewn cymmhariaeth i gystuddiau y patriarchiaid, y prophwydi, yr apostolion, a merthyron Iesu. Y dynion goreu fuont yn y byd erioed gafodd y cystuddiau trymaf, a ninnau, y rhai gwaelaf, sydd yn cael y cystuddiau ysgafnaf; ac etto, ni sydd yn grwgnach fwyaf.

3. Mewn cymmhariaeth i ddioddefaint Crist. Nis gellir disgrifio yr hyn a ddioddefodd efe oddi wrth ddynion creulawn, ac oddi wrth ddiafol a'i angylion, ac oddi wrth Dduw digllawn. Ei ddirfawr ddioddefaint yn ngardd Gethsemane, ar ei ffordd i Golgotha, ac ar ben Calfaria. Os byddi yn methu gweled dy gystudd yn ysgafn, yn un goleuni arall, edrych arno yn ngoleuni dioddefiadau Crist, a bydd yn rhaid i ti, mewn canlyniad, fod yr un farn a'r tost am dy gystudd di.

4. Mewn cymmhariaeth i boenau y damnedigion yn uffern. Pwy all osod allan mewn iaith? Pwy all ddisgrifio poenau y rhai hyn sydd wedi eu gyru oddi wrth eu pleserau; oddi wrth eu perthynasau; ac wedi eu halltudio oddi wrth Dduw, ac oddi wrth Grist; ac wedi eu cau allan o'r nefoedd, heb obaith ganddynt:—'Ewch oddi wrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barotöwyd i ddiafol ac i'w angylion.'

5. Mewn cymmhariaeth i'r gogoniant a ddadguddir i ni:—'Tragywyddol bwys gogoniant.' Nid ydyw yn deilwng ei gymmharu:—'O blegid yr ydwyf yn cyfrif, nad yw dioddefiadau yr amser presennol hwn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant a ddadguddir i ni.' Y mae y fath bwys yn y gogoniant fel ag y mae yn rhaid i ddyn gael ei ysbrydoli cyn y bydd yn gymmhwys i ymgynnal o dano.

II. *Yr ystyriaethau yn mha rai y gellir dyweyd fod y cystudd yn fyr.*

1. Mewn cymmhariaeth i dragywyddoldeb. Ewch â'r cystuddiau meithaf a gafodd neb o'r saint erioed i ochr

tragywyddoldeb; y maent bron bod yn rhy fyr i neb i'w gweled.

2. Y mae y cystuddiau trymaf, fynychaf, yn fyr, mewn cymmhariaeth i'n hoes yn y byd. Y rhan feraf o oes Joseph fu yn gystuddiol, neu yn drallodus. Treuliodd foreu ei oes yn gysurus iawn gyda'i dad, a gwawriodd yn *beauty* arno yn y prydnawn. Dywedodd Pharaoh hefyd wrth Joseph:—'Tydi a fyddi ar fy nhŷ, ac wrth dy air di y llywodraethir fy mhobl oll: yn y deyrn-gadair yn unig y byddaf fwy na thydi.' Felly y bu ar Job, ac ar bawb y sonir am danynt yn y Beibl. Yr un modd y mae wedi bod gyda phob un o honom ninnau. Y mae yn wir ei bod yn drallodus arnom yn aml; ond y mae mor wir a hyny, mai y rhan feraf o'r oes a fu yn gystuddiol iawn. Diolchwn, ynte, am mai y rhan feraf o'n hoes sydd yn llawn o drallodau.

III. *Y lles y mae cystuddiau dan fendith Duw yn ei wneyd i'r saint.*

1. Y maent 'yn odidog ragorol, yn gweithredu tragywyddol bwys gogoniant i ni.' Y maent wedi eu bwriadu gan Dduw er dysgu i'r saint wersi pwysig. Mewn cystudd y maent yn cael eu dwyn i ystyried eu hymddibyniad ar Dduw am bob peth. Pan oedd y dyn yn iach, a'i deulu yr un modd, a'r amgylchiadau yn gysurus, dichon ei fod yn mwynhau y trugareddau hyn heb weled llaw Duw o gwbl yn eu rhoddiad. Ond pan gymmerodd Duw rhyw gysur oddi wrtho, nes oedd yn teimlo yn drallodus, cafodd yn y tywydd hwn hamdden i ystyried y llaw fawr, o'r hon yr oedd ei holl gysuron yn dyfod. Yr oedd yntau erbyn hyn yn gwerthfawrogi y gwersi, ac yn bendithio Duw am danynt, gan ddywedyd:—'Cyn fy nghystuddio, yr oeddwn yn cyfeiliorni: ond yn awr, cedwais dy air di.' 'Da yw i mi fy nghystuddio, fel y dysgwn dy ddeddfau.'

2. Y maent trwy y cystuddiau hyn yn cael eu dysgu i ymostwng i ewyllys Duw. Y maent yn cael eu dysgu i weddïo yn ffwrneisiau cystudd. Y mae llawer o weddïo

wedi bod, ac yn bod, yr hyn ni fuasai wedi cymmeryd lle oni bae am dywydd garw cystuddiau. Y mae y saint wedi ymadnewyddu mewn gweddïau trwy y pethau blinion hyn. Yr ydych yn gwybod am Jonah. Yr oedd wedi colli ysbryd gweddi i raddau pell iawn. Yr oedd gweddïo wedi myned dipyn yn ddyeithr iddo, pan oedd yr Arglwydd yn ceisio ganddo fyned i Ninefeh i bregethu, ac yn rhoddi pregeth barod iddo i'w thraddodi. Edrychwch arno—dacw fe yn ffoi i Tarsus; ond ar y fordaith, dyna'r gwynt yn chwythu yn gryf; a bu yn y môr dymmhestl fawr, fel yr ofnent y dryllid y llong, a'r morwyr, bob un o honynt yn galw ar ei dduw. Ond Jonah, prophwyd yr Arglwydd, oedd yn cysgu. Cyfarfod gweddï heb ei eisieu oedd y cyfarfod gweddi hwnw. Y paganiaid a lefasent bob un ar ei dduw, a'r unig ddyn duwiol yn cysgu yn y cwrdd. 'Cyfod, gysgadur,' meddent, 'galw dithau ar dy Dduw: fe allai yr ystyr y Duw hwnw wrthym, fel na'n coller.' Ond erbyn iddo agoryd ei lygaid, fe adnabyddodd y tywydd, ac efe a ddywedodd:—'Bwriwch fi i'r môr; a'r môr a ostega i chwi.' Fe gaiff *pack* o ffyliaid fyned lle y mynont am dipyn, pan na chaiff dyn duwiol fyn'd yr un ffordd. Yn y môr fe weddïodd Jonah i bwrpas, fel llawer dyn duwiol arall o ganol môr o ofid:—'O'm hing y gelwais ar yr Arglwydd, ac efe a'm hattebodd; o fol uffern y gwaeddais, a chlywaist fy llef.'

3. Y maent wedi eu trefnu i brofi eu grasusau. Y mae y saint yn cael eu puro trwy gystuddiau, fel y mae yr aur a'r arian yn cael eu puro trwy dân:—'A phuraf hwynt fel puro arian, a choethaf hwynt fel coethi aur.' Mewn cystuddiau mawrion y daeth hyder Job i'r golwg egluraf. Pa le, Job, y mae yr ychain, y defaid, yr asynod, y camelod, a'r iechyd, a'r plant? Beth wyt ti yn feddwl am dani erbyn hyn? Yr wyf, fel pe dywedai, wedi gwneyd fy meddwl i fyny: 'Pe lladdai efe fi, etto mi a ymddiriedwn ynddo.' Pe lladdai efe fi yn y fan yma, mi hongianwn innau wrtho pan yn tynu yr anadliad olaf. Yn yr ystorm gryfaf y

gwelwyd amynedd Job egluraf. Yn nghanol y dymmhestl, un diwrnod, gofynai ei wraig :—'A wyt ti etto yn parhau yn dy berffeithrwydd? Melldithia Dduw, a bydd farw.' Wrth i chwi ystyried pob peth, yr wyf yn meddwl mai dyma yr ymosodiad mwyaf ofnadwy a fu ar un dyn, er pan wnaed y byd hyd y pryd hwn, yn enwedig pan yr ystyriom o ba le yr oedd yr ymosodiad yn dyfod. Ceisio ganddo ladd ei hun, yn ddiammheu, oedd meddwl y wraig. Buasai ei dywydd yn llai pe buasai wedi marw gyda'r plant. Gwelwch y fath ras ardderchog yw y gras o amynedd, fel yr oedd yn nerthu Job i ddal yn y fath ystorm enbyd :—'Wele, dedwydd yr ydym yn gadael y rhai sydd ddioddefus. Chwi a glywsoch am amynedd Job, ac a welsoch ddiwedd yr Arglwydd.' A Job a ddywedodd wrth ei wraig :—'Lleferaist fel y llefarai un o'r ynfydion: a dderbyniwn ni gan Dduw yr hyn sydd dda, ac oni dderbyniwn yr hyn sydd ddrwg?' Pan oedd Duw yn rhoi ei drugareddau yn ddi-rif i ni, yr oeddit yn eu mwynhau gyda llawenydd. Fe gymmer y dyn gyflawnder mawr gan Dduw. Beth sydd ar y dyn yn awr? O'r un llaw y daw llwyddiant ac adfyd, iechyd a chystudd, cyfoeth a thlodi, bywyd a marwolaeth. Y mae llawer hyd heddyw a gymmerant o law Rhagluniaeth hyny a welo yn dda ei roddi; ond os cymmer Rhagluniaeth yn ol rywbeth, y maent yn grwgnach yn fawr. Gwelwyd ffydd Abraham mewn rhai amgylchiadau yn eglur iawn. Wedi cael mab yn ei henaint; ac wedi i'r bachgen dyfu i fyny, yn un o'r bechgyn ffeindia yn yr holl wlad, meddai yr Arglwydd wrth Abraham :—Y mae yn rhaid i mi gael y bachgen yna. Wel, pa fodd? Wel, rhaid i mi ei gael yn aberth ar ben 'un o'r mynyddoedd, yr hwn a ddywedwyf wrthyt.' Cododd yn foreu, gan wneuthur y parotoadau—yr asyn, y coed, y defnyddiau tân, a'r gyllell. Aethpwyd i fyny i'r mynydd. Wedi cyrhaedd i olwg y fan, fe ddarfu i Abraham ddywedyd wrth y llangciau :—'Aroswch chwi yma gyda'r asyn; a mi a'r llangc a awn hyd acw, ac a addolwn, ac a ddychwelwn

atoch.' Nid oes dim addoli heddyw Abraham, heb aberthu Isaac. Wel, yr ydym ni yn myned i addoli. Y mae Duw yn gofyn addoliad. Yr oedd yn credu fod Duw yn abl 'i'w gyfodi ef o feirw; o ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth.' Yr oedd efe yn foddlawn rhoddi a chymmeryd yn ol fel y gwelai Duw yn dda.

4. Y mae cystuddiau y saint yn odidog rhagorol fel moddion, dan fendith yr Arglwydd, i'w puro. Y mae brychau, fel y dywedir, ar yr haul. Y mae cymmylau i'w gweled ar y diwrnod disgleiriaf. Y mae ammherffeithrwydd yn y goreu o bobl Dduw. Ni chollant hwy ddim yn ffwrneisiau cystudd ond eu llygredigaeth. Trwy hyn y glanheir anwiredd Jacob, a dyma yr holl ffrwyth, tynu ymaith ei bechod.

## ADDYSGIADAU.

1. Gwelwn mai dybenion daionus sydd gan Dduw wrth gystuddio y saint.

2. Ystyriwn ysgafnder y cystuddiau trymaf mewn cymmhariaeth i ddioddefiadau Crist trosom.

3. Meddyliwn am fyrdra y cystuddiau yma mewn cymmhariaeth i dragywyddoldeb o lawenydd.

4. Gwelwn pa mor odidog rhagorol y mae y cystuddiau yn dwyn i ni 'dragywyddol bwys gogoniant.' Amen.

## PREGETH III.

### MARWOLDEB Y CORPH AC ANFARWOLDEB YR YSBRYD.

'Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu, ac y dychwel yr ysbryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef;' *Preg.* xii. 7.

Y MAE Solomon, yn nechreu y bennod hon, yn galw yn ddifrifol ar bobl ieuaingc i gofio eu Creawdwr yn nyddiau eu hieuengctid. Y mae dyddiau ieuengctid yn cael eu nodi yma fel yr adeg fwyaf manteisiol yn oes dyn i gyd i gofio ei Greawdwr. Wedi hyny, y mae yn disgrifio yr adfeiliad corphorol a gymmer le mewn blynyddoedd diweddarach bywyd, o ddechreu yr ail adnod yn y bennod hyd yr adnod a ddarllenasom. Yr ydym yn cael disgrifiad o babell y corph yn cael ei dattod bob yn rhaff, a phob yn hoel, gan amser, ac afiechyd, nes yn y diwedd iddi gael ei thynu i lawr yn gwbl ac yn hollol gan angeu. Pan y cymmero yr holl adfeiliadau a nodir allan yma le; a phan y bydd i angeu roi yr ergyd olaf, nes ysgaru corph ac enaid oddi wrth eu gilydd, bydd yr hyn a ddangosir yn y *text* yn canlyn:—'Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu.' Yn y geiriau ni a welwn amryw o bethau, y rhai sydd bob un yn perthyn mor agos i ni ag sydd yn bossibl iddynt fod.

I. *Fod gan ddyn, a phob dyn a dynes, gorph ac enaid.*

Nid ydych yn disgwyl i mi dreulio dim amser i brofi fod gan ddyn gorph. Y mae hwn yn beth gweledig a theimladwy. Da fyddai i ni gofio pa beth ydym o ran ein cyrph:—'Canys pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli; a mi yn llwch ac yn lludw,' meddai y patriarch Abraham. Gallai gofio hyn fod yn dipyn o help i ni i'n cadw rhag myned gyda phob awel o hunanoldeb a balchder ffol. Pe

byddem yn cofio yn amlach mai pridd ydym, ni byddem mor barod i ymchwyddo. Er yr holl swn y mae y dyn yn ei wneyd, ac y mae y cymmydogion yn gwybod hyny yn dda, nad ydyw, wedi'r holl fawredd a gwagedd, ond ychydig o bridd :—'Canys pridd wyt ti.'

II. *Yr hyn yw y corph o ran ei sylwedd, sef pridd.*

Y mae yn rhaid fod y Duw a'i gwnaeth yn un anfeidrol mewn gallu a doethineb. Y mae yn naturiol iawn i bob un a ystyrio ychydig, i ddyweyd gyda chlodforedd yn ei enau, fel y Salmydd :—'Canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed.' Onid ydyw yn rhyfedd fod pridd yn gweled, yn clywed, yn teimlo, yn archwaethu, yn rhodio, yn llefaru, ac yn gallu gwneyd llawer o bethau eraill? Y mae yr ymadrodd hwn yn dangos yn amlwg iawn mai rhai brau ydym. Dyna fel y mae llestri pridd, yn hynod ddefnyddiol yn eich tai; ond gwyddoch fod yn rhaid cymmeryd cryn ofal wrth eu trin, a'u trafod, a gofalu peidio eu defnyddio at unrhyw waith trwm, onid ê 'cracio' a thori a wnant. Y mae yn drueni, yn resyn, gweled yr olwg sydd ar gyrph llawer o ddynion. Y maent yn *abuso* y cyrph hyn o bridd a gawsant i wasanaethu y byd, pechod, a'r diafol; gwaith ag sydd yn groes i feddwl Duw. Bu'm yn meddwl lawer gwaith, pe buasai yr Arglwydd wedi trefnu, wedi bwriadu i ddynion ddefnyddio eu cyrph i feddwi, curo, a chicio eu gilydd, a syrthio oddi ar eu ceffylau, y buasai yn gwneyd cyrph pobl o rhyw beth mwy cryf a chadarn na phridd y ddaear. Ond pridd yw y corph. Ddeil ef ddim *slavery*, ddim *abuse* mawr. Ceisiwn ddoethineb a gras gan Dduw i'w ddefnyddio i'r amcan y bwriadwyd ef, sef i ogoneddu Duw :—'Canys i'm gogoniant y creais ef, y lluniais ef, ac y gwnaethum ef.' Ond er mai pridd yw ein cyrph, hwy ddaliant yn rhyfedd wrth eu defnyddio hwy at y pethau y gwnaed hwynt. Y mae genyt liniau o bridd, gelli fyned ar dy liniau pan fynot heb fod ddim gwaeth, onid ê treia hwy. Y mae genyt lygaid o bridd i ddarllen y Beibl, ac i ddilyn galwedigaethau bywyd. Ond yr wyf am ddangos

mai nid yn unig pridd ydym, ond y dychwel y rhan hon o ddyn i'r ddaear:—'Yna y dychwel y pridd i'r ddaear fel y bu.' Nid fe lusgir ef, ond efe a ddychwel. Pan yr edrychwn ar ein pobl ieuaingc hoenus a hardd, mewn tref a gwlad, y mae braidd yn brofedigaeth i chwi feddwl na ddont hwy ddim i'r ddaear mwy; ond aroswch chwi dipyn bach. Cewch weled y rhai mwyaf heini fel pe byddent wedi cymmeryd hamdden i ail feddwl; a gwelir hwy yn fuan yn dechreu crymu tua'r ddaear. Mae llawer iawn o geisio *propio* gan ddynion ar y rhan ddaearol yma, er ei chadw i fyny am dipyn; ac nid wyf yn beio arnynt am wneyd. Er cael y meddyg goreu, a'r cyfferïau goreu, myned yn raddol i'r ddaear y mae y corph. Nid oes dim allan o le yn hyn—dim yn annaturiol yn hyn; dim ond i ni ei ystyried yn bwyllog. Un o'r ddaear yw y corph o'r dechreu; a chan fod yn rhaid i'r corph fyned i *lodgio* i ryw le, tra byddo yr enaid allan o hono, y mae yn fwy naturiol iddo fyned i'r ddaear nag i un lle arall. Y mae yn dychwelyd at ei dylwyth, ac i gôl ei fam, i aros hyd y boreu y bydd yr udgorn yn canu i'w gael i fyny, a'i ail uno â'r enaid anfarwol fu yn preswylio ynddo.

Ond y peth yr wyf am alw eich sylw ato yn benaf ydyw, fod gan ddyn enaid—anfarwol—enaid i fyw byth mewn byd ar ol hwn. Hyn sydd yn gwneyd ein hachos ni yn bwysig—yn dragywyddol bwysig. Gallwn goffhau llaweroedd o bethau ag sydd yn profi anfarwoldeb yr enaid.

1. Mae yr enaid yn ei natur yn anfarwol. Edrychwn ar yr enaid ynddo ei hun. Y mae yn amlwg ddigon na chafodd yr enaid fôd gyda golwg ar iddo farw. Trowch yn ol at yr hanes cyntaf a gawn am yr enaid. Lluniodd yr Arglwydd gorph dyn o bridd y ddaear; ond dywedir iddo anadlu 'yn ei ffroenau ef anadl einioes, a'r dyn a aeth yn enaid byw.' Ar ryw gyfrif, gellir dyweyd mai anadl Duw yw enaid dyn.

'Bywiol fflam, nefolaidd gu.'

'Anadl yr Hollalluog am bywioccâodd i.' Pan fyddo dyn

yn marw, ei gorph sydd yn marw. Pa le y mae ei ysbryd yn myned? Dychwelyd y mae at yr hwn a'i rhoes ef. Yr anfeidrol sydd fel yn tynu ei anadl yn ol.

2. Y mae natur yr enaid yn profi nad oes dim marw i fod iddo ef. Y mae o ran ei natur yn anfarwol. 'Yna y dychwel yr ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef.' Y mae yr enaid, neu yr ysbryd fel ei gelwir, o'r un natur a Duw a'r angylion. Yr ydych chwi i gyd yn credu na fydd yr un angel farw byth. Pe gofynem i chwi, pa ham yr ydych yn barnu na bydd yr angylion feirw, y tebygolrwydd ydyw mai atteb y rhan amlaf o honoch fyddai, am mai ysbrydion ydynt. Wel, y mae yr un peth i'w ddyweyd am yr enaid —ysbryd yw yr enaid; ysbryd i fyw byth. Y mae yr enaid o natur addas i fyned i fyd ysbrydol, ac i fyw yn dragywyddol, gan fod yr hwn a'i gwnaeth yn ewyllysio hyny. Nid ydyw ysbryd yn heneiddio nac yn marw.

3. Y mae *galluoedd* yr enaid yn profi ei anfarwoldeb. Meddyliwch am allu dealltwriaeth dyn. Am ei fod yn fôd meddylgar a deallol, geill syniad am, ac amgyffred pethau o natur ysbrydol. Gellwch arwain meddyliau plant pan yn lled ieuaingc at bethau anweledig ac ysbrydol. Fel arall yn hollol y mae gyda golwg ar yr anifail. Pe bai cynnifer o ddynion call ag sydd ar y ddaear yn cael eu casglu at eu gilydd, ac iddynt hwy gael eu dewis o anifeiliaid y maes, ac ehediaid y nef, a physgod y môr, nis gallent, gyda'u holl gywreinrwydd a'u dawn, roddi iddynt y syniad lleiaf am yr ysbrydol. Nid oes eisieu gallu deallol ar yr anifail i amgyffred pethau ysbrydol: o herwydd nid yw efe yn perthyn i'r byd ysbrydol, nac i fyned iddo i fyw. Ond y mae y ffaith fod dyn yn meddu ar alluoedd dealltwriaeth i fedru amgyffred pethau ysbrydol, yn profi fod mewn dyn alluoedd nad ydynt mewn anifail, a bod y galluoedd hyn, neu y ffaith ei fod yn eu meddu, yn profi mai ar gyfer byw a bod mewn byd ysbrydol y rhoddodd Duw fôd yn benaf i'r enaid. Wedi i ddyn lafurio oes gyfan am wybodaeth, a llafurio yn lled ddyfal, dechreu

agoryd ei lygaid y bydd ar ddiwedd ei oes yma. Y mae yn meddu ar alluoedd meddyliol mor fawr fel ag y bydd yn medru, i raddau, gymmeryd i mewn ryfeddodau y Duw Mawr yn y byd ysbrydol, ar ol ei fynediad allan o'r byd hwn. Meddyliwch am ddymuniadau yr enaid. Mae y fath allu, y fath ëangder, y fath awydd anniwall am bethau dyfodol a thragywyddol ynddo, fel na ŵyr y dyn pa faint a'i digona. Mae dynion wedi gwneyd camsyniadau mawrion gyda golwg ar hyn. Pe cawn i fel hyn, ac fel arall, meddai'r dyn, o bethau'r byd yma, ni byddwn am chwaneg. Byddwn uwch ben fy nigon. Gwn y byddwn yn foddlawn ar hyny. Yr ydych wedi sylwi lawer gwaith, mi wn, fod yr Arglwydd, trwy drefniadau doeth ei Ragluniaeth, fel pe buasai yn cymmeryd dyn i'r ysgol; ac yno yn rhoddi iddo yr hyn y tybiasai efe fuasai yn ddigon i lanw ei holl ddymuniadau; ond erbyn iddo gael hyny, deallodd yn fuan fod lle gwâg yn ei enaid ef. Nis gwnaeth Duw y byd hwn yn ddigon mawr i lanw enaid.

'Gwagedd annherfynol ydyw,
Meddu daear, da, a dyn;
Colled, ennill pob peth arall,
Os na 'nillir di dy hun.'

Rhaid iddo gael Duw cyn cael digon:—'Duw, a digon.'

4. Hefyd, y mae y cydwybodolrwydd o bechod ag sydd mewn dyn yn profi yr un peth. Nis gall yr anifail bechu. Pe lladdai y naill anifail y llall, nis gellid ei alw i gyfrif am hyny. Ni buasai ganddo yr un syniad am natur y weithred, na maint y drwg oedd wedi ei gyflawni. Dim syniad am ei gyfrifoldeb. Ond y mae cydwybod y dyn ar ol iddo droseddu cyfraith Duw, neu gyfraith ei wlad, yn aflonyddu arno, ac yn ei gythruddo yn fynych, yn peri iddo ffoi, ac ymguddio. Pa ham na all y bechgyn caled ac annuwiol gyflawni pechodau heb feddwl am danynt yn ol llaw, mwy nag am eu gorchwyl gwaith? Beth ydyw y rheswm am hyny? Mewn perthynas i bechodau, y mae cydwybod oddi mewn yn peri fod adolygiad yn angen-

rheidiol, er mor boenus ydyw hyny. Y mae llawer bachgen yn ddigon caled, dideimlad, a drygionus, i fynu ei ffordd annuwiol, er y gŵyr fod hyny yn aredig, yn rhwygo tyner deimladau ei dad a'i fam. Ond y mae'r tyst o'i fewn, sef y gydwybod—yn tystio yn ddidaw fod Duw yn bod—fod byd ar ol hwn—fod pechu yn erbyn Duw yn ddrwg—fod tragywyddol gosp i ganlyn pechod. Pe bawn i yn gwybod fod yma un o'r cymmeriad hwn, mi ddywedwn wrtho, os na wrandewi ar lais neb na dim tu allan i ti dy hun, gwrandaw ar dy gydwybod—gwrandaw ar y peth y sydd tu fewn i ti.

5. Mae goleuni natur a rheswm yn profi hyn. Deallodd llawer o'r philosophyddion paganaidd, a'r beirdd yr adeg hono, fod canwyll wedi ei goleuo mewn dyn sydd yn *capable* i gynneu ar ol cael ei thynu allan o *lantern* y corph.

6. Hefyd, y mae y modd y rhenir rhoddion Rhagluniaeth rhwng pobl yn y byd yma yn profi fod dynion i fod mewn byd ar ol hwn. Yn aml yn y byd hwn, gwelwch Ragluniaeth yn rhoi yn helaeth o'i phethau da i sathrwyr penaf a mwyaf beiddgar cyfraith Duw; ac yn brin iawn i anrhydeddwyr manylaf y gyfraith. Sylwch, pe na bae dynion i fod mewn byd ar ol hwn, byddai cwmmwl tragywyddol ar gyfiawnder Duw. Ni oddefai cyfiawnder y Duw Mawr i bethau fod fel y maent yn y byd hwn, oni bae fod byd arall. Delai cyfiawnder Duw allan gyda brys i wastadhau pethau. Peidiwn a gwylltio yn wyneb goruchwyliaethau rhagluniaeth Duw. Fe ddaw pethau i'w lle cyn hir. Er hyn i gyd, y mae dynion da wedi bod bron a *stumblo* yn wyneb yr anghyfiawnder ymddangosiadol hwn. Clywch y Salmydd, hen ŵr *noble* yn dyweyd:—'Minnau, braidd na lithrodd fy nhraed: prin na thripiodd fy ngherddediad, canys cenfigenais wrth y rhai ynfyd, pan welais lwyddiant y rhai annuwiol.' Nid oedd yn deall llwyddiant yr annuwiol hyd onid aeth i gyssegr Duw. 'Pan amcenais wybod hyn, blin oedd hyny yn fy ngolwg i, hyd onid

aethum i gyssegr Duw: yna y deallais eu diwedd hwynt. 'Diau osod o honot hwynt mewn llithrigfa, a chwympo o honot hwynt i ddinystr.'

Golwg rhyfedd oedd gweled dyn ag oedd yn caru Duw âg eisieu bwyd arno, a gweled hwnw yn llawn cornwyd-ydd blin, a gweled yn ei ymyl elyn i Dduw yn *bravio* yn ardderchog, a chanddo, fel y dywedir, ysgarlad a phorphor, modd i gael cyflawnder o'r dillad drutaf pryd y mynai:—'Yr oedd rhyw ŵr goludog, ac a wisgid â phorphor a lliain main; ac yr oedd yn cymmeryd byd da yn helaethwych beunydd.' Yn y man, dyna y newydd yn dyfod fod y cardottyn wedi marw. Wel, dyna ddiwedd am dano, a i hanes, am byth; o blegid pa hanes sydd i fod am gardottyn wedi iddo farw? Yn ol trefn y byd, 'does dim i fod uwch fan ei fedd ef. Ond clywch, dyma ddiwedd yr hanes hapus am dano:—'A bu i'r cardottyn farw, a'i ddwyn gan yr angylion i fynwes Abraham.' Dyma, mae yn fwy na thebyg, oedd y *drive* cyntaf erioed a gafodd y *beggar*, neu y cardottyn tlawd yma. Mae dynion annuwiol yn cael llawer o *drives* ar hyd y byd yma; ond i ba le yn maent yn *drivio?* Bu y gŵr goludog hefyd farw cyn pen hir iawn ar ol hyn, ac a gladdwyd, yn ddiammheu, gyda mawredd a rhwysg, a dyna y cwbl drosodd; na, na yn wir, y mae rhyw beth difrifol yn cael ei ddyweyd am dano:—'Ac yn uffern efe a gododd ei olwg, ac efe mewn poenau, ac a ganfu Abraham o hir bell, a Lazarus yn ei fynwes;' ac erbyn iddo godi ei ben—codi ei olwg, beth a welsai ond 'Abraham o hir bell, a Lazarus yn ei fynwes.' Yr oedd yma yn rhy *stiff* ei wddf gan hunanoldeb a Satan i edrych ar yr hen *feggar;* ond erbyn i gyfiawnder ddechreu rhoi pethau yn eu lle, y mae y gŵr cyfoethog yn dechreu gweddïo, yr hyn, yn ddiau, oedd yn ddyeithr iawn iddo:—'Ac efe a lefodd, ac a ddywedodd, O! dad Abraham, trugarhâ wrthyf, a danfon Lazarus i drochi pen ei fŷs mewn dwfr, ac i oeri fy nhafod: canys fe a'm poenir yn y fflam hon.' Ië, ai dyna fel y mae? A wyt ti

yn meddwl, fel pe dywedasai cyfiawnder, nad oes yma ddim i'w wneyd ond *attendio* arnoch chwi, y 'crachach' bach, fel ag y bu mewn byd o amser? Mae wedi newid yma. Ac Abraham a ddywedodd:—'Ha, fab, coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd, ac felly Lazarus ei adfyd; ac yn awr y dyddenir ef, ac y poenir dithau.' Na, na: oni bae fod dynion i fod mewn byd ar ol hwn, ni oddefai cyfiawnder Duw ddim i bethau fod fel y maent yn hwn.

ADDYSGIADAU.

1. Ymgysurwn yn y ffaith fod byd ar ol hwn, a'n bod yn perchenogi eneidiau, y rhai sydd i fod byth.

2. Ystyriwn fod llawenydd tragywyddol, neu gosp dragywyddol, mewn byd ar ol hwn.

3. Beth sydd genym i'r enaid?

4. Ni wna dim y tro i'r enaid ond yr hyn sydd ysbrydol. Dim llai na bywyd tragywyddol. Amen.

## PREGETH IV.

### NA BYDDO YMBLEIDIO YN EICH PLITH.

'Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy enw ein Harglwydd Iesu Grist, ddywedyd o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfan-gyssylltu yn yr un meddwl, ac yn yr un farn.'

YR oedd yr Apostol Paul yn attolygu ar y Corinthiaid, yn y testyn, na byddai ymbleidio yn eu plith, oddiar yr hyn oedd wedi ei ddangos a'i ddadguddio iddo gan rai o dŷ Cloe:—'Canys fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai sydd o dŷ Cloe, fod cynnhenau yn eich plith chwi.' Ni ddylai neb wneyd llawer o ddefnydd o ddim heb enwi y rhai sydd yn dyweyd, fel y gwna yr postol yma. Pan glywch bobl yn sôn eu bod 'nhw' yn dyweyd, y mae hyny fynychaf, neu fel rheol, yn gosod yr achos yn waeth. Ond, meddai yr apostol, 'Fe ddangoswyd i mi am danoch chwi, fy mrodyr, gan y rhai sydd o dŷ Cloe, fod cynnhenau yn eich plith chwi;' neu, fe brofwyd i mi gan y rhai yr ydwyf wedi eu henwi. Y peth yr oeddynt yn cynnhenu neu yn anghyttuno yn ei gylch oedd y pregethwyr. A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, fod pob un o honoch yn dywedyd, 'Yr ydwyf fi yn eiddo Paul, minnau yn eiddo Apolos, minnau yn eiddo Cephas, minnau yn eiddo Crist.' Y mae yr apostol yn dangos eu ffolineb iddynt. Y mae yn dangos hefyd fod pob peth yn eiddo iddynt:—'Canys pob peth sydd eiddo chwi: Pa un bynag ai Paul, ai Apolos, ai Cephas, ai y byd, ai angau, ai pethau presennol, ai pethau i ddyfod, y mae pob peth yn eiddo chwi, a chwithau yn eiddo Crist, a Christ yn eiddo Duw.' Am bethau na byddo un achos ymbleidio yn eu cylch y bydd pobl yn ymbleidio yn eu cylch fynychaf.

I. *Beth ydyw ymbleidio?* Y mae hyn yn golygu, yn sicr:—

1. Ymglymu, neu ymlynu wrth blaid. Dyn plaid, ac nid dyn egwyddor, ydyw y dyn. Yr hyn a ddywed hwn a hwn, neu hwn a hwn arall, hyny y mae efe yn ei bleidio. Felly y mae llawer yn gwneyd, yn wladol ac eglwysig. Danfonwyd swyddogion gan y Phariseaid a'r archoffeiriaid i ddal yr Iesu. Daethant yn eu holau heb ei ddal; a'r rheswm oedd ganddynt dros hyny oedd, 'Na lefarodd neb erioed fel y dyn hwn.' 'Wel,' ebe y Phariseaid, 'A gredodd neb o'r penaethiaid?' Gwelwch nad chwilio pa un a oedd Crist yn werth credu ynddo ai peidio ydoedd eu pwnge hwy, ond a oedd neb o'u plaid hwy wedi credu ynddo ef. Digon tebyg, pe buasai y penaethiaid yn myned ar ei ol, y buasent hwythau yn myned; o blegid pobl plaid oeddynt. Chwi gewch fod Gamaliel yn gwneyd yn hollol wahanol; o blegid dyn egwyddor oedd, ac nid dyn plaid. Os mynwn lwyddo, rhaid ymlynu wrth egwyddor, ac nid wrth blaid.

2. Cynnal a chefnogi plaid wrthwynebol. Pleidiant y rhai y bydd y dynion agosaf at Dduw yn barnu yn eu calonau eu bod o'u lle; a'r gwirionedd yw, y pleidiant ddynion pe byddai eu hachos cyn ddrwg ag achos Corah, mab Ishar, mab Cohath, mab Lefi. Yr oedd dau cant a deg a deugain gyda hwnw, er cyn ddrwg ydoedd ei achos ef.

3. Ymryson ynghylch amrywiol bethau. Fe ddichon mai rhyw ddau wna ddechreu yr ymryson; ond gwna eraill bleidio y naill blaid a'r llall, nes y byddo yr eglwys yn ddwy ran.

II. *Yr achosion o ymbleidio.*

1. Diffyg synwyr cyffredin mewn dynion. Y mae hwn yn achos o lawer iawn o ymrysonau mewn gwahanol gylchoedd. Y mae ymbleidio am bethau bychain iawn yn bod, fel yr oedd gyda'r Samariaid ynghylch y lle i addoli. Dywedent mai Gerazim oedd y fan lle yr oedd yn rhaid

addoli, pan yr oedd addoli mewn gwirionedd wedi myned yn llygredig iawn yn eu plith. Felly y bydd pobl yn rhy fynych yn taeru am beth nad oes dim pwys ynddo. Addoli sydd o bwys, ac nid yn mha le. Fel Josiah yn ymyraeth â brenin yr Aipht. Fe ddaeth Necho, brenin yr Aipht, yn erbyn Charcemis. Ymyrodd Josiah mewn peth nad oedd yn perthyn iddo, trwy fyned yn erbyn Necho; a chafodd ei glwyfo yn dost, fel y bu efe farw. Y mae yn golled i'r dyn ei hunan i ymryson ynghylch pethau nad ydyw Gair Duw yn galw arno i'w wneuthur. Buasai yn well i Moses beidio cymmeryd sylw o'r Aiphtwr a'r Hebrëwr, ac o'r ddau Hebrëwr yr ail ddydd yn ymryson:—'A Moses a ddywedodd wrth yr hwn oedd ar y cam, Pa ham y tarewi dy gyfaill? A dywedodd yntau, Pwy a'th osododd di yn benaeth ac yn frawdwr arnom ni? Ai meddwl yr wyt ti fy lladd i, megys y lleddaist yr Aiphtiad?' Nid oedd un alwad arno i wneyd hyny. Tynodd Pharaoh yn ei ben, a gorfu arno adael ei wlad; o blegid, 'Pan glybu Pharaoh y peth hyn, efe a geisiodd ladd Moses, ond Moses a ffôdd rhag Pharaoh, ac a arosodd yn nhir Midian;' ac yno yr hir drigodd. I ofid y bydd pobl yn myned wrth osod eu bysedd mewn pethau nad ydynt yn perthyn iddynt. Gwneir llawer iawn o beth mewn byrbwylldra a diffyg ystyriaeth.

2. Llywodraeth balchder ar ddyn. Y mae rhywbeth ar ffordd y dyn balch yn barhaus; ac y mae ei falchder yn peri iddo deimlo oddi wrth bethau bychain, fel Haman, am nad oedd Mordecai yn ymgrymu iddo:—'A phan welodd Haman nad oedd Mordecai yn ymgrymu iddo, Haman a lanwyd o ddigllonedd yn ei erbyn ef, ac nid yn unig yn ei erbyn ef, ond hefyd yn erbyn yr holl bobl.' Y fath beth ofnadwy ydyw balchder a chenfigen. Fel y daeth i'r Haman hwn, felly y mae pobl falch ac hunanol yn cyfarfod â darostyngiadau gwarthus. Gwir yw y geiriau, 'Y neb a'i dyrchafo ei hun a ostyngir.' Y mae yn rhywbeth mwy nag y gellir ei ddisgwyl i bawb

fod yn unfryd-unfarn am bob peth. Oferedd fydd disgwyl gweled hyny byth yn y sefyllfa bresennol. Wel, os na all dyn fod yn dawel gyda'r corph o grefyddwyr lle y mae, aed i ffwrdd yn ddistaw at bobl o gyffelyb chwaeth, ac o gyffelyb syniadau; o blegid 'adar o'r unlliw a dynant i'r unllwyn;' ac nid taeru a dadleu yn barhaus dros ei opiniynau, a hyny yn groes i farn yr eglwys y perthyna iddi, a cheisio codi plaid i aflonyddu ar heddwch yr eglwys. Llai o drafferth fyddai iddo fyned at y rhai sydd yn barod o'r un grêd a barn ag ef, na cheisio troi eraill.

3. Cenfigen sydd achos arall o ymbleidio. Fel brodyr Joseph yn cynllunio ac yn dwyn oddi amgylch eu drwg-fwriadau i'w daflu i'r pydew, a'i werthu i'r Ismaeliaid. Cenfigen oedd yr achos eu bod yn cyd-fwriadu yn ei erbyn i'w ladd ef.

4. Cnawdolrwydd sydd achos arall o ymbleidio:—'Canys cnawdol ydych chwi etto, tra fyddo yn eich plith chwi genfigen, a chynnen, ac ymbleidio; onid ydych yn gnawdol, ac yn rhodio yn ddynol?' Dengys yr apostol yma fod cenfigen ac ymbleidio yn arwyddion o feddyliau cnawdol a bydol.

III. *Y drygau sydd mewn ymbleidio.*

1. Y mae y drygau yn nychu ac yn crebachu ysbryd dyn. Rhyw fodd neu gilydd, y mae yn gwneyd ei feddwl yn gul, hyd yn oed at Dduw ei hun, ac at bawb arall, ac yn lladd ysbryd crefydd. Nis gall ysbryd gweddi fod lle y byddo ymbleidio. Dangoswch i mi eglwys yn llawn o ymrysonau ac anghydfyddiaethau, a dangosaf finnau i chwi eglwys ddiweddi. Y mae pethau bychain mewn teulu, trwy groes ddadleu, yn dinystrio ac yn lladd ysbryd gweddi. Y mae yr Apostol Pedr yn cynghori gwŷr a gwragedd i garu eu gilydd, rhag rhwystro gweddïau y naill y llall:—'Y gwŷr yr un ffunud, cyd-gyfanneddwch â hwynt yn ol gwybodaeth, gan roddi parch i'r wraig, megys i'r llestr gwanaf, fel y rhai sydd gyd-etifeddion gras a bywyd, rhag rhwystro eich gweddïau.'

2. Y mae yn effeithio yn ddrwg iawn ar deuluoedd y rhai a fyddont felly. Y mae y naill deulu yn rhagfarnllyd yn erbyn y llall. Y mae llawer o deuluoedd a fagwyd o dan ddylanwad ysbryd ymbleidio yn parhau i gashau eu gilydd am genedlaethau.

3. Y mae yn ddinystr hollol i ddefnyddioldeb dyn. Aeth Miriam i ddrwg ysbryd tuag at Moses o achos y wraig o Ethiopia—'Llefarodd Miriam hefyd ac Aaron yn erbyn Moses o achos y wraig o Ethiopia, yr hon a briodasai efe, canys efe a gymmerasai Ethiopes yn wraig'—er mor ddefnyddiol ydoedd gydag addoliad Duw. Cofiwch mor hyfryd y canai ar lan y Môr Coch :—'A dywedodd Miriam, Cenwch i'r Arglwydd, canys gwnaeth yn ardderchog: bwriodd y march a'i farchog i'r môr.' Ond o blegid iddi fyned i ysbryd ymbleidio gydag Aaron, cauwyd hi o'r gwersyll saith niwrnod:—'A chauwyd ar Miriam o'r tu allan i'r gwersyll saith niwrnod; a'r bobl ni chychwynodd hyd oni ddaeth Miriam i mewn drachefn.'

4. Y niwed y mae yn ei wneyd i eglwys Dduw. Eglwys yn ymbleidio sydd felldith iddi ei hun. Y mae yn llawn annhrefn. Sylwch ar eglwys Corinth. Yr oedd y drygau casaf ac aflanaf ynddi:—'Yr oedd yn eu plith odineb ag na enwir unwaith yn mhlith y Cenhedloedd.' Yn lle caru eu gilydd, yr oedd brawd yn ymgyfreithio â brawd. Yr oedd cyfeiliornadau ac anfad-ddrwg weithredoedd yn eu plith; megys, cybydd-dod, crib-ddeiliaeth, godineb, meddwdod, ac eilunaddoliaeth. Llechres ddu iawn o bechodau yn yr un eglwys. Dyna fel y bydd eglwys pan fyddo ymbleidio ynddi. Hwy änt i wrandaw rhywbeth yn lle dyfod at eu gilydd i addoli Duw yn frawdol a thangnefeddus. Pan y byddent yn cyfarfod â'u gilydd, byddai hyny er gwaeth, ac nid er gwell; o blegid ymrafaelio yn eu plith. Yr oeddynt mor druenus o isel fel yr elent i Swper yr Arglwydd yn feddw. Ni byddent yn ceryddu am y pethau hyn.

5. Y niwed y mae yn ei wneyd i'r byd. 'Does neb a all

ddyweyd maint y niwed. Rhai na fedrant roddi gair da i'w gilydd, a rhai y gŵyr pawb nad ydynt yn caru eu gilydd, a'u bod yn elynion i'w gilydd ar hyd y blynyddoedd—y mae yn rhaid i bawb ag sydd yn eu hadwaen farnu nad yw yr efengyl erioed wedi cyrhaedd ei hamcan arnynt. Amcan yr efengyl fawr, fel y gwyddis, ydyw dysgu, a dwyn dynion i garu eu gilydd, ac i garu eu gelynion—bendithio y rhai a'u melldithiant, gwneyd da i'r sawl a'u casânt, a gweddïo dros y rhai a wnel niwed iddynt. Meddai Crist, 'Yr ydwyf fi yn dywedyd wrthych chwi, Carwch eich gelynion, bendithiwch y rhai a'ch mellddithiant.' Pan na wna crefyddwyr siarad yn barchus am eu gilydd, ac ymddwyn yn frawdol tuag at eu gilydd, y mae, o angenrheidrwydd, yn foddion i galedu y byd. Y mae yn wir fod annuwioldeb yn ofnadwy o gryf yn y trefydd mawrion, a bod pechodau gwarthus a gwaradwyddus yn cael eu cyflawni yn y tafarndai, chwareudai, a'r putteindai; ond y mae y pechodau sydd i'w gweled yn muchedddau crefyddwyr, hyny yw, proffeswyr crefydd, fil o weithiau yn fwy effeithiol i ddrygu ac i wneyd dynion yn anffyddwyr. Yn hytrach na chollfarnu yr efengyl, credwch mai dynion yw y rhai hyn na phrofasant nerthoedd achubol y drefn erioed—y dynion hyn sydd mewn ysbryd ymbleidio.

IV. *Yr hyn y dymunai yr apostol iddynt wneyd.*

1. Attolygai arnynt ddyweyd yr un peth. Pan y bydd pobl yn ysbryd yr efengyl, gallant oddef eu gilydd i ddyweyd yn groes i'w gilydd, er mwyn cael chwaneg o oleuni ar yr hyn y siaredir yn ei gylch. Ond pan y mae ysbryd ymbleidio mewn dynion, yr unig ffordd i'w ladd ydyw dyweyd yr un peth, neu beidio dyweyd dim. Clywch ambell un gorbwysig yn dyweyd 'Wel, nid wyf fi o'r un farn a chwi ar y mater.' Wel, er mwyn heddwch, taw â sôn ynte.

2. Attolygu arnynt i ladd ysbryd ymbleidio. Ei ladd âg ysbryd cariad. Gofynodd un unwaith i ŵr dyeithr a ydoedd yn adnabod y dyn a grogwyd ychydig amser cyn

hyny, gan fanylu âc enwi y dyn, ynghyd âg enw y lle. 'Wel yr oeddwn yn ei adnabod,' meddai y gŵr y gofynwyd iddo, 'ac y mae yn wir ddrwg genyf eich hysbysu ei fod yn frawd i mi.' Nid oedd eisieu parhau yr ymddiddan ar y mater hwnw. Gofalwn siarad yn barchus am ein gilydd, rhag ofn y bydd y rhai y byddwn yn digwydd siarad yn ammharchus am danynt yn frodyr i'r rhai y byddwn yn siarad â hwy.

3. Attolygai arnynt fod o'r un meddwl a'r un farn, sef yn mhob peth perthynol i fywyd tragwyddol. Byddwch fel Cristionogion, o'r un deimlad ac opiniwn; a pheidiwch a gadael i wahaniaeth mewn meddwl a barn eich ysgaru oddi wrth eich gilydd. Sefwch gyda eich gilydd yn un frawdoliaeth dangnefeddus, mewn undeb ffydd a chariad, fel aelodau o Grist.

4. Iddynt wneyd hyn trwy neu er mwyn enw a pharch i Grist. Dylem gadw yr amcan hwn mewn golwg yn ein holl gyflawniadau.

ADDYSGIADAU.

1. Gweddïwn am gael ein cadw a'n gwaredu rhag ysbryd ymbleidio—ysbryd croes i ysbryd Crist ydyw.

2. Defnyddiwn y synwyrau a feddwn i wylied arnom ein hunain rhag myned i'r tir peryglus hwn. Anaml y mae neb yn gwella yn llwyr o'r ysbryd hwn. Angeu fydd yn rhoddi terfyn arno fynychaf.

3. Nid yw Duw, o ran ei bresennoldeb grasol, yn mysg y rhai sydd yn ymbleidio.

4. Ystyriwn pa mor ddwfn a chyffredinol y mae dylanwad ysbryd ymbleidio yn myned, a'i fod o natur anfeddyginiaethol. Gwyliwn rhagddo. Amen.

# PENNOD V.

## PAUL YN ANNOG EGLWYS CORINTH I BURDEB MEWN DYSGYBLAETH.

'Mae y gair yn hollol, fod yn eich plith chwi odineb, a chyfryw odineb ag na enwir unwaith yn mysg y Cenhedloedd; sef cael o un wraig ei dad. Ac yr ydych chwi wedi ymchwyddo, ac ni alarasoch yn hytrach, fel y tynid o'ch mysg chwi y neb a wnaeth y weithred hon'; 1 *Cor*. v. 1, 2.

Y MAE yr apostol yn dyweyd mai gan y rhai oedd o dŷ Chloe y dangoswyd iddo fod cynnhenau yn eu plith, yn eglwys Corinth; ond yma, fe ddywed fod y pechod hwn yn fwy cyhoeddus—fod pawb yn siarad am dano fel peth adnabyddus. Yr oedd yr achos yn achos o gywilydd i eglwys Corinth. Er fod peth mor warthus a hyn yn yr eglwys, nid oedd yno neb yn eu plith yn sylwi arno, nac yn galaru am dano i ddysgyblu y dyn oedd yn euog o hono. Ond yn hytrach, yr oedd pawb yn ymchwyddo, ac yn ymbleidio. Er fod yr apostol yn mhell o Gorinth pan oedd yn ysgrifenu hyn at yr eglwys yno, etto yr oedd gyda hi o ran ei feddwl a'i ysbryd; ac o ran ei gariad atynt, a'i ofal am danynt. Galwai yr apostol sylw yr eglwys at ei dyledswydd ddifrifol, i wneyd yr hyn a orchymynir yn y testyn. Cawn sylwi yn bresennol ar ddau beth a welir yn amlwg yn yr adnodau hyn.

I. *Eglwys ydoedd eglwys Corinth nad oedd yn gweinyddu dysgyblaeth Duw am fai cyhoeddus a hir-adnabyddus.*

'Mae y gair yn hollol.' Mae yn beth hollol hysbys fod godineb, neu ymlosgach, yn eich mysg, nad yw yn cael ei enwi yn mhlith pechodau paganiaid y byd; 'sef cael o un wraig ei dad' neu ei lysfam. Y mae dysgyblaeth eglwysig

yn cynnwys tair rhan, sef:—(1). Derbyn i'r eglwys. (2). Dysgu yn yr eglwys. (3). Ceryddu am fai, a thraddodi allan o'r eglwys i'r byd yn ol Gair Duw, pan fyddo galw am hyny.

1. Eglwys heb ddysgyblaeth sydd effaith drygioni blaenorol. Felly yr oedd eglwys Corinth. Yr oedd wedi ymranu yn bleidiau. Nid oedd undeb a chydymgynghoriad barn, a chydweithrediad, yn ffynu yn eu plith. Yr oedd dysgyblaeth dan draed. Bernir fod y gŵr ag oedd yn euog o'r pechod brwnt ag oedd yn galw am ddiarddeliad yn ben ar un o'r pleidiau cnawdol hyn yn eglwys Corinth; ac yn ŵr lled fawr yn y byd, ac yn berthynas, yn ol y cnawd, i amryw o honynt. Felly y mae yn bod hyd y dydd hwn; pan na byddo cerydd, yn ol Gair Duw, yn cael ei weinyddu ar bersonau am bechodau mawrion, gwarthus, aflan, a chyhoeddus—pechodau sydd yn galw am ddysgyblaeth lem. Y mae gwerth dysgyblaeth eglwysig yn myned i golli mewn ysbryd plaid. Mewn gwirionedd, mae yn ammhosibl cario allan ddysgyblaeth mewn eglwys os bydd yno ysbryd plaid; neu, fe allai gan gnawdol barch i'r fodrwy aur; neu, o blegid fod personau o ddylanwad ac awdurdod yn aelodau yn yr eglwys, a'r personau hyn yn berthynasau a chyfneseifiaid i'r gŵr a gyhuddir o gyflawni y drwg mawr hwn.

2. Eglwys heb ddysgyblaeth ynddi sydd o fawr niwed iddi ei hun. Y mae yn agored i fyned o ddrwg i waeth, os goddefir pechod—unrhyw bechod—heb weinyddu cerydd am dano yn ol Gair Duw. Yn fuan, cyflawnir pechodau eraill a fyddant yn galw am gerydd; ond nis gellir gweinyddu cerydd arnynt, am na ddysgyblwyd y lleill; ac yn wir, nis goddefant hwythau y cerydd. Credant mai nid ymatteb cydwybod i Dduw sydd yn peri iddynt eu ceryddu am eu troseddau, onid ê buasent yn ceryddu y lleill. O ganlyniad, y mae yr eglwys yn myned heb yr un ddysgyblaeth. Felly yr oedd yn Corinth. Wedi goddef yr hyn y cyfeirir ato yn y *text*, aethant i ymgyfreithio â'u gilydd

o flaen y rhai anghyfiawn :—'Ond bod brawd yn ymgyfreithio â brawd, a hyny ger bron y rhai digred. Oni wyddoch chwi y barna y saint y byd? ac os trwoch chwi y bernir y byd, a ydych chwi yn anaddas i farnu y pethau lleiaf?' Ymollyngasant i bechodau eraill, nes o'r diwedd yr aent i sacrament Swper yr Arglwydd yn feddw.

3. Eglwys heb ddysgyblaeth yw y peth mwyaf effeithiol i ddysgu y byd i bechu yn ddi-ofn. Meddylier am yr eglwys o flaen y diluw, pryd yr oedd y clawdd terfyn rhwng yr eglwys a'r byd yn ddigon amlwg. Collwyd golwg ar y ffin ar ol y dyddiau hyny. Dywedir wrthym yn yr hanes ysgrythyrol fod cewri ar y ddaear yr adeg hono. Digon tebyg eu bod yn gewri o ran maintioli a nerth corphorol. Beth bynag am hyny, yr oeddynt yn gewri cedyrn mewn annuwioldeb; a pha ryfedd, gan nad oedd yr eglwys yn rhoddi esampl gwell o'u blaen.

4. Y mae eglwys heb ddysgyblaeth yn sicr o dynu barn Duw arni ei hun, ac ar y byd. Yr ydych yn gyfarwydd â hanes Eli. Yr oedd yn ddyn duwiol, yr hyn sydd hawdd ei brofi. Yr oedd wedi llanw swyddi uchel yn Israel am amser maith fel offeiriad a barnwr. Mewn dysgyblaeth ar ei feibion bu yn rhy 'slac.' Dywedodd wrthynt :—'Nid da y gair yr ydwyf fi yn ei glywed : eich bod chwi yn peri i bobl yr Arglwydd droseddu.' Ond er iddo glywed newyddion drwg am danynt, ni waharddodd efe iddynt :—'O herwydd i'w feibion haeddu iddynt felldith, ac nas gwaharddodd efe iddynt.' Dilynodd barn Duw ei deulu, nes iddynt gael eu bwrw allan yn gwbl o'r offeiriadaeth.

5. Y mae yn un o'r rhwystrau cryfaf ar ffordd llwyddiant y weinidogaeth. Yr eglwys sydd i gynnal y weinidogaeth yn y byd:—'Yn cynnal Gair y bywyd.' Y mae yn wir taw y pregethwr sydd i'w chyhoeddi ; ond nid yw y pregethwr ond un o'r eglwys, a gwas, a gweinidog Crist i'r eglwys, ac yn eiddo yr eglwys ; pa un ai Paul, ai Apolos, ai Cephas, y maent oll yn eiddo i'r eglwys. Yr eglwys yw 'colofn y gwirionedd.' Dylai yr eglwys, gan hyny, ofalu

ar fod bywyd ei haelodau yn deilwng o'r efengyl:—'Fel y rhodioch yn addas i'r Arglwydd i bob rhyngu bodd, gan ddwyn ffrwyth yn mhob gweithred dda, a chynnyddu yn ngwybodaeth am Dduw.' 'Ar rodio o honoch yn addas i'r alwedigaeth y'ch galwyd iddi.' Cyn y gellir disgwyl llwyddiant ar y weinidogaeth, rhaid fod bywyd yr eglwys yn unol â dysgeidiaeth y weinidogaeth. Heb hyn nis gellir disgwyl llwyddiant arni byth. Disgwyl neu beidio, ni bydd. Cyn hyny, dylem ymdrechu i ddal i fyny yr efengyl; yr hon sydd yn dysgu dyn i ymwadu âg ef ei hun, i garu ei elynion, ac i fyw yn sobr, cyfiawn, a duwiol:—'Canys ymddangosodd gras Duw, yr hwn sydd yn dwyn iachawdwriaeth i bob dyn; gan ein dysgu ni i wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon.' Y mae goddef beilchion, meddwon, a'r rhai sydd yn cashau eu gilydd yn yr eglwys, o angenrheidrwydd, yn gwrthweithio dylanwad y weinidogaeth, ac yn pylu ei hawch. Ymdrechwn i ddisgleirio megys goleuadau yn y byd, yn cynnal Gair y bywyd:—'Gwnewch bob dim heb rwgnach, ac ymddadleu; fel y byddoch ddiargyhoedd, a diniwed, yn blant diféius i Dduw, yn nghanol cenhedlaeth ddrygionus a throfäus.' Llafur ofer fydd fy llafur i o blegid yr efengyl, fel pe dywedasai yr apostol; oddi eithr i chwithau ddal i fyny sancteiddrwydd ei hathrawiaeth yn eich ymmarweddiad sanctaidd ger bron y byd.

6. Eglwys heb ddysgyblaeth yw y peth mwyaf effeithiol er cynnyrchu anffyddiaeth yn y byd. Y mae fod eglwys Dduw yn goddef pechodau gwarthus heb weinyddu cerydd am danynt yn ol Gair Duw yn rhoddi ar ddeall i'r byd mai cellwair yr ydys wrth sôn am ddrwg pechod. Yn awr, y mae y rhai ag sydd yn aelodau o eglwys Dduw, ac etto yn byw mewn pechod ac aflendid, meddwdod a godineb, yn foddion i gynnyrchu mwy o anffyddiaeth a didduwiaeth yn ein gwlad ni na'r holl *volumes* a ysgrifenwyd gan Tom Paine, a phawb sydd wedi ysgrifenu yn erbyn Cristionog-

aeth. Dylem ofni ac arswydo rhag mai hyn ydyw yr achos fod cymmaint o ammheuaeth ac anffyddiaeth yn ein gwlad ni. O'r ochr arall, y mae dylanwad a nerth mawr mewn bywyd duwiol. Dywedai yr anffyddwr fod bywyd pur a duwiol ei forwyn wedi ei orfodi i gredu fod Duw, a bod y Beibl yn wir Air Duw.

II. *Annoga yr eglwys gyda phob difrifoldeb ac awdurdod at ei dyledswydd.*

1. 'Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.' Ei wneyd dros yr Arglwydd Iesu Grist yw hyn. Yr ydym ni yn gofyn i'r Tad i wneyd i ni yn enw Iesu Grist. Gwnawn ninnau yn ol rheolau yr Iesu ei hun.

2. Gwneyd hyn yn ngallu Iesu Grist, trwy ei gymmhorth. Defnyddio ei gyfreithiau ef, a chymmeryd pob peth a fyddo yn eisieu arnoch. At fwrw ymaith y dyn drygionus hwnw o'ch plith, a charthu allan hen lefain malais a drygioni, bwriwch chwithau ymaith y dyn drygionus hwnw o'ch plith chwi:—'Am hyny certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch does newydd.'

3. Er mwyn y dyn ei hun, yr oedd yn galw arnynt i wneyd hyn. Y mae y rhai sydd yn cael eu goddef mewn pechod yn yr eglwys yn cael mawr gam, pan na weinyddir cerydd arnynt am eu troseddau. Y mae dysgyblaeth eglwysig yn drefniad o eiddo Duw; a phan y gweinyddir hi yn ol Gair Duw, ac yn ysbryd yr efengyl, gellir disgwyl bendith Duw arni:—'Fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig.'

Mi amcanaf roddi o'ch blaen, mewn cymmhariaeth, gynnwys y *text*. Meddyliwch am ŵr boneddig—gwir foneddigaidd—a chanddo balas yn y wlad; ond fod ei brif balas ef yn y brif ddinas. Y mae yn rhoi gofal ei *country seat* am dymmor i'r goruchwylwyr a'r *house-keepers*. Y mae y rhai hyn yn ymollwng i ddiogi a difaterwch, ac afradlonedd, ac yn esgeuluso eu dyledswyddau. Gadawant y palas yn anghof, ac ymdrecha pob un o honynt am fod yn ben, hyd nes bydd yr hen balas yn dechreu adfeilio, a phethau bryntion a budron yn mhob congl o hono. Y mae y seleri

a'r parlyrau wedi eu hesgeuluso i'r fath raddau fel y mae pethau a ddylent fod yn y domen yn yr holl ystafelloedd, a chreaduriaid aflan yn cael eu goddef ynddo, nes y mae y bobl sydd yn pasio heibio yn edrych yn isel ar balas y pendefig, ac ar y pendefig ei hun o blegid hyny. Y mae gan y pendefig etifeddiaethau mawrion, ac ëang, mewn gwahanol wledydd, yn dramor a chartrefol; ond y mae efe yn cael ei farnu yn ol yr olwg sydd ar y palas adfeiliedig hwn. Pe buasent yn adnabod y pendefig yn well, ni buasent yn ffurfio barn gyfeiliornus gamsyniol o'r fath am dano—buasai eu barn yn hollol wahanol. Yn gyffelyb y mae eglwys Dduw heb ddysgyblaeth ynddi. Edrychir i lawr arni. Mae crefydd yn cael cam, a Duw yn cael ei gamfarnu gan y byd annuwiol. Dangosir hyn yn y rhan flaenaf o'r *text*:—'Mae y gair yn hollol, fod yn eich plith chwi odineb, a chyfryw odineb ag na enwir unwaith yn mysg y Cenhedloedd; sef cael o un wraig ei dad.' Y mae y rhan olaf o'r *text* yn *charge* i'r ystiwardiaid, neu y blaenoriaid a'r *house-keepers*. Y mae yn cynnwys meddwl y pendefig ei hun, trwy law ei *agent* penaf, sef yr Apostol Paul; ac y mae wedi ei arwyddo ganddo. Gorchymynir iddynt i lanhau y *mansion*, trwy fwrw allan o hono y bwystfil hwnw i'w le priodol:—'Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist, pan ymgynnulloch ynghyd, a'm hysbryd innau, gyda gallu ein Harglwydd Iesu Grist, draddodi y cyfryw un i Satan, i ddinystr y cnawd, fel y byddo yr ysbryd yn gadwedig yn nydd yr Arglwydd Iesu.' A charthu yn lân ar ei ol:—'Am hyny certhwch allan yr hen lefain, fel y byddoch does newydd.' 'Oni wyddoch chwi na chaiff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na thwyller chwi: ni chaiff na godinebwyr, nac eilun-addolwyr, na thorwyr priodas, na masweddwyr, na gwryw-gydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chribddeilwyr etifeddu teyrnas Dduw.' 'Hyn gan hyny yr wyf yn ei ddywedyd, ac yn ei dystiolaethu yn yr Arglwydd, na rodiwch chwi mwyach fel y mae cenhedloedd eraill yn

rhodio, y rhai wedi diddarbodi, a ymroisant i drythyllwch, i wneuthur pob aflendid yn un chwant.' Yr oedd yn drueni fod tŷ y pendefig mor fudr, fel na allai y 'brws ffeinia' ei lanhau. Y mae yn rhoddi ei enw a'i allu wrth y gorchymyn i lanhau ei dŷ:—'Yn enw ein Harglwydd Iesu Grist;' 'gyda gallu ein Harglwydd Iesu Grist.' Nid ei wneyd yn *sly*; ond yn ei enw, a'i allu. Y gwir yw, y mae ar y pendefig chwant i roi tro i'r *county seat*. Pe bae yr *house-keepers* hyn yn taraw ati o ddifrif i lanhau y tŷ, ryfeddwn i ddim na ddelai y pendefig yn fuan i'r palas. Y mae ganddo serch mawr at y lle. O holl drigfeydd a phalasau y byd, dyma y *very spot* y mae yn caru bod ynddo. Dyma y lle y rhoddodd ei serch arno gyntaf:—'Er tragywyddoldeb y'm heneiniwyd, er y dechreuad, cyn bod y ddaear, yna yr oeddwn i gydag ef, megys un wedi ei feithrin gydag ef; ac yr oeddwn yn hyfrydwch iddo beunydd, yn ymlawenhau ger ei fron ef bob amser, ac yn llawenychu yn nghyfanneddle ei ddaear ef; a'm hyfrydwch oedd gyda meibion dynion.' 'A chariad tragywyddol y'th gerais.' Mae *county seat* y pendefig hwn wedi 'costio' yn ddrud iddo:—'Yr hwn a roddes ei hun drosom.' 'Eglwys Dduw, yr hon a bwrcasodd efe â'i briod waed.' Y mae pob peth yn dangos y deuai efe yn fuan pe bae y tŷ yn cael ei lanhau. Os na bydd i'r goruchwylwyr presennol ddeffro ati, diau y cânt *notice* i ymadael; o blegid fe fŷn Duw ei dŷ yn lân trwy ryw foddion, fel y gallo roddi ei bresennoldeb ynddo. Byddwn ddyfal i gyflawni ein dyledswyddau. Amen.

# PREGETH VI.

## Y PETHAU CRYFION OEDDYNT YN SAIL I FFYDD GWRAIG MANOAH.

'A Manoah a ddywedodd wrth ei wraig, Gan farw y byddwn feirw: canys gwelsom Dduw. Ond ei wraig a ddywedodd wrtho ef, Pe mynasai yr Arglwydd ein lladd ni, ni dderbyniasai efe boeth-offrwm a diod-offrwm o'n llaw ni, ac ni ddangosasai efe i ni yr holl bethau hyn, ac ni pharasai efe i ni y pryd hwn glywed y fath bethau;' *Barnwr* xiii. 22, 23.

YMDDIDDAN ydyw y geiriau hyn a fu rhwng Manoah a'i wraig. Tuag at i ni weled dyfodiad naturiol y geiriau hyn i mewn, a gweled y peth a fu yn achos o honynt, y mae yn angenrheidiol i ni sylwi ar y pethau a ddangosir i ni yn y rhanau blaenorol o'r bennod hon.

Wrth i chwi ddarllen y bennod hon yn fanwl a gofalus o'r dechreu, chwi a welwch mai gŵr o lwyth Dan oedd y Manoah yma, a thad Samson. Yr oedd gwraig Manoah yn ammhlantadwy hyd yr amser hwn. Fe ymddangosodd yr Arglwydd un diwrnod i wraig Manoah, ac a ragfynegodd iddi y buasai iddi feichiogi, ac esgor ar fab: ac y buasai y mab hwnw yn Nazarëad i Dduw o'r grôth hyd ddydd ei farwolaeth, ac y byddai iddo ddechreu gwaredu Israel o law y Philistiaid:—'Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd i'r wraig, ac a ddywedodd wrthi, Ti a feichiogi, ac a esgori ar fab. Ac yn awr nac ŷf win na diod gadarn, ac na fwyta ddim aflan; canys Nazarëad i Dduw fydd y bachgen, o'r grôth hyd ddydd ei farwolaeth.' Mynegodd gwraig Manoah hyn i'w gŵr. Yntau a weddïodd ar yr Arglwydd am iddo anfon eilwaith y gŵr atynt i'w dysgu yn fanylach ynghylch y peth hwn. Gwrandawodd yr Arglwydd ar ei weddi, ac fe ddaeth angel yr Arglwydd yr ail waith, ac a gadarnhaodd Manoah a'i wraig gyda golwg

ar yr hyn a lefarodd efe wrthynt y waith gyntaf. Yr oedd Manoah yn awyddus iawn i ddangos caredigrwydd a pharch i'r gŵr dyeithr, heb wybod mai angel ydoedd:—'Felly Manoah a gymmerth fŷn gafr, a bwyd-offrwm, ac a'i hoffrymodd ar y graig i'r Arglwydd. A'r angel a wnaeth yn rhyfedd; a Manoah a'i wraig oedd yn edrych. Canys, pan ddyrchafodd y fflam oddi ar yr allor tua'r nefoedd, yna angel yr Arglwydd a ddyrchafodd yn fflam yr allor: a Manoah a'i wraig oedd yn edrych ar hyny, ac a syrthiasiasant i lawr ar eu hwynebau.' Pan esgynodd yr angel mewn modd gogoneddus yn fflam yr allor y deallodd Manoah mai gŵr o'r drydedd nef oedd wedi bod yn siarad âg ef. Dywedodd Manoah yn awr wrth ei wraig, 'Gan farw y byddwn feirw, canys gwelsom Dduw.' Yr oeddynt wedi gweled angel Duw; ac Angel y Cyfammod, yn ddïau, ydoedd. Gwelsant lawer iawn o ogoniant a mawredd Duw yn esgyniad gogoneddus yr angel. Ond ei wraig a ddywedodd wrtho, Pe buasai yn meddwl ein lladd ni buasai yn dangos y fath arwyddion amlwg o'i heddwch, trwy ysu ein poeth-offrwm â thân o'r graig, neu o'r nefoedd. *Pa achos* oedd i Angel mawr y Cyfammod i ddyfod o'r nefoedd i'r fan yma i ddyweyd y cawn ni fab, a'n lladd ni y funyd wedi hyny? Pe mynasai yr Arglwydd ein lladd ni, ni dderbyniasai efe boeth-offrwm a bwyd-offrwm o'n llaw ni. Cawn sylwi:—

I. *Ar ofnau ac anghrediniaeth Manoah.*

'Byddwn feirw,' meddai. Y mae yn angenrheidiol i ni gofio, tuag at i ni weled y modd y cafodd yr ofnau hyn afael ar feddwl a chalon Manoah, eu bod yn credu yn gyffredinol, y pryd hwnw, y buasai yr olwg ar Dduw, neu ar angel, yn farwolaeth i ddyn yn y fan. Nid wyf yn ammheu nad oedd y patriarch Jacob, i raddau, o dan ddylanwad y dybiaeth hon yn Peniel:—'A Jacob a alwodd enw y fan yn Peniel; o blegid gwelais Dduw wyneb yn wyneb, *a diangodd fy einioes.*' Yr oedd yn synu ac yn rhyfeddu ei fod yn fyw, 'Canys gwelais Dduw,' meddai.

Yr oedd Gedëon yn mhell iawn o dan ddylanwad y dybiaeth hon. Wedi iddo gael ar ddeall ei fod wedi bod yn ymddiddan âg angel, am a wn i na fuasai Gedëon wedi marw yn sydyn yn y fan hono oni fuasai i'r Arglwydd nesu ato i'w gynnorthwyo:—'A phan welodd Gedëon mai angel yr Arglwydd oedd efe, y dywedodd Gedëon, Och, O Arglwydd Dduw! o herwydd i mi weled angel yr Arglwydd wyneb yn wyneb. A dywedodd yr Arglwydd wrtho, Tangnefedd i ti: nac ofna; ni byddi farw.' Yr oedd yr Arglwydd wedi dyweyd wrth Moses, 'Ni elli weled fy wyneb: canys ni'm gwel dyn a byw.' Y mae yn ammhossibl i ddyn â llygad o bridd weled hanfod Duw. Ysbryd yw Duw. Dylasai fod Manoah yn gymmaint o ysgolhaig o dan yr oruchwyliaeth yr oedd yn byw ynddi i ddeall hyny, ei bod yn ammhossibl i ddyn llygredig ddal yr olwg ar fawredd Dduw trwy Angel y Cyfammod, yr hwn oedd wedi dyfod i roddi tro caredig iawn am dano ef. Ond yn lle hyny, troi y cwbl yn ei erbyn ei hun a wnaeth ef. 'Gan farw y byddwn feirw: canys gwelsom Dduw.'

1. Ammheuodd Manoah y cwbl. 'Byddwn feirw,' meddai. Y mae hyn yn cynnwys, fel y mae yn ddigon amlwg, fel pe dywedasai, nad gwir a ddywedodd yr angel. Ni ddaw y pethau hyn byth i ben. Dyma waith anghrediniaeth ydyw ammheu Duw yn yr hyn oll a ddywed, neu a lefara wrthym yn ei Air.

2. Ammheuodd, er cael attebiad i'w weddi. Yr oedd dyfodiad yr angel yr ail waith yn attebiad uniongyrchol i'w weddi, ac wele efe ar unwaith dan draed anghrediniaeth:—'Yna Manoah a weddïodd ar yr Arglwydd, ac a ddywedodd, Attolwg, fy Arglwydd, gâd i ŵr Duw yr hwn a anfonaist, ddyfod eilwaith atom ni; ac angel Duw a ddaeth eilwaith.' Yr ydych wedi meddwl lawer gwaith, pe caech chwi attebiad i'ch gweddïau, y byddech chwi ar dir *go safe* am dipyn, bid a fyno. Ond dyma ddyn yn y *text* newydd gael attebiad, ac attebiad mor amlwg i'w

weddi fel nad oedd dim yn bossibl ammheu hyny; ac ar unwaith, dacw fe yn cael ei *lorio* gan anghrediniaeth. Dylech chwi, dduwiolion, fod ar eich *watch* rhag anghrediniaeth, yn enwedig yn y manau agosaf at Dduw. Y mae anghrediniaeth yn gwylio am gyfle i'ch niweidio chwi yn mhob man.

3. Ammheuodd, wedi cael amlygiadau o heddwch a ffafr Duw. Yr oedd wedi cael arwyddion eglur a diammheuol o hyn. Yr oedd Manoah a'i wraig newydd gael un o'r odfaon goreu a gawsant erioed yn eu hoes, os nad y goreu i gyd. Cawsant y fath amlygiadau o fawredd a gogoniant nes yr oeddynt wedi methu sefyll ar eu traed yn yr odfa hono:—'Yna angel yr Arglwydd a ddyrchafodd yn fflam yr allor: a Manoah a'i wraig oedd yn edrych ar hyny: ac a syrthiasant i lawr ar eu hwynebau.' Pe caem ninnau amlygiadau felly yn ein cyrddau ei bod hi yn dda rhyngom â Duw yn Aberth y Groes, effeithiai hyny rywbeth ar ein cyrph ninnau. Y mae dyn duwiol, pan ar lawr dan draed anghrediniaeth, i raddau pell iawn, yn ddireswm. Y mae yn debyg i ddyn yn y *nervous complaint*. Y mae y dyn hwnw bob amser mewn rhyw ofid neu gilydd. Os na ddaw gofid i gwrdd âg ef, fe aiff ef i gwrdd â gofid. Bydd yn llawn o ofnau:—Ofni na chaiff ddim cynnaliaeth. Ofni na bydd ganddo ddim ar gyfer byw yn y byd. Pe byddai rhyw ŵr cyfoethog yn addaw bod yn garedig iddo, ofni y byddai rhag i'r gŵr cyfoethog hwnw farw o'i flaen. Pe byddai i'r frenhines—brenhines Prydain Fawr—addaw ei gynnal, ofnai yr ä'i yn *revolution* y noson hono yn y deyrnas: a beth a wnai efe wedi hyny. Yr ydych yn cofio fel y dywedir am Dafydd. Fe roddodd yr Arglwydd ei elyn Saul yn ei law yn yr ogof. Yr oedd hyn yn arwydd i Dafydd fod yr Arglwydd yn penderfynu sefyll at yr hyn a ddywedodd am Saul a gorsedd Israel. Fe dorodd Dafydd gŵr mantell Saul—buasai mor hawdd iddo dori ei ben. Etto, pwy ond Dafydd, yn mhen ychydig amser ar ol hyny, oedd yn dyweyd, 'yn ei galon, Yn awr dyfethir fi

ryw ddydd trwy law Saul: nid oes dim well i mi na diangc i dir y Philistiaid, fel yr anobeithio Saul ddyfod o hyd i mi, ac na'm ceisio mwy yn holl derfynau Israel. Felly y diangaf o'i law ef.' Dyma *nonsense!* Yr ydych yn gwybod yn dda iawn am Thomas, yr anghredadyn. Nid oedd gyda'i frodyr pan yr ymddangosodd yr Iesu iddynt. Mi debygaf fod ei frodyr yn meddwl fod ganddynt newydd fuasai yn twymno calon Thomas pan gyfarfyddent âg ef. Nid y fusnes oreu ydyw colli cyrddau, os *gellir* bod ynddynt. Mor anghrediniol oedd Thomas pan yr hysbyswyd iddo am ymddangosiad yr Iesu iddynt hwy, y dysgyblion. Y fath *impudence* ofnadwy sydd mewn anghrediniaeth. Daeth yr Iesu i'r cwrdd atynt, lle yr oedd Thomas erbyn hyn. Mi dy glywais di yn dyweyd, Thomas, meddai yr Iesu, am roi dy fŷs yn ôl yr hoelion. Yr oedd yr hoelion yn ddigon, heb dy fŷs *clymsi* di ar eu hol; ond cyn y cei di fod yn *slave* i anghrediniaeth, moes yma dy fŷs, Thomas:—' A gwel fy nwylaw, ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd anghredadyn, ond credadyn. A Thomas a attebodd ac a ddywedodd, Fy Arglwydd a'm Duw.' O na, meddai yntau, Fy Arglwydd a'm Duw, y mae dy weled yn llawn ddigon i mi. Y gwir ydyw, nad oes ond efe ei hun yn *fit* i'n trin ni. Gweddïwn ninnau am le yn nigonoldeb ei aberth mawr anfeidrol ef, nes y byddom yn teimlo llyffetheiriau trymion anghrediniaeth yn colli eu gafaelion arnom.

II. *Y pethau cryfion oedd yn sail ffydd gwraig Manoah.*

Y mae yn wir fod y Beibl yn cyfrif y wraig y llestr gwanaf. Ond ni raid i chwi, ferched a gwragedd, i dramgwyddo wrth yr Hen Lyfr am ddyweyd hyn am danoch; o blegid dywed y Beibl yn uchel yn y *text* am wraig Manoah. Yr oedd ei ffydd hi yn gryfach o lawer na ffydd Manoah. Yr oedd hi yn gwneyd ei goreu i godi ei phriod i fyny o'i lewyg anghrediniol. 'Byddwn feirw,' meddai Manoah. Na fyddwn ddim, meddai'r wraig; o blegid

'Pe mynasai yr Arglwydd ein lladd ni, ni dderbyniasai efe boeth-offrwm a bwyd-offrwm o'n llaw ni, ac ni ddangosai efe i ni yr holl bethau hyn. Y mae tri peth yn ffydd y wraig hon ag oedd yn ei dal i fyny.

1. Derbyniad eu haberth. Yr oedd gwraig Manoah nid yn unig yn dduwiol, ond yr wyf yn credu mai dynes fach gall oedd hi. Yr oedd yn dda i Manoah y pryd hwnw fod ganddi hi fwy o wybodaeth am drefn rasol Duw nag ef. Dan y gyfraith, yr oedd y cyntafanedig i asyn i gael ei dorfynyglu, neu i gael ei brynu âg oen er cael ei arbed:—'A phob cyntaf i asyn a bryni di âg oen; ac oni phryni di ef, torfynygla ef.' Nid wyf yn dyweyd na welodd yr asyn, druan! adegau celyd wedi hyny lawer gwaith. Cariodd lawer pwn heb gael ond ychydig o gynnaliaeth. Ond fe ddiolchai yr asyn am arbed ei fywyd, pe buasai yn gwybod hyn, er y caledi oedd arno. A'i angherddol lais diolchai am y drefn. Cafodd Isaac ei ollwng yn rhydd drwy i'r hwrdd ddyfod i'r golwg. Y peth yr wyf am ei ddangos i chwi ydyw, nad yw y ddau ddim i farw, yn ol trefn Duw. Ond yr ydych chwi wedi myned o'm blaen i. Ar Galfaria yr ydych chwi er's tipyn yn edrych ar yr Aberth Mawr fu ar y Groes, yn rhoddi ei hun yn ddifai i Dduw drosom:—'Yr hwn a'i rhoddes ei hun dros ein pechodau.' 'Megys y carodd Crist ninnau, ac a'i rhoddodd ei hun drosom ni yn offrwm ac yn aberth i Dduw o arogl peraidd.' 'Yr hwn trwy yr Ysbryd tragwyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddi wrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw.' Ni ryfeddwn i fod ffydd ambell un o honoch chwi yn barod i sibrwd yn yr olwg ar yr aberth hwnw: Ti gei fyw, meddai ffydd. Pa ham, ffydd? Y mae yr aberth wedi ei dderbyn:—'Yn yr hwn y'm boddlonwyd.' 'Gollwng ef, rhag disgyn o hono i'r clawdd: myfi a gefais iawn.'

2. Yr addewid a dderbyniwyd. Cawsant addewid am fab. Y mae gan ffydd heddyw lawer o addewidion

rhyngddi a gollwng ei gafael ar ei pherchenog, yn mha dywydd bynag y byddo ynddynt. Ni raid i ti anobeithio, meddai ffydd wrth y credadyn, yn yr olwg ar fawredd a lliosawgrwydd dy bechodau. Pa ham, ffydd? Y mae Duw wedi eu maddeu er ei fwyn ei hun:—'Myfi, myfi yw yr hwn a ddilëa dy gamweddau er fy mwyn fy hun, ac ni chofiaf dy bechodau.' Y mae yr addewid am ofal ac amddiffyn dwyfol yn y dwfr ac yn y tân yn y naill a'r llall:—'Pan elech trwy y dyfroedd, myfi a fyddaf gyda thi; a thrwy yr afonydd, fel na lifant drosot: pan rodiech drwy y tân, ni'th losgir, ac ni ennyn y fflam arnat.' Yr wyf yn ofni, meddai y duwiol, fod fy nghrefydd i yn wan, ac yr äf o'r byd heb ddim yn y diwedd. Na, meddai ffydd, paid a thori dy galon; ni dderfydd hi ddim, er gwaned ydyw. Y mae llawer o ddynion yn ofni yr ä y wlad yn ol i galedwch a thywyllwch, fel o'r blaen; na, ebe ffydd, ni dderfydd crefydd mwy:—'Canys yr ydwyf yn dywedyd i chwi y dichon Duw, ïe, o'r meini hyn, gyfodi plant i Abraham.' Fe ddichon Duw godi plant i Abraham o'r bechgyn caletaf a'r merched balchaf: a chodi gweddïwyr ar y ddaear etto na bu eu cyffelyb erioed o'r blaen. Y mae addewidion Duw, pan yn awr angeu hefyd, yn greigiau tragwyddol i orwedd arnynt:—'Y cyfiawn a obeithia pan fyddo yn marw.'

3. Yr amlygiadau diweddaf a gawsant o heddwch Duw. A gaf fi ofyn pa bryd y cawsom ni amlygiad o heddwch Duw? Pa ddyben fyddai i neb daeru yn wyneb y mab afradlawn fod ei dad yn ddig wrtho, ac yntau newydd ei gusanu, a rhoddi iddo y fath dderbyniad croesawus yn ol:—'Rhaid oedd llawenychu a gorfoleddu.' Llefwn am amlygiadau o heddwch Duw yn Nghrist, gan geisio hefyd gyfarwyddyd yr Arglwydd mewn bywyd personol a theuluaidd; ac i'r ieuengctyd i ddilyn esampl Manoah yn eu dewisiad doeth o wraig, yr hon a fu yn gynnorthwy mawr iddo yn ei ddigalondid a'i fawr ofnau. Amen.

# PENNOD VII.

## GWERTHU EI ENEDIGAETH-FRAINT; NEU DDIBRISIO PETHAU YSBRYDOL.

'Na bo un puteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr hwn, am un saig o fwyd, a werthodd ei enedigaeth-fraint. Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith: o blegid ni chafodd efe le i edifeirwch, er iddo trwy ddagrau ei thaer-geisio hi.—*Hebreaid* xii. 16, 17.

Yn y 13 a'r 14 adnod, annogai yr apostol yr Hebreaid i fyw yr efengyl, megys yn ngolwg y byd:—'Gwnewch lwybrau uniawn i'ch traed.' Yn adnod 15 yr oedd yn eu hannog i fwrw golwg dros eu gilydd, rhag na byddai neb 'yn pallu oddi wrth ras Duw, rhag bod un gwreiddyn chwerwedd yn tyfu i fyny;' ac yn y *text*, yr oedd yn galw arnynt i sylwi, rhag bod neb yn eu mysg yn debyg i droi allan fel Esau. Yr oedd yr Hebreaid yn gwybod hanes Esau yn dda. Dibrisio ei enedigaeth-fraint a wnaeth; a'i gwerthu, a methu ei chael yn ol pan y daeth i ymofyn am dani:—'Ni chafodd efe le i edifeirwch.'

Ceisiaf wneyd rhai sylwadau mewn perthynas i'r rhai a fagwyd yn eglwys Dduw, ag sydd wedi dibrisio y fraint hono.

I. *Rhai o'r breintiau y mae rhyw rai a fagwyd yn eglwys Dduw wedi eu dibrisio.*

1. Edrych yn fach ar gael lle, neu aelodaeth yn yr eglwys. Yr ydych chwi a minnau o dan anfantais i wybod am lawer o dai sydd yn y byd yma; megys tai ymherawdwyr a brenhinoedd. Y mae ynddynt lawer o bethau ag sydd yn ddyeithr iawn i ni. Yr oedd Dafydd, brenin Israel, yn un addas iawn i roi pris ar y fraint o gael lle yn nhŷ yr Arglwydd; o blegid yr oedd yn gwybod beth oedd

yn y tai goreu ar y ddaear. Barn Dafydd, brenin Israel oedd, fod diwrnod yn nhŷ yr Arglwydd yn well na mil yn un tŷ arall; a bod cadw drws yn nhŷ Dduw yn fwy o fraint na thrigo yn mhebyll annuwioldeb:—'Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di na mil: dewiswn gadw drws yn nhŷ fy Nuw, o flaen trigo yn mhebyll annuwioldeb.' Dichon fod rhai yma wedi dibrisio, a gwerthu yr hyn oedd y brenin duwiol yn ei gyfrif y fraint uchaf.

2. Bod o ddefnydd gydag achos Duw. Braint yw cael bod gyda'r achos yn foreu, a glynu wrtho trwy ein hoes. Meddyliwch am Samuel. Cafodd ei ddwyn i fyny yn foreu gydag achos yr Arglwydd, a glynodd wrtho trwy ei oes, a bu yn ddefnyddiol iawn. Teimlodd Dafydd hefyd yn ieuangc iawn dros Arglwydd Dduw Israel a'i ogoniant. Gwynebodd ar y cawr, yn enw ei Dduw. Cafodd oes lled faith, a bu yn ŵr enwog gyda'r achos mawr. Y mae llawer yn ein gwlad, erbyn eu bod tuag oedran Dafydd pan y lladdodd y cawr, yn troi allan i waradwyddo Duw a'i achos, gan ddibrisio y fraint o'i wasanaethu.

3. Gwerthant bob enwogrwydd ag sydd o ddim gwerth. Yr enwogrwydd mwyaf ar ddyn ydyw, ei fod 'yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrwg.'

4. Y mae yn dibrisio y cysgod goreu rhag profedigaethau, a themtasiynau y gelyn. Y mwyaf agored i demtasiynau y gelyn yw y rhai a fegir yn nhŷ Dduw, ac a ânt allan i'r byd. Y mae fel aderyn wedi ei fagu mewn tŷ; pan elo hwn allan, y mae yn y fan yn nôd i'r adarwr, ac i holl adar y goedwig. Clywch fel y dywed y Salmydd am y duwiol:—'Yr hwn sydd yn trigo yn nirgelwch y Goruchaf, a erys yn nghysgod yr Hollalluog. A'i asgell y cysgoda efe drosot, a than ei adenydd y byddi ddiogel; ei wirionedd fydd darian ac astalch i ti.'

5. Gwerthant Grist. Yr ydwyt yn cael llawer cymmhelliad i dderbyn Crist; ond yr ydwyt, fel yr Iuddewon gynt, yn parhau i'w wrthod, gan ddywedyd:—'Ni fynwn ni hwn i deyrnasu arnom.'

6. Gwerthant ddedwyddwch y nef am byth, o'u rhan hwy eu hunain.

II. *Pa ham y darfu iddynt eu gwerthu.*

Tri pheth a barodd i Esau werthu ei enedigaeth-fraint.

1. Wedi blino arni yr ydoedd. Dyna fel y mae llawer yn ngwasanaeth tŷ yr Arglwydd. Y maent yn blino ar y cynghori, a'r annog sydd at bethau crefydd. Y mae ymwneyd â'r ordinhadau yn ddiflas ganddynt. Dywedant fel y rhai hyny gynt:—'Y manna gwael hwn.'

2. Blys am ryw beth y tybiant hwy sydd yn well. Yr oedd yr Israeliaid yn cofio am bompiwn yr Aipht, a llawer o bethau eraill, nes yr oedd eu calonau yn ymlynu wrth fwydydd ac arferion yr Aipht. Mor dwyllodrus yw pechod. Y mae gan Satan addewidion liaws—addawa yn dda; ond nid ydyw byth yn cyflawni. Cofier mai twyllwr yw. Trwy wrandaw arno yr ydys yn newid y da am ddrwg.

3. Nid oes dim yn y pethau hyn yn cyfatteb i'w harchwaeth lygredig. Tybia rhai am Esau y buasai farw o eisieu bwyd, pe na chawsai rhyw gymmaint o'r cawl; ond nid oedd tŷ ei dad mor brin o fwyd a hyny. Gallasai gael rhyw beth arall i'w ddiwallu? Dim o'r fath beth. Meddwl oedd efe na chawsai fyw yn ddigon hir i etifeddu gwlad yr addewid; a pha les iddo ef yn bersonol fuasai yr hyn na ddeuai oddi amgylch yn ei ddyddiau ef. Dyn y byd a'r bywyd hwn yn unig ydoedd Esau; ac am hyny, y mae yr awdwr yn ei alw yn halogedig. Fel y mae gwaetha'r modd, y mae llawer yr un fath ag ef. Nid oes dim yn yr efengyl, a gwasanaeth tŷ yr Arglwydd, i gyfarfod â'u harchwaeth. Dealler mai dibrisio breintiau yw hyn.

III. *Yr hyn a dderbynir am ddibrisio breintiau crefyddol.*

1. Derbynir rhy fach yn gyfnewid. Pe buasai yn rhoi dim ond dimai am dano, buasai yn llawn ei werth. Ond trwy ddewis y cawl o flaen ei enedigaeth-fraint, y swyddi uchaf yn y teulu, aeth yn hynod o ffol. Pa gynnifer o ddynion ieuaingc sydd bob blwyddyn yn fforffedio eu hawl

i drysorau cyfammod Duw am bethau mor lleied eu gwerth a phleserau pechod. Y maent yn colli y pleser goreu; ac yn y diwedd, yn colli y nefoedd ei hun.

2. Pethau heb ddim cynnhaliaeth na sylwedd ynddynt. Cawl gafodd Esau am ei enedigaeth-fraint. Gwir i Jacob roddi bara a chawl iddo. Cawl yn unig oedd y fargen:—'Felly y diystyrodd Esau ei enedigaeth-fraint.' Gwir fod Duw, yn ei Ragluniaeth fawr, yn rhoddi pethau gwerthfawr i chwithau; ac yr ydych chwithau, yn eich annuwioldeb, yn eu ddefnyddio i bechu yn erbyn Duw. Yr ydych yn gwneyd ffair ar eich breintiau; ond nid oedd y rheini yn y fargen a wnaethoch. *Good will* Duw yw y rhai hyny; sef, y breintiau. Gwerthu y pethau hyn am bethau nad oes ynddynt fodd i'ch gynnal yn yr amgylchiadau sydd o'ch blaen. Felly y mae holl bleserau pechod. Yr oeddynt yn lled gryno ar fwrdd Belsassar, yn ei wledd fawr annuwiol. Yr oedd yno ddigon o bob defnyddiau; ond yn chwanegol at ddrwg y wledd ynddi ei hun, defnyddiwyd yno lestri aur ac arian teml yr Arglwydd, i yfed gwin ynddynt. Dyna fel y mae llawer, ysywaeth, hyd y dydd hwn; nid digon ganddynt bechu â phethau y diafol, rhaid cael ymdrafodaeth â phethau cyssegr Duw ynglŷn â hwynt. Nid yw eu difyrwch pechadurus, a'u llawenydd yn y tafarndai, yn gyflawn nes cael crefydd, a chrefyddwyr dan sylw, a dadleu ar wirioneddau mawrion yr efengyl; ond yr oedd y cwbl yn rhy wan pan ymddangosodd yr ysgrifen-law ar y pared:—'Yna y newidiodd lliw y brenin, a'i feddyliau a'i cyffroisant ef, fel y dattododd rhwymau ei lwynau ef.' 'Does dim nerth yn y pethau hyn.

3. Gwagedd, wedi ei liwio yn hardd, a dderbynir. Cawl coch gafodd Esau am ei enedigaeth-fraint. Y lliw y mae y gelyn yn ei roddi ar bechod sydd yn twyllo plant i bechu. Y lliw y mae yn roddi ar falchder, hunan-barch, ydyw. Y lliw y mae yn ei roddi ar halogi dydd Duw; ac ar gybydd-dod; a'r lliw a roddwyd ar fwyta o ffrwyth y pren, i Efa:—'A'r sarph a ddywedodd wrth y wraig, Ni bydd-

wch feirw ddim: canys gwybod y mae Duw, mai yn y dydd y bwytaoch o hono ef, yr agorir eich llygaid, ac y byddwch megys duwiau, yn gwybod da a drwg.' Bydd pob peth yn ei liw ei hun, yn yr amgylchiad difrifol sydd o'n blaen.

4. Pethau di-werth a dderbynir. Fel Esau, y mae llawer yn gwneyd bargen ffol gyda golwg ar eu breintiau crefyddol. Gwerthant eu crefydd am benrhyddid—rhyddid i wneyd fel y mynont, a rhyddid i fyn'd lle y caront, byw yn ddigynghor, ac yn ddigerydd, esgeuluso moddion gras, cadw cwmni drwg, siarad yn amharchus am grefydd, a chrefyddwyr, byw yn ddiweddi yn eu tai—pethau di-werth ac yn y diwedd pethau sydd yn damnio yr enaid.

5. Y maent yn cael newid eu henwau am eu breintiau. Newidiwyd enw Esau i Edom, sef 'coch.' Y mae cannoedd o bobl ieuaingc yn Nghymru wedi dewis newid eu henwau. Beth oedd eu henwau? Plant y *society*, plant yr Ysgol Sul, a'r pyngciau—bechgyn yr adnodau a'r pennodau. Dyna oedd eu henwau gynt; ond pe gofynech am danynt wrth yr enwau hyn yn awr, ni byddai neb yn eu hadwaen. Delw y byd a phechod sydd arnynt yn awr, ac nid delw dysgeidiaeth eglwys Dduw. Trist genyf orfod dyweyd am danynt yn awr, mai meddwon yw eu henwau erbyn hyn. Beilchion, halogwyr Sabbothau, puteinwyr, cybyddion, a llawer o gyffelyb enwau. Drwg genyf am yr enwau hyn; ond enwau ydynt, cofiwch, a gawsoch wrth werthu eich breintiau mawr:—'Na bo un puteiniwr, neu halogedig, megys Esau, yr hwn, am un saig o fwyd, a werthodd ei enedigaeth-fraint.' Nid yw cymmeriadau fel hyn ddim yn myned i'r nef:—'Ac nid â i mewn iddi ddim aflan, nac yn gwneuthur ffieidd-dra.'

IV. *Daw yr amser pryd y gwelant iddynt eu gwerthu yn rhy 'cheap'—yn rhy râd, ac y dymunant eu cael yn ol.*

Clywyd Esau yn gwaeddi â gwaedd fawr a chwerw, ac yn dyrchafu ei lef, ac yn wylo:—'Pan glybu Esau eiriau

ei dad, efe a waeddodd â gwaedd fawr a chwerw iawn, ac a ddywedodd wrth ei dad, Bendithia fi, ïe, finnau, fy nhad. Ac efe a ddywedodd, dy frawd a ddaeth mewn twyll, ac a ddug dy fendith di. Ac Esau a ddywedodd wrth ei dad, Ai un fendith sydd genyt ti, fy nhad? bendithia finnau, finnau hefyd, fy nhad. Felly Esau a ddyrchafodd ei lef, ac a wylodd. Onid iawn y gelwir ei enw ef Jacob? Canys efe a'm disodlodd i ddwy waith bellach: dug fy ngenedigaeth-fraint; ac wele, yn awr fe a ddygodd fy mendith: dywedodd hefyd, Oni chedwaist gyda thi fendith i minnau?' Gwelwyd Esau yn ceisio y fendith pan oedd pob cyfleusdra i'w chael wedi darfod. Y mae amser o'ch blaen chwithau, sydd wedi dibrisio eich breintiau, pryd y gwelir chwi yn gwneyd adolygiad ar y fargen a wnaethoch. Pe unwaith y deallech fod angeu ger llaw, a'r farn, a'r byd tragywyddol yn ymyl, codech chwithau eich llef yn uchel, a gwaeddech yn wylofus ac yn chwerw:—'Ac o'r diwedd i ti ochain, wedi i'th gnawd a'th gorph gurio, a dywedyd, Pa fodd y casëais i addysg? Pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd? Ac na wrandewais ar lais fy athrawon, ac na ostyngais fy nghlust i'm dysgawdwyr?'

V. *Y mae Duw wedi gwneyd ei feddwl i fyny i sefyll at y fargen.*

Ni chafodd Isaac le i edifeirwch, er i Esau trwy ddagrau daer-geisio y fendith:—'Canys chwi a wyddoch ddarfod wedi hyny hefyd ei wrthod ef, pan oedd efe yn ewyllysio etifeddu y fendith.' Ni chyfnewidiodd meddwl Isaac mewn perthynas i'r fendith.

1. Gwrthodwyd hi iddo o herwydd efe ei hun oedd wedi ei gwerthu. Os gwnewch chwithau ddibrisio y fendith, peidiwch a rhyfeddu os bydd i Dduw roi ei Amen ar y fargen:—'Yn gymmaint ag i mi eich gwahodd, ac i chwithau wrthod, i mi estyn fy llaw, a neb heb ystyried; ond diystyrasoch fy holl gynghor i, ac ni fynech ddim o'm cerydd: minnau hefyd a chwarddaf yn eich dïaledd chwi, mi a wawdiaf pan syrthio arnoch yr hyn yr ydych yn ei

ofni. Yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn foreu y'm ceisiant, ond ni'm cânt: canys câs fu ganddynt wybodaeth, ac ofn yr Arglwydd ni ddewisasant.'

2. Gwrthodwyd y fendith iddo, o blegid yr oedd yr amser i'w chael wedi myned heibio. Mor wired a bod gan Dduw fendithion gwerthfawr ac aneirif i'w rhoddi, y mae ganddo ei dymmor i'w cyfranu. Y mae dydd gras yn darfod ar rai dynion cyn y byddo dyddiau eu bywyd naturiol yn darfod.

Yn awr, wrth derfynu, hyn a ddywedaf, ar i chwi beidio a dibrisio eich breiutiau, a'u gwerthu am bethau nad ydynt ond gwarth a chywilydd i chwi yn y byd hwn. Y mae heddyw yn amser cymmeradwy, ac y mae yr Arglwydd yn galw arnoch i ddyfod ato. Deuwch ato dan waeddi:—'Pechais yn erbyn y nef, ac o'th flaen dithau, ac mwyach nid wyf deilwng i'm galw yn fab i ti: gwna fi fel un o'th weision cyflog.' Amen.

# PREGETH VIII.

## NI'TH RODDAF DI I FYNY.

'Canys efe a ddywedodd, Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith;' *Heb.* xiii. 5.

YN y rhan gyntaf o'r adnod, yr oedd yr apostol yn galw arnynt i fod â'u hymarweddiad yn ddi-ariangar, gan fod yn foddlawn i'r hyn oedd ganddynt. Yr oedd yr Hebreaid hyn, yn gyffredin, yn dlodion. Gwerthodd llawer o honynt eu meddiannau i gynnorthwyo eu brodyr ar ol dydd y Pentecost; ac eraill a gymmerasant eu hysbeilio am y pethau oedd ganddynt yn llawen, gan wybod fod ganddynt iddynt eu hunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus. Er hyny, 'bydded eich ymarweddiad yn ddi-ariangar.' Na fydded eich ymarweddiad yn profi fod eich serch ar y pethau a gollasoch, trwy un math o hiraeth ar eu hol. Na'r dymuniad lleiaf am eu hadfeddiannu, 'gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych.' Y mae cael y meddwl at y sefyllfa y byddwn yn digwydd bod ynddi yn gysur mawr iawn. Heb hyn, anghysurus yw pawb, beth bynag fyddo eu sefyllfa yn y byd. Nid yw paradwys, heb hyn, ddim yn gysurus. Er fod Ahab yn frenin, yn eistedd ar orseddfaingc, nid oedd yn hapus. Yr oedd eisieu gwinllan Naboth arno. Ni byddai y nefoedd, heb hyn, yn gysurus, mwy nag y bu i'r angylion a bechasant. Yr oedd Paul yn foddlawn yn mha gyflwr bynag y byddai ynddo; o blegid fe'i haddysgwyd i fod yn llawn ac i fod yn newynog, i fod mewn helaethrwydd ac i fod mewn prinder:—'Canys mi a ddysgais,' meddai, 'yn mha gyflwr bynag y byddwyf, fod yn foddlawn iddo.' Er cynnorthwyo

yr Hebreaid i fod felly, y mae yr apostol yn y *text* yn coffhau addewid Duw:—'Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith.' Addewid Duw trwy Moses i Israel ydyw y geiriau hyn, a hyny ychydig o amser cyn marwolaeth Moses:—'Ymgryfhewch, ac ymnerthwch: nac ofnwch, ac na ddychrynwch rhagddynt; canys yr Arglwydd dy Dduw sydd yn myned gyda thi: ni'th edy, ac ni'th wrthyd.' Rhoddwyd addewid gyffelyb i Josuah gan yr Arglwydd ei hun:—'Ni saif neb o'th flaen di holl ddyddiau dy einioes: megys y bum gyda Moses, y byddaf gyda thithau; ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf.' Llefarwyd geiriau tebyg i eiriau y *text* gan Dafydd wrth ei fab Solomon:—'A dywedodd Dafydd wrth Solomon ei fab, Ymgryfhâ, ac ymegnïa, a gweithia: nac ofna, ac na arswyda; canys yr Arglwydd Dduw, fy Nuw i, fydd gyda thi; nid ymedy efe â thi, ac ni'th wrthyd. Annogir yr Hebreaid yma i beidio rhagofalu yn ammhriodol, ond cadw eu meddyliau ar Dduw, rhoddwr yr addewid:—'Canys efe a ddywedodd, ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith.' Dyma un o addewidion penaf Duw yn ei Air. Cawn sylwi:—

I. *Fod y geiriau hyn yn rhoddi ar ddeall i ni fod plant Duw yn ofni y bydd iddo eu gadael.*

1. Y mae pethau ynddynt sydd yn peri iddynt ofni, oddi ar y dybiaeth fod Duw yn debyg i ddyn yn hyn; sef, yn anghofio. Etto dywedodd Seion, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd.' Y maent yn ffieiddio pechod, ac yn ffieiddio eu hunain—'Y mae yn ffiaidd genyf fi fy hun;' a synant fod yr Ysbryd Glân yn gwneyd ei drigfan yn eu calonau. Yn ol syniad a theimlad y duwiol ar brydiau, byddai yr un peth i'r Ysbryd Glân wneuthur ei deml yn uffern ag yn ei galon ef.

2. Y mae rhai amgylchiadau ger bron meddwl y saint sydd yn peri iddynt ofni y gwna Duw eu gadael. (1.) Cyfnewidiadau amgylchiadau. Dïau fod Israel a Josuah

yn ofni hyn pan roddwyd yr addewid hon iddynt. Yr oedd Moses yn ymyl marw, a hwythau ger llaw yr Iorddonen, ar fyned i mewn i Ganaan, lle yr oedd gelynion lliosog a chryfion. Y mae hyn yn bod etto yn nheimlad yr eglwys wrth golli ei harweinyddion. (2.) Mewn tlodi. Y mae tlodi ynddo ei hun yn brofedigaeth hyd yn oed i'r duwiol. Yr oedd y wraig o Sarepta yn gweled mai dim ond rhyw ddiwrnod oedd ganddi hi a'i mhab i fyw:—'A hi a ddywedodd, fel mai byw yr Arglwydd dy Dduw, nid oes genyf deisen, ond llonaid llaw o flawd mewn celwrn, ac ychydig olew mewn ystên; ac wele fi yn casglu dau o friw-wydd i fyned i mewn, ac i barotoi hyny i mi ac i'm mab, fel y bwytaom hyny, ac y byddom feirw.' Rhaid oedd marw o newyn, etto cafodd waredigaeth. Y mae duwioldeb yn allu mewn tlodi.

3. Mewn cystuddiau. Yn *Salm* xxxviii., cawn Dafydd yn gweddïo yn ei gystudd trwm:—'Nid oes iechyd yn fy nghnawd. Gwanhawyd a drylliwyd fi yn dra mawr.' Darllenwch y Salm. Cewch weled ei fod mewn cystudd mawr. Gwelwch hefyd ei fod yn ofni i'r Arglwydd ei adael yn ei dywydd; o blegid yn *adn.* 21, y mae yn gweddïo yn daer ar yr Arglwydd i beidio ei adael:—'Na âd fi, O! Arglwydd: fy Nuw, nac ymbellhâ oddi wrthyf.'

4. Mewn gorthrymderau. Meddylier am yr Iuddewon yn yr amgylchiadau hyny, pan wnaed cyfraith trwy ystryw Haman i'w lladd:—'Ac yn mhob talaeth a lle, yr oedd galar mawr gan yr Iuddewon, ac ympryd, ac wylofain, ac oernad; a llawer a orweddent mewn sach lïan a lludw.' Ofni yr oeddynt y buasai Duw yn eu gadael i gynddaredd y gelyn.

5. Mewn henaint. Y mae gan Duw addewid i'w bobl ar gyfer henaint a phenllwydni:—'Hyd henaint, hefyd, myfi yw; ïe, myfi a'ch dygaf hyd oni benwynoch: gwnaethum, arweddaf hefyd; ïe, dygaf, a gwaredaf chwi.' 'Na wrthod fi chwaith mewn henaint a phenllwydni.' Gofyn y mae

y Salmydd yma am amddiffyn ac arweiniad yn yr adegau difrifol hyn.

6. Yn angeu. Dichon fod y rhan fwyaf o Gristionogion yn ofni na bydd yr Arglwydd gyda hwy yn awr gyfyng marwolaeth. Oes, y mae cannoedd yn eglwys Dduw heddyw yn ofni y byddant wrthynt eu hunain pan y bydd eu traed yn rhydio yr hen Iorddonen.

II. *Y dystiolaeth sydd yn y geiriau ar gyfer yr ofnau.*

'Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith.' Gofala am danynt

1. Fel tad. Y mae tri pheth mewn plant sydd yn dylanwadu ar dad i'w rhoddi i fyny; sef, gwastraff, anufudd-dod, a thymmer ddrwg. Gwelwn y gwastraff mwyaf yn y mab afradlawn; er hyny, ni roddodd ei dad ef i fyny: ond cafodd groesaw mawr ar ei ddychweliad adref. Y mae llawer yn cael eu ceryddu yn llym o herwydd eu hanufudd-dod. Cafodd Jonah wers bwysig y cofiodd, yn ddïau, am dani.

2. Fel Brenin. Peth blin i frenin ydyw, fod ei ddeiliaid yn aflywodraethus, a'i elynion yn amlhau. Y mae yn perthyn i swydd brenin i lywodraethu ei ddeiliaid, a'u diogelu rhag eu gelynion. O bob brenin, Brenin Seion sydd â'r deiliaid mwyaf anhawdd eu trin a'u llywodraethu. Y mae y Brenin Iesu wedi gorchfygu yn barod yn mrwydr fawr Pen Calfaria, a mŷn weled y gelyn olaf o dan ei draed, trwy deyrnasiad llwyddiannus:—'Canys rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed.' Ni ddywed Brenin Seion byth fel y dywedodd Dafydd am feibion Serfiah:—'A'r gwŷr hyn, meibion Serfiah, sydd ry galed i mi.' Gwna hefyd ei bobl yn orchfygwyr:—'A Duw y tangnefedd a sathr Satan dan eich traed chwi ar frys.' Ond i Dduw y byddo y diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni fuddugoliaeth drwy ein Harglwydd Iesu Grist.' 'Eithr yn y pethau hyn oll yr ydym ni yn fwy na chongcwerwyr trwy yr hwn a'n carodd ni.'

3. Fel Offeiriad. Yr oedd yr offeiriad yn cael llawer iawn o drafferth gyda'r gwahanglwyf o dan yr hen oruchwyliaeth. Buasai yn barnu y gwahanglwyfus yn lân pan y buasech chwi, neu finnau, yn ofni ei fod yn anfeddyginiaethol. Y mae aberth Crist, yr Archoffeiriad Mawr, 'yr hwn a offrymodd ei hun yn ddifai i Dduw' drosom, a'i eiriolaeth lwyddiannus yn y nef, yn ddigon ar gyfer dy holl aflendid a'th bla:—'Am hyny, efe a ddichon hefyd yn gwbl iachau y rhai trwyddo ef sydd yn dyfod at Dduw, gan ei fod ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy.'

4. Fel Prophwyd. Ni wna ddigaloni i ddysgu. Y mae athrawon, weithiau, yn digaloni i geisio dysgu ambell un dan ei ofal, o herwydd dau beth: (1.) Diffyg talu sylw i'r gwersi. 'Yr wyf yn methu yn lân a chael sylw y bachgen at ei wers,' meddai yr athraw. Yr oedd Dafydd, weithiau, yn lled ddisylw o'r gwersi, ond medrodd ei Ddysgawdwr ei ddysgu ef drwy gystuddiau;—'Cyn fy nghystuddio, yr oeddwn yn cyfeiliorni.' Yr oedd Manasseh yn eithaf gwamal gyda'i wersi, ond fe'i dysgwyd yntau:—'A phan oedd gyfyng arno ef, efe a weddïodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ymostyngodd yn ddirfawr ger bron Duw ei dadau. Ac a weddïodd arno ef: ac efe a fu ffyddlawn iddo. Yna y gwybu Manasseh mai yr Arglwydd oedd Dduw.' Dysgwyd Nebuchodonosor i wybod mai y Goruchaf sydd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion, ac yn ei rhoddi i'r neb y myno. (2.) Diffyg synwyr, neu ddiffyg gallu. Y mae bod yn analluog i dderbyn dysgeidiaeth yn drech na holl ddysgawdwyr y byd yma. Nid oes ganddynt ddim i'w wneyd â'r bachgen ond ei anfon adref. Nid felly y mae yr Athraw mawr, prophwyd yr eglwys, yn gwneyd. Na, na. Clywch fel y dywedir am dano:—'Yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.' 'Pe byddent ynfydion, ni chyfeiliornant.' Y mae yn troi tywyllwch yn oleuni iddynt, ac nid yw yn eu gadael. Er eu bod yn ddwl, ac yn ddall, nis rhydd hwynt i fyny:—'Arweiniaf y deilliaid

ar hyd ffordd nid adnabuant, a gwnaf iddynt gerdded ar hyd llwybrau nid adnabuant; gwnaf dywyllwch yn oleuni o'u blaen hwynt, a'r pethau ceimion yn uniawn. Dyma y pethau a wnaf iddynt, ac nis gadawaf hwynt.'

5. Fel Meddyg. Wedi i'r meddyg goreu ar y ddaear wneyd ei oreu i'r *patient*, i'r dyn claf, y peth diweddaf y cewch chwi ei weled ef yn wneyd fydd, cerdded o flaen ei gorph marw, wrth ochr y gweinidog, ddydd ei gladdedigaeth. Ond cyn wired ag i'r Meddyg mawr hwn ddechreu trin dy ddolur, ni welir ef byth yn ei *fourning* yn dy arwain i'r bedd. Ni chlywyd erioed mo hono yn rhoddi *os* am wellhâd y rhai sydd dan ei law fel meddyg:—'Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt'—yn ddios, gyda y sicrwydd mwyaf. Beth fydd y gôst? Yn rhâd. O ba glefyd? 'Pob clefyd a phob afiechyd yn mhlith y bobl.' 'Am hyny, efe a ddichon yn gwbl iachau y rhai, trwyddo ef, sydd yn dyfod at Dduw.'

6. Fel Priod. 'Etto, dywedodd Seion, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd am hanghofiodd;' ond peidiwch a'i chredu, dyweyd celwydd y mae. Arfer rhai gwragedd yw achwyn ar eu gwŷr yn mhob tŷ lle yr elont. Nid wyf fi yn ffrynd i'r *sort* hyny. Os yw y wraig yn achwyn ar ei gŵr, pwy a'i canmawl ef? Nid yw hyn yn llwybr i'w wella. Y gwir ydyw, mai Seion sydd wedi ei adael ef, a hyny trwy ei phuteindra. Ond y mae ei gariad ef tuag ati hi yn parhau yr un, er ei holl anffyddlondeb:—'Ond ti a buteiniaist gyda chyfeillion lawer: etto dychwel ataf fi, medd yr Arglwydd.' Y mae yr eglwys, ar lawer o adegau, yn achwyn, etto y mae ei phriod yn aros yn ffyddlawn. Y mae wedi ei dyweddïo hi iddo ei hun.

7. Fel Bugail. Y peth sydd yn peri, yn benaf, i'r bugail roddi i fyny ei ofal yw, crwydriadau y defaid. Yr ydys yn methu eu cael o hyd, heb lawer o drafferth; a methu yn hollol weithiau. Ond Bugail Israel nid yw yn methu dyfod o hyd i'r darfedig ar ddydd cymmylog a niwlog; ac fe'i hadnebydd pe na bae ond dwy goes, neu

ddarn o glust yn y golwg: 'Fel yr achub y bugail o safn y llew y ddwy goes, neu ddarn o glust; felly yr achubir meibion Israel.' Y mae yn 'myned ar ol yr hon a gollwyd hyd oni chaffo efe hi.'

8. Fel Sancteiddydd. Y mae yr un ffyddlondeb yn yr Ysbryd Glân ag sydd yn y Tad a'r Mab, Ni wna eu rhoddi i fyny er yr olwg druenus sydd arnynt. Y mae yn bendithio pethau blinion iddynt er eu sancteiddio, gan gymmhwyso atynt y gwaed sydd yn glanhau oddi wrth bob pechod, 'Heb arni na brycheuyn na chrychni.'

9. Fel Arweinydd. 'Ni'th roddaf di i fyny.' Y mae efe yn anghyfnewidiol. Tuedd i gyfnewid sydd yn y saint dan effeithiau pechod. Ond Duw nid ydyw yn cyfnewid:—'Canys myfi yr Arglwydd ni'm newidir, myfi yr Arglwydd nid wyf yn newid; am hyny, ni ddyfethwyd chwi, meibion Jacob.' Y mae yn fwy o ogoniant iddo beidio eu rhoddi i fyny na gwneyd; o blegid, 'Pa beth a wnai i'th enw mawr?' Ond y mae wedi penderfynu i beidio gwneyd hyny:—'Ni'th roddaf di i fyny.'

## Addysgiadau.

1. Pan fyddoch yn tueddu i ddigaloni yn ngwyneb fod y byd, y cnawd, a'r diafol yn gymmaint am danoch, ymgryfhewch, 'Ni'th roddaf di i fyny.'

2. Rhoddwch fawr werth ar y berthynas annattodol hon sydd rhyngoch a Duw yn Nghrist:—'Ni'th roddaf di i fyny.'

3. Meddyliwch lawer, er eich cysur, mai dros ychydig amser y bydd eich caledi a'ch trallod:—'Dros ennyd fechan y'th adewais; ond â mawr drugareddau y'th gasglaf.' 'Ni'th roddaf di i fyny.' Amen.

# PREGETH IX.

## JUDAS YN BRADYCHU ARGLWYDD Y GOGONIANT.

'Ac yn y man, ac efe etto yn llefaru, daeth Judas, un o'r deuddeg, a chydag ef dyrfa fawr â chleddyfau a ffyn, oddi wrth yr arch-offeiriaid, a'r ysgrifenyddion, a'r henuriaid, a'r hwn a'i bradychodd ef a roddasai arwydd iddynt, gan ddywedyd, Pwy bynag a gusanwyf, hwnw yw: deliwch ef, a dygwch ymaith yn sicr. A phan ddaeth, yn ebrwydd efe a aeth ato, ac a ddywedodd, Rabbi, Rabbi; ac a'i cusanodd ef;' *Marc* 14. 43—45.

Cyn i'r Iesu orphen llefaru, daeth Judas, un o'r deuddeg gyda'r amcan i ddal yr Iesu. Yr oedd Iudas wedi rhoddi arwydd i'r dyrfa y modd y byddai iddynt i'w adnabod ef:—'A'r hwn a'i bradychodd ef a roddasai arwydd arnynt, gan ddywedyd, Pwy bynag a gusanwyf, hwnw yw: deliwch ef, a dygwch ymaith yn sicr. Daeth Judas, ac a gusanodd yr Iesu, ac a'i cyfarchodd, ac a ddywedodd, Rabbi, Rabbi; a hwythau a roisant eu dwylaw arno, ac a'i daliasant ef.' Ni chawn hanes y dyn Judas yma ond yn yr hanes byr a gawn ni am dano yn yr efengylau. Y mae pobl fawr yn methu cyttuno ynghylch y cyfenw Iscariot a roddwyd arno. Y mae hyny yn ddigon amlwg, beth bynag, yn ei hanes, mai dyn drwg ydoedd. Yr oedd mewn cyflwr drwg. Y mae heddyw yn ei le ei hun. Yr oedd yn ddyn o egwyddor ddrwg. Yr oedd yn gybydd. Fe wnaeth ddrygau y bydd sôn am danynt tra parhao y byd mewn bod, ac wedi i amser ddarfod. Bradychodd Grist; ac yr oedd efe yn lleidr:—'Am hyny y dywedodd un o'i ddysgyblion ef, Judas Iscariot, mab Simon, yr hwn oedd ar fedr ei fradychu ef, Pa ham na werthwyd yr enaint hwn er tri chan ceiniog, a'i roddi i'r tlodion? Eithr hyn a ddywedodd efe, nid o herwydd bod arno ofal dros y tlodion; ond am ei fod yn lleidr.'

Oddi wrth y *text* caf dreio galw eich sylw at dri pheth o lawer tri pheth a welir ynddo.

I. *Mor bell y gall dyn drwg fyned, am dymmor, gydag achos Iesu Grist.*

Nid wyf yn bwriadu gwneyd sylwadau manwl ar hyn. Y mae rhai o honoch, yn ddïau, wedi darllen yn fanwl a maith ar hyn. Mi a goffhâf rai pethau a welir yn ddigon amlwg yn y Judas hwn, mab y golledigaeth.

1. Gall fod, fel dyn, yn un o'r rhai callaf yn y gymdeithas lle y byddo. Gall fod yn meddu ar ddigon o arafwch a phwyll i guddio ei egwyddorion drwg am dymmor, ac i dwyllo eglwys Dduw am amser maith. Un felly oedd Judas, nes i'w bechod mawr *furstio* ei lestr yn ddisymmwth. Ymddengys fod Pedr yn llawer iawn mwy byrbwyll nag ef. Byddai Pedr i'w feio weithiau, a hyny o blegid rhyw fyrbwylldra ynddo. Ni chawn fod Judas yn cael ei feio am ddim o'r fath, nes i'w fai mawr ddyfod i'r golwg. Pan lefarai Judas, yr oedd yn dyweyd *sense* bob amser. Nid llawer o'i eiriau sydd genym. Ychydig eiriau yw ei hanes. Y mae yn wir hefyd mai nid llawer o'r rhai call, hyd heddyw, sydd yn siarad rhyw lawer iawn. Rhywrai tebyg i fi sydd yn dyweyd fwyaf. Pan dywalltodd Mair y blwch enaint ar ben a thraed yr Iesu, dywedodd Judas:—'Pa ham na werthwyd yr enaint hwn er tri chan ceiniog, a'i roddi i'r tlodion?' Yr wyf yn meddwl, pe buasai pob dyn call ag oedd yn y byd yn gweled y peth ag oedd wedi ei wneyd, a chlywed Judas yn gofyn y cwestiwn:—'Pa ham na werthwyd yr enaint hwn er tri chan ceiniog?' na buasent ddim yn beio arno, a bod y rhai call hyny mor amddifad o gariad at yr Iesu ag ydoedd ef ei hun. Er y deallir, ac y dywedir, fod y dysgyblion eraill yn cydsynio âg ef, etto nid oddi ar yr un egwyddor. Am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y gôd, yr hysbysir am dano ei fod yn wrthwynebol i Mair dywallt yr enaint ar ben a thraed yr Iesu. Ni cheir y fath hunanoldeb a diffyg synwyr yn Judas ag a geir yn Iago ac Ioan, pan aethant at yr Iesu, ac y dywed-

asant wrtho:—'Caniatâ i ni eistedd, un ar dy ddeheu law, a'r llall ar dy aswy, yn dy ogoniant; neu yn dy frenhiniaeth.' Nid oeddynt yn deall natur teyrnas yr Iesu. Gwelwch y fath hunanoldeb oedd ynddynt. Ymawyddu yr oeddynt am fod y ddau flaenaf, a'r ddau fwyaf yn nheyrnas y Gwaredwr ar y ddaear. Dynion o benau lled fychain, hyd heddyw, sydd yn gwthio eu hunain i leoedd nad yw Duw na dynion yn eu gweled yn gymmhwys iddynt:—'Ond yr Iesu a ddywedodd wrthynt, Ni wyddoch pa beth yr ydych yn ei ofyn.' Darllenwch bob gair a gewch yn hanes Judas Iscariot, ac ni chewch ddim mor faswy, a disynwyr, yn dyfod dros ei wefusau. Cofier, mai am danynt fel dynion yr ydym yn sôn.

2. Gall dyn drwg fod, am dymmor, mor ddiargyhoedd a neb yn yr eglwys lle y byddo. Nid oedd Judas yn cael ei ddrwg-dybio o gwbl, hyd yn oed gan y rhai oedd yn ei adnabod oreu, pan ddywedodd yr Iesu wrthynt, 'Un o honoch a'm bradycha i,' nid oedd neb o honynt yn *suspecto* Judas. Ni ofynodd yr un o honynt iddo ai Judas a wnai hyny. Ond ofnai pob un o honynt drosto ei hun:—'Ac fel yr oeddynt yn bwyta, yr Iesu a ddywedodd, Yn wir yr wyf yn dywedyd i chwi, mai un o honoch chwi a'm bradycha i. A hwythau yn drist iawn a ddechreuasant ddywedyd wrtho, bob un o honynt, Ai myfi yw, Arglwydd?' Y mae pawb yn barnu y dylai fod bywyd pob pregethwr uwch law *suspicion*; ac yr wyf yn meddwl yr un peth yn hollol, y dylai fod felly. Ond mi ddywedaf ragor, y dichon i bregethwr fod felly am dymmor maith, a *thumblo* i dân uffern yn y diwedd. Peth mewn dyn yw duwioldeb, ac nid proffes allanol. Y mae yn bwysig i bawb ag sydd yn proffesu Crist i fod yn meddu ar wir dduwioldeb.

3. Gall fod dyn drwg yn y swydd uchaf yn eglwys Dduw. O'r deuddeg apostolion a ddewiswyd gan Grist ei hun, yr oedd *un* o honynt yn ddiafol:—'Iesu a'u hattebodd hwynt, Oni ddewisais i chwychwi y deuddeg, ac o honoch y mae un yn ddiafol? Eithr efe a ddywedasai am Judas

Iscariot, mab Simon.' Onid un-ar-ddeg a ddewisaist Iesu mawr? ac fe ruthrodd y diafol hwn i'w plith?' Na, yr oedd Judas wedi ei ddewis yn apostol gan Grist ei hun:—'Efe a etholodd ddeuddeg, y rhai hefyd a enwodd efe yn apostolion.' Yr wyf yn gwybod fod hyn yn perthyn yn nes i mi nag i chwi; ond yr wyf am ei ddyweyd yn eich clyw chwi. Gobeithio y gwna hyn eich cynnhyrfu chwi i weddïo drosom ni sydd yn y pulpudau, ar ein bod yn feddiannol ar grefydd, ac y galluogir ni i dreulio ein bywyd er gogoniant i Dduw. Gallwn fod yn meddu ar ddoniau gweinidogaethol, mor bell ag y mae galluoedd meddyliol yn myned, heb dduwioldeb. Mae hanes Judas yn ddigon o brawf o hyn. Gall Mab Duw wneyd cafn o ddyn mor ddrwg a'r cythraul i gario dwfr y weinidogaeth i'w bobl, pan y byddo syched arnynt, a'i losgi fel pren crin wedi y dibeno ei waith.

4. Gall ennill blaenoriaeth iddo ei hun yn mysg ei gydswyddogion. Gwnaeth Judas hyn. Hyny o arian ag oedd gan yr Arglwydd Iesu a'i ddysgyblion, at gario ei achos yn mlaen, yr oeddynt wedi cael eu hymddiried i Judas. Yr oedd yn ddyn o ymddiried. Efe oedd trysorydd yr eglwys apostolaidd. Y mae hyn yn beth possibl etto; sef, bod mewn swyddau uchel, ac amlwg o fewn cylch swyddogaeth eglwysig. Y mae hyn yn beth pwysig iawn i ni feddwl am dano. Gwelwn yma fod pob peth sydd y tu allan i ddyn yn sicr o'i ollwng i dragywyddol ddinystr.

II. *Dichell a rhagrith dyn drwg gyda chrefydd er cyrhaedd ei ddrwg amcanion.*

Sylwch ar Judas yn siarad uwch ben yr enaint y buom yn sôn am dano. Cewch weled ei dwyll a'i ragrith pan yn sôn am ei werth. Gallesid gwerthu yr enaint hwn er tri chan ceiniog, fel pe dywedasai. Yr oedd yn rhy ddrudfawr i'w *wastio* fel hyn. Gorchymynir i ni beidio gwastraffu rhad-roddion Rhagluniaeth y nef. Wedi i Grist borthi pum mil o bobl â phum torth haidd, a dau bysgodyn, ac wedi eu digoni, efe a orchymynodd i'w ddysgyblion,

gan ddywedyd:—'Cesglwch y briwfwyd gweddill, fel na choller dim.' Gallesid meddwl fod Judas yn teimlo i'r byw yn achos y tlodion. Y mae gofal am y tlodion yn orchymynedig yn Ngair yr Arglwydd; ac y mae yn ddyledswydd na ddylid mo'i hanghofio ar un cyfrif; ac nid oes fawr o grefydd lle nad oes gofal am y tlodion. Dyma y *clogyn*—y fantell grefyddol a wisgai Judas am ei wàr i ddallu llygaid dynion. Ond truenus oedd yr olwg arno, erbyn i'w egwyddorion ddyfod i'r golwg:—'Hyn a ddywedodd efe, nid o herwydd bod arno ofal dros y tlodion, ond am ei fod yn lleidr, a bod ganddo y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a fwrid ynddo.'

Gweddiwn am grefydd yn ei grym—yr un peth y tu fewn ag yw y tu faes—fel na byddo rhyw un ochr ragrithiol rhyngom a dynion, a'r llall yn bwdr rhyngom a Duw. Pe buasech chwi a minnau yn gweled Judas yn cusanu yr Iesu, ac yn ei glywed yn ei gyfarch, gan ddywedyd, 'Rabbi, Rabbi,' buasem yn barod i feddwl, a chredu, mai efe, o'r holl apostolion, oedd â mwyaf o barch iddo, a mwyaf o gariad ato, pan nad oedd y cwbl yn ddim ond *patch* o ragrith.

III. *Cawn ymholi, a threio atteb, pa ham y mae yr Arglwydd yn goddef pobl o'r fath gyda'i achos am dymmor.*

1. Dichon mai er rhoddi anrhydedd ar grefydd Crist y gwneir hyny. Wel, dyna chwi wedi dyweyd yn hollol groes i'r modd yr oeddwn i wedi arfer meddwl, o herwydd yr oeddwn i wedi arfer meddwl fod hyny yn iselhau crefydd, gan fod pobl anystyriol—pobl elynol i grefydd, mor barod i gyfeirio at golliadau a gwendidau crefyddwyr. Nid yw yr ymresymiad hwn yn deg. Meddyliwch am y gwrthgilwyr mwyaf hyfion a gwyneb-galed a welwyd erioed mewn drygioni. Pan yr oedd enw o grefydd ganddynt, er mai rhith ydoedd, yr oeddynt yn llawer iawn gwell dynion y pryd hwnw nag y buont byth wedi ei gadael. Y pryd hwnw yr oedd eu hymarweddiad yn onest yn mysg dynion,

ac ymddygent, i olwg dynion, yn addas i'w proffes, yn talu pawb yn dda, ac yn ofalus; eithr wedi gadael eu proffes grefyddol, aethant i dyngu a rhegi, a meddwi, a chyflawni gweithredoedd ynfyd ac ofer. Y mae rhith o grefydd, fe welir, yn atteb rhyw ddyben am dymmor.

'N'ad fi foddloni ar ryw rith
O grefydd, heb ei grym;
Ond gwir adnabod Iesu Grist
Yn fywyd anwyl im'.'

Gweddïwn am gael egwyddorion crefydd yn blanedig yn ein calonau.

2. Goddefir hwynt er cyfiawnhau Crist a'i grefydd. Yr oedd llawer o ragfarn yn mysg y genedl Iuddewig pan ddechreuodd crefydd lwyddo yn eu plith. Am a wn i na buasai mwy o ragfarn yn aros, ac yn aros yn fwy cryf; oni bae am dystiolaeth gref gwrthgilwyr o'i phlaid. Mae y dystiolaeth a roddir i ni gan Judas, am burdeb, a diniweidrwydd Crist, yn well tystiolaeth—yn dystiolaeth y gellir ymddibynu arni, y dystiolaeth uchaf a ellir gael, er cyfiawnhau Crist a'i grefydd. Yn awr, Judas, gan dy fod wedi cael cymmaint o gymdeithas yr Iesu, cymmaint ag a gei di byth mwy; dywed i ni, rho wybod cyn *tumblo* i dân uffern, pa faint o dwyll a welaist ti ynddo? Dyma yr attebiad. Ac oni bae am y cyssylltiad agos a fu rhwng Judas a Christ, buasem heb y dystiolaeth fendigedig hon i ddidwylledd cymmeriad yr Iesu:—'Pechais, gan fradychu gwaed gwirion.' 'Yna pan welodd Judas, yr hwn a'i bradychodd ef, ddarfod ei gondemnio ef, bu edifar ganddo, ac a ddug drachefn y deg-ar-hugain arian i'r archoffeiriaid a'r henuriaid, ac a aeth, ac a ymgrogodd.' Y mae cydwybodau gwrthgilwyr yn gorfod tystio o blaid yr Iesu. Y mae cynnifer o wrthgilwyr ag sydd yn y byd yn dystion byw o wirionedd Cristionogaeth. Os oes rhyw *doubt*—rhyw ammheuaeth yn eich meddyliau chwi gyda golwg ar hyn, mae digon o wrthgilwyr yn eich ardaloedd, holwch y rhai hyny, a dygant bob un o honynt dystiolaeth i ddi-

dwylledd, a diniweidrwydd yr Iesu. Y mae pawb ar wely cystudd, ac angeu, yn cael eu gorfodi i dystio hyn. Y maent yn cyfiawnhau Crist a'i grefydd, ac yn cymmeryd y bai yn llwyr arnynt eu hunain.

3. Goddefir hwynt er cadw yr eglwys ar ei gwyliadwriaeth. Y mae yr Arglwydd wedi gwneyd yn hysbys mai nid Israel yw pawb ag sydd o Israel. Y mae dammeg y deg morwyn yn dangos fod cymmysgedd yn yr eglwys tra yn y byd hwn. Nid yw yr Arglwydd am gelu fod efrau yn mysg y gwenith. Gan y gŵyr Seion hyn, ei dyledswydd yw bod ar ei gwyliadwriaeth, gan ofalu cario yr achos yn mlaen, yn ol cyfarwyddyd Crist.

4. Dichon eu bod yn cael eu goddef, o blegid y bydd eu diwedd, weithiau, yn peri arswyd a braw ar eraill i'w canlyn yn eu ffyrdd drygionus. Yr oedd diwedd Judas yn ddychrynllyd iawn:—'Efe a aeth ac a ymgrogodd, a thorodd yn ei ganol, a'i holl ymysgaroedd ef a dywalltwyd allan.' O! ddiwedd ofnadwy! Anaml y bydd pobl ag sydd wedi bod gyda chrefydd, ac a geir yn gwneyd troion gwaradwyddus fel hyn, yn marw fel pobl eraill. Cafodd Joab ei ladd am ei dwyll a'i ragrith:—'O herwydd efe a ruthrodd ar ddau ŵr cyfiawnach a gwell nag ef ei hun, ac a'u lladdodd hwynt â'r cleddyf. A'u gwaed hwynt a ddychwelodd ar ben Joab. Rhuthrodd Benaiah arno, yn ol gorchymyn, ac a'i lladdodd.' Os oes yma wrthgiliwr, cofia, yr wyt wedi llanw dy enaid âg euogrwydd. Ond o drugaredd, ti elli gael maddeuant. Dychwel at yr Arglwydd, ac efe a gymmer drugaredd arnat.

## ADDYSGIADAU.

1. Mor agos y gallwn fod at Grist trwy broffesu ei enw, etto heb feddu ei ysbryd:—'Od oes neb heb ysbryd Crist, nid yw hwnw yn eiddo ef.'

2. Dylai y syniad fod Judas wedi ei alw gan Grist ei hun ein difrifoli ni yn fawr.

3. Ofnwn rhag mai offerynau ydym i wneyd daioni i eraill, heb ein bod yn gwneyd hyn oddi ar gariad at Grist. Amen.

# PREGETH X.

## DYSGYBLAETH FOREUOL YN ANNHRAETHOL WERTHFAWR.

'Da yw i ŵr ddwyn yr iau yn ei ieuengctid;' *Galar.* iii. 27.

TEBYGOL yw fod y gair 'iau' yn llythyrenol yn ein cyfeirio at gaethiwed Babilon. Nid oedd y bobl ieuaingc wedi cynnefino cymmaint â manteision a bendithion rhyddid a'r rhai oedd mewn oedran. Yr oedd yr hen bobl wedi gweled, ac wedi arfer mwynhau rhyddid yn yr hen wlad. Ond yr oedd y rhai ieuaingc wedi eu geni yn ngwlad y caethiwed: a'r peth goreu a allent wneyd oedd dwyn eu caethiwed yn ddiddig a boddlongar; o blegid nid gwiw oedd iddynt i wrthryfela yn erbyn gallu ymherodrol Babilon; o blegid nis gallasent ysgwyd yr iau hono ymaith oddi ar eu gwarau hyd nes y deuai amser terfynedig Duw i ben. Gallai fod yr iau yn dda er eu hattal rhag rhyw beth oedd waeth. Wrth ddwyn yr iau yma y meddylir, yn ddiammheu, ansawdd ymostyngar y galon i Dduw mewn cystudd, ac nid dioddef cystudd. Dylem fod yn ddiolchgar i'r Arglwydd am nad oes galwad ar ieuengctid ein gwlad i ddwyn iau caethiwed. Yr ydym yn ein gwlad ein hunain, ac yn mwynhau rhyddid gwladol a chrefyddol. Ond da fyddai i ieuengctid ein gwlad ddwyn iau gorchymynion a Gair Duw arnynt. Y mae Crist yn galw arnynt yn daer, ac yn dywedyd: 'Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf, canys addfwyn ydwyf, a gostyngedig o galon: a chwi a gewch orphwysdra i'ch eneidiau. Canys fy iau sydd esmwyth, a'm baich sydd ysgafn.' Gwnawn y sylwadau canlynol oddi wrth y geiriau hyn:—

I. *Yr iau y byddai yn dda i'r ieuaingc ei dwyn—crefydd.*

Y mae yr iau yn ddigon adnabyddus i bawb. Y mae ei hamcan yn dyfod i'r golwg yn ddigon amlwg mewn tri o bethau yn neillduol.

1. Dofi anifeiliaid anhywaith, anhawdd eu trin. Unwaith y rhoddir yr iau am yddfau creaduriaid anhydyn, ni byddant yn well o *strugglo.* Ofer fydd iddynt ymdrechu i ymryddhau o'i gafaelion. Y mae ei gafael yn ddigon diogel. Felly y gellir dyweyd, gyda llawer iawn o briodoldeb, unwaith yr ymafla Gair Duw yn meddwl a chalon y pechadur ystyfnig, i lawr y daw yn addfwyn fel Saul o Tarsis:—'Yn ddisymmwth, llewyrchodd o'i amgylch oleuni o'r nef. Ac efe a syrthiodd ar y ddaear, ac a glybu lais o'r nef yn dywedyd wrtho, Saul, Saul, pa ham yr wyt yn fy erlid i? Caled yw i ti wingo yn erbyn y symbylau.'

2 Eu huno mewn gwaith trwy gynnefino â'r iau. Y maent yn dyfod i gyd-dynu. Pan y mae Gair Duw yn dyfod yn egwyddor yn enaid y dyn ieuangc, y mae yn dyfod i gydweithio yn hapus âg eraill, pa un bynag ai ieuangc ai hen ydynt. Cydweithiant yn addfwyn, gan ymwasgu at y rhai sydd yn caru yr Arglwydd Iesu. 'A Saul, wedi ei ddyfod i Jerusalem, a geisiodd ymwasgu â'r dysgyblion. Ac yr oedd efe gyda hwynt.'

3. Peth i'w ddefnyddio at uno mewn gwaith ydyw yr iau. Y peth sydd yn gwneyd dyn yn ddefnyddiol gydag achos yr Arglwydd ydyw, llywodraeth Gair Duw arno. Nid rhywbeth ar gyfer y nefoedd, ac i gymmhwyso dyn i fyned i'r nefoedd yn unig ydyw crefydd; ond peth o bwrpas i gymmhwyso dyn i waith. Y mae yr iau yn dda i ddyn yn mhob sefyllfa—yn ei deulu, yn yr eglwys, yn yr ardal, ac yn mhob man. Yn dda ac yn angenrheidiol iddo yn ei holl berthynasau—fel tad a mam, fel gŵr a gwraig, fel meistr a meistres, fel gwas a morwyn, fel mab a merch. Y mae yn gwneyd y dyn yn ymdrechgar i gyflawni ei holl ddyledswyddau tuag at Dduw a dynion.

II. *Yr amser a nodir yma i bobl gymmeryd yr iau arnynt—yn nyddiau ieuengctid.*

1. O blegid fod gan yr Arglwydd hawl ar ei wasanaeth yn moreu ei oes. Efe a'i gwnaeth, ac arno ef yr ydym yn ymddibynu am ein cynnaliaeth :—'Efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.' Y mae y dyn ieuangc, fel yr hen ŵr, yn cael ei gynnal gan Dduw. Pe buasai y gŵr ieuangc yn gallu byw heb bwyso ar yr Arglwydd yn nyddiau ei ieuengctid, buasai ganddo ryw reswm dros beidio cymmeryd yr iau arno. Peth gwrthun ydyw balchder hyd yn oed yn nghanol cyfoeth a llawnder; ond annhraethol mwy gwrthun yw balchder pan yn nyfnderau truenus tlodi. Y mae miloedd ar filoedd o bobl ieuaingc yn ein gwlad na allant fyw am un foment ond ar Dduw; ac etto, y maent yn rhy falch i gymmeryd ei iau ef arnynt. Dyna beth heb gysgod o reswm drosto. Dyma ymddygiad anniolchgar a drwg. Dylai, yn ddïau, y sawl sydd yn ein cynnal gael ein gwasanaeth :—'Am hyny, yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er trugareddau Duw, roddi o honoch eich cyrph yn aberth byw, yr hyn yw eich rhesymol wasanaeth.'

2. Braint fawr yw cael bod yn foreu dan yr iau—'yn ei ieuengctid.' Y mae bod dan iau Crist, neu yn ngwasanaeth yr Iesu, yn rhoddi mwy o anrhydedd ac urddas ar ddyn ieuangc na dim sydd i'w gael yn ngwasanaeth pechod a diafol. Edrychwch ar yr anrhydedd a roddodd crefydd ar Dafydd, er nad oedd ond o ddechreuad isel. Trwyddi hi y cafodd ei ddyrchafu i orseddfaingc Israel; a'r gwarth oesol a ddygodd ar enw Absalom, o herwydd gwrthod yr iau.

3. Gallant fod o fawr ddefnydd gydag achos Crist yn y byd. Gŵr ieuangc rhagorol oedd Samuel y prophwyd. Galwyd ef gan Dduw pan oedd efe yn ieuangc. Nid oedd efe yn gwybod pwy oedd yn galw arno, ac nid oedd yr hen offeiriad Eli yn gwybod ar unwaith. Yr ydych yn cofio hanes Samuel. Dywedir ei fod 'yn gwasanaethu yr Arglwydd ger bron Eli. A Samuel oedd wedi gorwedd i gysgu. Yna y galwodd yr Arglwydd ar Samuel. Dywed-

odd yntau, Wele fi. Ac efe a redodd at Eli ac a ddywedodd, Wele fi, canys gelwaist arnaf. Yntau a ddywedodd, Ni elwais i, dychwel, a gorwedd. Ac efe a aeth ac a orweddodd.' Y mae rhywbeth *fine* yn y bechgyn bach sydd dan iau Crist. Codant pan elwir arnynt, a gorweddant pan ddywedir wrthynt. Dywedodd yr Arglwydd bethau pwysig wrth Samuel. Pe gwnaech chwithau, fechgyn, ufuddhau iddo, dywedai wrthych chwithau bethau na anghofiech mo honynt byth. Gwnaeth Dafydd wasanaeth rhagorol i Israel, a thros Arglwydd Dduw Israel, pan yn ieuangc, trwy ymladd â'r cawr—gwaradwyddydd byddinoedd y Duw byw. Mawr y gwaith a wnaeth Dafydd dros Dduw. Timotheus, chwi wyddoch, oedd yn fachgen dan yr iau. Yr oedd ei fam a'i famgu yn haeddu eu canmawl am ddysgu Gair Duw iddo pan yn fachgen. Ond er ein bod wedi enwi y rhai rhagorol hyny, y bachgen a anwyd yn Bethlehem ydyw y goreu, a'r penaf o bawb. Treuliodd oes gyfan gyda gwaith ei Dad dros rai fel nyni:—'Oni wyddoch,' meddai, 'fod yn rhaid i mi fod ynghylch y pethau a berthyn i'm Tad.'

4. Y mae yr iau, neu grefydd Crist, yn lloches rhag temtasiynau a phrofedigaethau y gelyn. Y mae yr olwg ar fustych heb fod yn arferol â'r iau, y rhai na fuont yn gweithio o dani erioed, ond yn rhyddion ar hyd y meusydd, yn ddifyr weithiau. Y maent yn agored i bethau blinion iawn yn fynych. Y maent yn agored i ddolurio eu gilydd, a myned dros y cloddiau, ac i'r corsydd, ac yn prysuro i fyned dan läw y cigydd. Edrychwch ar gannoedd o bobl ieuaingc sydd heb yr iau, yn byw yn ddigrefydd, yn byw mewn pen-rhyddid ac aflendid. Y maent yn hollol o dan lywodraeth eu chwantau cnawdol, yn tyngu anudon, yn meddwi, yn halogi dydd Duw, yn ymroddi i drythyllwch, i gyflawni pob pechod yn un chwant: 'Canys brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt yn ddirgel.' 'Nid oes ofn Duw ger bron eu llygaid.' Y mae dwyn yr iau, neu fyw yn grefyddol, yn

cadw yr ieuangc allan o byllau llygredigaethau y byd, a'r cnawd, a'r diafol. Er ein hannheilyngdod mawr gydag achos Crist, buasai golwg gan mil gwaeth arnom oni bae ein bod wedi cael y fraint o gymmeryd iau Crist arnom yn ein ieuengctid. Dyma sydd wedi bod yn foddion i'n cadw ni rhag corsydd llygredigaeth.

5. Bydd yn ffynnonell o gysur mewn henaint i'r sawl fyddo wedi dewis crefydd yn eu hieuengctid, a chael eu galluogi i fyw i ogoniant yr Arglwydd ar hyd eu bywyd:—'Efe a eistedd ei hunan, ac a daw â sôn, am iddo ei dwyn hi arno.' Y mae y meddwl wedi ei dawelu. Nid ymdeimlad mewn hynafgwr a feddylir, rhyw deimlad o ryw berffeithrwydd yn perthyn iddo ef, ac felly yn ei dueddu i ymffrostio. Na, na, nid felly. Nid oes un dyn yn fwy byw i'r teimlad o bechod ac ammherffeithrwydd na'r hwn sydd wedi ymdrechu byw yn sanctaidd trwy ei fywyd. Y mae awelon heddwch yn chwythu arno yn ei ddyddiau fel awelon cymmeradwyaeth Duw iddo am ddwyn iau crefydd dros ei holl fywyd.

ADDYSGIADAU.

1. Y mae yn bwysig dwyn yr iau. Gwell ei chymmeryd wedi myned yn mlaen mewn dyddiau na pheidio ei chymmeryd o gwbl.

2. Cofier mai pan yn ieuangc ydyw yr adeg i gymmeryd yr iau er bod yn ddefnyddiol gydag achos Mab Duw.

3. Meddyliwch am y tangnefedd heddychol, a'r llonyddwch meddwl a fwynheir ganddynt mewn henaint a phenllwydni, wrth gofio eu bod wedi treulio dyddiau boreu eu hoes yn ngwasanaeth eu Harglwydd a'u Hachubwr Iesu Grist: 'Ffrwythant etto yn eu henaint, tirfion ac iraidd fyddant, i fynegi mai uniawn yw yr Arglwydd fy Nghraig.' Amen.

## PREGETH XI.

### 'Gwaith Anwiredd;' neu, 'Bregeth y Streic.'

'Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef. Nid oes dywyllwch, na chysgod angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio;' *Job* xxxiv. 21, 22.

Geiriau Elihu yn ei ddadl yn erbyn Job yw y rhai hyn a ddarllenwyd i chwi. Pwngc Elihu ydyw, fod Duw yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd; ac y mae efe yn teimlo yn gryf ar ei bwngc, ac yn selog drosto. Ac o ran hyny, nid oes achos i neb deimlo yn wan a sigledig ar bwngc uniondeb gweinyddiad llywodraeth Duw:—'Pell oddi wrth Dduw fyddo gwneuthur annuwioldeb, ac oddi wrth yr Hollalluog weithredu anwiredd: canys efe a dâl i ddyn ei waith; ac efe a wna i ŵr gael yn ol ei ffyrdd ei hun. Dïau hefyd na wna Duw yn annuwiol; ac na ŵyra yr Hollalluog farn.'

Yn nhyb Elihu, yr oedd Job wedi traethu rhyw bethau oeddynt yn awgrymu fod Duw yn ei geryddu ef yn ddïachos, ac yn cymmeryd ei farn oddi arno. Dywedasai Job yn flaenorol yn y ddadl:—'Y mae Duw yn fyw, yr hwn a ddug ymaith fy marn; a'r Hollalluog, yr hwn a ofidiodd fy enaid.' Fe allai mai yr ymadroddion yna o eiddo Job oedd mewn golwg, yn benaf, gan Elihu yn nechreu yr araeth hon o'i eiddo. Ond bydded hi fel y byddo am hyn, y mae y gŵr o ddifrif yn dadleu ei bod yn beth ammhossibl i Dduw wneuthur cam â neb yn ei fater—yn ammhossibl o ddiffyg egwyddor, ac yn ammhossibl o ddiffyg gwybodaeth, neu hysbysrwydd am y cyfryw beth. Dichon i farnwr uniawn o egwyddor fod o dan anfantais i wneuthur cyfiawnder mewn llawer achos, o herwydd annigonolrwydd ei hysbysrwydd, a'i wybodaeth ef am yr achos. Ond y mae Duw yn annherfynol, a thragywyddol uwch

law yr anfantais hono. Nid oes y fath beth a diffyg gwybodaeth yn perthyn i Dduw:—'Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef. Nid oes dywyllwch na chysgod angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio.' Pe dywedwn, 'Dïau y tywyllwch a'm cuddiai, yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti.'

Y mae yr Anfeidrol yn ewyllysio gwneuthur cyfiawnder a barn:—'Cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfainge ef;' a gellwch chwithau weled oddi wrth y geiriau hyn y fath fantais sydd ganddo i gwblhau, neu gario allan ei ewyllys:—'Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef.' Craffwch mai 'ffyrdd dyn,' ac nid ffordd dyn, a ddywedir. Y mae gan ddyn lawer o ffyrdd i gyd—rhai yn fewnol, a rhai yn allanol; ond y mae llygaid Duw ar yr oll o honynt. Y mae efe yn talu sylw manwl i'r cyfan, ac yn gweled i mewn yn drwyadl i ddirgelion y rhai mwyaf cuddiedig. Ac yn mhellach na'i fod yn sylwi ar holl ffyrdd dyn, y mae efe hefyd yn sylwi ar ei holl gamrau ef yn ei holl ffyrdd. Y mae dyn yn greadur rhy bwysig yn ngolwg y Creawdwr a'i Farnwr i'w adael i gerdded un cam yn un o'i wahanol ffyrdd heb ei fod ef â'i lygaid arno, yn ei wylied ef. Y fath fantais ryfeddol, gan hyny, sydd gan y fath farnwr ag yw efe i wneuthur cyfiawnder a barn yn mhob achos.

Peth iawn fyddai i mi, yn y fan yma, cyn myned yn mhellach yn mlaen, eich adgofio chwi mai y Duw hwn fydd yn ein barnu ni—ni—chwi a minnau; ac y mae yn sicr na wna efe gam â neb o honom. Heb law ei fod yn un a fyn wneuthur cyfiawnder yn mhob achos, y mae yn un a fedr wneuthur hyny heb *help* neb. Ni bydd raid iddo alw tystion yn nydd y farn:—'Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef.' Y mae pob peth a wneir genym yn ei olwg ef yn mhob man, ac yn mhob amgylchiad:—'Nid oes dywyllwch na chysgod

angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio.' Peth ammhossibl iddynt ydyw cael un *couch* i gwato (*squat*) ynddo. Crynwch wrth feddwl am hyn! Cedwch yn eich côf yn wastadol—yn eich oriau gwylltaf, a mwyaf anystyriol—nad oes gornel yn un man i lechu ynddo, nad yw Duw yn y man hwnw, â'i lygaid ar y pechadur. Gan nad i ba dywyllwch bynag yr encilir, a chan nad o dan ba leni bynag y ceisir ymguddio, y mae y cwbl yn noeth, ac yn agored yn ei lygaid ef—yn ei ŵydd ef.

'Gweithio anwiredd' yw y peth sydd yn cael sôn am dano yn niwedd y *text*. Nid oes angenrheidrwydd i mi dreulio dim amser uwch ben cynnulleidfa o'r fath ag yw hon, i egluro pa beth a feddylir wrth 'weithio anwiredd,' gan y gwyddoch chwi cystal ag y gwn innau; ac nid oes eisieu dyweyd os oedd modd i neb wybod yn well, mai gwneuthur pechod a olygir. Y mae pob pechod yn anwiredd, a phob anwiredd yn bechod. Pe meddyliech chwi yn awr am dori'r Sabbath, neu am feddwdod, am gybydd-dod, am falchder, ac am lawer o bethau eraill adnabyddus i chwi o'r *sort* yna, anwiredd ydynt i gyd. Gelwir pechodau brodyr Joseph yn un 'swp' yn anwiredd:—'Cafodd Duw allan anwiredd ei weision,' ebe Judah. Chwi a ellwch benderfynu am bob peth sydd yn gŵyro oddi wrth reol Gair Duw, mai anwiredd yw. Y mae ystyr y gair yn amlwg ar ei wyneb ef:—An-wir-edd; peth croes i'r gwirionedd, peth yn myned yn erbyn y gwirionedd, peth yn myned ar ŵyr oddi wrth y gwirionedd. Dyma, gan hyny, y 'gweithio' y mae a fynom âg ef yn bresennol:—'Gweithio anwiredd.'

Y mae y gwaith lle y gweithir *anwiredd* yn waith mawr iawn. Hwn yw y mwyaf o'r holl weithfëydd yn y byd. Y mae yn llawer mwy a helaethach nag unrhyw *fusnes* arall o dan yr haul. Un prawf o hyn yw lliosowgrwydd ei weithwyr. Y mae gweithfäoedd eraill yn y byd yn ymylu ar fod yn aruthrol mewn mawredd, a cheir yn rhai o honynt filoedd ar filoedd o weithwyr; ond mewn lliosowgrwydd nifer y gweithwyr, ni ddeil yr un o honynt ei

gymmharu â'r gwaith hwn. Yr wyf yn dywedyd nas gall fod yma gymmhariaeth, o herwydd y mae gormod o achos i ofni fod y nifer liosocaf o weithwyr pob gwaith arall yn perthyn i'r gwaith hwn yr un pryd. Y mae gwaith anwiredd yn *concern* mawr iawn, ac ynddo filoedd ar filoedd o bob math o weithwyr mewn *employ!*

Y mae i'r gwaith hwn, fel y mae hefyd i bob gwaith arall, ei *berchenog* a'i *feistr*. Y diafol yw hwnw. Efe yw *inventor* a *proprietor* yr holl *establishment*. Mynych y gwelir yn mhrif drefi y deyrnas ryw *concern* lled fawr, ac yn argraphedig ar ei *front*, mewn llythyrenau y gellir eu darllen ar redeg:—'*Established* yn y flwyddyn a'r flwyddyn, gan hwn a hwn; a bydd y *date*, mewn rhai amgylchiadau, yn peri i chwi synu at hender y sefydliad. Ond dyma i chwi *establishment* sydd yn hynach na phob un arall. O bob gwaith, 'gwaith anwiredd' yw yr hynaf, a'r diafol ydyw yr *establisher;* ac y mae efe wedi parhau i fod yn *director* ac yn *manager* yr holl *concern* o'r dydd y sefydlwyd ef hyd y dydd hwn. Y mae yn ddywediad cyffredin yn ein plith ni, fod 'gwaith anwiredd' yn rhyfeddol o lwyddiannus o dan bob rhyw amgylchiadau—fod y gwaith hwn yn cerdded yn hynod o lewyrchus pan y mae hi yn *go slack* mewn gweithfëydd eraill; ac un rheswm da am hyny ydyw, hir brofiad ac oedran y llywodraethwr. Y mae yn un ag sydd wedi gweled llawer tro ar fyd; ac yn un sydd wedi cael pob mantais i adnabod preswylwyr y ddaear. Yn awr, gan mai y diafol ydyw perchenog a meistr y *concern*, ei weision ef yw pawb sydd yn 'gweithio anwiredd.' Y mae yn wir fod lliaws o honynt yn ammharod, ac yn anfoddlawn i gydnabod hyn; ac nid oes neb o honynt yn leicio arddel ei feistr: canys y mae efe, er ei fedr a'i lwyddiant, yn un mor ddigymmeriad a dibarch ag y gall creadur byth fod. Gwadu eu perthynas âg ef y mae y gweithwyr; ond gwadent hwy a fynont, fe erys y gwirionedd yr un, fod pawb yn weision i'r neb y maent yn ufuddhau iddo:—' Oni wyddoch chwi, mai i bwy bynag yr

ydych yn eich rhoddi eich hunain yn weision i ufuddhau iddo, eich bod yn weision i'r hwn yr ydych yn ufuddhau; pa un bynag ai i bechod i farwolaeth, ynte i ufudd-dod i gyfiawnder.' Ac wedi eich rhyddhau oddi wrth bechod, fe a'ch gwnaethpwyd yn 'weision i gyfiawnder.' Ac onid ydyw yn beth truenus i feddwl am dano, fod cynnifer o'r bechgyn a'r merched yma, a chynnifer o'r gwŷr a'r gwragedd hefyd, yn aros mewn gwaith—yn mynu aros ynddo, ac yn mynu ymroddi iddo â'u holl egni—pan nad oes neb gwell na Satan yn feistr arnynt! Mewn gwlad mor oleu a chrefyddol ag ydyw Cymru, gallesid disgwyl fod gan ddynion fwy o barch iddynt eu hunain nag a oddefai iddynt i ymddarostwng i fod yn slafiaid i'r diafol, i gael eu trin a'u trafod ganddo ef yn ol ei ewyllys ei hun. Ond disgwyliwn ni beth bynag a ddisgwyliom oddi wrth y bobl, gwasanaethu y diafol a fŷn cannoedd a miloedd o honynt wneyd, a hyny o lwyrfryd calon.

Nid ydyw pawb o bechaduriaid y byd yma yn gyfartal i'w gilydd mewn medr a dylanwad. Y mae y rhai sydd yn rhagori llawer ar eraill, a hwynthwy, y rhai medrusaf, sydd i'w golygu yn mlaenaf ac yn benaf wrth weithwyr y gwaith dan sylw genym. Dyma fel y byddis yn deall wrth siarad am weithwyr pob gwaith, y gweithwyr penaf yn mlaenaf. Pan yn sôn am weithwyr y gweithfeydd tân, yn y parthau hyn o'r wlad, yr ydys yn golygu yn benaf y *puddlers*, y *ballers*, y *finers*, a'r cyffelyb. Rhai o'r fath yma, meddaf, sydd i'w golygu wrth weithwyr tân. Y mae yma lawer eraill llai eu medr, a'u talent, o'u cwmpas hwy, ac yn perthyn i'r gwaith, er fe allai na fyddant yn gwneyd dim amgen na *whilberio* lludw, dysgub y *rails*, neu ryw orchwylion isel o'r fath; ond y maent hwythau, fel y dywedwyd, yn perthyn i'r gwaith, ac yn gwneyd eu goreu glâs ynddo, yn ol y dalent a'r gallu a feddant. Nid yw yn wahanol yn 'ngwaith anwiredd.' Y mae yma laweroedd ynddo nad ydynt yn gallu gwneyd nemawr o honi, mewn cymhmariaeth i eraill; ond y mae y rhai bychain

hyny yn gystal a'r rhai mawrion, cryfion—y mae pawb oll, o bob medr a maint, yn perthyn fel eu gilydd i'r hen *factory* ddieflig; ac ar eu heithaf yn pechu yn erbyn Duw. Meddyliwch i ddechreu am y tyngu, y rhegi, a'r cablu sydd yn cael ei ddwyn yn mlaen; y mae llawer o weithwyr digon di-dalent yn perthyn i'r rhan hon o'r *concern*. Chwi glywch lawer o ddynion, druain! yn rhegi, ac yn rhegi ar eu goreu; ond *poor fellows* a hwythau, nid ydynt yn alluog i wneyd fawr o honi yn y diwedd: er wedi arfer rhegi o'u plentyndod, rhegi bob dydd, rhegi am bob peth, drwg a da, a rhegi nes bod hyny wedi myned yn ail natur iddynt, nid ydynt, wedi'r cwbl, yn gallu ennill dim sylw fel rhegwyr yn eu cymmydogaethau, nac yn peri i'r rhai sydd brentisiaid yn y grefft i'w hedmygu a'u hefelychu. Rhegau ail law sydd ganddynt, wedi eu geirio yn drwstan; ac y mae eu rhegi drachefn yn rhyw beth mor anghelfydd, mewn goslef a phwyslais, fel y mae y rhegwyr eu hunain yn blino ar eu baldordd cableddus. Nid ydynt yn cael eu hystyried, na'u cydnabod, gan eu cydweithwyr yn ddim amgen na *jacks*, neu *parrots* o regwyr. Ond y mae yma, deallwch chwi, grefftwyr yn y gwaith—gwŷr a gwragedd talentog fel rhegwyr. Y mae dynion yn gweithio yn 'ngwaith anwiredd' sydd yn gallu tyngu a rhegi nes peri i chwi deimlo fod y ddaear yn crynu o dan eich traed, fod eich gwallt yn sefyll yn syth ar eich penau, a bod cylch-rediad eich gwaed yn pallu! Hwy a fedrant 'goinio' llwon i dynu sylw, a'u harllwys allan gyda'r fath hyawdledd anghyffredin nes peri i'r ieuengctyd sydd yn teimlo *interest* mewn rhegi, awyddu gallu bod yn debyg iddynt. Dyma y gweithwyr y mae pawb sydd yn ewyllysio bod yn enwog yn y grefft yn tynu atynt, er mwyn cael hyfforddiant ganddynt. Y mae y *branch* hwn o'r gwaith mewn cyflwr blodeuog ar hyn o amser. Dyna yr argraph a wneir ar fy meddwl am dano, gan y iaith gableddus a dery ar fy nghlustiau wrth deithio ar hyd a lled y wlad gyda'r *trains*. Er pob ymdrech a

llafur crefyddol, y mae lle i ofni fod yr arferiad isel ac aflan o dyngu a rhegi yn blaguro yn y tir. Y mae, nid yn unig y bechgyn, ond y merched hefyd, yn rhoi eu bryd ar ddefnyddio geiriau bryntion, a chableddus! Cywilyddiwch! ie, yn wir, meddaf, cywilyddiwch am hyn! Y mae 'crots a chrotesi' ar brentisiaeth yn dysgu tyngu a rhegi yn y dyddiau presennol! Och fi! Cywilyddiwch ymroddi i'r fath waith dieflig. 'Grots!' yr wyf yn eich gweled yn llygadu arnaf, ac y mae yn dda genyf fedru ennill eich sylw. Gochelwch y *branch* hwn o'r gwaith!

Colofn arall o'r un hen waith ydyw *balchder*. Ceir ambell un yn yr adran hon etto yn eithaf di-dalent; er ei fod ynddi â'i holl feddwl, dilun ei wala y mae efe yn cario ei fusnes yn mlaen. Nid yw ar y goreu yn medru gwneyd dim gwell na 'choblera.' Yr wyf yn eich gweled yn gwenu; ac y mae llawer o bethau mor *silly* ynglŷn â balchder, fel y mae yn anhawdd peidio a gwenu yn yr olwg arnynt, hyd yn oed yn nhŷ yr Arglwydd. Cwynai un gŵr crefyddol iawn yn ei dyb ei hunan, fod ei gymmydog yn gwisgo *boots*, tra nad oedd ganddo un geiniog goch dros ben; ond ei fod ef, y gŵr crefyddol, yn gwisgo *clogs*, pan yr oedd ganddo gan' punt yn y bange. Dyna ffordd ambell i gymmeriad i farnu balchder, sef cymmharu can' punt a *chlogs* â *boots* heb un geiniog dros ben. Onid oedd rhyw beth fel yna yn druenus o ddi-dalent, meddwch chwi? Y mae meddwl am y fath wiriondeb yn ddigon i yru dyn difrifol, onid yw, i ysgafnder. Eithr nid penbyliaid o fath gŵr y can' punt a'r *clogs* ydyw pawb sydd yn perthyn i'r *department* hwn o'r gwaith. Y mae yma rai llawer mwy talentog, a mwy llwyddiannus, yn gallu llunio eu hunain i bob math o ffurfiau y dichon y meddwl eu dyfeisio, a llwytho eu cyrph â beichiau trymion o blu a rhawn, a dwyn y cyfryw feichiau trymion yn ddirwgnach, er nad ydynt yn cysuro nac yn cynnhesu. Oes, y mae rhai mor dalentog gyda'r gwisgoedd yma fel y maent wedi ennill iddynt eu hunain safle o enwogrwydd, ac yn

cael eu hedmygu gan y lliaws, a'u rhoddi allan fel esamplau i'w dilyn. Peidiwch a meddwl fy mod i mor ffol, er ffoled ydwyf, a thybied mai yn y dillad y mae *seat* balchder. Yr wyf yn crybwyll y dillad a'r plu am eu bod yn dangos *sort* y pryfaid sydd oddi tanynt. Pa le bynag y gweloch blu, yr ydych yn y fan hono yn abl i benderfynnu i ba ddosbarth y perthyna y creadur sydd yn eu gwisgo. Ni welwyd erioed blu ar gefn y ddafad, na'r fuwch, na'r ceffyl. Nid ydyw yn natur y dosbarth yma o greaduriaid i gynnyrchu plu. Mae gan yr anifeiliaid yna eu gwisg; eithr nid gwisg o blu ydyw. Nid pryfaid y llawr sydd yn gwisgo y plu, ond yr ehediaid ysgafn sydd ar gefn yr awel yn ymgodi oddi ar y llawr, i fyw llawer o'u hamser mewn hunan-fwynhâd yn uchelderau y nefoedd. Y mae y plu ar ddyn, neu ddynes, o ganlyniad, yn arwydd o falchder, ac yn argoel o ddeddf yn tueddu mwy at yr haul nag at y llwch. Peth ofnadwy iawn ydyw balchder; ac y mae yn rhan bwysig iawn o waith anwiredd! Pair i ddyn ymgodi yn uwch, uwch, o ran ei ysbryd, nes gwneuthur o hono ef ei hun megys Duw. Duw wyf fi, meddai'r creadur tlawd; ond hunanol. *Stop!* cymmer di gan bwyll; cymmer yn araf; ti a gei weled toc beth ydwyt. Dyna Nebuchodonosor, yr abwydyn, yn ei falchder, yn rhoi *challenge* i Dduw:—'Oni addolwch chwi fy nuwiau i; ac oni ymgrymwch i'r ddelw aur a gyfodais i? Yr awr hono y bwrir chwi i ganol ffwrn o dân poeth; a pha Dduw yw efe a'ch gwared chwi o'm dwylaw i?' ebe fe wrth y llangciau. Tydi a wnaethost yn dda i roddi *challenge* i'n Duw ni, ac nid i ni ein hunain, ebe hwythau wrtho:—'Nid ydym ni yn gofalu am atteb i ti yn y peth hyn. Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth: ac efe a'n gwared ni o'th law di, O! frenin.' Y mae ein Duw ni yn abl i atteb drosto ei hun. O! fath beth ofnadwy o ryfygus, a pheryglus ydyw balchder calon dyn! Gochelwch falchder!

Meddyliwch etto am *feddwdod;* cangen arall, ofnadwy,

o'r un hen *factory* felldigedig. Y mae hyd yn oed yn y gangen hon lawer o greaduriaid truenus a hynod o ddidalent. Yfant faint fyd a fynir, pan fo y cwrw yn rhad mewn arwerthiadau (*public auctions*), a lleoedd o'r fath: dim ond dyfoli arni y byddant, yn gyffelyb i foch yn dyfoli maidd ac enwyn, ac yn gorwedd dani ar ol cael eu trechu. Nid oes dim a ellir ei alw yn dalent, neu yn fedrusrwydd, mewn peth fel yna. Ond y mae yn y *branch* hwn, fel yn y lleill a enwyd, rai gwŷr talentog, a rhai pen-campwyr. Ac yn y gyfeddach, hwy a ennillant gryfder i fyned rhagddynt yn wrolach gyda'r gwaith. Wedi yfed yn dda, hwy a ddeuant yn ddigon cryfion i fynu llestri y cyssegr i mewn i'r *concern*. Uwch ben y gwpan, dygir crefydd a chrefyddwyr i sylw, i'w mesur a'u pwyso, a'u gwneyd yn wrthddrychau difyrwch a gwawd. Dichon na fydd dim o'r fath yn y cynllun gwreiddiol; ond fe ddaw i mewn gyda llaw: damwain ydyw i un *cruse* fyned heibio heb farnu pwy sydd yn ddoniol, a phwy sydd heb fod felly. Nid ydoedd yn mwriad cyntaf Belsassar ddwyn llestri tŷ Dduw i'r gyfeddach; ond wrth flâs y gwin, ac yn ei wres, efe a ddaeth yn ddigon cryf i alw am danynt. Belsassar a ddywedodd:—'Am ddwyn y llestri aur ac arian, fel yr yfai y brenin a'i dywysogion, ei wragedd, a'i ordderchadon ynddynt. Yna y dygwyd y llestri. A'r brenin a'i dywysogion a yfasant ynddynt.' Os wyt ti, ddyn, yn delio yn musnes y gyfeddach a'r diota yma, gwylia arnat dy hun na ddygot lestri y cyssegr i'r *concern;* gochel er dy fwyn dy hun, rhag i berchen y llestri anfon rhyw beth bychan atat i'r *room*. Medr efe wneuthur peth mawr trwy beth bychan. Mae perygl i ti yn y ffordd yma; cofia fel y bu ar dy hen frawd y crybwyllwyd ei enw ef. Peth bychan, rhyfeddol, a anfonodd Duw i lys Belsassar: dim ond darn llaw yn ysgriblo rhywbeth ar galchiad y pared. Nid oedd neb yn y fan yn gallu gwneyd dim synwyr o hono. Er hyny, yr oedd yr effeithiau mor rymus ar y brenin fel y newidiodd ei liw ef; ac y cyffrôdd ei feddyliau, y dattododd rhwymau

ei lwynau, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall:—'Yr awr hono, bysedd llaw dyn a ddaethant allan, ac a ysgrifenasant ar gyfer y canwyllbren, ar galchiad pared llys y brenin; a gwelodd y brenin ddarn y llaw a ysgrifenodd. Yna y newidiodd lliw y brenin,' &c. Sut, y meddwch chwi, y darfu i beth mor fychan effeithio mor ofnadwy ar frenin? Sut, yn wir! onid perchen y llestri oedd wedi ei ddanfon yno? Y mae peth bychan oddi wrth Dduw wedi digio yn fwy nag a fedrwch chwi ei ddal! Gadewch grefyddwyr, crefydd, a llestri y cyssegr, yn llonydd yn y gyfeddach. Mae pob peth crefyddol allan o'i le yn y dafarn; a dim yn fwy felly na dyn crefyddol. Byddai yn fendith i lawer Cymro allu credu gwirionedd plaen fel hwn.

*Halogi y Sabbath.* Dyma gangen arall chwanegol o'r un gwaith. Ac fel y dywedais o'r blaen, y mae yn y *department* hwn hefyd laweroedd o honynt yn boenus o ddi-lun gyda dwyn eu gwaith yn mlaen. Gorphwys a chysgu yn eu gwelyau y maent, a gorweddach yn y cornelau; ond er eu bod fel yna, heb nemawr o drefn na llwyddiant arnynt, y maent yn y gwaith, ac yn gyru arni yn ffyddlawn ddigon yn ol eu ffasiwn hwy o weithio. Ond y mae yma, deallwch, amgenach gweithwyr na'r rhai hyn yn y *branch* dan sylw. Ceir yma gannoedd a miloedd o feibion a merched, ac nid ychydig o wŷr a gwragedd, yn ei 'medru' hi yn dda iawn. Hwy a ânt i ffwrdd gyda'r *trains* yn 'heidiau' ar y Sabbath. A chyn gynted ag y byddant allan o'r cerbydau mewn tref, neu bentref, rhedant fel ynfydion ar hyd yr heolydd. Cyrchant i'r tafarndai yn wangcus am y cwrw, yfant, a meddwant, tyngant a rhegant, cwerylant, ac ymladdant, a gwnant rymusder o honi yn y pen draw!

Yn awr, sylwch beth a ddywed y testyn:—'Nid oes dywyllwch na chysgod angau, lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio.' Ymguddio rhag llygaid Duw! Y mae llawer o'r fusnes—y godinebu, y meddwi, a'r cyffelyb, yn cael ei gario yn mlaen yn y tywyllwch, ac yn

y nos; er hyny, y mae y cwbl yn cael ei gario yn mlaen yn ngolwg Duw. Ni chuddia y nos rhagddo ef—yr un ffunud ydyw goleuni a thywyllwch i'r Arglwydd. Llygaid yr Arglwydd sydd fel y fflam dân, yn cynniwair trwy yr holl ddaear. Ie, fy mhobl i, yn ei ŵydd ef yr ydych yn gyru yr holl waith yn mlaen:—'Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef.'

Yr wyf yn meddwl, ac yn gobeithio yn fawr, nas gall rhyw lawer o'r *sort* fod yn bresennol yma, neu ynte y mae genyf air o gynghor wedi ei barotoi ar eu cyfer. Ond rhag y gall fod yma rai, mi a'i dywedaf:—Y mae y rhan fwyaf o'r weinidogaeth o'r dechreu yn y cyfarfod misol hwn wedi bod â'i chyfeiriaid yn benaf at yr eglwys. Ond yn awr, y mae genyf finnau air o gynghor i chwi, weithredwyr anwiredd, a dyma ydyw:—Ystreiciwch! Ystreiciwch! Ha! meddwch; y mae hyny yn gam lled eithafol, ac yn gam sydd yn galw am ei ystyried cyn ei roddi. Rhaid cael rheswm cryf iawn i gyfiawnhau ystreic. A oes genych chwi rhyw reswm cryf a fedrwch ei gynnyg dros i ni ystreicio? Oes, fy mhobl i, y mae genyf amryw o resymau nas gall fod eu cadarnach dros i chwi ystreicio ar unwaith.

1. *Y mae yr amser gweithio yn y gwaith yr ydych chwi ynddo yn rhy hir o lawer.* Nid yn unig y mae eich meistr yn eich cadw chwi ynddo trwy y dydd gwyn, ond ceidw chwi ddydd a nos, heb ganiatau i chwi gymmaint a Sabbath unwaith bob wythnos i orphwys arno. Bobl bach! nid oes un rheswm yn y fath beth! Ystreiciwch!

2. *Y mae'r lle y cedwir chwi i weithio ynddo yn rhy beryglus.* Nid oes wybod yn y byd na fydd y *damp* ynddo cyn boreu yfory. Trowch allan! Ystreiciwch!

3. *Y mae y gyflog allan o bob rheswm.* O! y mae y gyflog yn druenus o ddrwg! Hai! hawyr! beth, ynte, ydyw y gyflog? meddai rhai o honoch. Ymofyniad tra phriodol. Yr wyf yn ofni y gall fod rhai o honoch wedi

gweithio blynyddoedd yn yr hen waith, heb ymholi dim beth fydd eich tâl chwi yn y pen draw. Beth ydyw y gyflog? 'Cyflog pechod yw marwolaeth.' Yr ydych wrthi, bobl bach, ddydd a nos, yn gweithio â'ch holl egni yn 'ngwaith anwiredd,' heb genych y gobaith lleiaf am gyflog gwell na marwolaeth yn y diwedd! Ystreiciwch! ystreiciwch!! ystreiciwch!!!

A ydych chwi yn dyweyd hyny? meddwch. Ydwyf yn wir; dyna yn gywir beth wyf fi yn ei ddyweyd, ac yn ei feddwl. Wel, ïe, meddwch chwithau; ond beth a wnawn ni ar ol hyny? A oes gobaith am well gwaith? A ydyw yn bossibl cael gorchwyl gwell o dan ryw un arall? Oes, y mae drws gwinllan Duw yn agored, ac y mae yr Arglwydd Iesu yn y farchnad heddyw yn cyflogi gweithwyr i'w winllan. Y mae hefyd yn barod i'ch cyflogi chwi, os gwnewch ystreicio. Gweithiwch un diwrnod yn ei winllan ef. At yr Arglwydd, ac at ei waith ef, bobl bach! Amen. O! na bae yn myned yn ystreic gyffredinol trwy holl amrywiol gangenau 'gwaith anwiredd.' Y mae sôn ei bod hi yn ystreic ynddo mewn rhyw barthau y dyddiau hyn, ac i Dduw y byddo diolch am hyny. Ond yn ystreic gyffredinol yr elo hi (Amen! Amen!) trwy yr holl waith, yn mhob man! Yr Arglwydd o'i drugaredd a baro fendith ar y cynghor. Amen.

# PREGETH XII.

## LLYWODRAETH DUW AR Y BYD.

'Myfi a wnaethum y ddaear, y dyn a'r anifail sydd ar wyneb y ddaear, â'm grym mawr, ac â'm braich estynedig, ac a'u rhoddais hwynt i'r neb y gwelais yn dda;' *Jer.* xxvii 5.

Y MAE yn amlwg i ni fod y geiriau wedi cael eu llefaru gan yr Arglwydd. Ni buasai yn briodol i neb arall ddyweyd y fath eiriau. Wrth Jeremiah y llefarodd yr Arglwydd y geiriau hyn. Ond cynnwysa y geiriau ran o genadwri yr Arglwydd, trwy enau Jeremiah, at amryw o frenhinoedd; sef, brenin Edom, a brenin Moab, a brenin meibion Ammon, a brenin Tyrus, a brenin Sidon. Wrth y brenhinoedd hyn yr oedd Arglwydd y lluoedd, Duw Israel, yn llefaru:—'Myfi a wnaethum y ddaear, yr hon yr ydych chwi yn llywodraethu arni, a'r ddaear i *gyd*, y fi gwnaeth hi: a fi a wnaeth y dyn a'r anifail, a myfi sydd yn eu rhoddi hwynt i'r neb yr wyf fi yn gweled yn dda.' 'Ac yn awr,' meddai yr Arglwydd yn mhellach wrth y brenhinoedd hyn, 'mi a roddais yr holl diroedd hyn yn llaw Nebuchodonosor brenin Babilon fy ngwas.' Y brenhinoedd hyn oeddynt yn arfer llywodraethu arnynt, ond mi a'u rhoddais yn llaw Nebuchodonosor, 'a mi a roddais hefyd holl anifeiliaid y maes i'w wasanaethu ef. A'r holl genhedloedd a'i gwasanaethant ef, a'i fab, a mab ei fab, nes dyfod gwir amser ei wlad ef.' Fel yna y mae hi i fod am ryw dymmor, fan yna y bydd y llywodraeth am ryw ysbaid: yr wyf wedi ei rhoddi hi iddo, medd yr Arglwydd. 'Ond y genedl a'r deyrnas nis gwasanaetho ef, sef Nebuchodonosor brenin Babilon, a'r rhai ni roddant eu gwddf dan iau brenin Babilon; â'r cleddyf, ac â newyn, ac â haint, yr ymwelaf â'r genedl hono, medd yr Arglwydd,

nes i mi eu dyfetha hwynt trwy ei law ef.' Fel yna yr oedd yr Arglwydd yn dyweyd wrth y *pack* brenhinoedd hyn—mai efe oedd wedi gwneyd y ddaear, y dyn, a'r anifail oedd ar wyneb y ddaear, â'i rym mawr, ac â'i fraich estynedig, heb gael dim *help* gan neb, a'i fod yn ei rhoddi, yn ddaear, yn ddyn, ac yn anifail, fel yr oedd yn cael ar ei feddwl; a'i fod wedi rhoddi y tiroedd a arferent hwy gadw cymmaint o sŵn arnynt yn llaw Nebuchodonosor; a phob cenedl neu deyrnas ar nis gwasanaetho ef, bygythiai yr Arglwydd ymweled â hwynt â'r cleddf, ac â newyn, ac â haint.

Yn awr, y peth y mae yr adnod ydym wedi ei darllen, a'r adnod ddilynol, yn arwain ein meddyliau ni ato ydyw:—'Llywodraeth Duw ar y byd.' Pe baech yn darllen y *text*, a'r adnodau ar ei ol, cilwaith a thrachefn, a meddwl cryn lawer am danynt, dyna, y mae yn debyg, fuasai yn taraw gyntaf i'ch meddwl, mai 'Duw sydd yn llywodraethu y byd.'

Oddi wrth y geiriau, gwnawn y sylwadau canlynol:—

I. *Rhai sylwadau cyffredinol ar lywodraeth Duw.*

1. Y mae llywodraeth Duw mor helaeth a'r greadigaeth. Y mae yn wir nad ydym yn deall nac yn gwybod rhyw lawer am faintioli y greadigaeth—y cwmpas-fyd mawr yma. Ychydig ryfeddol ydym yn wybod am y belen ddaearol, yr hon y mae ein traed ni arni; a llai fyth ydym yn wybod am y bydoedd mawrion uwch ben. Ond faint bynag ydyw maintioli creadigaeth Duw, y mae ei lywodraeth mor ëang, mor helaeth, a hyny. Duw sydd yn llywodraethu pob cŵr o honi. Pe crwydrem o un byd i'r llall, o hyn hyd ddiwedd amser, ni chyrhaeddem byth tu hwnt i derfynau llywodraeth Duw. Dan yr un *government* y byddem yn mhob byd. 'Pe cymmerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr, yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw.'

2. Y mae llywodraeth Duw mor fanwl fel y mae yn cyrhaedd pob creadur trwy yr holl greadigaeth faith i gyd.

Pe baech yn meddwl am y creaduriaid penaf, uchaf sydd yn bod, a disgyn yn raddol, o radd i radd, hyd at yr abwydyn bach sydd yn gwingo dan eich troed, dan ei lywodraeth ef y mae y mawr a'r bach :—'Yr Arglwydd a barotodd ei orseddfa yn y nefoedd, a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth.' 'Ac y mae y cwbl sydd mewn bod dan ei awdurdod ef.'

3. Y mae ei lywodraeth ef ar holl ysgogiadau pob creadur byw. 'Oni werthir dau aderyn y tô er ffyrling? ac ni syrth un o honont ar y ddaear heb eich tad chwi. Ac y mae, ïe, holl wallt eich pen wedi eu cyfrif.'

II. *Hawl yr Arglwydd i lywodraethu y byd.*

Y mae gan yr Arglwydd hawl gyfiawn i lywodraethu y cwbl sydd mewn bod, a hyny fel y gwelo yn dda, yn ol ei benarglwyddiaeth :—'Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf.' Da fyddai i ninnau gofio a chredu mai nid wedi rhuthro i gymmeryd gafael yn llywodraeth y byd yma heb hawl y mae Duw wedi gwneyd. Y mae ganddo berffaith hawl i lywodraethu ar bob peth.

1. Y mae yn rhaid fod gan yr Arglwydd hawl gyfiawn i lywodraethu y cwbl, am mai efe a wnaeth bob peth. Clywch ef yn dywedyd wrth y brenhinoedd hyn :—'Myfi a wnaethum y ddaear,' 'does bossibl na allaf wneyd fy meddwl ar hono, a minnau wedi ei gwneyd hi â'm grym mawr, ac â'm braich estynedig; a myfi a wnaeth y dyn a'r anifail sydd ar wyneb y ddaear. Wel, onid oes gan yr un mawr, Creawdwr cyrau y ddaear, hawl i lywodraethu y cwbl, a hyny yn hollol yn ol ei feddwl ei hun? Beth pe buasai un o honoch chwi wedi gwneyd rhywbeth ar eich traul eich hun, heb gael cymmhorth gan neb i'w roddi at ei gilydd, y mae yn rhyfedd genyf os na buasech yn teimlo yn chwith eu bod yn codi yn eich pen am ddefnyddio hwnw fel y byddech yn dewis, 'a minnau wedi ei wneyd,' ebe'r dyn, 'heb eu *help*, yn ol fy meddwl,' heb i'r *pack* cymmydogion godi yn fy mhen. Wel, byddai yn ynfydrwydd ac yn annuwioldeb ynom ni godi yn erbyn

llywodraeth Duw arnom: y Duw a'n gwnaeth, ac sydd yn ein cynnal. Byddai yr un mor ynfyd i'r llestr pridd godi yn erbyn y crochenydd am ei wneyd fel hyn, neu fel arall, ag a fyddai i ninnau godi yn erbyn llywodraeth Duw arnom:—'Yn hytrach, O! ddyn, pwy wyt ti yr hwn a ddadleui yn erbyn Duw? A dyweyd y peth ffurfiedig wrth yr hwn a'i ffurfiodd, Pa ham y'm gwnaethost fel hyn?'

2. Y mae gan yr Arglwydd hawl gyfiawn i lywodraethu y cyfan, o blegid efe sydd yn cynnal y cyfan. Arno ef y 'bwriwyd ni o'r bru; o grôth fy mam fy Nuw wyt.' 'O blegid ynddo ef yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod.' 'Megys y dywedodd rhai o'ch pöetau chwi eich hunain. Canys ei hilogaeth ef hefyd ydym ni.' Pe tynasai yr yr Arglwydd ei law gynnaliol yn ol, gwnaem drengu yn y fan. Pe buasem yn gallu byw heb bwyso arno am ein cynnaliaeth, buasai genym ryw gysgod o reswm dros godi yn erbyn yr Arglwydd; ond gan mai efe ydyw ein cynnaliwr hael, y mae ganddo berffaith hawl i'n llywodraethu.

III. *Cymmhwysderau yr Arglwydd i lywodraethu y byd; sef, yr holl greadigaeth.*

Y mae yr Arglwydd yn un cymmhwys i lywodraethu y byd:—

1. O blegid y mae yn gwybod y cwbl am dano, ac yn ei ddeall yn berffaith, Y mae yn deall natur pob peth. 'Does dim yn dywyll iddo ef drwy holl fydoedd creadigaeth:—'Y mae ei lygaid yn cyniwair trwy yr holl ddaear.' 'Pe dywedwn, Dïau y tywyllwch a'm cuddiai, yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch.' Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd: un ffunud yw y tywyllwch a goleuni i ti.' Y mae hyn yn gymmhwysder mawr ac arbenig, ïe, yn yr Arglwydd, i lywodraethu, ei fod yn meddu y wybodaeth lawnaf, lwyraf, am bob peth. Heb yr holl wybodaeth hon, nis gallasai lywodraethu. Meddyliwch am beiriant cywrain, peth peryglus fuasai gosod dyn i edrych ar ol hwnw, ac yntau heb ei ddeall. Nid wyf yn dyweyd na fuasai yn gwneyd ei oreu er mwyn arbed ei

fywyd ei hun, a bywydau eraill; ond ni byddai fawr oriau cyn y byddai y cwbl yn ddarnau. Y mae yn rhyfedd na allech chwi a minnau fod yn dawel a chysurus yn y byd yr ydym ynddo, a ninnau yn gwybod fod y *manager* sydd ar hwn yn ei ddeall yn berffaith. Ni ddyrysa byth dan ei law ef, chwi gewch weled; a chaiff yr oesau dilynol weled hefyd. Ymddiriedwn ynddo, y mae y llywodraeth yn *safe* yn ei law hollalluog.

2. O blegid mai efe a'i pïau. Efe a bïau bob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear:—'Eiddo yr Arglwydd y ddaear, a'i chyflawnder; y byd, ac a breswylia ynddo.' Pe cyfrifem bob peth sydd yn yr holl fyd, eiddo yr Arglwydd ydynt. Y mae yn hawlio y cwbl sydd mewn bod:—'Eiddof fi yr arian, ac eiddof fi yr aur, medd Arglwydd y lluoedd. Canys holl fwystfilod y coed ydynt eiddof fi, a'r anifeiliaid ar fil o flynyddoedd. Adwaen holl adar y mynyddoedd, a gwyllt anifeiliaid y maes ydynt eiddof fi. Os bydd newyn arnaf, ni ddywedaf i ti; canys y byd a'i gyflawnder sydd eiddof fi.' A b'le y cewch chwi neb mor ofalus am bethau a'r perchenog ei hunan. Nid wyf yn amheu nad oes llawer gwas cyflog yn ffyddlawn a gonest. Ond meddyliwch am y gwas cyflog yn fugail, yr hwn nid eiddo ef y defaid, ei fod yn gweled y blaidd yn dyfod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffoi; a dywed y Beibl ei fod yn ffoi am mai gwas cyflog yw. Pe buasai perchen y defaid yno, ni buasai yn ffoi, ond buasai yn aros i'w diogelu, ac i roddi ei einioes drostynt. Perchen y byd, a'r oll sydd o'i fewn, sydd yn edrych ar ei ol. ac yn ei lywodraethu, ac y mae yn sicr y gwna efe hyny yn ffyddlawn a gofalus; o blegid llywodraethu ei bethau ei hun y mae; ac y mae yn rhyfedd nad allem ymddiried i'r Arglwydd i drin a thrafod ei bethau ei hun heb ei amheu, a'i ofni. Ymddiriedwn ynddo, o blegid y llywodraethwr ydyw y perchenog.

3. O blegid y mae efe yn ddigon doeth:—'Y mae efe yn ddoeth o galon, ac yn alluog o nerth: pwy a ymgaledodd

yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd?' Yr unig ddoeth ydyw. Y mae llawer o ddynion wedi eu bendithio â chynnysgaeth dda o ddoethineb; ond nid yw y ddoethineb sydd ynddynt hwy yn ddim ond megys dyferynau bychain o'u cymmharu â'r môr anfeidrol o ddoethineb ag sydd yn mhen llywodraethwr y byd. Yr ydych yn cofio i Solomon, wrth aberthu yn uchelfa Gibeon, gael gan Dduw ei ddewis-rodd, ac yntau yn dewis doethineb:—'A'r Arglwydd a roddodd iddo ddoethineb, golud, a gogoniant.' Ennillodd Solomon enw a gogoniant iddo ei hun trwy ei farn ddoeth rhwng y ddwy wraig ynghylch y plentyn byw a'r plentyn marw. Dadleuai y naill a'r llall o honynt mai ei heiddo hi oedd y plentyn byw:—'A dywedodd y brenin, Dygwch i mi gleddyf; a'r brenin a ddywedodd, Rhenwch y bachgen byw yn ddau, a rhoddwch yr hanner i'r naill, a'r hanner i'r llall. Yna y dywedodd y wraig bïoedd y mab byw wrth y brenin, O! fy arglwydd, rhoddwch iddi hi y bachgen byw, ac na leddwch ef ddim. Ond y llall a ddywedodd, Na fydded iddo fi na thithau, eithr rhenwch ef. Yna y dywedodd y brenin, Rhoddwch y bachgen byw iddi hi, dyna ei fam ef. A holl Israel a glywsant y farn a farnasai y brenin, a hwy a ofnasant y brenin, canys gwelsant fod doethineb Duw ynddo ef i wneuthur barn.' Y mae llawer o bethau tywyll a dyrys yn y byd yn bresennol; ond y mae y *manager* mawr sydd âg awenau y cwbl yn ei law yn ddigon doeth i roddi pob peth yn ei le; ac y mae yn arw nad allem fod yn dawel yn y llong pan y mae anfeidrol ddoethineb wrth y llyw:—

'Doethineb ydyw'r Llywydd,
A'i enw'n gadarn Iôr.'

Dyro gymmhorth i ni ymdawelu, a llechu yn nghysgod dy law.

3. O blegid y mae efe yn ddigon cyfiawn. 'Nid yw yr Arglwydd yn gweled yn dda wneuthur cam â gŵr yn ei fater.' Nis gall wneyd cam â neb, o blegid byddai hyny

yn groes i'w natur. Gwir ei fod yn ceryddu ac yn cospi ei ddeiliaid; ond y mae *honour* yn Llywodraethwr mawr y byd. Pan y mae y cerydd a'r gospedigaeth drymaf, tystiolaetha cydwybod y troseddwr fod y gosp yn llai na'r anwiredd:—'Ac wedi yr hyn oll a ddaeth arnom am ein drwg weithredoedd, a'n mawr gamwedd, am i ti ein Duw ein cospi yn llai na'n hanwiredd, a rhoddi i ni ddiangfa fel hyn.' Anwyl gyfeillion, pa ham na byddem yn foddlawn i Dduw ein llywodraethu ni—yr Arglwydd ein cyfiawnder — yr hwn na wnaeth gam nac anghyfiawnder â neb o'i ddeiliaid erioed, ac nis gwna byth. 'Ymddyrcha, Farnwr y byd.'

5. Y mae yr Arglwydd yn meddu ar bob cyfaddasder i lywodraethu y byd. Y mae yn meddu ar ddigon o allu. Pa faint ydyw gallu Llywodraethwr y byd? Efe ei hun ŵyr oreu am ei allu; a dyna fel y dywedodd efe ei hun wrth Abraham:—'Myfi yw Duw Hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith.' Y mae yn ddigon galluog i lywodraethu yr elfenau cryfaf a mwyaf aflywodraethus gyda y rhwyddineb mwyaf. Gall beri i'r haul a'r lleuad aros yr un fath a myned:—'O! haul, aros yn Gibeon; a thithau, leuad, yn Nyffryn Ajalon. Ac ni bu y fath ddiwrnod a hwnw o'i flaen ef nac ar ei ol ef, fel y gwrandawai yr Arglwydd ar lef dyn: canys yr Arglwydd a ymladdodd dros Israel.' Gall beri i donau cynddeiriog y môr a'r rhuthrwynt ostegu a distewi:—'Ac efe a gododd i fyny ac a geryddodd y gwynt, ac a ddywedodd wrth y môr, Gostega, distawa. A'r gwynt a ostegodd, a bu tawelwch mawr;' a gwnelai hyny gan miliwn o weithiau yn hawddach nag y gall y fam fwyneiddiaf dawelu ei baban bach. Pe meddyliem, wedi hyny, am ryw ddynion beilchion, hunanol, a chwyddedig, â gallu gwladol mawr yn gefn ac yn blaid iddynt, y mae y Llywodraethwr mawr yn ddigon galluog i drin gweilch fel hyn yn llawn mor hawdd a thrin *pack* o *fegeriaid*. Cofus genych am Nebuchodonosor, brenin Babilon. Yr oedd balchder a hunanoldeb wedi

codi yn *ddot* yn ei ben, ac yr oedd yn ei berwi hi allan gyda rhwysg a mawredd ffol:—'Llefarodd y brenin, a dywedodd, Onid hon yw Babilon fawr, yr hon a adeiladais i yn frenhindy yn nghryfder fy nerth, ac er gogoniant fy mawrhydi?' A oes dim un gair o sôn i fod am Dduw yn y busnes o adeiladu lle mor fawr a Babilon? Na, dim ond y fi. Fi sydd yn cuddio Duw, a'r cwbl. Yr oedd gallu gwladol a llywodraethol mawr yn perthyn iddo, a thu cefn iddo. Ond pan yr oedd y dyn yn berwi *pack* o *nonsense*, dyma lef o'r nef yn dywedyd wrtho:—'Aeth y frenhiniaeth oddi wrthyt.' Fe allai yr aiff hi. Clyw, y mae hi wedi myned. A gwrandaw, nid ydyw hyn yna ond y pen cyntaf o'r ystori:—'Gyda'r anifeiliaid a'r bwystfilod y byddi yn rhoddi i fyny heno—gwellt fydd dy swper.' Pa ddyben dyweyd pethau felly wrth ddyn fel Nebuchodonosor? Dyn ag oedd cynnifer o wledydd mawrion o dan ei law a'i lywodraeth, ac yntau yn frenin balch ac annuwiol, yr oedd yn eithaf dyben i Frenin y nefoedd, ac Arglwydd Iôr yr holl ddaear, i ddyweyd fel yna wrtho. Gyda y gair, dacw y brenin Nebuchodonosor gyda'r eidionau yn pori ei oreu. Cadwyd ef gan Arglwydd Dduw y nefoedd gyda'r anifeiliaid a'r bwystfilod, â'i drwyn wrth y ddaear, ddydd a nos, yn y gwlith a'r gwlaw, nes y dysgodd 'mai y Goruchaf oedd yn llywodraethu yn mrenhiniaeth dynion, ac yn eu rhoddi i'r neb y myno:—'Ac yn niwedd y dyddiau, dyrchafodd Nebuchodonosor ei lygaid i'r nefoedd, a'i wybodaeth a ddychwelodd ato, a bendithiodd y Goruchaf, yr hwn sydd yn byw byth, am fod ei lywodraeth ef yn llywodraeth dragywyddol, a'i frenhiniaeth hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.' Y mae pob rheswm ac Ysgrythyr yn dyweyd yn uchel wrthym mai moliannu, a mawrygu, a gogoneddu Brenin y nefoedd, yr hwn y mae ei holl weithredoedd yn wirionedd, a'i lwybrau yn farn, ddylem wneyd.

6. Y mae digon o dynerwch a chydymdeimlad ynddo. Nis gall edrych ar neb o'i ddeiliaid yn cael eu gorthrymu

heb ddyfod allan yn blaid iddynt; os galwant arno, y mae ger llaw:—

'Arglwydd y lluoedd sydd o'n plaid,
Duw Iago 'n gymmhorth i'n wrth raid.'

Onid ydyw yn syndod, ac yn rhyfeddod, fod yr hwn sydd yn dal y Gogledd ar y gwagle, ac yn crogi y ddaear ar ddiddim, ac yn eu troi yn ol a gwrthol wrth ei air, yn gwrandaw llef pechadur trist hyd yn oed pe na byddai ond cardottyn tlawd, neu *feggar* dall ar ymyl y ffordd, yn llefain arno:—'Ac fel yr oedd efe yn myned allan o Jericho, efe a'i ddysgyblion, a bagad o bobl, Bartimëus ddall, mab Timëus, oedd yn eistedd ar fin y ffordd yn cardotta. A phan glybu mai yr Iesu o Nazareth ydoedd, efe a ddechreuodd lefain, a dywedyd, Iesu, mab Dafydd, trugarhâ wrthyf. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Beth a fyni i mi ei wneuthur i ti? Athraw, caffael o honof fy ngolwg. A'r Iesu a ddywedodd wrtho, Dy ffydd a'th iachâodd. Ac yn y man y cafodd efe ei olwg.' Os ydyw yn gwasgu o rywle arnoch, dywedwch wrth y *manager;* y mae efe yn y man lle yr wyt, ac y mae yn gwybod ac yn clywed y cwbl, a llon'd ei galon o dynerwch a chydymdeimlad â'r rhai sydd mewn trallod ac ing. Yr ydych yn gwybod am ddichell a drwg-amcanion Haman yn erbyn yr Iuddewon; a llwyddodd, trwy enllib, i gael gan y brenin wneuthur cyfraith i ladd yr holl Iuddewon. Ond aeth Mordecai, a'r Iuddewon, â'u cŵynion at Dduw lluoedd y nefoedd, a Llywodraethwr mawr y byd; a daeth Duw allan i'w hamddiffyn; a daew Haman, archelyn yr Iuddewon, yn grogedig ar y crogbren a barasai efe ei darparu i Mordecai:—'Yna y dywedodd y brenin, Crogwch ef ar hwnw. Felly, hwy a grogasant Haman ar y pren a barasai efe ei ddarparu i Mordecai.' Awn, fy nghyfeillion, â'n cwynion ato. Y mae yn barod bob amser i gynnorthwyo pawb a lefant arno.

7. Y mae yr Arglwydd yn meddu ar bob cymmhwysder

i lywodraethu y byd, o blegid y mae yn holl-bresennol: 'Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef, ac nid oes dô ar ddistryw. Canys ei lygaid ef sydd ar ffyrdd dyn, ac efe a wêl ei holl gamrau ef. Nid oes dywyllwch na chysgod angeu lle y gall y rhai sydd yn gweithio anwiredd ymguddio.' Ammhossibl ydyw i ni dwyllo yr Hollwybodol a'r Hollbresennol Dduw gyda golwg ar ddim; o blegid gallai ddyweyd yn ngwyneb pawb, 'Yr oeddwn i yno.'

IV. *Ei reol i lywodraethu y byd; sef, fel y mae yn gweled yn dda:—'Ac a'u rhoddais hwynt i'r neb y gwelais yn dda.'*

Fel y mae yr Arglwydd yn gweled yn dda y mae yn llywodraethu y byd. Gwelsom ddynion, weithiau, yn ymyl cyrhaedd eu hamcanion personol ac hunanol eu hunain; a hyny, fel yr ymddangosai i ddynion, yn gwbl groes i ewyllys Duw; ond fel yr oedd Duw yn gweled yn dda y terfynodd y cwbl. Gwnaed dyn bob peth yn y byd a fyna, ac a fedra, i gyrhaedd ei amcanion, os na bydd yr Arglwydd yn gweled yn dda iddi fod felly, ni cha byth ben ar ei fwdwl—ni lwydda. Pethau ymddangosiadol fychain, yn aml, wna chwalu holl gynlluniau y dyn. Bryd arall, daw y rhwystr yn uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd, gyda nerth, nes dymchwel y cwbl o'i flaen. Edrychwch fel y gwnaeth yr Arglwydd ddryllio y gelyn, a bwrw i lawr y rhai a gyfodasant i'w erbyn:—'Anfonodd ei ddigofaint allan, ac efe a'u hysodd hwynt fel sofl.' Yr ydych yn cofio am Pharaoh, brenin yr Aipht, a gelyn Israel, pa beth a ddywedodd gyda golwg arnynt, pan ddiangasant allan o'r Aipht:—'Y gelyn a ddywedodd, Myfi a erlidiaf, ac a oddiweddaf, mi a ranaf yr ysbail. Caf fy ngwynfyd arnynt, tynaf fy nghleddyf, fy llaw a'u dyfetha hwynt.' Gallesid meddwl y buasai yn eu goddiweddyd. I bob golwg ddyno', yr oeddynt yn ei law. Yr oeddynt wedi eu cau i mewn. Y môr o'u blaen, a rhwystrau o bob tu, a Pharaoh a'i luoedd o'u hol. Ond pan aeth hi yn gyfyng iawn ar Israel Duw, dyna y môr yn agor o'u blaen, ac aethant

hwythau drosodd yn droed sych. A dacw y brenin yn mentro i mewn i'r *turn-pike* newydd ag oedd Duw wedi ei wneyd i'w bobl a'i blant. Mentra rhyw ddynion i bob man nes y lladdo Duw hwynt. Pa fodd yr aeth hi mor *flat* ar yr hen was, ac yntau wedi bod mor debyg o'u goddiweddyd hwynt? Felly yr oedd Duw wedi gweled yn dda, onid ê? 'Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf.' Fel y mae yr Arglwydd yn gweled yn dda y mae yn llywodraethu y cwbl sydd mewn bod. Canys efe a ddywedodd, ac felly y bu; efe a orchymynodd, a hyny a safodd:—'Cynghor yr Arglwydd a saif byth, meddyliau ei galon o genhedlaeth i genhedlaeth.' 'Efe a lywodraetha trwy ei gadernid byth, ei lygaid a edrychant ar y cenhedloedd; nac ymddyrchafed y rhai anufudd.' Gallem enwi, ac enwi pethau ag y mae yr Arglwydd yn eu llywodraethu fel y mae yn gweled yn dda, nes myned yn rhy faith. Rhaid yw i ni, gan hyny, derfynu.

1. Y mae yn llywodraethu y ddaear, a thymmhorau y flwyddyn, fel y gwelo yn dda. Efe sydd yn rhoddi gwres a gwlaw, yn ymweled â'r ddaear, ac yn ei dyfrhau hi:—'Yr ydwyt yn ei chyfoethogi hi yn ddirfawr âg afon Duw, yr hon sydd yn llawn dwfr, yr wyt yn parotoi ŷd iddynt, pan ddarperaist felly iddi. Gan ddyfrhau ei chefnau, a gostwng ei rhychau, yr ydwyt yn ei mwydo hi â chawodydd, ac yn bendithio ei chnwd hi. Coroni yr ydwyt y flwyddyn â'th ddaioni.' Pa ham na byddai bob blwyddyn yr un fath? Felly y mae y *manager* mawr yn gweled yn dda. Ymddiriedwn ynddo byth.

2. Y mae yn llywodraethu dynion ar y ddaear fel y mae yn gweled yn dda. Y mae amrywiaeth diderfyn yn mhlith trigolion y byd yma yn ngwahanol wledydd y ddaear. Y mae yn ammhossibl cael dau ddyn yn hollol yr un fath a'u gilydd. Y mae rhyw wahaniaeth rhyngddynt, o ran eu personau, eu synwyrau, eu galluoedd meddyliol, eu hiechyd, neu eu hamgylchiadau. Pa ham na byddai dynion yr un fath a'u gilydd yn y pethau hyn? Pa ham na

byddai nifer misoedd a blynyddoedd dynion yr un faint? 'Does dim possibl cael rheswm am hyny: ond mai felly y mae Arglwydd y bydoedd yn gweled yn dda.

3. Y mae yn trefnu ac yn llywodraethu cyfoeth y byd fel y gwelo yn dda. Yr ydych chwi a minnau, yn fynych, yn gorawyddu am gyfoeth a mawredd bydol. 'Does dim digon o'r byd yma i'w gael gan rai pobl. Cymmerent *slice* lled drwchus o hono pe caent afael gryno (*tidy*) arno. Ond y mae mor *slippery*, 'does dim possibl i'r rhan fwyaf o ddynion gael gafael ar ddim o hono; ond hyny welo Duw yn dda roddi o hono. Chwi welsoch ddynion yn gwneyd pob ymdrech ag oedd yn eu gallu i geisio cael gafael ar ychydig o gyfoeth y byd. Mewn gwirionedd, yn llafurio yn rhy galed: yn boreu-godi, ac yn myned yn hwyr i gysgu, a bwyta bara gofidiau, yn gweithio fel mulod, yn byw ar grystiau o fara, ac yn dioddef anwyd, ac yn marw yn y tlotty wedi'r cwbl, ar ol tori eu gwynt wrth redeg ar ol y byd, a methu ei ddal; a rhyw ddynion eraill ag oedd yn byw yn ddigon ysmala, yn ddiddim a diwaith eu gwala, yn llwyddo yn y byd, yn myned dros feddwl calon o gyfoeth, ac aur ac arian yn arllwys am eu penau. Pa fodd y cyfrifir am hyn? Yr Arglwydd sydd yn rhoddi i'r neb y gwelo yn dda:—'Ië, i bwy bynag y rhoddes Duw gyfoeth a golud, ac y rhoddes iddo ryddid i fwyta o hon-ynt, ac i gymmeryd ei ran, ac i lawenhau yn ei lafur: rhodd Duw yw hyn.

4. Y mae yr Arglwydd yn llywodraethu tlodi a thlodion y byd fel y gwelo yn dda. Edrychwch ar yr ardaloedd a'r teuluoedd lle y teimlir tlodi mawr heddyw. Yno, yn ddïau, y bydd hyd oni welo Duw yn dda drefnu moddion i'w symmud. A phan y gwelo yn dda, gwna ei symmud ar fyrder: ïe, yn mhen ychydig oriau, heb help gan neb. Yr ydych yn cofio hanes newyn Samaria:—'Ac yr oedd newyn mawr yn Samaria, nes bod pen asyn er pedwar ugain sicl o arian' [tua naw phunt a phymtheg swllt o'n harian ni], a phedwaredd ran cab o dom colomenod er pum

sicl o arian,' a phethau mwy arswydus na hyny o lawer. Yr oedd un wraig, medd yr hanes, wedi berwi ei phlentyn ei hun, a'i fwyta:—'Felly, ni a ferwasom fy mab i, ac a'i bwytasom ef.' O! newyn arswydlawn! Ofnadwy i feddwl am dano. Ond, meddai y *manager* mawr sydd yn llywodraethu fel y gwelo yn dda, bydd wedi newid y pryd hwn yfory; bydd helaethrwydd a digonoldeb yn Samaria:—'Yna Eliseus a ddywedodd, Gwrandewch air yr Arglwydd. Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd, ynghylch y pryd hwn yfory y gwerthir sat o beilliaid er sicl, a dau sat o haidd er sicl yn mhorth Samaria.' Deg chwart o beilliaid am ddau swllt a deg ceiniog a dimai, a chymmaint arall o haidd am yr un bris. Ond ammheuodd y penaeth eiriau y prophwyd, ac a ddywedodd:—'Wele, pe gwnai yr Arglwydd ffenestri yn y nefoedd, a fyddai y peth hyn?' 'Wele, ebe yr Arglwydd, ti gei di aros yma hyd yfory, i ti gael gweled â'th lygaid; ond gan i ti ammheu nad allaswn wneyd fel y gwelwyf yn dda a thlodi â newyn, fel â phob peth arall, ni chei di fwyta o hono.' Ac felly y bu iddo ef, canys y bobl a'i sathrasant ef yn y porth, ac efe a fu farw. Dymunwn am feddyliau teilwng am Dduw, ac am ei lywodraeth.

## ADDYSGIADAU.

1. Gan mai yr Arglwydd a wnaeth y cwbl, nac amcanwn godi yn erbyn ei lywodraeth fel teyrn-fradwyr.

2. Gan mai trefn y Brenin Mawr ydyw rhoddi ei bethau, sef pethau tymmhorol, i'r neb y gwelo yn dda, dysgwn ninnau fyned ato i ofyn am yr hyn sydd arnom eisieu, ac nid rhuthro i bethau Duw heb siarad gair â'r perchenog. Os bydd ar ryw un eisieu darn o'r ddaear, aed at yr hwn a'i gwnaeth, a'r hwn a'i pïau, a gofyned a wêl efe yn dda roddi darn o honi iddo am dymmor.

Y mae golwg ddifrifol ar ddynion yn rhuthro at y ddaear, heb siarad gair â'r gwir berchenog yn ei chylch, fel yr aeth Ahab, annuwiol frenin Israel, i gymmeryd meddiant o winllan Naboth. Ond erbyn ei fod yn y winllan,

yr hon yr aeth efe i waered iddi i'w meddiannu, yr oedd yr hwn a wnaeth y ddaear, ac sydd yn ei rhoddi i'r neb y gwelo yn dda, yno yn ei gyfarfod. Arswydwn ruthro i bethau Duw heb eu cael ganddo. Rhoddodd yr Arglwydd wlad Canaan i genedl Israel gynt, a gallasent droi ato am ei fendith arni; o blegid efe a'i rhoddasai iddynt. Os bydd eisieu dim arnoch, at yr un gŵr y mae myned.

Wrth derfynu, dywedaf, os bydd eisieu gŵr, neu wraig, tŷ neu dir, bwyd neu ddillad, awn at yr Arglwydd am danynt ar lwybr ein dyledswydd, a disgwyliwn am ei fendith arnynt. Amen.

---

DINBYCH: ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.

UNIVERSITY OF TORONTO
14 JUL 1976

PLEASE DO NOT REMOVE
CARDS OR SLIPS FROM THIS POCKET

UNIVERSITY OF TORONTO LIBRARY

BX
9225
P79E39
1894
c.1
ROBA

0029053113024